# Polisi Cynllunio Cymru

Rhifyn 12 | Chwefror 2024

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad** | **4-11** |
| | Nod y Ddogfen Hon | 4 |
| | Cynlluniau Datblygu | 9 |
| | Rheoli Datblygiadau Newydd | 10 |
| **2.** | **Pobl a Lleoedd: Llesiant trwy Greu Lleoedd** | **12-24** |
| | Gwneud y Mwyaf o Lesiant a Chreu Mannau Cynaliadwy trwy Greu Lleoedd | 12 |
| | Prif Egwyddorion Cynllunio | 16 |
| | Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy | 16 |
| | Pandemig COVID-19 ac Adeiladu Lleoedd Gwell | 18 |
| | Polisi Cynllunio Cymru a Chreu Lleoedd | 20 |
| **3.** | **Dewisiadau Strategol a Gofodol** | **24-41** |
| | Creu Lleoedd ar Waith | 24 |
| | Dylunio Da yn Creu Lleoedd Gwell | 24 |
| | Hyrwyddo Lleoedd Iachach | 29 |
| | Y Gymraeg a Chreu Lleoedd | 30 |
| | Newid yn yr Hinsawdd, Datgarboneiddio a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy | 30 |
| | Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig | 32 |
| | Creu Lleoedd Strategol | 33 |
| | Y Strategaeth Ofodol a'r Drefn Chwilio am Safleoedd | 33 |
| | Hygyrchedd | 35 |
| | Aneddiadau Newydd | 35 |
| | Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen | 36 |
| | Defnyddio Pwerau Prynu Gorfodol | 36 |
| | Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas | 37 |
| | Datblygu yng Nghefn Gwlad | 38 |
| | Seilwaith Ategol | 38 |
| | Rheoli Ffurf Aneddiadau – Lleiniau Glas a Lletemau Glas | 38 |
| **4.** | **Lleoedd Actif a Chymdeithasol** | **42-73** |
| | Cyflwyniad | 46 |
| | Symud o fewn a rhwng Llefydd | 46 |
| | Trafnidiaeth | 46 |
| | Byw mewn Lle | 56 |
| | Tai | 56 |
| | Gweithgareddau mewn Lle | 63 |
| | Datblygiadau Manwerthu a Masnachol | 63 |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfleusterau Cymunedol | 72 |
| | Mannau Hamdden | 73 |
| **5.** | **Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus** | **74-123** |
| | Cyflwyniad | 79 |
| | Seilwaith Economaidd | 79 |
| | Cyd-destun | 79 |
| | Cyfathrebu Electronig | 79 |
| | Seilwaith Trafnidiaeth | 82 |
| | Datblygu Economaidd | 86 |
| | Twristiaeth | 88 |
| | Yr Economi Wledig | 89 |
| | Ynni | 91 |
| | Cyd-destun | 91 |
| | Lleihau'r Galw am Ynni a Defnyddio Ynni'n Fwy Effeithiol | 94 |
| | Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel | 96 |
| | Cynllunio Ynni Lleol a Rhanbarthol | 95 |
| | Mwynau Ynni | 101 |
| | Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau Perthnasol a Hyrwyddo'r Economi Gylchol | 104 |
| | Cyd-destun | 104 |
| | Dewisiadau Dylunio i Atal Gwastraff | 105 |
| | Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Cynaliadwy | 107 |
| | Mwynau | 110 |
| **6.** | **Lleoedd Unigryw a Naturiol** | **124-182** |
| | Cyflwyniad | 130 |
| | Adnabod Nodweddion Arbennig Lleoedd | 130 |
| | Yr Amgylchedd Hanesyddol | 130 |
| | Seilwaith Gwyrdd | 135 |
| | Tirwedd | 139 |
| | Bioamrywiaeth a Rhwydweithiau Ecolegol | 143 |
| | Ardaloedd Arfordirol | 160 |
| | Adnabod Ansawdd Amgylcheddol Lleoedd | 164 |
| | Dŵr a Risg Llifogydd | 164 |
| | Ansawdd Aer a Seinwedd | 170 |
| | Goleuadau | 176 |
| | Gwireddu Potensial Lleoedd drwy Fabwysiadu Dull Dadrisgio | 176 |
| | **Atodiad A – Cyd-destun Deddfwriaethol Cynllunio yng Nghymru** | **183** |
| | **Atodiad B – Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy** | **185** |

# 1 Cyflwyniad

## Beth yw'r System Gynllunio?

**Mae'r system gynllunio yn rheoli datblygu a defnydd tir er budd y cyhoedd, gan roi blaenoriaeth i fudd cyfunol tymor hir, gan gyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n rhaid iddi gysoni anghenion datblygu a chadwraeth, gan sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac amwynder yn y defnydd a wneir o dir a sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy, yn ogystal â diogelu, hyrwyddo a gwarchod yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol.**

### Nod y Ddogfen Hon

1.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru ar gynllunio defnydd tir. Fe'i hategir gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs), Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru a llythyrau egluro polisi, a chyda'r PCC, dyma'r fframwaith cynllunio cenedlaethol yng Nghymru. Gyda'i gilydd PCC, y TANs[1], MTANs[2] a'r llythyrau egluro polisi[3] yw'r polisi cynllunio cenedlaethol.

1.2 Prif amcan PCC yw sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol â gofyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol arall a dyletswyddau canlyniadol fel y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Mae system gynllunio sy'n gweithio'n dda yn hanfodol i ddatblygu cynaliadwy ac i sicrhau lleoedd cynaliadwy.

1.3 Mae PCC yn hyrwyddo gweithredu ar bob lefel o'r broses gynllunio sy'n ffafriol i sicrhau cymaint o gyfraniad â phosibl at lesiant Cymru a'i chymunedau. Mae'n annog dull ehangach, cynaliadwy sy'n datrys problemau sy'n canolbwyntio ar integreiddio a mynd i'r afael â materion lluosog yn hytrach nag ar ddull sy'n dameidiog, di-drefn sy'n ymdrin â materion ar eu pen eu hunain. Mae'n darparu cyfle i ddileu unrhyw broblemau gwirioneddol neu ganfyddedig mewn dulliau cyfredol ac ysgogi a chefnogi syniadau arloesol a chreadigol yn ogystal â safonau tystiolaeth ac asesu uchel fel sail i baratoi cynlluniau datblygu a strategaethau a chynigion unigol. Mae monitro a dysgu o ganlyniadau datblygu er mwyn sbarduno gwelliannau cynaliadwy mewn arferion cynllunio hefyd yn bwysig.

1 www.llyw.cymru/nodiadau-cyngor-technegol
2 www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-mwynau-mtans
3 www.llyw.cymru/cyhoeddiadau?field_policy_areas%5B57%5D=57



1.4 Mae PCC a'r Fframwaith Datblygu Cenedlathol (cyhoeddwyd fel *Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040*) yn esbonio sut y mae'r system gynllunio ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol yn gallu helpu i ateb y gofynion hyn trwy Gynlluniau Datblygu Strategol (CDS) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl).

1.5 Rhoddir cyngor gweithdrefnol ar gynllunio yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu[4] a'r Llawlyfr Rheoli Datblygu[5] ac yng nghylchlythyrau a llythyrau Llywodraeth Cymru. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu'n rhoi cyngor ar baratoi'r CDS, CDLl a chynlluniau lleol a'u rhoi ar waith. Mae'r Llawlyfr Rheoli Datblygu yn canolbwyntio ar agweddau gweithdrefnol ar reoli datblygu ac yn rhoi cyngor i bawb sy'n cymryd rhan yn y broses rheoli datblygiad i annog tegwch, tryloywder a chysondeb ledled Cymru. Dylid darllen y ddau lawlyfr law yn llaw â PCC a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

1.6 Mae'r gyfres hon o ddogfennau'n rhoi lle canolog yn ein system gynllunio yng Nghymru i'n hymrwymiad i gyflawni a chynyddu cyfraniad cynllunio at gyflawni amcanion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gan awdurdodau cynllunio ddyletswydd i ystyried y 'Cynlluniau Llesiant' a gyhoeddir gan Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus wrth iddynt baratoi ac adolygu CDS/CDLl ac maent yn rhan allweddol o'r sylfaen dystiolaeth. Mae dogfennau cyfeirio'n darparu gwybodaeth y dylid ei darllen ar y cyd â'r ddogfen hon.


1.7 Os yn briodol, mae PCC yn troi amcanion, strategaethau a pholisi ehangach Llywodraeth Cymru yn bolisi cynllunio defnydd tir. Bydd PCC yn parhau i gael ei fonitro a'i adolygu mewn perthynas ag amcanion, strategaethau a pholisi, a bydd yn cael ei ddiwygio lle gall newidiadau i bolisi cynllunio defnydd tir helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn.

1.8 Mae Mynegai Polisi Cynllunio Cymru yn darparu canllaw i ddogfennau cynllunio cyhoeddedig sydd mewn grym. Maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

1.9 Dylid darllen PCC yn ei gyfanrwydd gan y gallai agweddau ar bolisi a'i berthnasedd i gynnig datblygu penodol ymddangos mewn sawl rhan o'r ddogfen. Os defnyddir '**rhaid**' yn y ddogfen, mae'n adlewyrchu gofyn deddfwriaethol neu'n dangos bod angen gweithredu nawr i newid arfer dros y tymor hir i sicrhau canlyniadau strategol. Os defnyddir '**dylai**', adlewyrchir disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran system gynllunio effeithiol ac effeithlon.

1.10 Mae'r diagramau a ddefnyddir yn y ddogfen hon yn cael eu cyflwyno fel cymhorthion gweld i helpu'r darllenyydd i ddeall y polisi. Nid ydynt yn ddatganiadau o bolisi.

## Ffigur 1: Y Fframwaith Cynllunio




[4] www.llyw.cymru/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020
[5] www.llyw.cymru/llawlyfr-rheoli-datblygu

# Beth yw Datblygu Cynaliadwy?

**"Datblygu Cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.**

**Mae gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.**

### Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

1.11 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddatblygu mewn ffordd gynaliadwy. Nid yw hwn yn gysyniad newydd i'r system gynllunio gan fod egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi bod yn rhan annatod o bolisi cynllunio ers cyhoeddi'r PCC am y tro cyntaf yn 2002. Fodd bynnag, mae'r cysyniad wedi'i ehangu o dan y Ddeddf Llesiant ac mae'n gofyn am wella'r pedair agwedd ar lesiant: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

1.12 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu diffiniad clir o ddatblygu cynaliadwy.

1.13 Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol saith nod llesiant ar gyfer rhoi ffurf ar waith holl gyrff cyhoeddus Cymru.

1.14 Er mwyn dangos bod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i'r Nodau Llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y broses benderfynu, mae gofyn i gyrff cyhoeddus ystyried y 'pum ffordd o weithio' a ddisgrifir yn y Ddeddf Llesiant, sef: cymryd rhan, cydweithio, integreiddio, atal a ffactorau tymor hir.

Ffigur 2:
Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol




### Y System Gynllunio yng Nghymru

1.15 Cyflwynodd y Ddeddf Cynllunio ddiben statudol ar gyfer y system gynllunio. Rhaid i unrhyw gorff statudol sy'n cyflawni swyddogaeth gynllunio ymarfer y swyddogaethau hynny yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy fel y'u diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Felly, mae'r system gynllunio'n rhan annatod o'r gwaith o gyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi i reoli datblygu a defnyddio tir er budd y cyhoedd fel ei fod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyflawni'r nodau llesiant.

1.16 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sefydlu hefyd y 'Pum Ffordd o Weithio' y mae angen i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi'u defnyddio wrth gyflawni eu dyletswydd datblygu cynaliadwy. Mae ystyried y ffyrdd hyn o weithio yn rhan annatod o'n system gynllunio. Cyfrifoldeb y corff penderfynu fydd dangos sut y maent wedi gweithredu fel hyn.

1.17 Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol[6] hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol wrth wneud penderfyniadau strategol, er enghraifft mewn perthynas â datblygu polisi strategol a chynlluniau datblygu, ystyried yr angen i leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'n bwysig gallu dangos tystiolaeth o lwybr archwilio clir ar gyfer pob penderfyniad a wneir o dan y ddyletswydd; fodd bynnag, dylid defnyddio arferion presennol ar gyfer dangos tystiolaeth, a allai gynnwys prosesau asesu effaith, systemau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys a defnyddio tystiolaeth a data lleol.

1.18 Dull a arweinir gan gynllun yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau datblygu cynaliadwy trwy'r system gynllunio, ac mae'n hanfodol bod cynlluniau'n cael eu mabwysiadu a'u hadolygu. Mae deddfwriaeth yn sicrhau rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall i sicrhau bod materion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yn gytbwys ac integredig.

1.19 Dylai'r system gynllunio fod yn effeithlon, yn effeithiol ac yn syml o ran ei gweithrediad. Nid swyddogaeth y system gynllunio yw ymyrryd â chystadleuaeth rhwng defnyddwyr a buddsoddwyr mewn tir, na chyfyngu ar y gystadleuaeth honno, Ni ddylai wahaniaethu yn erbyn na ffafrio unrhyw grŵp neu aelodau penodol o gymdeithas.

1.20 Wrth wneud penderfyniadau cynllunio, rhaid i'r awdurdod cynllunio nodi'n glir y rhesymau dros y penderfyniad. Mae gan y rhai sy'n cynnig y datblygiad gyfrifoldeb hefyd i ddarparu gwybodaeth ddigonol i alluogi'r penderfynwr i wneud penderfyniad gwybodus ar a yw'r datblygiad arfaethedig yn gynaliadwy (h.y. yn cyfrannu at lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol).

1.21 Ni ddylid defnyddio'r system gynllunio i fodloni amcanion y gellid eu cyflawni'n fwy priodol o dan ddeddfwriaeth arall. Y nod yw cadw at yr egwyddor o beidio â dyblygu, lle bo'n bosibl. hyd yn oed os yw pwerau a dyletswyddau sy'n deillio o ddeddfwriaeth arall hefyd yn berthnasol i awdurdodau lleol. Nid yw hyn yn golygu methu â mynd i'r afael â materion y dylai'r system gynllunio fod yn rhoi sylw iddynt. Yn ymarferol, bydd materion yn gorgyffwrdd yn aml ac mewn amgylchiadau o'r fath bydd gan y system gynllunio rôl ataliol a chynnar i'w chyflawni, ac mae'n gallu osgoi creu problemau a sicrhau manteision lluosog trwy ddulliau cynllunio cadarnhaol a rhagweithiol. Lle bo'n briodol, bydd yn fuddiol mynd i'r afael â materion mewn ffordd gyfochrog. Nid yw rhoi caniatâd cynllunio yn diddymu'r angen i gael unrhyw ganiatâd arall a allai fod yn angenrheidiol, ac nid yw ychwaith yn golygu y bydd unrhyw ganiatâd o'r fath yn dilyn, ac yn yr un modd, ni ddylid defnyddio'r ffaith fod caniatadau eraill yn cael eu rhoi i gyfiawnhau rhoi caniatâd cynllunio.

[6] Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: www.llyw.cymru/y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol

Ffigur 3: Yn dangos sut y mae haenau gwahanol o'r cynllun datblygu ym mynd i'r afael ar y cyd â'r materion sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru

Y **System Gynllunio** sy'n rheoli sut y caiff tir ei ddatblygu a'i ddefnyddio er budd y cyhoedd, gan roi blaenoriaeth i les tymor hir cymdeithas a cheisio cyfaddawd rhwng buddiannau gwahanol.

**Polisi Cynllunio Cymru** sy'n nodi egwyddorion sylfaenol y system gynllunio.

Mae **nodiadau cyngor technegol** yn ategu PCC. PCC a'r TANs gyda'i gilydd yw'r polisïau y mae'r system gynllunio yn delio â nhw. Mae PCC yn nodi **BETH** y mae'n rhaid i gynlluniau a phenderfyniadau datblygu'r system gynllunio eu cyflawni a **PHA** ffurf y dylai datblygiad ei gymryd i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

Mae **Cynlluniau Datblygu** yn rhoi egwyddorion sylfaenol y PCC ar waith yn eu hardaloedd, ar sail y dystiolaeth. Mae cynlluniau datblygu'n nodi **LLE** dylai datblygiadau gael eu cynnal dros y 15 i 20 mlynedd nesaf. Drwyddyn nhw rydym yn penderfynu sut y dylai lleoedd dyfu a newid.


**Mae cynlluniau datblygu'n cael eu paratoi ar raddfeydd gwahanol:**



Cymru Gyfan: **Cymru'r Dyfodol**



Rhanbarthol: **Cynlluniau Datblygu Strategol**



Lleol: **Cynlluniau Datblygu Lleol**

Mae'r **broses Rheoli Datblygu** yn asesu ac yn penderfynu ar geisiadau cynllunio unigol o bob maint yn unol â'r cynlluniau datblygu. Yr awdurdodau lleol a'r Parciau Cenedlaethol sy'n penderfynu ar y mwyafrif llethol. Bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar geisiadau o arwyddocâd cenedlaethol.

## Cynlluniau Datblygu

1.22 Cynlluniau datblygu cyfredol yw sylfaen y system gynllunio a nhw sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau rhesymol a chyson. Rhaid i'r holl gynlluniau ar bob lefel o fewn yr hierarchaeth a baratoir gydymffurfio â pholisïau cynllunio cenedlaethol. Rhaid i geisiadau cynllunio gael eu pennu yn unol â'r cynllun a fabwysiadwyd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.[7] Mae'n rhaid i gynlluniau datblygu ddangos sut y disgwylir i leoedd newid i ddiwallu anghenion datblygu dros gyfnod y cynllun. Maent yn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr a'r cyhoedd ynglŷn â'r math o ddatblygiad a ganiateir mewn lleoliad penodol. Mae tri math o gynllun datblygu statudol, a Chynlluniau Lleoedd anstatudol, dewisol.

### Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040

1.23 Mae'r Ddeddf Cynllunio yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol) a'i gadw'n gyfredol. Mae'n rhaid i Cymru'r Dyfodol gwmpasu cyfnod o 20 mlynedd gan gyflwyno blaenoriaethau'r Llywodraeth mewn un cyfeiriad cydlynol sy'n dangos goblygiadau nodau ac amcanion allweddol ar ddefnydd tir. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi blaenoriaethau defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn darparu fframwaith defnydd tir cenedlaethol ar gyfer CDS a CDLl. Mae Cymru'r Dyfodol yn canolbwyntio ar faterion datblygu a defnydd tir o arwyddocâd cenedlaethol, yn nodi meysydd lle mae yna gyfleoedd a newid mawr, tynnu sylw at yr ardaloedd sydd angen eu hamddiffyn a'u gwella a helpu i gydlynu'r gwaith o ddarparu polisïau Llywodraeth Cymru i sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol gorau posibl.

1.24 Mae Cymru'r Dyfodol yn rhan o'r cynllun datblygu statudol. Mae'n rhaid i CDS a CDLl gydymffurfio â Cymru'r Dyfodol yn gyffredinol. Profir hyn drwy'r broses archwilio.

### Cynlluniau Datblygu Strategol

1.25 Mae'r Ddeddf Cynllunio'n darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi CDS. Dylid paratoi Cynlluniau Strategol

[7] Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

ar sail ranbarthol a dylent adlewyrchu ardaloedd gweithredol, mynd i'r afael â materion fel marchnadoedd tai rhanbarthol, patrymau teithio i'r gwaith ac ardaloedd lle mae yna gyfleoedd economaidd. Mae paratoi CDS yn fodd o ystyried a chynllunio ar gyfer cyfleoedd a heriau mewn ffordd fwy integredig a chynhwysfawr, gan hyrwyddo cyflawni canlyniadau cynllunio cadarnhaol.

### Cynlluniau Datblygu Lleol

1.26 Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol osod gweledigaeth ar gyfer newid defnydd tir lleoedd er mwyn diwallu'u hanghenion datblygu dros gyfnod y cynllun. Bydd hynny'n rhoi sicrwydd i ddatblygwyr a'r cyhoedd ynghylch y math o ddatblygiad a ganiateir mewn lleoliad penodol. Bydd y CDLl yn cynnwys polisïau lleol a phenodol i esbonio neu ddatblygu polisïau cenedlaethol a rhoi blaenoriaethau lleol ar waith. Bydd angen tystiolaeth i gefnogi polisïau'r CDLl a chloriennir y rheini gan y drefn archwilio. Gellir paratoi'r CDLl fel dogfen unigol neu ar y cyd gan ddau awdurdod cynllunio neu fwy.

1.27 Dylid rhoi sylw yn y CDLl i'r cynlluniau llesiant lleol perthnasol a'r datganiadau ardal sydd wedi'u cynhyrchu ar gyfer yr ardal. Rhaid i'r CDLl gydymffurfio â'r CDS a Cymru'r Dyfodol.

### Cynlluniau Lleoedd

1.28 Dogfennau anstatudol yw cynlluniau lleoedd. Gellir eu paratoi gan y gymuned leol ac maent yn adnodd grymus i hyrwyddo cydweithio i wella llesiant a chreu lleoedd. Dylai Cynlluniau Lleoedd gefnogi'r gwaith o ddarparu polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol a chânt eu mabwysiadu fel canllawiau cynllunio ategol.

1.29 Mae cyngor gweithdrefnol manwl ar baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Lleoedd yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.

## Rheoli Datblygiadau Newydd

1.30 Mae rheoli datblygu yn ffordd gadarnhaol a rhagweithiol o lywio, ystyried, penderfynu a chyflwyno cynigion datblygu trwy'r broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio. Fe'i harweinir gan yr awdurdod cynllunio, sy'n gweithio ar y cyd â'r rhai sy'n cynnig datblygiadau a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys y gymuned leol. Mae'n rhaid ei wneud ag ymdeimlad o bartneriaeth a chynwysoldeb (gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio) ac mae'n cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau a chanlyniadau allweddol (gan gyfrannu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol).

1.31 Mae canllawiau manwl ar y prosesau a'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu.

### Rôl Gyffredinol Gweinidogion Cymru o ran Gwneud Penderfyniadau[8]

1.32 Ar y cyfan, mae'n well i gynigion datblygu gael eu penderfynu'n lleol gan ACLl sy'n adnabod eu hardal, ei hanghenion a'r sensitifrwydd cynllunio. Nid yw Gweinidogion Cymru yn ymyrryd ag awdurdodaeth ACLl oni bai bod angen gwneud hynny. Fodd bynnag, rhaid cyflwyno, cyfeirio neu hysbysu mathau penodol o gais cynllunio i Weinidogion Cymru.

1.33 Mae ceisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru. Mae categorïau o DNS a'u trothwyon cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru ac mae canllawiau manwl sy'n ategu'r broses benderfynu.

[8] Cewch fwy o wybodaeth yn: www.llyw.cymru/caniatad-cynllunio

1.34 Rhaid i'r ACLl, yn unol â darpariaethau Cyfarwyddiadau Hysbysu perthnasol, atgyfeirio ceisiadau at Weinidogion Cymru nad yw'n bwriadu eu gwrthod ar gyfer y categorïau datblygu canlynol:

(i) **Datblygiad mewn Ardal Perygl Llifogydd** – sy'n ymgorffori gwasanaethau brys neu ddatblygiad agored iawn i niwed (10 annedd neu fwy ar gyfer cynlluniau preswyl), lle bo'r safle cyfan mewn parth llifogydd C2;

(ii) **Datblygiad Preswyl Mawr** – datblygiad preswyl 10 neu o fwy o unedau preswyl neu ddatblygiad preswyl ar 0.5 hectar neu fwy o dir, nad yw'n cydymffurfio ag un neu fwy o ddarpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym;

(iii) **Datblygiad Mwynau** – datblygiad sy'n cynnwys codi mwynau neu gloddio amdanynt ar safleoedd newydd neu estyniadau i safleoedd sy'n bod eisoes, nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal;

(iv) **Datblygiad Gwastraff** – datblygiad y'i bwriedir yn llwyr neu'n bennaf ar gyfer gosod gwastraff yn neu ar y tir, nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal;

(v) **Datblygiad Agregau mewn Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol** – datblygiad sy'n golygu echdynnu agregau ar safleoedd newydd neu estyniadau i safleoedd sy'n bod eisoes yn yr ardaloedd dynodedig hyn;

(vi) **Datblygiad Glo a Phetrolewm** – datblygiad sy'n golygu chwilio am lo a thurio amdano; ei dynnu, ei weithio a'i gaffael; dod â glo tanddaearol i'r wyneb; trin glo yn y strata, a gwaddodi rwbel. Mae datblygu petrolewm yn cynnwys chwilio a thurio am betrolewm a'i gaffael.

1.35 Mewn rhai achosion, caiff Gweinidogion Cymru 'alw ceisiadau cynllunio i mewn' er mwyn iddynt benderfynu arnynt eu hunain. Mae'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio'n ddetholus ac mae pob cais yn cael ei ystyried yn unigol. Fel arfer, ni fydd '**galw i mewn**' yn cael ei ystyried yn briodol oni bai bod cynnig yn codi materion cynllunio sydd o fwy na phwysigrwydd lleol. Gellid ystyried bod hynny'n briodol, er enghraifft, yn achos cynigion:

- sy'n gwrthdaro â pholisïau cynllunio cenedlaethol;
- a allai gael effeithiau eang y tu hwnt i'w hardal leol;
- a allai achosi dadlau mawr y tu hwnt i'r ardal leol;
- sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar safleoedd o ddiddordeb gwyddonol, cadwraeth natur neu ddiddordeb hanesyddol neu ardaloedd sy'n bwysig oherwydd eu tirwedd;
- sy'n codi materion sy'n gysylltiedig â diogelwch cenedlaethol; neu
- sy'n codi materion cynllunio newydd.

1.36 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau wrth gefn i wneud eu Gorchmynion Dirymu/Addasu neu Ddirwyn i Ben eu hunain, ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio. Byddai ymyrraeth o'r fath yn gwrthdroi dyfarniad awdurdod cynllunio lleol ar fater sy'n gyfrifoldeb iddo ef yn y lle cyntaf, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellid cyfiawnhau hynny. Yr egwyddor gyffredinol yw y dylai camau o'r fath gael eu hystyried dim ond lle bernir bod y penderfyniad gwreiddiol yn gwbl anghywir, ac y byddai niwed yn cael ei wneud i fudd ehangach y cyhoedd. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i ddefnyddio pwerau diofyn Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag adeiladau rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth.

1.37 Mae'r system gynllunio'n gweithredu mewn fframwaith cyfreithiol cynhwysfawr. Cewch fwy o wybodaeth am y ddeddfwriaeth berthnasol yn Atodiad A.

# 2 Pobl a Lleoedd: Llesiant trwy Greu Lleoedd

2.1 Rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r system gynllunio neu sy'n gweithredu o fewn y system gynllunio yng Nghymru fabwysiadu'r cysyniad o greu lleoedd wrth baratoi cynlluniau a gwneud penderfyniadau rheoli datblygu er mwyn creu mannau cynaliadwy a gwella llesiant cymunedau.

2.2 Mannau Cynaliadwy yw nod y system cynllunio defnydd tir yng Nghymru; nhw yw cynnyrch y broses gynllunio yn hytrach na'r broses o'u cyflawni. Dylai pob penderfyniad datblygu, naill ai trwy ddewisiadau polisi mewn cynlluniau datblygu neu drwy benderfyniadau rheoli datblygu unigol, geisio cyfrannu at greu mannau cynaliadwy a gwella llesiant.

2.3 Dylai'r system gynllunio greu mannau cynaliadwy sy'n ddeniadol, yn gymdeithasol, yn hygyrch, yn actif, yn ddiogel, yn groesawgar, yn iach ac yn gyfeillgar. Dylai cynigion datblygu greu'r amodau i ddod â phobl ynghyd a'u gwneud eisiau byw, gweithio a chwarae mewn ardaloedd lle mae ymdeimlad o le a llesiant gan greu ffyniant i bawb.

2.4 Mae yna lawer o wahanol fathau o fannau, a bydd dehongliad o'r hyn sy'n gwneud lle da yn amrywio. Bydd gan bob man ei nodweddion, ei hanes a'i hunaniaeth unigryw ei hun, yn seiliedig ar sut y bu ac y bydd pobl yn rhyngweithio â'r dirwedd a'r drefwedd. Mae'r 'ymdeimlad o le' yn amrywio, o gefn gwlad sy'n darparu sail economaidd ac amgylcheddol i amaethyddiaeth a thwristiaeth gael ffynnu i ardaloedd trefol sy'n fythol esblygu ac sy'n ffocws i ddatblygiadau cymdeithasol ac economaidd mawr. Mae gwerth hanfod lle i bobl neu gymunedau'n neilltuol o bwysig a gall fod rhesymau esthetig, diwylliannol, ysbrydol neu hanesyddol amdano. Awdurdodau cynllunio sydd yn y sefyllfa orau i'w deall. Caiff llawer o nodweddion unigryw lleoedd eu datgelu yn yr asesiadau llesiant lleol a'r datganiadau ardal a gynhyrchir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd.

2.5 Y system gynllunio yw'r brif fecanwaith ar gyfer darparu mannau cynaliadwy. Mae'n darparu mecanwaith hollbwysig lle mae cyfleoedd ar gyfer budd hirdymor a phenderfyniadau integredig yn dod ynghyd, sy'n caniatáu dod o hyd i atebion ataliol a rhagweithiol.

### Gwneud y Mwyaf o Lesiant a Chreu Mannau Cynaliadwy trwy Greu Lleoedd

2.6 Mae creu lleoedd cynaliadwy yn broses gynhwysol sy'n cynnwys pawb â diddordeb proffesiynol neu bersonol yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol, ac mae'n canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau, gwneud penderfyniadau a gwneud datblygiadau sy'n cyfrannu at greu a gwella lleoedd cynaliadwy.

2.7 Mae creu lleoedd mewn penderfyniadau datblygu yn digwydd ar bob lefel, ac mae'n cynnwys ystyriaethau ar raddfa fyd-eang, gan gynnwys yr argyfwng hinsawdd, ac ystyriaethau lleol, megis ystyried yr effaith ar eiddo a phobl leol.


John Lewis
John Lewis

2.8 Rhaid i bolisïau, cynigion a phenderfyniadau cynllunio geisio hyrwyddo datblygu cynaliadwy a chefnogi llesiant pobl a chymunedau ledled Cymru. Gellir gwneud hynny trwy gynyddu'u cyfraniad at gyflawni'r saith nod llesiant a thrwy ddefnyddio'r pum Ffordd o Weithio y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn amdanynt. Bydd hynny'n cynnwys cynyddu'r buddiannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol tra'n ystyried effeithiau posib wrth asesu cynigion a pholisïau yn unol ag Egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Ddeddf.

2.9 **Y ffordd fwyaf priodol o roi'r gofynion hyn ar waith trwy'r system gynllunio yw trwy fabwysiadu'r egwyddor creu lleoedd wrth lunio cynlluniau, polisi cynllunio a gwneud penderfyniadau.**

## Beth yw Creu Lleoedd?

**Ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd yw "creu lleoedd", sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf.**

**Mae "creu lleoedd" yn ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle'r datblygiad a'i gyffiniau, hynny yn achos datblygiadau mawr sy'n creu lleoedd newydd yn ogystal â datblygiadau bach sy'n cael eu creu mewn lle ehangach.**

**Ni ddylai "creu lleoedd" ychwanegu at gostau datblygiad ond rhaid wrth feddwl clyfar, amlddimensiwn ac arloesol a'i ystyried cyn cynhared yn y broses â phosib. Mae "creu lleoedd" yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at y datblygiad gan arwain at fuddiannau sy'n fwy na'r ffisegol a chryfhau penderfyniadau cynllunio.**

# Creu Lleoedd Cymru Placemaking Wales

Llofnodydd y Siarter | Charter Signatory

Menter yw Creu Lleoedd Cymru i gefnogi'r broses o greu lleoedd yng Nghymru. Caiff y prosiect ei arwain gan Bartneriaeth Creu Lleoedd Cymru – grŵp amlddisgyblaethol sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol a sefydliadau sy'n rhan o'r gwaith o lunio'r amgylchedd adeiledig a naturiol yng Nghymru.

Datblygwyd Siarter Creu Lleoedd Cymru i adlewyrchu ymrwymiad ar y cyd ac ymrwymiad unigol y sefydliadau hyn i gefnogi'r broses o ddatblygu lleoedd o ansawdd uchel ledled Cymru er budd eu cymunedau **(dcfw.org/placemaking/placemaking-charter/)**. Mae'r Siarter yn cynnwys chwe egwyddor creu lleoedd y mae'r rheini sy'n cofrestru yn addo i'w hyrwyddo fel rhan o'u cefnogaeth tuag at greu lleoedd.

## Pobl a'r gymuned

Caiff anghenion, dyheadau, iechyd a llesiant pobl eu hystyried o'r dechrau'n deg. Caiff cynigion eu lluno er mwyn helpu i ddiwallu'r anghenion hyn a hefyd greu, integreiddio, diogelu a/neu wella ymdeimlad o gymdeithas a hyrwyddo cydraddoldeb.

## Lleoliad

Mae lleoedd yn tyfu ac yn datblygu mewn modd sy'n defnyddio tir mewn modd effeithlon, yn cefnogi ac yn gwella lleoedd presennol ac sydd â chysylltiadau da. Caiff lleoliad tai, swyddi a hamdden a chyfleusterau eraill ei gynllunio er mwyn helpu i leihau'r angen i deithio.

## Symud

Caiff cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus eu blaenoriaethu er mwyn cynnig dewis o ddulliau teithio ac osgoi dibyniaeth ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol sydd wedi'u dylunio'n dda ac sy'n ddiogel yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ehangach a chaiff gorsafoedd trafnidiaeth gyhoeddus ac arosfannau eu hintegreiddio mewn modd positif.

## Cymysgedd o ddefnyddiau

Mae gan leoedd wahanol ddibenion sy'n creu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedau, tyfu busnesau lleol a sicrhau mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygu a gwahanol ddefnyddiau a deiliadaethau yn helpu i gefnogi cymunedau amrywiol a thir llewyrchus i'r cyhoedd.

## Tir y cyhoedd

Mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol gyda hunaniaeth unigryw. Maent wedi'u dylunio i fod yn gadarn ac yn rhai y mae modd eu haddasu gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draenio cynaliadwy sydd wedi'u hintegreiddio'n dda. Maent wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd presennol ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a gwahanol weithgareddau ar gyfer pawb.

## Hunaniaeth

Caiff nodweddion positif ac unigryw lleoedd presennol eu gwerthfawrogi a'u parchu. Caiff y nodweddion a'r cyfleoedd unigryw sydd ynghlwm wrth leoliad gan gynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith a nodweddion ffisegol adeiledig a naturiol eu pennu ac ymatebir iddynt.

Cyhoeddwyd Canllaw Creu Lleoedd hefyd gyda chanllawiau pellach ar egwyddorion creu lleoedd a'r modd y gellir eu rhoi ar waith **(dcfw.org/placemaking/resources/)**.

2.10 Mae penderfynu trwy'r pum ffordd o weithio ac egwyddorion datblygu cynaliadwy eisoes yn rhannau annatod o'r system gynllunio. Ond rhaid i'r system gynllunio wella yn y meysydd hyn os ydym am gyflawni gofynion y Ddeddf Cynllunio a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rhaid i'r gwelliannau i'r system gynllunio gael eu hymgorffori yn y ffordd yr eir ati i greu lleoedd cynaliadwy sy'n hyrwyddo llesiant yn ein hardaloedd trefol a'n hardaloedd gwledig. Rhaid felly creu lleoedd da os ydym am weld datblygu cynaliadwy a gwella llesiant cymunedau.

2.11 Defnyddir y symbolau isod i ddangos y ffyrdd o weithio mewn datganiadau polisi yn nhestun PCC:




### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

2.12 **Mae'r system gynllunio'n fecanwaith polisi, penderfynu a chyflawni pwysig iawn. Dylai geisio sicrhau'r canlyniadau gorau posib er budd pob agwedd ar lesiant/datblygu cynaliadwy gan geisio cynyddu cyfraniadau drwy hynny at holl nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Trwy "greu lleoedd" y mae gwneud hynny.**

## Prif Egwyddorion Cynllunio

2.13 Mae lleoedd cynaliadwy yn ddibynnol ar system sy'n seiliedig ar gynllun er mwyn sicrhau bod pob cynllun a phenderfyniad datblygu a wneir trwy system gynllunio yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu lleoedd cynaliadwy. Dylid defnyddio gweledigaeth y 5 Egwyddor Allweddol (gweler Ffigur 4) i lywio pob cynllun datblygu, gan gynnwys Cymru'r Dyfodol. Mae'r egwyddorion hyn yn cefnogi'r newid diwylliannol sydd ei angen i fabwysiadu y ffordd "creu lleoedd" o weithio a sicrhau bod y system gynllunio'n cefnogi'r datblygiad iawn yn y lle iawn.

2.14 Bydd yr egwyddorion hyn yn ein galluogi i wireddu'r nodau a'r pum ffordd o weithio a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trwy gynllunio defnydd tir. Yr egwyddorion hyn fydd y cyd-destun a'r catalydd ar gyfer rhoi'r system gynllunio ar waith mewn ffordd bositif ledled Cymru.

## Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy

2.15 Dylid defnyddio canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy (gweler Ffigur 5) i helpu i baratoi cynlluniau datblygu ac i asesu cynigion datblygu. Bydd y canlyniadau'n cynnig fframwaith sy'n cynnwys y ffactorau y bernir eu bod y canlyniadau gorau y gall cynlluniau datblygu a datblygiadau unigol esgor arnynt. Dylai'r canlyniadau hyn, tra'n amlygu nodweddion cynaliadwy'r cynlluniau datblygu lle a'r penderfyniadau y maent yn helpu i'w creu, fod yn fan cychwyn ar gyfer llunwyr cynlluniau a phenderfynwyr a dylid manteisio ar y cyfle cyntaf posib i'w hystyried.

2.16 Mae nodweddion a phriodoleddau lleoedd yn amrywio. Mae cynllunio cadarnhaol yn digwydd ar lefel lle mae gwybodaeth fanwl am sut mae lleoedd yn 'gweithio' ar gael, sy'n darparu adnodd penderfynu gwerthfawr. Wrth ddatblygu cynlluniau, mae'n hollbwysig bod awdurdodau cynllunio yn ymgysylltu â phobl yn eu cymunedau eu hunain, gan hwyluso proses o gyfranogiad cyfunol sy'n canolbwyntio ar sicrhau mannau cynaliadwy. Mae gofyn felly am fwy o ymgysylltu na'r hyn y gofynnir amdano yn y ddeddfwriaeth gynllunio, yn unol â'r egwyddor cyfranogi a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ffigur 4:

# Yr Egwyddorion Cynllunio Allweddol – Y Datblygiad Iawn yn y Lle Iawn

## Helpu'r economi i dyfu mewn ffordd gynaliadwy

Dylai'r system gynllunio alluogi datblygiad sy'n cyfrannu at les economaidd tymor hir gan wneud y defnydd gorau o'r seilwaith a chynllunio ar gyfer seilwaith a gwasanaethau ategol newydd. Rhaid i gymunedau, llywodraeth genedlaethol a lleol, busnesau a'r trydydd sector weithio gyda'i gilydd i weithio at y tymor hir, gan integreiddio ac alinio blaenoriaethau trwy fwy o gydweithio i sicrhau buddiannau economaidd cynaliadwy i bawb yn unol â'r nodau llesiant.

## Gwneud y gorau o adnoddau

Mae datblygu cynaliadwy yn dibynnu ar ddefnyddio adnoddau'n effeithiol, gan gynnwys tir. Mae gan y system gynllunio ran hanfodol i'w chwarae i sicrhau bod datblygiad yn gallu gwrthsefyll hinsawdd sy'n newid, ac i ddatgarboneiddio cymdeithas a datblygu economi gylchol er lles yr amgylcheddau adeileg a naturiol a chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. Rhaid dilyn yr egwyddor agosatrwydd i sicrhau bod problemau'n cael eu datrys yn lleol yn hytrach na'u pasio i leoedd neu genedlaethau eraill. Bydd hynny'n sicrhau bod tir ac adnoddau eraill yn cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy yn y tymor hir.

## Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach

Dylai'r ffordd y dewiswn ddefnyddio'n tir a'r lleoedd a grëwn fod yn hygyrch i bawb a chefnogi bywydau iach. Mae lleoedd o ansawdd uchel yn agored ac yn gynhwysol i bob aelod o gymdeithas. Maent yn sicrhau bod pawb yn cael byw, gweithio, teithio a chwarae mewn ffordd sy'n cefnogi iechyd corfforol a meddyliol da. Dylid cynllunio'n hamgylcheddau adeileg a naturiol i hyrwyddo'n llesiant meddyliol a chorfforol. Y ffordd orau o wneud hynny yw trwy sicrhau cyfranogaeth a chydweithrediad pobl eraill i sicrhau bod problemau'n cael eu deall a'u rhwystro cyn gynted â phosib trwy eu rheoli'n effeithiol gyda'r rheini y bydd y datblygiad dan sylw yn effeithio arnynt neu sydd â budd ynddo.

## Creu a chynnal cymunedau

Rhaid gweithio'r system gynllunio mewn ffordd integredig i gynyddu'i chyfraniad at lesiant. Gellir gwneud hyn trwy greu lleoedd sydd wedi'u dylunio'n dda a chymunedau gwledig a threfol cydlynus. Gellir eu cynnal trwy sicrhau'r cydbwysedd gorau o ran defnyddiau a dwysedd, gan greu lleoedd y mae pobl am fod ynddynt i ryngweithio ag eraill. Mae angen y cymysgedd iawn o gartrefi, gwasanaethau, seilwaith a chyfleusterau o ansawdd da ac sydd wedi'u dylunio'n dda ar ein cymunedau fel bod pobl yn teimlo'n fodlon â'u bywyd pob dydd.

## Amddiffyn yr amgylchedd a chyfyngu ar yr effeithiau ar yr amgylchedd

Rhaid amddiffyn, hyrwyddo, gwarchod a chyfoethogi asedau naturiol, hanesyddol a diwylliannol. Dylid ceisio osgoi effeithiau amgylcheddol negyddol er lles y cyhoedd. Mae hynny'n golygu gweithredu yn y tymor hir i barchu terfynau'r amgylchedd a gwetihredu mewn ffordd integredig fel na chaiff adnoddau ac asedau eraill eu difrodi neu eu colli heb fod modd eu hadfer. Os na ellir rhwystro llygredd, y llygrwr ddylai dalu a thrwy ddilyn yr egwyddor rhagofalus, sicrheir mesurau cost-effeithiol i rwystro difrod amgylcheddol.

2.17 Wrth ymateb i'r egwyddorion allweddol ar gyfer y system gynllunio a chreu mannau cynaliadwy, ac i gydnabod yr angen i gyfrannu at lesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru trwy "greu lleoedd", mae'n rhaid i bolisïau cynllunio a chynigion datblygu geisio darparu datblygiadau sy'n mynd i'r afael â chanlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy.

2.18 Mae canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy Cymru yn ceisio amlinellu sut olwg ddylai fod ar fan cynaliadwy, ar sail yr egwyddorion cynllunio perthnasol.

2.19 Rhaid i bob cynllun datblygu fynd â'r canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy yn eu blaen a'u defnyddio i ddatblygu set gyffredinol o ganlyniadau. Bydd pob cynllun datblygu'n ystyried y raddfa y bydd yn cyfrannu, trwy bolisïau a dyraniadau, at wireddu canlyniad. Gyda'i gilydd, trwy ganolbwyntio ar gael pob cynllun datblygu i wireddu'r canlyniadau hyn, sicrheir bod y system gynllunio yn chwarae ei rhan i greu mannau cynaliadwy.

2.20 Ni fydd modd dangos bod pob datblygiad na chynnig polisi yn gallu gwireddu pob un o'r canlyniadau hyn, ac ni ellir chwaith o reidrwydd brofi yn y cam polisi neu ymgeisio, a all cynnig o reidrwydd arwain at ganlyniad penodol. Ond nid yw hynny'n golygu na ddylid ei ystyried yn y broses rheoli datblygu i weld a ellir gwella cynnig i hyrwyddo nodau llesiant ehangach. Mater i ddatblygwyr ac awdurdodau cynllunio yw gweld y cyfleoedd a manteisio arnynt.

## Pandemig COVID-19 ac Adeiladu Lleoedd Gwell

2.21 Pandemig COVID-19 a'n hymateb i'r materion a gododd oedd un o'r heriau mwyaf cymhleth i ni ei hwynebu erioed. Mae'n rhaid i ni barhau i gydnabod anghenion ein cymunedau a sicrhau ein bod yn cadw'r elfennau gorau o'r newidiadau a wnaed o'n cwmpas, gan gynnwys y modd rydym wedi ymddwyn ac ymateb.

2.22 Mae'n rhaid i ni sicrhau bod llesiant pobl yn ganolog i fyd ar ôl Covid. Mae *Polisi Cynllunio Cymru* yn arwain y ffordd yn hyn o beth ac mae'n cynnwys yr egwyddorion a'r polisïau sydd eu hangen i ni adfer o'r sefyllfa hon mewn modd cadarnhaol. Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adeiladu Lleoedd Gwell[9] sy'n nodi'r blaenoriaethau polisi a'r camau gweithredu mwyaf perthnasol i gynorthwyo yn y broses adfer.

2.23 Mae *Adeiladu Lleoedd Gwell* yn cydnabod y rôl hollbwysig y mae cynllunwyr yn ei chwarae wrth lunio ein cymdeithas ar gyfer y dyfodol. Mae'n rhaid iddynt gynllunio ar gyfer ein blaenoriaethau o amgylch creu lleoedd, datgarboneiddio a llesiant. Mae *Adeiladu Lleoedd Gwell* yn dechrau nodi camau gweithredu i gyflawni hyn ac y mae'n rhaid i ni adeiladu arnynt; bydd adolygiadau o *Bolisi Cynllunio Cymru* yn y dyfodol yn ein galluogi i integreiddio'r gwaith hwn ymhellach. Mae gan bawb ran i'w chwarae i sicrhau y bydd cymunedau yfory yn elwa o graffter y presennol.

9 Adeiladu Lleoedd Gwell: www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-adferiad-COVID-19

Ffigur 5: Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd

### Creu a Chynnal Cymunedau

- Galluogi'r Gymraeg i ffynnu
- Dwyseddau datblygu priodol
- Cartrefi a swyddi i fodloni anghenion cymdeithas
- At ddefnydd cymysg
- Yn cynnig profiadau diwylliannol
- Cyfleusterau a gwasanaethau o fewn y gymuned

### Datblygu ein Heconomi mewn Dull Cynaliadwy

- Meithrin gweithgarwch economaidd
- Galluogi cyfathrebu hawdd
- Cynhyrchu ei ynni adnewyddadwy ei hun
- Yn fywiog a deinamig
- Yn addasu i newid
- Yn croesawu technoleg ddoeth ac arloesol

### Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau

- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol
- Rhwystro gwastraff
- Blaenoriaethu'r defnydd o dir sydd wedi'i ddatblygu eisoes ac adeiladau sy'n bodoli eisoes
- Rhyddhau posibiliadau ac adnewyddu
- O safon uchel ac wedi'i greu i bara am oes



## Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd


### Gwarchod yr Amgylchedd Cymaint â Phosibl a Chyfyngu ar Effaith Amgylcheddol

- Bioamrywiaeth ac ecosystemau cadarn
- Tirweddau unigryw ac arbennig
- Seilwaith gwyrdd integredig
- Seinweddau priodol
- Lleihau risgiau amgylcheddol
- Rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy
- Aer glân
- Lleihau llygredd cyffredinol
- Yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd
- Yn meddu ar amgylcheddau hanesyddol unigryw ac arbennig

### Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach

- Mannau gwyrdd hygyrch o safon uchel
- Hygyrch trwy deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus
- Heb fod yn ddibynnol ar geir
- Lleihau yr angen i deithio
- Cynnig mynediad cyfartal
- Diogel a chynhwysol
- Cynnal poblogaeth amrywiol
- Cysylltiadau da
- Mynediad cyfleus at nwyddau a gwasanaethau
- Hyrwyddo iechyd a lles corfforol a meddyliol

Ffigur 6: Mae themâu PCC yn cyfrannu gyda'i gilydd at greu lleoedd






## Polisi Cynllunio Cymru a Chreu Lleoedd

2.24 Ar lefel strategol, gellir clystyru pynciau polisi cynllunio traddodiadol o gwmpas pedair thema sy'n cyfrannu bob yn un at greu lleoedd.

2.25 Mae'r themâu hyn yn dod â'r cysylltiadau rhwng polisïau cynllunio ynghyd gan ddangos yn glir sut mae elfennau unigol yn cyfrannu at greu lleoedd. Ceir rhagor o fanylion ar ddechrau penawdau 4-6. Mae **Atodiad B** yn dangos sut y mae canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy yn ymwneud â'r 7 Nod Llesiant a themâu PCC. Mae'r holl bynciau polisi (ar draws themâu) yn gweithio gyda'i gilydd i greu lleoedd da.

**Rhoi Creu Lleoedd ar Waith drwy Bolisi Cynllunio Cymru**

2.26 Mae’n rhaid defnyddio PCC fel a ganlyn:

Ffigur 7:

# Sut dylai PPC gael ei ddefnyddio?

Dylai cynlluniau a chynigion datblygu gael eu paratoi yng nghyd-destun egwyddorion cynllunio allweddol y system gynllunio.

**1**

Y cam cyntaf yw asesu cynlluniau neu gynigion ar sail y **Dewisiadau Strategol a Gofodol** a’r canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy.

Dyma’r prawf cychwynnol allweddol sy’n sicrhau yr eir ati i ystyried y materion pwysig a bod cyfleoedd a mesurau lliniaru posib yn cael eu nodi.


**2**

Nesaf, asesir yn fanwl yr effaith a’r cyfraniad at **Leoedd Actif a Chymdeithasol, Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus** a **Lleoedd Unigryw a Naturiol**.

Bydd yr ystyriaethau o fewn pob un o’r themâu hyn yn amrywio yn ôl yr achos dan sylw gan ddibynnu ar y strategaeth neu’r cynnig dan sylw. Fodd bynnag, bydd gofyn ystyried rhinweddau neu feiau unrhyw strategaeth neu gynnig yn ôl ei les i’r cyhoedd.

**3**

Bydd y broses yn esgor ar strategaeth neu gynnig sy’n cyfrannu at gynnal neu greu mannau cynaliadwy ac yn gwireddu canlyniadau cynllunio cenedlaethol.





### Asesu Manteision Cynaliadwy Datblygu

2.27 Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn cael eu hystyried yn y broses gwneud penderfyniadau ac yn cael eu hasesu yn unol â'r pum ffordd o weithio i sicrhau bod asesiad cytbwys yn cael ei gynnal ac i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Efallai y bydd yna adegau pan fydd un fantais sy'n gysylltiedig â chynnig datblygu neu ddyrannu safle'n bwysicach na rhai eraill, ac mewn achosion o'r fath dylid cyflwyno tystiolaeth gadarn i gefnogi'r penderfyniadau hyn, gan geisio sicrhau cymaint o gyfraniad â phosibl at yr holl nodau llesiant.

2.28 Y ffactorau allweddol yn y broses asesu yw:

### Ystyriaethau Cymdeithasol

- pwy yw'r bobl a'r cymunedau â buddiant ac yr effeithir arnynt;
- sut mae'r cynnig yn newid ffordd o fyw rhywun, a all gynnwys:
  - sut mae pobl yn byw, er enghraifft, sut maent yn teithio o gwmpas;
  - sut mae pobl yn gweithio, er enghraifft, yn cael gafael ar gyflogaeth ddigonol;
  - sut mae pobl yn cymdeithasu, er enghraifft, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden; a
  - sut mae pobl yn rhyngweithio gyda'i gilydd bob dydd
- pwy fydd yn elwa ar y cynnig ac yn dioddef unrhyw effeithiau ohono;

- beth yw canlyniadau byrdymor a hirdymor y cynnig ar gymuned, yn cynnwys ei chyfansoddiad, cydlyniant, cymeriad, sut mae'n gweithredu a'i hymdeimlad o le; a
- sut mae'r cynnig yn cefnogi datblygu cymunedau mwy cyfartal a mwy cydlynol.

### Ystyriaethau Economaidd

- y nifer a'r mathau o swyddi hirdymor y disgwylir iddynt gael eu creu neu eu cadw;
- a fydd, ac i ba raddau y bydd y datblygiad yn helpu i wneud iawn am anfantais economaidd neu gefnogi blaenoriaethau adfywio, er enghraifft drwy wella cyfleoedd cyflogaeth lleol neu wella'r amgylchedd;
- cyfraniad y datblygiad i strategaethau ehangach, er enghraifft i dwf neu adfywiad ardaloedd penodol;
- cyfraniad y gweithgarwch economaidd hwn at nodau polisi ehangach; a
- sut mae'r cynnig yn cefnogi cyflawni'r nod o sicrhau Cymru mwy ffyniannus, carbon isel, arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.

### Ystyriaethau Diwylliannol

- i ba raddau mae'r cynnig yn cefnogi'r amodau sy'n galluogi defnyddio'r Gymraeg;
- a yw'r datblygiad yn diogelu ardaloedd ac asedau o arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol;
- a fanteisiwyd i'r eithaf yn briodol ar yr ystyriaethau diwylliannol a'u perthynas â'r diwydiant twristiaeth;
- a yw'r cynnig yn diogelu ardaloedd sy'n enwog am eu gwerth diwylliannol o ran cerddoriaeth, llenyddiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau; a
- phrofiadau diwylliannol bywiog.

### Ystyriaethau Amgylcheddol

- a fydd nodweddion pwysig yr amgylchedd naturiol ac adeiledig yn cael eu gwarchod a'u gwella;
- a yw effeithiau amgylcheddol datblygiad ar iechyd ac amwynder yn gyfyngedig i lefelau derbyniol a chydnerthedd ecosystemau yn cael ei wella;
- a yw diogelwch amgylcheddol i bobl ac adnoddau naturiol, eiddo a seilwaith yn cael ei sicrhau i'r eithaf, a risgiau amgylcheddol yn cael eu hatal neu eu rheoli'n briodol;
- a fydd safonau uchel yn cael eu cyflawni o ran adfer, gwella, datgomisiynu ac ôl-ddefnydd buddiol;
- a fydd llai o adnoddau anadnewyddadwy'n cael eu defnyddio, gwastraff yn cael ei atal, defnydd effeithlon a mwyaf priodol yn cael ei wneud o ddeunyddiau, ac ailddefnyddio ac ailgylchu'n cael eu hyrwyddo;
- a fydd achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cael eu hystyried yn llawn drwy leoliad, dylunio, adeiladu, gweithredu, datgomsiynu ac adfer; ac
- a yw'n cefnogi datgarboneiddio a'r pontio i economi carbon isel.

2.29 Wrth ystyried ceisiadau cynllunio, dylai awdurdodau cynllunio ofyn am farn pob adran berthnasol mewn awdurdod lleol a chyrff cyhoeddus arbenigol allanol, yn enwedig y rheini sy'n gyfrifol am Ddatblygu Economaidd, Tai, Trafnidiaeth, Adfywio, Diwylliant, Treftadaeth a'r Amgylchedd/Bioamrywiaeth, gan y gall hyn helpu i nodi manteision lluosog a dull integredig o gydbwyso blaenoriaethau yn erbyn polisi ar sail unigol. Bydd hyn hefyd yn fodd o ystyried yr holl gostau a buddion amrywiol dros oes datblygiad, yn cynnwys y rhai na ellir rhoi gwerth ariannol arnynt yn hawdd, ac ystyriaethau sy'n ymwneud ag amseriad, risgiau ac ansicrwydd.

# 3 Dewisiadau Strategol a Gofodol

3.1 Er mwyn creu lleoedd strategol yn effeithiol, rhaid cydystyried y materion creu lleoedd yn fuan, wrth ffurfio cynllun datblygu neu wrth ddatblygu cynigion penodol. Ni ddylid ystyried y materion polisi ar wahân. Mae hynny'n cynnwys ystyried dyluniad y datblygiad a'i effeithiau ar fywyd pob dydd yn ogystal â meddwl mewn ffordd holistig ynghylch lle y gallai pobl fyw a gweithio a pha ardaloedd y dylid eu hamddiffyn. Bydd y penderfyniadau sylfaenol buan hyn yn cael yr effaith fwyaf ar y math o ddatblygiad gaiff ei ddarparu yn y pen draw a'i gyfraniad at ddatblygu cynaliadwy a llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru.

3.2 Dylai'r dewisiadau a wneir yn y cam hwn gael eu llywio gan ymgysylltu priodol â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, gan ddefnyddio'r 5 Ffordd o Weithio i wella cynigion a syniadau a chynyddu'u cyfraniad at y nodau llesiant. Trwy gael yr agweddau hyn yn iawn neu yn eu lle yn fuan, bydd yn bosib gwneud penderfyniadau mwy effeithiol a haws eu cyfiawnhau nes ymlaen wrth ddatblygu cynlluniau a phrosiectau.

## Creu Lleoedd ar Waith


### Dylunio Da yn Creu Lleoedd Gwell

3.3 Mae dylunio da yn hollbwysig i greu mannau cynaliadwy lle mae pobl eisiau byw, gweithio a chymdeithasu. Mae mwy i ddylunio na phensaernïaeth adeilad; mae'n golygu'r berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig a rhwng pobl a lleoedd hefyd. I gyflawni datblygu cynaliadwy, rhaid i ddylunio fynd y tu hwnt i estheteg a chynnwys yr agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar y datblygiad, gan gynnwys sut mae gofod yn cael ei ddefnyddio, sut mae adeiladau a lle'r cyhoedd yn cefnogi hyn yn ogystal â'r gwaith adeiladu a'r trefniadau gweithredu a rheoli, a'r berthynas rhwng y datblygiad a'i gyffiniau.

3.4 Mae dylunio yn broses gynhwysol sy'n gallu codi dyheadau'r cyhoedd, atgyfnerthu balchder dinesig a chreu ymdeimlad o le a helpu i lywio ei ddyfodol. Ar gyfer y rheini sy'n cynnig datblygiad newydd, gall ymgysylltu buan helpu i sicrhau bod y cyhoedd yn croesawu'r datblygiad newydd. Dylai pawb sy'n rhan o'r broses ddatblygu geisio cyflawni amcanion dylunio da, a dylai hyn fod yn berthnasol i bob cynnig datblygu o bob maint. Gall yr amcanion hyn gael eu categoreiddio i bum elfen allweddol dylunio da (gweler Ffigur 8 trosodd):



## Ffigur 8: Amcanion Dyluniad Da




### Mynediad a Chynwysoldeb

3.5 Mae dylunio da yn golygu dylunio cynhwysol. Dylai cynigion datblygu sicrhau bod pobl yn rhan annatod o'r broses ddylunio, cydnabod amrywiaeth a gwahaniaeth, cynnig dewis lle nad yw un ateb dylunio yn addas i bob defnyddiwr, darparu ar gyfer hyblygrwydd o ran defnydd a darparu adeiladau ac amgylcheddau sy'n gyfleus ac yn bleserus i bawb eu defnyddio.

3.6 Mae'n rhaid i gynigion datblygu fynd i'r afael â mater cynwysoldeb a hygyrchedd i bawb. Mae hyn yn cynnwys gwneud darpariaeth i ddiwallu anghenion pobl â nam ar eu synhwyrau, cof, dysgu a symudedd, pobl hŷn a phobl â phlant bach. Fe ddaw buddiannau ehangach o roi ystyriaeth sensitif i ddarpariaeth o'r fath, er enghraifft, er y byddai arwyddion gweledol yn amhrisiadwy i helpu'r rheini sy'n drwm eu clyw i ymgysylltu mewn amgylchedd swnllyd, bydd amgylchedd hawdd ei ddefnyddio yn fanteisiol i bawb. Gall dylunio da annog pobl hefyd i gwrdd a rhyngweithio â'i gilydd, a helpu i fynd i'r afael â phroblemau ynghylch unigrwydd. Rhaid i ddylunio da gynnwys darparu mesurau sy'n helpu i leihau anghydraddoldeb o ran mynediad i wasanaethau hanfodol, addysg a chyflogaeth a brofir gan bobl nad oes ganddynt ddefnydd o gar. Dylai mesurau a nodweddion dylunio sicrhau mynediad hawdd at wasanaethau ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus.

### Cynaliadwyedd Amgylcheddol

3.7 Mae dylunio da yn hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol ac yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. Dylai datblygiadau geisio cynyddu effeithlonrwydd ynni a'r defnydd effeithlon o adnoddau eraill (gan gynnwys tir), sicrhau cymaint o symud cynaliadwy â phosibl, lleihau'r defnydd o adnoddau anadnewyddadwy, annog datgarboneiddio ac atal creu gwastraff a llygredd. Bydd ymagwedd integredig a hyblyg at ddylunio, gan gynnwys

penderfyniadau cynnar ynglŷn â lleoliad, dwysedd, cynllun, ffurf adeiledig, y dewis o ddeunyddiau, gallu adeiladau i addasu a thriniaeth safle'n ffordd briodol o gyfrannu at ddatblygiadau gwydn.

3.8 Gall dylunio da helpu i sicrhau ansawdd amgylcheddol uchel. Mae ystyried tirwedd a seilwaith gwyrdd yn rhan annatod o'r broses ddylunio. Mae integreiddio seilwaith gwyrdd yn golygu mwy na thirwedd ac ecoleg. Dylid ystyried yn hytrach bob nodwedd yn yr amgylchedd naturiol a sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i gyfrannu at ansawdd lle. Mae hyn yn ymgorffori egwyddorion 'gwasanaethau ecosystemau' a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy lle daw ateb niferus ei fanteision yn rhan annatod o ddyluniad da. Mewn ffordd debyg, gall mynd i'r afael â risgiau amgylcheddol wneud cyfraniad cadarnhaol at ddiogelu a gwella'r amgylchedd, datrys halogiad, ansefydlogrwydd a llifogydd tir a darparu ar gyfer diogelu bioamrywiaeth a hinsawdd, gwella ansawdd aer, y seinwedd a manteision i adnoddau dŵr.

### Cymeriad

3.9 Dylai nodweddion arbennig ardal fod yn rhan annatod o ddyluniad datblygiad. Mae cynllun, ffurf, maint ac ymddangosiad datblygiad arfaethedig a'i berthynas â'i gyffiniau yn ystyriaethau cynllunio pwysig. Dylid ceisio sicrhau sail resymegol glir i'r penderfyniadau dylunio a wneir yn seiliedig ar ddadansoddiad o gyd-destun a safle, gweledigaeth glir, gofynion perfformiad ac egwyddorion dylunio gydol y broses ddatblygu, a dylai'r pethau hyn gael eu mynegi, os yn briodol, mewn datganiad dylunio a mynediad.

3.10 Mewn ardaloedd a gydnabyddir am eu tirwedd, eu treflun neu eu cymeriad a'u gwerth diwylliannol hanesyddol, efallai y bydd yn briodol ceisio hyrwyddo neu atgyfnerthu hynodrwydd lleol. Yn yr ardaloedd hynny, bydd effaith datblygiad ar gymeriad presennol, maint a lleoliad datblygiad newydd, a'r defnydd o ddeunyddiau adeiladu priodol (gan gynnwys, os yn bosibl, deunyddiau a gynhyrchir yn gynaliadwy o ffynonellau lleol) yn arbennig o bwysig.

### Diogelwch Cymunedol

3.11 Mae awdurdodau lleol o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ystyried yr angen i atal a lleihau trosedd ac anhrefn ym mhob penderfyniad a wnânt. Mae atal trosedd ac ofn troseddau yn ystyriaethau cymdeithasol y dylid rhoi sylw iddynt wrth baratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau cynllunio. Y nod fyddai creu amgylcheddau diogel nad ydynt yn tanseilio ansawdd y dyluniad yn unol â'r nod llesiant ynghylch cymunedau cydlynus.

### Symudiad

3.12 Mae dylunio da yn ymwneud ag osgoi creu datblygiadau sy'n seiliedig ar geir yn unig. Mae'n cyfrannu at leihau'r angen i deithio a'r ddibyniaeth ar gar gan hyrwyddo cyfleoedd i bobl wneud dewisiadau teithio cynaliadwy ac iach ar gyfer eu teithiau bob dydd. Mae cyflawni'r amcanion hyn yn gofyn am ddewis safleoedd y gellir eu gwneud yn hygyrch yn hawdd drwy ddulliau cynaliadwy yn ogystal ag ymgorffori cysylltiadau priodol, diogel a chynaliadwy (gan gynnwys y rhwydwaith teithio egnïol) o fewn a rhwng datblygiadau gan ddefnyddio cytundebau cyfreithiol lle bo gofyn.

3.13 Rhaid defnyddio'r seilwaith sy'n bod ac ychwanegu ato lle medrir. Lle gwelir bod angen seilwaith newydd i liniaru effeithiau trafnidiaeth y datblygiad a'i wneud mor hygyrch â phosib trwy gyfrwng moddau teithio cynaliadwy heblaw ceir, dylid integreiddio'r seilwaith o fewn gwead y datblygiad a thu hwnt i'w ffiniau yn ôl y gofyn. Gallai hynny gynnwys cysylltu llwybrau beicio o fewn y safle â rhwydwaith beicio strategol ehangach neu ddarparu mesurau sy'n rhoi blaenoriaeth i fysiau ar y priffyrdd sy'n gwasanaethu datblygiad newydd.

### Arfarnu cyd-destun

3.14 Dylai dadansoddiad o gyd-destun a safle[10] gael ei ddefnyddio i bennu priodoldeb cynnig datblygu o ran y ffordd mae'n ymateb i'w gyffiniau. Bydd y broses hon yn sicrhau bod datblygiad yn integreiddio'n dda yng ngwead yr amgylchedd adeiledig presennol. Bydd y broses ddadansoddi'n amlygu cyfyngiadau a chyfleoedd a gyflwynir gan y strwythur aneddiadau presennol a bydd angen ystyried defnyddiau, tirwedd, bioamrywiaeth, yr amgylchedd dŵr, symudiad, seilwaith, deunyddiau ac adnoddau, seinwedd a ffurf adeiledig wrth lunio cynigion.

### Ystyried Materion Dylunio

3.15 Dylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau a chanllawiau sy'n hyrwyddo dylunio da yn yr amgylchedd adeiledig ac sy'n ddigon cadarn i wrthod cynigion datblygu o ansawdd gwael. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried materion dylunio strategol (megis lleoliad, cyd-destun a chysylltedd y safle) wrth ddyrannu cynlluniau datblygu, a chyfeirio atynt yn y cynllun. Gellir defnyddio pob math o adnoddau (megis briffiau datblygu, fframweithiau dylunio a chanllawiau cynllunio atodol, gan gynnwys Cynlluniau Lle) i amlinellu gofynion dylunio cynaliadwy penodol lle bo hynny'n berthnasol i fater lleol penodol neu safleoedd penodol. Gall y rhain helpu i nodi a chydgysylltu cyfleoedd i adfywio trefi ac ardaloedd trefol eraill ac arwain datblygiad yn gyffredinol. Mae'r gwasanaeth adolygu dyluniadau a gynigir gan Gomisiwn Dylunio Cymru[11] yn cynnig cyngor ac adborth annibynnol ar gynlluniau unigol a dogfennau fframwaith.

3.16 Dylai awdurdodau cynllunio, trwy broses negodi, geisio gwella datblygiadau gwael neu weddol nad ydynt wedi'u dylunio'n dda, nad ydynt yn ystyried eu cyd-destun na'u lle neu nad ydynt yn bodloni gofynion dylunio da. Os na ellir gwneud hyn, dylid eu gwrthod. Fodd bynnag, ni ddylent geisio gorfodi chwaeth neu arddull pensaernïol yn fympwyol a dylent osgoi atal cyfleoedd am atebion dylunio arloesol. Os bydd penderfynwr o'r farn na ddylid cymeradwyo cais cynllunio oherwydd pryderon dylunio, dylai sicrhau bod y rhesymau hyn yn cael eu nodi'n glir yn ei benderfyniad a'u cyfiawnhau gyda thystiolaeth ddigonol. Pe ceid apêl o dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen i'r Arolygiaeth Gynllunio archwilio'r problemau'n fanwl ac ystyried a yw'r cynnig yn bodloni nodau safonau dylunio da, gan gynnwys y berthynas rhwng y safle a'i gyffiniau.

### Datganiadau Dylunio a Mynediad

3.17 Mae Datganiad Dylunio a Mynediad[12] yn cyfathrebu pa ddatblygiad a gynigir, yn dangos y broses ddylunio a ddefnyddir ac yn esbonio sut mae amcanion dylunio da a chreu lleoedd wedi'u hystyried o gychwyn y broses ddatblygu. Wrth baratoi datganiadau dylunio a mynediad, dylai ymgeiswyr ddefnyddio ymagwedd integredig a chynhwysol at ddylunio cynaliadwy sy'n gymesur i faint y cynnig datblygu dan sylw a'r math o gynnig ydyw. Dylent fod yn ddogfennau 'byw' sy'n ymdrin â phob agwedd berthnasol ar ddylunio gydol y broses ac oes y datblygiad, gan nodi'n glir yr egwyddorion a'r cysyniadau dylunio a fabwysiadwyd a chynnwys deunydd eglurhaol mewn diagramau, cynlluniau, gweddluniau ac adrannau lle bo hynny'n berthnasol.

[10] Ceir mwy o wybodaeth yng Nghanllaw Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ddadansoddi Safle a Chyd-destun: www.llyw.cymru/datblygiadau-cynllunio-canllawiau-ar-ddadansoddi-safle-chyd-destun

[11] www.dcfw.org

[12] Ceir mwy o wybodaeth yng Nghanllaw Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ddadansoddi Safle a Chyd-destun www.llyw.cymru/ceisiadau-cynllunio-canllawiau-ar-ddatganiadau-dylunio-mynediad

3.18 Hyd yn oed os nad oes angen Datganiadau Dylunio a Mynediad, mae dal angen ystyried dylunio a chreu lleoedd wrth baratoi ac asesu cynigion datblygu.

## Hyrwyddo Lleoedd Iachach

3.19 Mae'r amgylchedd adeiledig a naturiol ym ddylanwadau mawr ar iechyd a llesiant pobl. Mae gan y system gynllunio gyfraniad pwysig o ran siapio'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n penderfynu ar iechyd ac sy'n hyrwyddo llesiant ac yn effeithio arno yn unol â'r nod Cymru Iachach. Gall y ffordd mae ein lleoedd yn gweithio a gweithredu gael effaith ar y dewisiadau mae pobl yn eu gwneud yn eu bywydau bob dydd, gan gynnwys eu dewisiadau teithio a hamdden a pha mor hawdd y gallai fod i gymdeithasu ag eraill.

3.20 Mae cymunedau difreintiedig a than anfantais yn dueddol o gael eu heffeithio'n anghymesur gan broblemau iechyd. Ceir cysylltiadau rhwng yr amgylchedd adeiledig a naturiol ac iechyd ar hyd oes person a dylid ceisio deall y ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd fel elfen allweddol wrth baratoi cynllun datblygu. Dylai'r system gynllunio nodi mesurau rhagweithiol ac ataliol i leihau anghydraddoldebau iechyd. Byddai hynny'n cynnwys galluogi cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored a hamdden, lleihau cysylltiad pobl â llygredd aer a sŵn, hyrwyddo opsiynau teithio llesol a cheisio sicrhau gwelliannau amgylcheddol a ffisegol, yn enwedig yn yr amgylchedd adeiledig.

3.21 Mae gan awdurdodau cynllunio eu rhan i atal salwch corfforol a meddyliol sy'n cael eu hachosi neu eu gwaethygu gan lygredd neu oherwydd diffyg cysylltiad â gweithgarwch cymdeithasol (sy'n cyfrannu at unigrwydd), yn ogystal â hyrwyddo patrymau teithio sy'n annog bywydau actif. Rhaid i'r system gynllunio ystyried effeithiau datblygiad newydd ar gymunedau a diogelu iechyd, lles ac amwynderau. Gall hynny gynnwys darparu asedau cymunedol ac iechyd fel neuaddau cymuned, llyfrgelloedd, meddygfeydd ac ysbytai, gan sicrhau cysylltiad rhwydd â nhw. Dylid cadw'r effeithiau ar iechyd mor fach â phosib bob tro, yn enwedig os gallai datblygiad newydd gael effaith andwyol ar iechyd, amwynder a lles. Os na ellir datrys yr effeithiau ar iechyd neu amwynder mewn ffordd foddhaol, dylid gwrthod y datblygiad.

3.22 Dylai awdurdodau cynllunio ddatblygu a chynnal lleoedd sy'n cefnogi ffyrdd iach ac actif o fyw ar draws pob grŵp oedran a grŵp economaidd-gymdeithasol, gan gydnabod y gall buddsoddi mewn seilwaith cerdded a beicio fod yn fesur effeithiol sy'n lleihau'r pwysau ariannol ar y gwasanaethau cyhoeddus yn yr hirdymor. Gall y ffordd mae datblygiad yn cael ei osod a'i drefnu ddylanwadu ar ymddygiadau a phenderfyniadau pobl a bod yn ffordd effeithiol o leihau effeithiau llygredd aer a sŵn. Mae ymgorffori ffynhonnau dŵr yfed neu orsafoedd ail-lenwi ar gyfer poteli amldro mewn mannau cyhoeddus yn ffordd syml ac effeithiol o wneud lleoedd yn iachach ac o leihau gwastraff diangen. Mae cynllunio effeithiol yn gallu darparu amgylcheddau tawel, digynnwrf, ynghyd ag amgylcheddau ysgogol a synhwyraidd, a gall y ddau gyfrannu'n fawr at lwyddiant lle.

3.23 Gall seilwaith gwyrdd fod yn ddull effeithiol o wella iechyd a lles trwy gysylltu aneddiadau, gweithleoedd a chyfleusterau cymunedol a thrwy ddarparu lleoedd gwyrdd hygyrch o ansawdd uchel. Ym mhob datblygiad ac mewn mannau cyhoeddus yn enwedig, dylai golau gael ei reoli mewn ffordd sensitif a dylai lefelau llygredd aer gael eu cadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol. Bydd cydnawsedd gwahanol ffyrdd o ddefnyddio tir yn ffactor allweddol wrth leihau llygredd aer a chreu seinweddau priodol sy'n ffafriol i, ac yn adlewyrchu, gweithgareddau a phrofiadau cymdeithasol a diwylliannol penodol, yn

enwedig yn ardaloedd canolog prysur trefi a dinasoedd. Yn yr un modd, mae darparu mannau tawel a llonydd sy'n noddfa heddychlon mewn amgylchedd sydd fel arall yn swnllyd iawn, yn gallu helpu i leihau lefelau llygredd a hyrwyddo lles meddyliol a chorfforol pobl.

3.24 Pan fydd cynlluniau datblygu neu gynigion datblygu unigol yn debygol o arwain at effeithiau sylweddol ar iechyd pobl, dylid ystyried yr effeithiau amgylcheddol gan ddeall y canlyniadau tebygol ar iechyd. Gellir ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth drwy fecanweithiau amrywiol i asesu effeithiau posibl ar iechyd, fel arfarniad cynaliadwyedd o gynlluniau datblygu ac asesiadau o'r effaith amgylcheddol, a lle'n berthnasol dylid cynnwys effeithiau iechyd perthnasol mewn asesiadau o'r fath. Yn gyffredinol, er mwyn sicrhau'r ffyrdd mwyaf effeithiol a chydweithredol o weithio, rhaid wrth ddulliau integredig a rennir i gasglu tystiolaeth a chynnal asesiadau. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd[13] yn help gwerthfawr i baratoi cynlluniau. Gall fod yn ddefnyddiol wrth gynnig neu wneud penderfyniadau ynghylch datblygiad newydd ac wrth ystyried y dystiolaeth a gesglir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gall tystiolaeth am yr effeithiau ar iechyd helpu'r system gynllunio i baratoi trefniadau cryfach a mwy cydlynus ar gyfer gwella iechyd a lles.

## Y Gymraeg a Chreu Lleoedd

3.25 Mae'r Gymraeg yn rhan o'r ffabrig cymdeithasol a diwylliannol a bydd ei llesiant i'r dyfodol yn dibynnu ar bob math o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sail economaidd gadarn i gynnal cymunedau a mannau cynaliadwy sy'n ffynnu. Dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried yr amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg a, thrwy wneud hynny, gyfrannu at ei defnyddio a'r nod llesiant y Gymraeg sy'n Ffynnu.

3.26 Rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried effeithiau tebygol eu cynlluniau datblygu ar y defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd. Dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau dosbarthiad a chyflwyniad eang i'r datblygiad sy'n ystyried gallu'r ardal neu'r gymuned i ganiatáu'r datblygiad heb gael effaith andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg.

3.27 Dylai cynlluniau datblygu gynnwys datganiad ar sut mae awdurdodau cynllunio wedi ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi'r cynllun a sut mae unrhyw bolisïau yn ymwneud â'r Gymraeg yn rhyngweithio â pholisïau eraill.

3.28 Gall ystyriaethau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg gael sylw gan benderfynwyr cyn belled â'u bod yn berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio. Ni ddylai polisïau a phenderfyniadau gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion yn seiliedig ar eu gallu ieithyddol, ac ni ddylent geisio rheoli deiliadaeth tai ar sail ieithyddol.

3.29 Os bydd angen, gellir cynnal asesiadau o'r effaith ar yr iaith mewn perthynas â datblygiadau mawr na ddyrannwyd mewn cynllun datblygu sy'n cael eu cynnig mewn ardaloedd o sensitifrwydd neu bwysigrwydd arbennig i'r iaith. Dylai unrhyw ardaloedd o'r fath fod wedi'u diffinio'n glir yn y cynllun datblygu.

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

3.30 Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn argyfwng hinsawdd er mwyn cydgysylltu camau gweithredu yn genedlaethol ac yn lleol i helpu i fynd i'r afael â bygythiadau newid yn yr hinsawdd. Mae'r system gynllunio yn chwarae rôl allweddol yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd drwy ddatgarboneiddio'r system ynni a'r broses o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae trosglwyddo i economi

[13] HIA_Tool_Kit_V2_WEB-1.pdf (phwwhocc.co.uk)

carbon isel yn cynnig cyfleoedd ar gyfer twf glân a swyddi o ansawdd, yn ogystal â buddiannau ehangach lleoedd gwell i fyw ac i weithio, gydag aer a dŵr glân a chanlyniadau iechyd gwell.

3.31 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi targed cyfreithiol o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru 80% o leiaf yn 2050. Mae'r Ddeddf hefyd yn galw am gyfres o dargedau interim (ar gyfer 2020, 2030 a 2040) a chyllidebau carbon. Mae'r cyllidebau yn pennu cyfyngiad ar gyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru dros gyfnod o bum mlynedd i weithredu fel cerrig sarn ac i sicrhau y gwneir cynnydd tuag at y targedau degawdol.

3.32 Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ei argymhelliad ar gyfer y DU i bennu targed sero net ar gyfer 2050. Argymhellodd y dylai Cymru bennu targed o 95% fel ein cyfraniad teg tuag at ymdrech y DU. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, ond mae'n ceisio rhagori ar 95% a chyrraedd sero net. Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cyllideb Carbon 2 Sero Net Cymru. Mae'r Cynllun yn ymdrin â'n hail gyllideb garbon (2021-2025). Mae'n edrych y tu hwnt i'r cyfnod hwn ac yn dechrau gosod y sylfeini ar gyfer Cyllideb Garbon 3 a'n targed ar gyfer 2030 yn ogystal â'r targed sero net ar gyfer 2050.

3.33 Mae newid hinsawdd yn her fyd-eang, gyda'r effeithiau'n cael eu teimlo ar lefel leol gan gyflwyno risg sylweddol i bobl, i eiddo, i seilwaith ac i adnoddau naturiol. Mae angen i ni gynllunio ar gyfer yr effeithiau hyn, gan leihau bregusrwydd ein hadnoddau naturiol ac adeiladu amgylchedd a all addasu i newid hinsawdd. Mae'r system gynllunio yn chwarae rôl bwysig yn rheoli'r risg hon. Bydd datblygiad a gaiff ei ganiatáu heddiw yn bodoli am ddegawdau i ddod. Y penderfyniad pwysicaf a wneir gan y system gynllunio yw sicrhau bod y datbygiadau cywir yn cael eu hadeiladu yn y lleoedd cywir.

3.34 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd yn cyflwyno egwyddorion Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol[14] ac yn cynnig fframwaith ar eu cyfer fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Amcan rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddiannau maent yn eu darparu. Mae gofyn i Lywodraeth Cymru baratoi, cyhoeddi a chynnal Polisi Adnoddau Naturiol statudol sy'n rhestru ei blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy tra bo gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) baratoi 'Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol' a pharatoi 'Datganiadau Ardal' er budd rheoli ar sail lle. Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal yn dystiolaeth allweddol sy'n rhaid ei hystyried wrth baratoi cynlluniau datblygu.

3.35 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n cymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer eu defnyddio yn y system gynllunio.

3.36 Mae'r system gynllunio, o safbwynt cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, yn eang ei chwmpas ac mae datblygu cynaliadwy yn cofleidio pob agwedd ohoni lle bo angen gwneud penderfyniadau ynghylch anghenion tymor byr a hir a chostau a manteision. Mae'n sicrhau manteision lluosog (mwy nag un gwasanaeth ecosystem) fel rhan o strategaethau paratoi cynlluniau neu gynigion datblygu unigol. Dyma nodweddion allweddol rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy y gall y system gynllunio gyfrannu atynt:

- gwella cydnerthedd ecosystemau a rhwydweithiau ecolegol;
- atal a gwrth-droi colled bioamrywiaeth;
- cynnal a gwella seilwaith gwyrdd gan sicrhau manteision ac atebion ecosystem lluosog;

14 www.llyw.cymru/y-polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol

- dewis lleoedd cydnerth ar gyfer seilwaith a datblygiadau adeiledig, gan ystyried cyflenwadau dŵr, ansawdd dŵr a lle medrir, lleihau llygredd aer a sŵn a risgiau amgylcheddol fel y rheini gan lifogydd, newid i'r arfordir, halogi tir ac ansefydlogrwydd;
- cymryd camau i symud tuag at economi fwy cylchol yng Nghymru; a
- hwyluso'r symudiad tuag at ddatgarboneiddio'r economi.

3.37 Mae iechyd a lles pobl a lleoedd, a'r angen i arafu'r argyfwng hinsawdd a'i effeithiau yn rhoi hwb ychwanegol am weithredu proactif trwy'r system gynllunio. Mae ystyried yr egwyddorion hyn yn effeithio ar y dewis strategol, gan gynnwys y dewis o leoliad a'r dewis ar gyfer gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Mae ymgorffori rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy o fewn y system gynllunio yn elfen hanfodol o fannau cynaliadwy ac yn annog ffyrdd o weithio sy'n seiliedig ar glustnodi a sicrhau canlyniadau sy'n darparu gwasanaethau ecosystem niferus.

## Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig

3.38 Mae cefn gwlad yn adnodd deinamig, amlbwrpas. Yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r cynllun cenedlaethol ac wrth gyfrannu at ganlyniadau creu lleoedd, rhaid ei warchod a, lle bo'n bosibl, ei wella er mwyn ei werth ecolegol, daearegol, ffisiograffegol, hanesyddol, archaeolegol, diwylliannol ac amaethyddol ac ar gyfer ei dirwedd ac adnoddau naturiol. Dylid cydbwyso'r angen i warchod y nodweddion hyn ag anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr. Bydd meithrin cydnerthedd a gallu lleoedd gwledig i addasu yn amcan bwysig yn wyneb yr her aruthrol o gynnal bwrlwm cymunedau a darparu gwasanaethau iddynt yn ogystal â chyfrannu at y nod llesiant, Cymunedau Cydlynus. Law yn llaw â hynny, rhaid sicrhau bod cefn gwlad yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn cyfrannu at leihau achosion newid yn yr hinsawdd drwy warchod dalfeydd carbon ac fel ffynhonnell ynni cynaliadwy, yn unol â'r nod llesiant, Cymru Gydnerth.



3.39 Mae'r cyfleoedd ar gyfer lleihau'r defnydd o geir a chynyddu'r defnydd o gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn fwy cyfyngedig yn y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig o'u cymharu ag ardaloedd trefol. Mewn ardaloedd gwledig dylid lleoli'r mwyafrif o ddatblygiadau newydd yn yr aneddiadau y gellir eu cyrraedd yn gymharol dda drwy ddulliau di-gar o'u cymharu â'r ardal wledig yn gyffredinol. Dylai datblygiad yn yr ardaloedd hyn barhau i fabwysiadu canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy a chynnig cysylltiadau teithio llesol da i ganol aneddiadau i leihau'r angen i deithio mewn car ar gyfer teithiau lleol.

3.40 Dylai awdurdodau lleol ddynodi canolfannau gwasanaethau lleol, neu glystyrau o aneddiadau llai lle gellir dangos cysylltiad swyddogaethol cynaliadwy a'u nodi fel y lleoliadau a ffafrir ar gyfer y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd gan gynnwys darpariaeth tai a chyflogaeth. Dylai'r dull hwn gael ei ategu gan gynlluniau darparu gwasanaethau darparwyr gwasanaethau lleol.

## Creu Lleoedd Strategol

### Y Strategaeth Ofodol a'r Drefn Chwilio am Safleoedd

3.41 Ystyriaeth hanfodol wrth greu lle cynaliadwy yw lleoliad y datblygiad. Bydd cynlluniau datblygu'n gosod y sail ar gyfer hyn trwy glustnodi ardaloedd a safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd. Yn ogystal ag ystyried anghenion yr ardaloedd trefol a gwledig, byddant yn ystyried hefyd y berthynas rhwng aneddiadau trefol a'u dalgylch gwledig yn y dyfodol, yn enwedig yng ngoleuni sicrhau cymunedau gwledig a threfol cryf a chynnal lleoedd sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau newid cymdeithasol ac economaidd ac ecosystemau sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau hinsawdd sy'n newid.

3.42 Rhaid i gynlluniau datblygu gynnwys strategaeth ofodol fydd yn para oes y cynllun gan lunio patrwm datblygu ar gyfer gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Dylid sicrhau cydbwysedd rhwng nifer y tai a ddarperir a nifer y swyddi a ddisgwylir. Yn ogystal â sicrhau



bod yr holl wasanaethau y bydd eu hangen ar gyfer lefel y twf a ddisgwylir yn cael eu darparu, ystyriaeth bwysig fydd cadw'r angen i deithio mor fach â phosib, lleihau'r ddibyniaeth ar y car preifat a chael pobl i gerdded a beicio mwy a defnyddio mwy ar gludiant cyhoeddus. Bydd angen i'r strategaeth ofodol ddilyn argymhellion arfarniad o gynaliadwyedd a bod yn rhan annatod o strategaeth drosfwaol yn y cynllun datblygu. Anogir awdurdodau cynllunio a datblygwyr i weithio gyda'i gilydd i glustnodi tir yn y mannau mwyaf priodol ar gyfer ei ddatblygu sy'n rhoi ystyriaeth i'r holl bolisïau perthnasol ac y gellir ei ddarparu o fewn cyfnod y cynllun.

3.43 Wrth ddatblygu'i strategaeth ofodol, rhaid i awdurdod cynllunio roi blaenoriaeth i ddefnyddio tir neu safle addas a chynaliadwy gafodd ei ddatblygu yn y gorffennol a/neu sy'n cael ei danddefnyddio, hynny ar gyfer pob math o ddatblygiad. Wrth nodi safleoedd yn ei gynlluniau datblygu, dylai Awdurdod Cynllunio ystyried tir sydd eisoes wedi'i ddatblygu a/neu safle sy'n cael ei danddefnyddio mewn aneddiadau yn y lle cyntaf, a safleoedd ar gyrion aneddiadau yn y cam nesaf. Cydnabyddir fodd bynnag na fydd pob safle o'r math hwn yn addas ar gyfer pob math o ddatblygiad.

3.44 Lle bo angen safleoedd ond y dangoswyd yn glir nad oes tir sydd eisoes wedi'i ddatblygu neu safleoedd sy'n cael eu tanddefnyddio (yn yr awdurdod neu mewn awdurdod cyffiniol), dylid ystyried safleoedd maes glas addas a chynaliadwy o fewn anheddau neu ar eu cyrion. I ystyried safleoedd yn y cefn gwlad agored, gan gynnwys aneddiadau newydd, rhaid i'r amgylchiadau fod yn eithriadol a bodloni'r ystyriaethau uchod a pharagraff 3.50 isod. Wrth gynnal y broses chwilio a nodi tir datblygu, rhaid cydymffurfio'n llwyr â gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol perthnasol yn gyfan.

3.45 Ni ddylai'r dystiolaeth i ddynodi ardaloedd a safleoedd datblygu gael ei chyfyngu i ffiniau'r awdurdod lleol. Dylai'r dewis adlewyrchu amodau go iawn fel y farchnad dai, ardaloedd teithio i'r gwaith, dalgylchoedd adwerthol a natur y gweithgarwch neu'r datblygiad ei hun. Bydd hynny'n sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o dir sydd eisoes wedi'i ddatblygu gan osgoi defnyddio safleoedd maes glas. Bydd archwiliad y CDLl yn craffu ar y mater hwn.

3.46 Bydd angen dewis lleoliad a safleoedd ar sail dealltwriaeth o amodau economaidd ac amodau'r farchnad. Dylid ystyried a oes angen ymyriadau penodol gan y sector cyhoeddus a/neu breifat, megis strategaethau adfywio neu gyllid, i helpu i gyflawni'r strategaeth a chynigion datblygu penodol.

3.47 Rhoddir rhagor o wybodaeth ynghylch dewis lleoliad safleoedd addas isod, gan gynnwys ystyriaethau o ran mynediad, darparu seilwaith ategol, yr hierarchaeth drafnidiaeth, rheoli'r ffurf drefol ac ansawdd tir amaethyddol. Yn sail i'r dewis o leoliad fydd elfennau manwl amrywiol o bolisi a nodir yn y ddogfen hon a bydd yn cynnwys dewis lleoliadau cydnerth sy'n ymgorffori ystyriaethau fel hinsawdd sy'n newid, bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol, defnyddio adnoddau'n gynaliadwy a diogelu iechyd, amwynder a lles cymunedau.

3.48 Dylai strategaethau gofodol ategu Egwyddorion Cynllunio Allweddol a chyfrannu at Ganlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy. Dylent gydnabod y gyd-ddibyniaeth rhwng gwlad a thref gan wella drwy hynny y cysylltiadau rhwng yr ardaloedd trefol a'u cyffiniau gwledig.

## Hygyrchedd

3.49 Dylai strategaethau gofodol gefnogi'r nod o leihau'r angen i deithio, lleihau'r ddibyniaeth ar y car preifat ac annog pobl i gerdded a beicio mwy a defnyddio mwy ar gludiant cyhoeddus. Dylai strategaethau gofodol adlewyrchu strategaeth cynllunio a thrafnidiaeth integredig sy'n ystyried yr ystyriaethau trafnidiaeth a ddisgrifir ym mhennod 4, Lleoedd Actif a Chymdeithasol, a'r ystyriaethau seilwaith trafnidiaeth a ddisgrifir ym mhennod 5, Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus.

3.50 Dylid hyrwyddo cydbwysedd cyffredinol rhwng tai, cyfleusterau cymunedol, gwasanaethau a chyfleoedd gwaith mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd er mwyn lleihau'r angen i gymudo o hirbell. Dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu polisïau i leoli'r prif gyfleusterau sy'n ysgogi galw am deithio fel tai, cyflogaeth, manwerthu, cyfleusterau hamdden a chwaraeon, a chyfleusterau cymunedol, (sy'n cynnwys llyfrgelloedd, ysgolion, meddygfeydd ac ysbytai), mewn ardaloedd trefol presennol neu mewn ardaloedd sydd, neu a allai fod, o fewn cyrraedd hawdd ar droed neu ar feic, ac sydd â gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus da.

3.51 Dylid annog dwysfeydd uwch mewn canolfannau trefol neu wrth gyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus mawr i greu'r mas critigol o bobl i gynnal gwasanaethau fel trafnidiaeth gyhoeddus, siopau lleol ac ysgolion.

3.52 Dylai awdurdodau cynllunio ailasesu safleoedd datblygu sy'n hygyrch iawn drwy ddulliau heblaw ceir a'u neilltuo ar gyfer defnyddiau dwys o ran teithio fel swyddfeydd, mannau siopa, hamdden, ysbytai a thai sy'n ddigon dwys i lawn ddefnyddio potensial y safle o ran hygyrchedd. Yn achos safleoedd sy'n annhebygol o gael eu gwasanaethu'n dda gan gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, dylid peidio â'u neilltuo ar gyfer eu datblygu.

## Aneddiadau Newydd

3.53 Oherwydd eu natur strategol dim ond fel rhan o CDLl ar y cyd, CDS neu Cymru'r Dyfodol y dylid cynnig aneddiadau newydd, gan fod eu arwyddocâd a'u heffaith yn ymestyn tu hwnt i ddim ond un awdurdod lleol.

3.54 Ni ddylid cynnig aneddiadau newydd oni bai bod datblygiad o'r fath yn cynnig manteision amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sylweddol o'u cymharu ag ehangu neu adfywio aneddiadau presennol a lle byddai'r gwaith o ddarparu nifer fawr o gartrefi yn cael ei gefnogi gan yr holl gyfleusterau, swyddi a gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl i greu Man Cynaliadwy. Mae angen iddynt fod yn hunangynhwysol ac nid yn drefi noswylio sy'n ymestyn tu hwnt i ardaloedd trefol mwy. Cyn ymgartrefu yno, dylid eu cysylltu â thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n rhedeg yn aml ac ymgorffori seilwaith cymdeithasol hanfodol gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd, gofal iechyd, siopau a chyfleoedd gwaith. Mae hyn yn bwysig i sicrhau nad yw aneddiadau newydd yn troi'n ystadau tai ynysig lle bo angen defnyddio'r car i fynd i gyfleusterau pob dydd.

## Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen

3.55 Dylid defnyddio tir gafodd ei ddatblygu o'r blaen (tir llwyd fel y'i gelwir, gweler y diffiniad trosodd), lle medrir, yn lle safleoedd maes glas os yw'n addas datblygu arno. Mewn aneddiadau, fel arfer, ystyrir bod tir o'r fath yn addas ar gyfer datblygiad priodol lle byddai ei ailddefnyddio'n hyrwyddo egwyddorion cynaliadwyedd a bod modd trechu unrhyw gyfyngiadau. Cydnabyddir fodd bynnag nad yw pob tir sydd wedi cael ei ddatblygu o'r blaen yn addas ar gyfer ei ddatblygu. Gallai hynny fod, er enghraifft, am fod ei leoliad yn anaddas, bod rhywogaeth brin neu gynefin gwerthfawr neu dreftadaeth ddiwydiannol yn bresennol neu am ei fod yn llygredig iawn. Ar gyfer safleoedd fel y rhain, efallai y byddai'n briodol adfer y tir ar gyfer cadwraeth natur neu werth amwynder neu i leihau'r perygl i iechyd pobl. Ambell waith, ni fydd modd cynnal dibenion sensitif ar dir sydd wedi'i ddatblygu o'r blaen heb osod cyfyngiadau diangen ar fusnesau a gweithgareddau cyffiniol sydd ag angen y lleoliad penodol hwnnw arnyn nhw. O dan yr amgylchiadau hynny, bydd yr egwyddor asiant dros newid[15] yn ystyriaeth berthnasol.

3.56 Dylai awdurdodau cynllunio weithio gyda thirfeddianwyr i sicrhau bod safleoedd sy'n addas eu lleoliad ac sydd wedi'u datblygu o'r blaen yn cael eu cyflwyno ar gyfer datblygiad ac i sicrhau ymagwedd gydlynol at eu datblygiad. Er mwyn cymell ailddefnydd priodol o dir a ddatblygwyd o'r blaen, dylai awdurdodau cynllunio gymryd yr awenau trwy ystyried a nodi'r ymyriadau penodol gan y sector cyhoeddus a/neu breifat y bydd eu hangen i helpu i gyflawni hyn. Bydd hyn fel arfer yn cefnogi mentrau adfywio a dyraniadau tir mewn cynlluniau datblygu a bydd yn cynnwys yr angen i godi ymwybyddiaeth o risgiau fel rhan o strategaeth dadrisgio effeithiol. Gall hyn lywio datblygiad asesiadau risg a strategaethau adfer ar y lefel sy'n addas i ddiogelu datblygiadau newydd rhag y risgiau iechyd ac amgylcheddol yn sgil defnyddiau blaenorol y tir, megis halogiad, hen weithfeydd mwyn neu hen safleoedd tirlenwi.

## Defnyddio Pwerau Prynu Gorfodol

3.57 Anogir Awdurdodau Cynllunio i gymryd camau priodol i ddatgloi potensial datblygu safleoedd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i'r awdurdod brynu tir er mwyn hwyluso datblygiad, ailddatblygiad neu welliannau. Os yn bosibl, dylid gwneud hyn â chytundeb y tirfeddiannwr. Pan na ellir dod i gytundeb o'r fath, dylai awdurdodau cynllunio ystyried defnyddio'r ystod lawn o bwerau sydd ar gael iddynt. Dylai hyn gynnwys, pan fo angen, defnyddio pwerau prynu gorfodol i gyflwyno tir a/neu adeiladau ar gyfer diwallu anghenion datblygu yn eu hardal a/neu i sicrhau canlyniadau datblygu gwell lle y gellir dangos achos grymus er budd y cyhoedd sy'n drech na'r budd preifat a gollir.

[15] Gweler y diffiniad ym Mhennod 6.

## Diffiniad o Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen

Ystyr tir a ddatblygwyd o'r blaen yw tir lle mae neu lle roedd strwythur parhaol (ac eithrio adeiladau amaethyddol neu goedwigaeth) a seilwaith wyneb sefydlog cysylltiedig. Mae cwrtil (gweler nodyn 1 isod) y datblygiad wedi'i gynnwys, ynghyd ag adeiladau amddiffyn a thir a ddefnyddiwyd i gloddio am fwynau a gwaredu gwastraff (gweler nodyn 2 isod) lle nad oes darpariaeth ar gyfer adfer wedi'i gwneud trwy weithdrefnau rheoli datblygu.

Mae'r canlynol wedi'u hepgor o'r diffiniad::

- tir ac adeiladau sy'n cael eu defnyddio at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth ar hyn o bryd;
- tir nad yw wedi'i ddatblygu o'r blaen, er enghraifft, parciau, meysydd hamdden, cyrsiau golff a rhandiroedd, er y gall yr ardaloedd hyn gynnwys nodweddion trefol megis llwybrau, pafiliynau ac adeiladau eraill;
- tir lle mae olion unrhyw strwythur neu weithgarwch wedi dod yn rhan o'r dirwedd dros amser fel y gellir ystyried yn rhesymol ei fod yn rhan o'r amgylchedd naturiol;
- tir sy'n gyfoethog ei rywogaethau a'i fioamrywiaeth ac a allai fod yn 'gynefin adran 7' neu gael ei glustnodi fel tir ag iddo werth cadwraeth natur; a
- thir a ddatblygwyd o'r blaen sydd wedi'i roi at ddefnydd amwynder.

### Nodiadau:

1. Mae cwrtil y safle yn cael ei ddiffinio fel tir a ddatblygwyd o'r blaen hefyd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylai holl ardal y cwrtil gael ei hailddatblygu. Er enghraifft, os bydd olion adeilad ond yn cwmpasu cyfran o safle, a bod gweddill y safle'n dir agored (megis ysbyty), fel arfer ni ddylai'r safle i gyd gael ei ddatblygu i ffin y cwrtil. Dylai'r awdurdod cynllunio wneud dyfarniad ynghylch cynllun y safle yn y cyd-destun hwn, gan gofio ystyriaethau cynllunio eraill megis polisïau i warchod mannau agored, caeau chwarae neu ddatblygiad yng nghefn gwlad. Dylent ystyried ffactorau megis sut mae'r safle'n ymwneud â'r byd o'i gwmpas a gofynion ar gyfer mannau agored, lleiniau clustogi ac ardaloedd wedi'u tirlunio.
2. Mae hyn yn ymwneud â mwynau a safleoedd gwastraff na fyddent yn cael eu hadfer ar ôl eu defnyddio fel arall gan nad oedd y caniatâd cynllunio a oedd yn eu caniatáu yn cynnwys amod adfer. Bydd pob safle arall o'r fath yn cael ei adfer i statws safle maes glas yn sgil amod cynllunio. Dylid cydnabod fodd bynnag na cheid adeiladu datblygiad adeiledig ar safleoedd tirlenwi amheryglus heb fuddsoddiad sylweddol a gwaith monitro tymor hir.
3. Gall gwerth o ran cadwraeth natur gael ei bennu drwy asesiadau Seilwaith Gwyrdd (gweler Pennod 6).

### Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas

3.58 Tir amaethyddol o radd 1, 2 a 3a yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC)[16] yw'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, a dylid ei warchod fel adnodd y mae terfyn iddo ar gyfer y dyfodol.

3.59 Wrth ystyried y drefn chwilio ac ym mholisïau'r cynllun datblygu a'r penderfyniadau rheoli datblygu, dylid rhoi cryn bwys ar ddiogelu tir o'r fath rhag ei ddatblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig. Ni ddylid datblygu tir o raddau 1, 2 a 3a, onid oes angen sy'n drech na dim arall am y datblygiad, ac os nad oes tir a ddefnyddiwyd o'r blaen neu dir o raddau amaethyddol is ar gael, neu os oes gan y tir o radd amaethyddol is werth amgylcheddol a gydnabyddir drwy ddynodiad tirwedd, bywyd gwyllt, hanesyddol neu archeolegol, a bod hynny'n drech na'r ystyriaethau amaethyddol. Os oes angen datblygu tir o raddau 1, 2 neu 3a, a bod dewis rhwng safleoedd o wahanol raddau, dylid cyfeirio'r datblygiad at y tir o'r radd isaf.

[16] www.llyw.cymru/dosbarthiad-tir-amaethyddol

## Datblygu yng Nghefn Gwlad

3.60 Dylid lleoli datblygiadau yng nghefn gwlad o fewn a gerllaw'r aneddiadau lle gellir eu lleoli orau o ran seilwaith, mynediad a gwarchod cynefinoedd a gwarchod y dirwedd. Gall mewnlenwi neu estyniadau bach i aneddiadau cyfredol fod yn dderbyniol, yn enwedig os yw'n diwallu angen lleol am dai fforddiadwy neu y gellir dangos y bydd y cynnig yn cynyddu gweithgarwch economaidd yn yr ardal. Fodd bynnag, mae'n rhaid parhau i reoli gwaith adeiladu newydd yn gaeth mewn cefn gwlad agored nad yw ger aneddiadau cyfredol neu ardaloedd a ddyrannwyd ar gyfer datblygu mewn cynlluniau datblygu. Dylai pob datblygiad newydd barchu cymeriad yr ardal o ran ei faint a'i ddyluniad.

## Seilwaith Ategol

3.61 Er mwyn gallu sicrhau cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, mae darparu seilwaith digonol ac effeithlon, gan gynnwys gwasanaethau fel addysg ac iechyd ynghyd â thrafnidiaeth, cyflenwad dŵr, carthffosydd, rheolaeth gynaliadwy ar wastraff, trydan a nwy (y defnyddolion) a thelathrebu, yn hanfodol. Mae'n sylfaenol ar gyfer cystadleurwydd a chyfleoedd economaidd i aelwydydd a busnesau allu sicrhau ffyrdd o fyw a gweithio sy'n gymdeithasol ac amgylcheddol ddymunol. Gall seilwaith gwael neu yn y lle anghywir waethygu problemau yn hytrach na'u datrys.

3.62 Dylai awdurdodau cynllunio, mewn cydweithrediad â darparwyr allweddol, fynd i'r afael â darparu seilwaith mewn ffordd strategol a thymor hir yn eu cynlluniau datblygu. Gallai hynny olygu cydweithio rhwng awdurdodau lleol a darparwyr seilwaith allweddol i sicrhau bod y seilwaith a ddarperir yn gynaliadwy, yn addas i'r diben a bod modd ei gydgysylltu a'i amseru i gefnogi'r dyheadau ar gyfer creu lleoedd.

3.63 Wrth leoli datblygiad, dylid gofalu y gall seilwaith presennol neu arfaethedig ei wasanaethu'n dda. Â siarad yn gyffredinol, bydd hynny'n golygu gwneud y gorau o'r seilwaith sy'n bod eisoes neu ystyried sut y gellid trefnu darparu seilwaith yn effeithiol i gefnogi cynlluniau datblygu. Dylai'r seilwaith a ddewisir gefnogi datgarboneiddio, lleoedd sydd wedi'u cysylltu'n gymdeithasol ac economaidd a defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.

## Rheoli Ffurf Aneddiadau – Lleiniau Glas a Lletemau Glas

3.64 O gwmpas trefi a dinasoedd, efallai bod angen diogelu tir agored rhag ei ddatblygu. Gellir gwneud hynny trwy ffurfio Lleiniau Glas a/neu ddynodiadau lleol fel lletemau glas. Rhaid bod gan bob cynnig am Lain Las neu Letem Las sail cadarn ac ni ddylid eu defnyddio nes bod angen amlwg i ddiogelu'r ffurf trefol ac na fyddai mecanweithiau polisi eraill, fel ffiniau aneddiadau, yn ddigon cadarn. Y gwahaniaeth allweddol rhyngddynt yw y dylai tir mewn Llain Las gael ei ddiogelu am gyfnod hwy na chyfnod y cynllun datblygu presennol perthnasol, tra dylid adolygu polisïau lletemau glas fel rhan o'r broses o adolygu'r cynllun datblygu.

3.65 Prif nod **Lleiniau Glas** yw atal blerdwf trefol trwy gadw tir yn agored yn barhaol; nodweddion allweddol Lleiniau Glas yw eu natur agored a pharhaol.



3.66 Oherwydd eu natur strategol, bydd gan Leiniau Glas arwyddocâd y tu hwnt i un awdurdod lleol a dylent ond cael eu cynnig fel rhan o CDLl ar y cyd, CDS neu Cymru'r Dyfodol.

3.67 Diben Lleiniau Glas yw:

- atal trefi mawr a dinasoedd rhag cyfuno ag aneddiadau eraill;
- rheoli'r ffurf trefol drwy gadw rheolaeth ar ehangiad ardaloedd trefol;
- helpu i ddiogelu cefn gwlad rhag ymlediad aneddiadau trefol;
- diogelu pryd a gwedd ardal drefol; a
- helpu i adfywio trefi drwy roi anogaeth i ailddefnyddio tir diffaith a thir trefol arall.

3.68 Mae lletemau glas yn ddynodiadau lleol gyda'r un pwrpas yn eu hanfod â Lleiniau Glas. Gellid eu defnyddio fel clustog rhwng ymyl yr anheddiad a dynodiadau statudol a diogelu golygfeydd pwysig i mewn i'r ardal ac allan ohoni. Dylid cynnig ac adolygu lletemau glas fel rhan o broses y CDLl.

3.69 Mae'r polisïau cyffredinol sy'n rheoli datblygu yng nghefn gwlad yn berthnasol mewn Llain Las a lletem las ond, yn ogystal â hynny, ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn datblygiadau sy'n amhriodol yng nghyd-destun dibenion y dynodiad. Mae Lleiniau Glas a lletemau glas yn gallu cael effeithiau buddiol eraill, gan gynnwys darparu mynediad i gefn gwlad a chyfleoedd chwaraeon a hamdden. Fodd bynnag, nid yw i ba raddau y mae'r defnydd o'r tir yn cyflawni'r amcanion hyn yn ffactor perthnasol wrth bennu a ddylai tir gael ei gynnwys mewn Llain Las neu letem las.

3.70 Dylid dewis ffiniau Lleiniau Glas a lletemau glas yn ofalus, drwy ddefnyddio nodweddion a ffiniau ffisegol, er mwyn cynnwys dim mwy na'r tir hwnnw y mae angen ei gadw'n agored yn y tymor hwy. Ni ddylai ffiniau Lleiniau Glas gael eu newid oni bai bod amgylchiadau eithriadol a chan ystyried eu natur barhaol hirdymor fwriedig. Dylai ffurf ofodol Lleiniau Glas fod yn briodol i'r lleoliad ac ni fydd angen ei hymestyn o reidrwydd mewn cylch parhaus o gwmpas ardal drefol.

3.71 Er mwyn cadw natur agored yr ardal, rhaid i ddatblygiadau mewn Llain Las a lletem las gael eu rheoli'n llym. Wrth gynnwys polisïau Lleiniau Glas a lletemau glas yn eu cynlluniau, rhaid i awdurdodau cynllunio ddangos pam na fyddai polisïau rheoli cynllunio a datblygu arferol yn darparu'r diogelwch angenrheidiol.

3.72 Wrth ystyried dynodi Llain Las, dylid sicrhau bod digon o dir datblygu mewn lleoliad addas mewn perthynas â'r ffiniau trefol presennol ar gael, gan gofio'r angen am dir datblygu yn y tymor hwy, effeithiau pwysau datblygu mewn ardaloedd y tu hwnt i'r Llain Las a'r angen i leihau'r galw i deithio. Efallai y bydd angen diogelu tir, a rhaid i ffiniau Lleiniau Glas arfaethedig fod wedi'u diffinio'n ofalus i gyflawni hyn.

3.73 Wrth ystyried ceisiadau am ganiatâd cynllunio mewn Lleiniau Glas neu letemau glas, bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol. Dylid rhoi pwys mawr ar unrhyw effaith niweidiol y byddai datblygiad yn ei chael ar ddibenion dynodiad Llain Las neu letem las. Dylid llunio polisïau i amlinellu'r amgylchiadau pan fyddai datblygiad yn cael ei ganiatáu yn yr ardaloedd hyn lle bydd natur agored y Llain Las neu'r letem las yn cael ei chynnal.

3.74 Ni ddylid rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiad amhriodol ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol lle mae'n amlwg bod ystyriaethau eraill yn bwysicach na'r difrod y byddai datblygiad o'r fath yn ei wneud i'r Llain Las neu'r lletem las. Dylai polisïau Lleiniau Glas a lletemau glas mewn cynlluniau datblygu sicrhau na fydd unrhyw geisiadau am ddatblygiad amhriodol yn cyd-fynd â'r cynllun. Byddai'r achosion eithriadol hyn felly'n cael eu trin fel gwyriadau o'r cynllun.

3.75 Mae adeiladu adeiladau newydd mewn Llain Las neu mewn lletem las a ddynodwyd yn lleol yn ddatblygiad amhriodol oni bai ei fod at y dibenion canlynol:

- anghenion menter gwledig y gellir eu cyfiawnhau;
- cyfleusterau hanfodol ar gyfer chwaraeon a hamdden awyr agored, mynwentydd, a defnydd arall o dir sy'n cynnal natur agored y Llain Las neu'r lletem las ac nad yw'n gwrthdaro â'r diben o gynnwys tir ynddo;
- ehangu neu addasu cyfyngedig ar anheddau cyfredol neu ddisodli cyfyngedig; neu
- arallgyfeirio ar raddfa fach ar safleoedd fferm pan gynhelir hyn fel rhan o fusnes y fferm.

3.76 Nid yw ailddefnyddio adeiladau mewn Llain Las neu lletem las yn ddatblygiad amhriodol cyn belled bod:

- yr adeilad gwreiddiol yn sylweddol, yn barhaol ac yn gallu cael ei newid heb ailadeiladu mawr;
- na fydd y defnydd newydd yn cael mwy o effaith ar natur agored y Llain Las neu'r lletem las a dibenion cynnwys tir ynddi. Bydd angen rheolaeth gadarn dros y gwaith ehangu, addasu neu unrhyw ddefnydd cysylltiedig o dir ar gyfer adeiladau a ailddefnyddir; ac
- yr adeilad yn cyd-fynd â'r hyn sydd o'i amgylch.

3.77 Gallai rhai mathau eraill o ddatblygiad fod yn amhriodol yn y Llain Las neu'r lletem glas oni bai ei fod yn cynnal ei natur agored ac nad yw'n gwrthdaro â'r dibenion o gynnwys tir ynddi. Y mathau hynny yw:

- echdynnu mwynau;
- cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- gwaith peirianyddol; a
- seilwaith trafnidiaeth lleol.

3.78 Byddai rhai mathau eraill o ddatblygiad yn amhriodol yn y Llain Las neu'r lletem glas oni bai ei fod yn cynnal ei natur agored ac nad yw'n gwrthdaro â'r dibenion o gynnwys tir ynddi.

# 4 Lleoedd Actif a Chymdeithasol

## Lleoedd Actif a Chymdeithasol a Llesiant

Mae thema Lleoedd Actif a Chymdeithasol yn cynnwys yr elfen o greu lleoedd sy'n ymwneud â chymunedau cydlynol gyda chysylltiadau da. Mae'r elfen hon yn ategu elfennau'r themâu Cynhyrchiol a Mentrus ac Unigryw a Naturiol a chyda'i gilydd, mae'r tair thema'n cyfrannu at ganlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae'r canlyniadau hyn yn gweithio gyda'i gilydd fel cyfanwaith, gan roi pwyslais ar y Canlyniadau Actif a Chymdeithasol.

Lleoedd Actif a Chymdeithasol yw'r rhai sy'n hyrwyddo ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol drwy ddarparu cymunedau cydlynol gyda chysylltiadau da i bob sector o gymdeithas. Mae lleoedd actif a chymdeithasol yn cyfrannu at saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y ffyrdd canlynol.

Gellir hyrwyddo Cymru Lewyrchus drwy ddatblygu seilwaith modern a chysylltiedig i alluogi pawb i gael ansawdd bywyd da drwy fyw mewn cymunedau cryf a diogel, gyda mynediad i swyddi da. Bydd gan leoliad a dyluniad datblygiadau newydd, yn enwedig tai, rôl sylweddol o ran dylanwadu ar sut a ble mae pobl yn byw. Er enghraifft, mae cael cartrefi fforddiadwy o ansawdd da yn cael ei ystyried yn sylfaen i fyw'n dda sy'n dod ag ystod eang o fanteision i iechyd, dysgu a ffyniant.

Mae Cymru Gydnerth yn cael ei chefnogi drwy ddiogelu cymunedau ac amgylcheddau naturiol presennol gan hyrwyddo seilwaith a chyfleusterau gyda chysylltiadau da yn agosach at ble mae pobl yn byw. Mae tai da, mynediad i wasanaethau, mannau gwyrdd a chyfleusterau cymunedol i gyd yn cyfrannu at greu'r amodau cywir ar gyfer iechyd a llesiant gwell.





Gellir cyflawni Cymru Iachach drwy leihau allyriadau a llygredd aer trwy leihau'r angen i deithio a sicrhau cymaint o ddarpariaeth o ddulliau teithio cynaliadwy â phosibl. Gellir ei gyflawni hefyd trwy wella mynediad i wasanaethau, cyfleoedd diwylliannol, mannau gwyrdd a chyfleusterau hamdden i gynorthwyo pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw. Gyda'i gilydd, bydd y dulliau hyn yn cyfrannu at greu'r amodau cywir ar gyfer iechyd a llesiant gwell a mwy o weithgarwch corfforol.

Gellir cyflawni Cymru sy'n fwy cyfartal drwy gydnabod cryfderau cymunedau presennol a sicrhau datblygiadau cymdeithasol gynhwysol fel eu bod yn llefydd mwy dymunol i fyw a gweithio ynddynt i holl aelodau cymdeithas.

Er mwyn meithrin Cymunedau Cydlynus bydd angen i ddatblygiadau fod â chysylltiadau da, gyda phwyslais ar hyrwyddo datblygiad defnydd cymysg hygyrch, sy'n cynnwys cyfuniadau priodol o gyfleoedd am dai, cyflogaeth, manwerthu, cymunedol, diwylliannol a hamdden.

Cefnogir Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu trwy sefydlu'r amodau lle gall cymunedau cynaliadwy ffynnu. Mae diwylliant a'r Gymraeg yn gwneud cyfraniad nodedig at fywiogrwydd cymunedau.

Mae Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang yn cael ei hyrwyddo drwy leoli a chynllunio datblygiadau sy'n lleihau hyd teithiau bob dydd ac yn cefnogi dulliau teithio cynaliadwy a fydd yn eu tro yn lleihau ein hôl-troed carbon. Er enghraifft, mae lleoli datblygiadau tai newydd o fewn aneddiadau presennol yn galluogi pobl i fanteisio ar deithiau byrrach i weithleoedd, ardaloedd manwerthu a gwasanaethau cymunedol eraill drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus.

Dylai cynigion datblygu ystyried y tymor hir a sut y gallant fod yn hyblyg i addasu i faterion ac anghenion y dyfodol.

Dylai datblygiadau newydd atal problemau rhag digwydd neu waethygu fel prinder tai fforddiadwy, dibyniaeth ar geir preifat a chynhyrchu allyriadau carbon.

Dylid integreiddio datblygiadau i sicrhau bod materion yn cael eu hystyried yn gyfannol a bod manteision lluosog yn cael eu nodi, fel seilwaith gwyrdd a mannau hamdden wedi'u cynllunio'n dda.

Dylai awdurdodau lleol gydweithio i gynllunio'u cymunedau ac esgor ar y canlyniadau cynllunio gorau.

Wrth gynllunio ein cymunedau mae angen datblygu polisïau a chynigion drwy gynnwys asiantaethau a chymunedau eraill er mwyn sicrhau bod materion ac anghenion lleol yn cael eu cydnabod er mwyn iddynt gael eu derbyn yn fwy eang.

## Tueddiadau a Materion Actif a Chymdeithasol

Bydd angen mynd i'r afael â'r tueddiadau a'r materion sy'n berthnasol i thema Actif a Chymdeithasol, yn unigol ac mewn ffordd integredig drwy fabwysiadu'r canlyniadau creu lleoedd. Bydd rhai tueddiadau'n fuddiol a dylid eu hwyluso drwy'r system gynllunio. Mae'n rhaid herio tueddiadau neu gylchoedd negyddol a chwilio am ymddygiad a chanlyniadau mwy cynaliadwy yn eu lle. Mae'n rhaid meithrin newid yn y ffordd mae pawb sy'n rhan o'r broses gynllunio yn ymateb, ar lefel strategol ac wrth lunio a chynllunio cynigion unigol.

Mae'r prif dueddiadau a materion yn cynnwys:

- sicrhau bod digon o dir ar gael i godi tai arno i ddiwallu'r angen am dai newydd fforddiadwy ac ar y farchnad brefiat;
- hwyluso amrywiaeth a dewis o dai i ymateb i'r newid mewn angen am dai, fel y cynnydd sylweddol mewn cartrefi pobl sengl y disgwylir iddo godi dros y 20 mlynedd nesaf;
- helpu i ddarparu cymunedau cydlynus a fydd yn diwallu anghenion ac sy'n hygyrch i holl aelodau cymdeithas, yn cynnwys pobl hŷn;

- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng cymunedau a darparu mwy o wasanaethau'n nes adref, gan gydnabod pwysigrwydd cymunedau cynhwysol a'r amgylchedd ehangach ar gyfer iechyd a llesiant da;
- gwella mynediad i wasanaethau, cyfleoedd diwylliannol a chyfleusterau hamdden i gynorthwyo pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw sy'n llawn yn ddiwylliannol fydd yn helpu i wella eu hiechyd a llesiant;
- lleihau'r ddibyniaeth ar y car preifat ac effeithiau andwyol trafnidiaeth fodurol ar yr amgylchedd ac iechyd pobl, trwy roi blaenoriaeth i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ac annog pobl i'w defnyddio.
- sicrhau bod ein seilwaith trafnidiaeth yn gallu addasu i ddatblygiadau mewn arloesedd y dyfodol fel prif-ffrydio cerbydau trydan neu ddyfodiad posibl cerbydau di-yrrwr yn y 10-15 mlynedd nesaf; a
- sicrhau bod canolfannau manwerthu a masnachol yn gallu addasu i dueddiadau manwerthu'r dyfodol, fel y cynnydd parhaus mewn siopa ar y we, fel y gallant barhau i ddiwallu anghenion eu cymunedau lleol.

## Cysylltiadau Actif a Chymdeithasol

Gall pynciau polisi'r thema Lleoedd Actif a Chymdeithasol gydweithio i greu cymunedau cynaliadwy a chydlynus drwy bolisïau cynlluniau datblygu, gan gynnwys dyraniadau penodol, a phenderfyniadau rheoli datblygu.

Bydd polisïau'n gwneud y canlynol yn benodol:

- galluogi mynediad cynaliadwy i dai, cyflogaeth, siopa, addysg, iechyd, cymuned, cyfleusterau hamdden a chwaraeon a seilwaith gwyrdd, gan fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol a lles cymdeithasol;
- sicrhau bod pob cymuned yn gallu cael mynediad at amrywiaeth o gartrefi fforddiadwy effeithlon o ran ynni sydd wedi'u lleoli a'u cynllunio'n dda er mwyn diwallu anghenion y gymuned;
- datblygu seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy i sicrhau bod Cymru'n parhau i symud a chysylltu pobl â swyddi, tai a hamdden. Dylai lleoliadau a ddewisir ar gyfer datblygiadau newydd a'u dyluniad helpu i leihau'r ddibyniaeth ar y car preifat at ddibenion teithio pob dydd, cefnogi dullliau teithio cynaliadwy a helpu i wella'r amgylchedd, iechyd y cyhoedd a bywyd y gymuned;
- ei gwneud yn amod bod datblygiadau'n annog pobl i newid eu dulliau teithio a'u bod yn rhwydd eu cyrraedd ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, diolch i'w lleoliad a'u dyluniad a'r seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy sydd wedi'i ddarparu ar y safle ac oddi arno;
- gwireddu potensial seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy newydd i greu canolfannau gweithgarwch newydd neu wedi'u hadnewyddu er mwyn cefnogi cymunedau cynaliadwy sy'n manteisio ar eu lleoliad a'r cyfleoedd sy'n deillio ohono;
- manteisio ar ein canolfannau manwerthu a masnachol presennol fel canolfannau gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd ac fel canolbwynt amrywiaeth eang o wasanaethau eraill sy'n cefnogi anghenion cymunedau lleol a'u dalgylchoedd ehangach; a
- hyrwyddo a gwarchod diwylliant a'r iaith Gymraeg a hybu a gwella llesiant cymdeithasol ac iechyd trwy gynnig cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, profiadau diwylliannol a gweithgarwch corfforol.

## Cyflwyniad

4.0.1 Mae thema Lleoedd Actif a Chymdeithasol o fewn polisi cynllunio'n cwmpasu trafnidiaeth, tai, datblygiadau manwerthu a masnachol, cyfleusterau cymunedol a mannau hamdden.

4.0.2 Mae'r thema'n cefnogi ac yn galluogi darparu amrywiaeth o gartrefi sydd wedi'u dylunio a'u lleoli'n dda ac sydd â chysylltiad da â chanolfannau manwerthu a masnachol sy'n bodoli'n barod yng nghanol ein cymunedau, a chyfleoedd gwaith. Fel mae'r adran hon yn ei bwysleisio, pan fydd awdurdodau cynllunio yn cynllunio ac yn rheoli datblygiadau'r dyfodol, bydd rhaid iddynt sicrhau bod gan drigolion cymunedau sydd eisoes yn bodoli a chymunedau newydd fynediad i swyddi ac amrywiaeth briodol o gyfleusterau cymunedol gan gynnwys hamdden, iechyd ac addysg. Mae'n hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachol fel hybiau, ar gyfer gweithgareddau amrywiol, gan gydnabod eu pwysigrwydd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Mae'n cydnabod arwyddocâd cyfleusterau cymunedol a mannau ar gyfer hamdden er budd iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd, ac mae'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnyddiau hyn yn unol â'r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol cyffredinol.

4.0.3 Amcan y thema hon yw sicrhau bod datblygiadau'n cael eu lleoli a'u dylunio mewn ffordd sy'n lleihau'r angen i deithio, yn lleihau'r ddibyniaeth ar y car preifat ac yn darparu cyswllt hygyrch â gwaith, gwasanaethau lleol a chyfleusterau cymunedol. Gwnir hyn trwy integreiddio datblygiadau â seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy a dylunio cynlluniau yn y fath fodd a fydd yn cynyddu'r hyn a ddarperir a'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy, gan gynnwys rhoi blaenoriaeth i'r moddau hyn dros geir preifat.

## Symud o fewn a rhwng llefydd

### 4.1 Trafnidiaeth[17][18]

4.1.1 Dylai'r system gynllunio alluogi pobl i gael mynediad i swyddi a gwasanaethau drwy deithiau byrrach a mwy effeithlon ar droed, beic a thrafnidiaeth gyhoeddus. Trwy ddylanwadu ar leoliad, graddfa, dwysedd, cymysgedd defnyddiau a dyluniad datblygiadau newydd, mae'r system gynllunio yn gallu ehangu'r dewis o ran trafnidiaeth a sicrhau hygyrchedd mewn ffordd sy'n hybu datblygu cynaliadwy, cynyddu gweithgarwch corfforol, gwella iechyd a helpu i fynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd a llygredd sy'n cael ei gludo yn yr aer drwy:

- Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio. Nid mater o rwystro teithio yw hyn yn unig. Mae'n fater hefyd o gynllunio ar gyfer gwella cysylltiadau ffisegol a digidol i bobl allu cael at wasanaethau mwy lleol, a gallu gweithio gartref a gweithio o bell fwy. Os gall mwy o bobl gerdded a seiclo ar gyfer eu teithiau bob dydd, byddwn yn lleihau'n dibyniaeth ar y car.
- Rhoi'r gallu i bobl a nwyddau fynd yn rhwydd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithiol. I wneud hyn, bydd angen i ni fuddsoddi mewn gwasanaethau cludiant dibynadwy, effeithiol a fforddiadwy y mae pobl am eu defnyddio, yn gallu'u defnyddio ac yn eu defnyddio. Mae angen seilwaith cludiant ar y gwasanaethau hyn. Byddwn yn sicrhau bod ein seilwaith cludiant yn ddiogel, yn hygyrch, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn gallu addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
- Lle bydd angen seilwaith cludiant newydd arnom, byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy i roi blaenoriaeth i ateb y galw am deithio trwy gerdded, seiclo a thrafnidiaeth gyhoeddus cyn cerbydau modur preifat.

[17] Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-18-trafnidiaeth
[18] Gweler hefyd Seilwaith Trafnidiaeth yn y Bennod Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus.

- Annog pobl i newid a defnyddio trafnidiaeth mwy cynaliadwy. Er mwyn gallu taro ein targedau newid hinsawdd, bydd angen i bobl deithio'n wahanol. Mae hynny'n golygu ei gwneud hi'n haws iddynt wneud y peth iawn. Gwnawn hynny trwy wneud trafnidiaeth gynaliadwy carbon isel yn fwy deniadol a mwy fforddiadwy a thrwy fabwysiadu pethau newydd.

4.1.2 Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru[19] Llwybr Newydd', yn darparu'r fframwaith polisi strategol ar gyfer gweithgareddau yn ymwneud â thrafnidiaeth yng Nghymru. Mae'n nodi ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer trafnidiaeth, ein dyheadau dros yr 20 mlynedd nesaf, yn ogystal â blaenoriaethau pum mlynedd.

4.1.3 Mae Llwybr Newydd yn nodi'r fframwaith strategol ar gyfer dwy haen o gynlluniau trafnidiaeth:

- **Y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth(NTDP)**[20] Caiff prosiectau, cynlluniau, mentrau neu ymyriadau penodol eu rhestru mewn NTDP pum mlynedd manwl lle nodir gwariant yn unol â blaenoriaethau'r Strategaeth a chan gynnwys prosiectau sydd eisoes wedi dechrau. Bydd hefyd yn cefnogi Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040, yn ategu Cynllun Buddsoddi Cymru mewn Seilwaith a chaiff ei adolygu bob pum mlynedd. Bydd yr NTDP yn cymryd lle Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015 (a'i ddiweddariadau yn 2017 a 2018)
- **Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol** – dogfennau statudol a fydd yn cael eu datblygu gan Gyd-Bwyllgorau Corfforaethol i droi uchelgeisiau a blaenoriaethau Llwybr Newydd yn realiti. Bydd y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (y Gogledd, y Canolbarth, y De-ddwyrain a'r De-orllewin) yn cymryd lle'r Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol (a gymeradwywyd yn 2015).

4.1.4 Dylid integreiddio cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth. Mae'n rhaid i'r system gynllunio sicrhau ei bod yn hwyluso integreiddio:

- oddi mewn a rhwng gwahanol fathau o drafnidiaeth;
- rhwng mesurau trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir;
- rhwng mesurau trafnidiaeth a pholisïau i ddiogelu a gwella'r amgylchedd; a
- rhwng mesurau trafnidiaeth a pholisïau ar gyfer addysg, iechyd, cynhwysiant cymdeithasol a chreu cyfoeth.

### Strategaethau Cynllunio a Thrafnidiaeth Integredig

4.1.5 Cynlluniau datblygu yw'r prif gyfrwng i integreiddio cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth. Rhaid iddynt esbonio amcanion trafnidiaeth yr awdurdod, y modd y mae'r polisïau trafnidiaeth yn ategu amcanion eraill y cynllun a sut y bydd y cynllun datblygu (gan gynnwys ei ddyraniadau tir a'i bolisïau) yn cefnogi trafnidiaeth gynaliadwy.

4.1.6 Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio gynnwys strategaeth gynllunio a thrafnidiaeth integredig yn eu cynlluniau datblygu. Dylai hon egluro sut y bydd yr awdurdod cynllunio yn:

- integreiddio a chydgysylltu trafnidiaeth gynaliadwy a chynllunio defnydd tir;
- hwyluso a hybu hygyrchedd i bawb;
- gwella cysylltedd ffisegol a digidol;
- lleihau'r angen i deithio;
- lleihau'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat;
- blaenoriaethu a chefnogi cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus;
- annog mwy o ddefnydd ar gerbydau isel iawn eu hallyriadau;
- lleihau llygredd aer sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth; a

[19] www.llyw.cymru/strategaeth-drafnidiaeth
[20] Cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer trafnidiaeth 2022 i 2027 | LLYW.CYMRU

- helpu i ddarparu seilwaith trafnidiaeth a'r gwelliannau a'r datblygu angenrheidiol i drafnidiaeth gynaliadwy.

4.1.7 Mae'n rhaid i'r strategaeth gynllunio a thrafnidiaeth integredig lywio'r strategaeth ofodol a strategaeth gyffredinol y cynllun datblygu. Mae angen i strategaethau a pholisïau'r cynllun datblygu fod yn gyson â strategaethau a pholisïau'r Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol / Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, Mapiau'r Rhwydwaith Teithio Llesol, Llwybr Newydd a'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol. Hefyd, dylai cynlluniau datblygu ystyried cynlluniau ac adroddiadau eraill sy'n berthnasol i drafnidiaeth.

4.1.8 Dylai Cydbwyllgorau Corfforaethol, a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2020, sicrhau bod y Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd yn cael eu hintegreiddio a'u datblygu ar y cyd er mwyn cynllunio ar gyfer defnydd strategol o dir a materion trafnidiaeth ar lefel ranbarthol.

### Trafnidiaeth Gynaliadwy


4.1.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau'r ddibyniaeth ar y car preifat a chefnogi newid i ddulliau teithio fel cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd hynny'n gyfraniad pwysig at ddatgarboneiddio, gwella ansawdd aer, cynyddu gweithgarwch corfforol, gwella iechyd y wlad a gwireddu amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

4.1.10 Mae gan y system gynllunio ran ganolog i'w chwarae i leihau'r angen i deithio, ac i gefnogi trafnidiaeth gyhoeddus trwy hwyluso datblygiadau sydd:

- yn cael eu lleoli yn y mannau iawn, lle mae'n hawdd defnyddio dulliau teithio cynaliadwy heb fod angen car;
- yn cael eu dylunio mewn ffordd sy'n eu hintegreiddio â'r defnydd a wneir o'r tir ar hyn o bryd ac â chymdogaethau; ac
- sy'n ei gwneud yn bosib mynd ar deithiau byr yn y datblygiad a thu hwnt yn rhwydd ar droed ac ar feic.

4.1.11 Dylai cynigion sicrhau bod datblygiadau mor hwylus â phosibl i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus trwy roi blaenoriaeth i ddarparu seilwaith addas ar y safle a lle bo angen, lliniaru effeithiau trafnidiaeth trwy ddarparu mesurau oddi ar y safle hefyd, fel llwybrau teithio llesol, seilwaith sy'n rhoi blaenoriaeth i fysiau a chymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Yn bwysig, dylid blaenoriaethu seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth gynaliadwy a'u rhoi ar waith o'r cychwyn cyntaf, cyn i bobl symud i mewn a chyn i batrymau teithio gael eu sefydlu.

Ffigur 9: Yr Hierarchaeth Drafnidiaeth Gynaliadwy ym maes Cynllunio




4.1.12 Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio hierarchaeth drafnidiaeth gynaliadwy mewn datblygiadau newydd sy'n rhoi blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus ar draul cerbydau modur preifat. Mae'r hierarchaeth drafnidiaeth yn cydnabod bod gan Gerbydau Allyriadau Isel Iawn ran bwysig i'w chwarae o ran datgarboneiddio trafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig sy'n brin eu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.

4.1.13 Dylid defnyddio'r hierarchaeth drafnidiaeth i leihau'r angen i deithio, i rwystro datblygiadau sy'n ddibynnol ar geir mewn mannau anghynaliadwy ac i gefnogi cynlluniau y ceir seilwaith i'w cefnogi ac sy'n rhoi blaenoriaeth i drafnidiaeth gynaliadwy a llesol.

4.1.14 Rhaid i'r hierarchaeth drafnidiaeth gynaliadwy fod yn egwyddor allweddol wrth baratoi cynlluniau datblygu, gan gynnwys wrth ddyrannu safleoedd ac wrth ystyried a phenderfynu ar geisiadau cynllunio.

4.1.15 Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus mewn cynlluniau datblygu wrth ddyrannu safleoedd newydd sy'n debygol o esgor ar lefelau arwyddocaol o symudiad er mwyn sicrhau bod darpariaethau mynediad sy'n galluogi pobl i gerdded a beicio yn ogystal ag ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu cynnwys o'r dechrau a bod modd mynd i'r afael â goblygiadau sy'n gysylltiedig â llygredd yr aer.

4.1.16 Cydnabyddir y bydd yn rhaid ystyried ffactorau trafnidiol eraill, fel cerbydau gwasanaethu yn nyluniad cynlluniau, a mesurau eraill i gefnogi trafnidiaeth gynaliadwy fel datgarboneiddio trafnidiaeth gyhoeddus a theithio amlfoddol.

4.1.17 Bydd angen mynd i'r afael â thrafnidiaeth gyhoeddus mewn ffyrdd gwahanol mewn ardaloedd gwahanol yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a bydd angen i ddatblygiadau newydd adlewyrchu amgylchiadau lleol. Er enghraifft, gallai awdurdod cynllunio sydd am weld pentref gwledig yn tyfu, er nad oes ganddo fawr o gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, droi at yr hierarchaeth drafnidiaeth trwy: yn gyntaf ystyried sut y gallai lleoliad a dyluniad datblygiad newydd annog pobl i gerdded a beicio i siopau a gwasanaethau yng

nghanol y pentref; yna ystyried a ellid lleoli datblygiad newydd ger arhosfan fysiau neu alluogi gwelliannau i'r gwasanaeth bysiau; cyn ystyried yn olaf beth yw anghenion crebydau preifat, a allai gynnwys mesurau i annog defnydd o Gerbydau Allyriadau Isel Iawn.

4.1.18 Os oes angen, dylai Datganiadau Dylunio a Mynediad ddangos sut mae'r hierarchaeth drafnidiaeth wedi'i hystyried yn y broses ddylunio.

### Strydoedd Llesol a Chymdeithasol

4.1.19 Mae strydoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda ac sy'n rhoi pobl yn gyntaf yn allweddol i greu mannau cynaliadwy a chael mwy o bobl i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Dylai datblygiadau newydd wella ansawdd lle a chreu strydoedd diogel, cymdeithasol a deniadol lle mae pobl am gerdded, beicio a mwynhau ynddynt, a lle gall plant chwarae. Er mwyn sicrhau bod strydoedd yn lleoedd mwy diogel a deniadol i bobl, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno 20mya fel y cyfyngiad cyflymder diofyn newydd ar gyfer y rhan fwyaf o strydoedd ac mae'n cymryd mesurau i atal pobl rhag parcio eu ceir ar y pafin.

4.1.20 Mae'n rhaid i ddyluniad a diwyg strydoedd roi blaenoriaeth uchel i'w rôl fel mannau cyhoeddus ac i ddiwallu anghenion cerddwyr, seiclwyr a defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus yn unol â'r hierarchaeth drafnidiaeth. I greu strydoedd sy'n fannau cymdeithasol, mae angen i'r lle cyhoeddus fod yn ddiogel a deniadol a rhaid i draffig orfod teithio'n araf ar gyflymder o 20mya neu lai arnynt.

4.1.21 Yn ogystal â chreu amgylchedd dymunol, gall seilwaith gwyrdd sydd wedi'i integreiddio'n dda, fel SUDS, coed stryd ac ymylon glas roi nifer o fanteision eraill inni gan gynnwys hidlo llygredd, oeri trefi, rheoli dŵr a chreu cynefinoedd. Dylid cynnwys nodweddion o'r fath wrth ddylunio stryd.

4.1.22 § Mae polisi Llywodraeth Cymru, y Llawlyfr Strydoedd, a'r canllaw sy'n cyd-fynd ag ef, Llawlyfr Strydoedd 2[21], yn ei gwneud yn ofynnol nad yw dyluniad stryd yn dilyn y pwyslais confensiynol ar beirianneg. Dylai dyluniad strydoedd newydd neu well adlewyrchu egwyddorion dylunio trefol, gan gynnwys y rheini yn y Llawlyfr Strydoedd a Chanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol[22], a pheidio â chadw'n haearnaidd at y safonau. Mae Design Bulletin 32: Residential Roads and Footpaths wedi cael ei ddisodli gan y Llawlyfr Strydoedd.

4.1.23 Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau bod dyluniad strydoedd yn creu lleoedd o safon uchel a bydd hynny'n gofyn am weithio amddisgyblaethol. Dylent herio cynigion datblygu sydd â chynlluniau strydoedd safonol, cyfarwyddol, sy'n canolbwyntio ar beirianneg ac osgoi risgiau.

4.1.24 Mewn ardaloedd preswyl mae Parthau Cartrefi yn ffordd o gynllunio strydoedd i arafu cyflymder traffig cerbydau a rhoi blaenoriaeth i bobl dros gerbydau. Dylai awdurdodau lleol ystyried defnyddio pwerau sydd ar gael o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000 i ddynodi Parthau Cartrefi.

4.1.25 Dylai datganiadau dylunio a mynediad ddangos sut mae cynllun strydoedd newydd neu wella strydoedd wedi ystyried egwyddorion dylunio trefol, gan gynnwys yr arweiniad yn y Llawlyfr Strydoedd a'r Canllaw Dylunio Teithio Llesol.

### Teithio Llesol

4.1.26 Mae cerdded a beicio yn dda i'n hiechyd a'n llesiant. Maent yn cefnogi cyfleoedd cymdeithasol a hamdden pwysig, ac yn hollbwysig i'r broses o greu lleoedd gan ddod â bywyd a gweithgarwch i fannau cyhoeddus a darparu cyfle i gyfarfod â phobl. Mae lleoedd cynaliadwy yn gwahodd pobl i gerdded a beicio fel rhan o'u bywyd bob dydd.

[21] Llawyfr Strydoedd www.llyw.cymru/llawlyfr-strydoedd-strydoedd-preswyl
[22] Canllawiau Ddeddf Teithio Llesol | LLYW.CYMRU Polisi Cynllunio Cymru | Rhifyn 10

4.1.27 Nod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013[23] yw sicrhau mai cerdded a beicio yw'r dewis sy'n cael ei ffafrio ar gyfer teithiau byrrach, yn enwedig teithiau bob dydd, fel yn ôl ac ymlaen o'r gweithle neu sefydliad addysg, neu er mwyn defnyddio gwasanaethau neu gyfleusterau iechyd, hamdden ac ati. Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio Mapiau'r Rhwydwaith Teithio Llesol sy'n nodi'r llwybrau cerdded a beicio sydd eu hangen i greu rhwydwaith integredig llawn ar gyfer cerdded a beicio i gyrraedd y gwaith, addysg, gwasanaethau a chyfleusterau.

4.1.28 Ategir Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 gan ganllawiau statudol[24]. Mae'r canllawiau'n disgrifio'r safonau a ddisgwylir mewn seilwaith teithio llesol newydd a gwell yng Nghymru, gan gynnwys y cyfleusterau cysylltiedig a'r ffactorau eraill y dylid eu hystyried wrth ddewis dyluniad ar gyfer llwybr neu safle penodol. Mae'n disgrifio opsiynau effeithiol ar gyfer cynllunio rhwydweithiau cerdded a beicio gan gynnwys arfau archwilio i asesu seilwaith ac addasrwydd llwybrau arfaethedig.

4.1.29 Mae gan y system gynllunio ran bwysig i'w chwarae o ran hyrwyddo a chefnogi'r Ddeddf Teithio Llesol a chreu'r amodau a'r seilwaith cywir i'w gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio, gan gynnwys llwybrau newydd a llwybrau wedi'u gwella a chyfleusterau cysylltiedig.

4.1.30 Mae datblygiad newydd yn cynyddu'r pwysau ar y seilwaith a'r rhwydwaith trafnidiaeth ac mae lleoliad, diwyg a dyluniad datblygiad yn gallu effeithio ar y pellter y mae pobl yn ei deithio a sut mae pobl yn teithio. Gallai datblygu rhwydweithiau teithio llesol lleol helpu i leihau effaith y datblygiad newydd, trwy gynnig ffyrdd o deithio nad ydynt yn dibynnu ar geir preifat, yn enwedig ar gyfer teithiau byr. Rhaid i deithiau llesol fod yn rhan hanfodol o bob cynllun datblygu a rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu dylunio a'u hintegreiddio o fewn aneddiadau a rhwydweithiau presennol mewn ffordd sy'n gwneud teithio llesol yn ddewis ymarferol, diogel a deniadol. Fel a ddisgrifir ym mharagraff 4.1.11, dylid gosod seilwaith teithio llesol yn fuan mewn datblygiad a chyn i bobl symud i mewn i fyw ynddo, er mwyn cefnogi patrymau teithio llesol ac iach o'r cychwyn.

4.1.31 Rhaid i awdurdodau cynllunio gefnogi teithio llesol drwy sicrhau bod datblygiadau newydd yn hwyluso cerdded a beicio. Yr amcan yw creu cymdogaethau lle mae amrywiaeth o gyfleusterau o fewn pellter cerdded y rhan fwyaf o drigolion a lle mae'r strydoedd yn ddiogel, yn gyfforddus ac yn bleserus i gerdded a beicio arnynt.

4.1.32 Rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau bod tai, swyddi, siopau, cyfleusterau hamdden a gwasanaethau newydd yn hygyrch iawn ar droed ac ar feic. Yn unol â'r hierarchaeth drafnidiaeth, dylid dechrau dylunio cynigion datblygu drwy nodi'r cysylltiadau cerdded a beicio byrraf a mwyaf atyniadol cyn mynd i'r afael â'r anghenion trafnidiaeth eraill. Mae rhagor o ganllawiau ar hyn ar gael yn y ddogfen Llawlyfr Strydoedd a'r Canllawiau Teithio Llesol Statudol.

4.1.33 Rhaid i gynlluniau datblygu nodi, cefnogi a diogelu llwybrau a rhwydweithiau teithio llesol, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu nodi yn y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Teithio Llesol. Wrth ddewis safleoedd datblygu ar gyfer y dyfodol, dylid rhoi blaenoriaeth i safleoedd y gellid cysylltu llwybrau teithio llesol neu rwydweithiau'r dyfodol yn rhwydd â nhw. Dylai datblygiadau newydd gael eu hintegreiddio â rhwydweithiau teithio llesol a chyfrannu at eu hehangu a'u gwella trwy ymgorffori llwybrau a chyfleusterau sydd wedi'u dylunio'n

[23] Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 www.legislation.gov.uk/anaw/2013/7/contents
[24] Canllawiau Ddeddf Teithio Llesol | LLYW.CYMRU

dda fel rhan o'r cynlluniau a chynnwys cyfraniadau ariannol i dalu am gysylltiadau oddi ar y safle. Hefyd, dylai awdurdodau cynllunio helpu i gwblhau'r rhwydwaith beicio cenedlaethol a chysylltiadau allweddol â'r rhwydwaith. Os oes modd, dylai'r mesurau hyn gyd-fynd â sicrhau seilwaith gwyrdd. Dylai awdurdodau cynllunio chwilio am gyfleoedd i wella'r cysylltedd rhwng cynefinoedd, peidio â darnio cynefinoedd a sicrhau manteision ehangach seilwaith gwyrdd ar hyd y rhwydweithiau trafnidiaeth. Dylid ystyried y mesurau hyn fel rhan o'r Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd.

4.1.34 Wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau bod cynigion datblygu, trwy eu seilwaith dylunio ac ategol, yn rhoi blaenoriaeth i ddarparu ar gyfer hygyrchedd a symudiad ar droed a beic ac o wneud, cynyddu eu cyfraniad at amcanion y Ddeddf Teithio Llesol.

4.1.35 Rhaid i ddatblygiadau newydd ddarparu lefelau priodol o gyfleusterau newid a mannau parcio diogel, integredig, cyfleus a hygyrch ar gyfer seiclwyr. Yn ogystal â darparu mannau parcio beiciau ger cyrchfannau a chyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus, rhaid ystyried hefyd ble bydd pobl yn gadael eu beic gartref. Ceir arweiniad ar barcio beiciau yng Nghanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol. Ond caiff awdurdodau cynllunio ddewis mabwysiadu safonau a chanllawiau lleol penodol gofynnol ar gyfer parcio beiciau.

### Trafnidiaeth Gyhoeddus

4.1.36 Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn bwysig i le cynaliadwy. Mae'n golygu bod pobl yn gallu cwblhau teithiau canolig a hir heb ddibynnu ar gar. Dylai'r system gynllunio hwyluso hyn drwy leoli datblygiadau mewn ardaloedd sydd â thrafnidiaeth gyhoeddus dda, neu a allai fod â thrafnidiaeth gyhoeddus dda. Hefyd, mae dyluniad, diwyg, dwysedd a chymysgedd defnyddiau lle yn sylfaenol i gynnal gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ac annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

4.1.37 Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio gyfeirio datblygiadau i leoliadau sy'n fwyaf hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus. Dylent sicrhau bod safleoedd datblygu y mae modd eu cyrraedd yn hawdd ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu defnyddio ar gyfer dibenion dwys o ran teithio, fel tai, swyddi, siopa, hamddena a gwasanaethau, gan ailbennu eu defnydd os oes angen. Mewn ardaloedd gwledig, dylai awdurdodau cynllunio ddynodi canolfannau gwasanaeth lleol, neu glystyrau o aneddiadau lle gellir dangos cysylltiad ymarferol cynaliadwy, a'u nodi fel y lleoliadau a ffefrir ar gyfer datblygiad newydd.

4.1.38 Rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau bod diwyg, dwysedd a chymysgedd defnyddiau datblygiadau newydd yn cefnogi'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus ac yn cynnig cymaint o botensial â phosibl o ran hygyrchedd. Yn arbennig, dylid annog datblygiadau dwysedd uwch a datblygiad defnydd cymysg mewn ardaloedd y gellir eu cyrraedd yn hawdd ar drafnidiaeth gyhoeddus. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd angen ystyried goblygiadau llygredd yn yr aer yn ofalus, gan gynnwys yr angen i daro targedau datgarboneiddio.

4.1.39 Dylai awdurdodau cynllunio ystyried a yw'r gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn ddigon mawr i wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn opsiwn teithio deniadol ac ymarferol i drigolion a defnyddwyr sy'n teithio i ac o safleoedd datblygu. Dylent ystyried hefyd a oes angen lliniaru effaith y symudiadau a lleihau cyfran y tripiau mewn ceir y byddai'r datblygiad yn esgor arnynt. Os nad oes modd rhoi datblygiad ar waith heb wella gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, rhaid cynnwys polisi priodol



yn y cynllun datblygu a rhaid sicrhau cyfraniadau ariannol trwy amodau cynllunio a/neu rwymedigaethau cynllunio. Fel yr amlinellir ym mharagraff 4.1.11, dylid rhoi seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus newydd ar waith ar gam cynnar wrth ddatblygu, a chyn i'r bobl sy'n byw yno symud i mewn, er mwyn cefnogi patrymau teithio cynaliadwy o'r cychwyn cyntaf.

### Cerbydau Allyriadau Isel Iawn

4.1.40 Mae'r strategaeth[25] a'r cynllun gweithredu[26], ar gyfer gwefru cerbydau trydan yn disgrifio sut y bydd Llywodraeth Cymru'n darparu'r seilwaith gwefru sydd ei angen erbyn 2050, gan gynnwys cynhyrchu a storio ynni adnewyddadwy. Mae angen mynd i'r afael â hyn mewn ffordd gydlynol ar draws sectorau a chydnabyddir rôl y system gynllunio yn hyn o beth.

4.1.41 I annog y defnydd o Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEVau), dylai'r system gynllunio annog a chefnogi darparu pwyntiau gwefru ar eu cyfer fel rhan o ddatblygiad newydd. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer datblygiadau nad ydynt yn ddatblygiadau preswyl.

4.1.42 Dylid cynllunio ar gyfer darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan wrth ddylunio datblygiad a dylent gynyddu manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y datblygiad hwnnw. Rhaid sicrhau nad yw'r pwyntiau gwefru'n creu rhwystr i gerddwyr a seiclwyr, eu bod yn gallu gwrthsefyll fandaliaid a'u lleoli mewn mannau golau a hawdd eu gweld. Rhaid i'r seilwaith gwefru ddefnyddio ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n bosibl. Bydd cynlluniau ynni rhanbarthol, gweler adran 5.9, yn helpu seilwaith gwefru a ddarperir gan awdurdodau lleol.

[25] Strategaeth gwefru cerbydau trydan ar gyfer Cymru | LLYW.CYMRU
[26] Strategaeth gwefru cerbydau trydan ar gyfer Cymru: cynllun gweithredu | LLYW.CYMRU

### Rheoli'r Traffig

4.1.43 Mae Deddf Lleihau Traffig Ffyrdd 1997[27] yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi adroddiad sy'n asesu'r traffig ar y ffyrdd y maent yn awdurdod priffyrdd lleol drostynt a rhagolwg o'r newidiadau a ddisgwylir yn y lefelau traffig. Dylai'r adroddiad hefyd gynnwys targedau ar gyfer gostwng lefelau traffig ffyrdd lleol neu gyfradd twf y lefelau hynny.

4.1.44 Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio geisio lleihau lefel a chyflymder y traffig mewn datblygiad newydd, gan gynnwys sicrhau bod strydoedd wedi'u dylunio i gael cyfyngiad cyflymder o 20 mya neu lai. Dylid cyflawni hyn, yn y lle cyntaf, drwy ddylunio'r strydoedd yn dda, gan roi ystyriaeth i ddiwyg yr adeiladau a'r gofodau.

4.1.45 Mae'r Llawlyfr Strydoedd a'r Canllawiau Dylunio Teithio Llesol yn rhoi cyngor ar sut i ostwng cyflymder a nifer cerbydau modur. Mae hynny'n cynnwys creu rhwydweithiau ffyrdd cysylltiedig ac athraidd (permeable), gan hidlo'r athreiddedd er mwyn rhoi blaenoriaeth i gerddwyr a seiclwyr a rhoi ystyriaeth ddwys i faterion fel diwyg a dimensiwn y stryd, a dyluniad a lleoliad troedffyrdd (gan gynnwys troedffyrdd di-dor ar ochr strydoedd), croesfannau, parcio, coed, potiau a deunydd arwyneb.

4.1.46 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol fabwysiadu dull gweithredu integredig o reoli traffig. Dylent ystyried sut y gall mesurau gwahanol ategu ei gilydd a chyfrannu at gyflawni amcanion cynllunio a thrafnidiaeth ehangach, gan gynnwys y Ddeddf Teithio Llesol a lleihau cysylltiad pobl â llygredd aer a sŵn, gan ystyried anghenion pobl anabl a phobl sy'n llai abl i symud.

4.1.47 Mae'n rhaid i'r cynllun datblygu gynnwys polisïau rheoli traffig priodol. Dylai'r polisïau hyn ategu'r hyn a wneir i gyrraedd targedau lleihau traffig ffordd lleol ac unrhyw dargedau cenedlaethol sy'n cael eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Lleihau Traffig Ffyrdd (Targedau Cenedlaethol) 1998[28].

4.1.48 Mewn cymdogaethau trefol a gwledig sefydledig, dylid mabwysiadu newidiadau i ddyluniad strydoedd er mwyn gwella'r amgylchedd stryd a hyrwyddo diogelwch ar y ffordd ond mewn ardaloedd datblygu newydd, dylid ymgorffori mesurau arafu traffig o'r cychwyn. Dylai'r mesurau rheoli traffig fod yn gydnaws â chymeriad yr ardal ond gan arafu'r traffig a sicrhau gwelliannau amgylcheddol ac o ran diogelwch.

4.1.49 Dylai Datganiadau Dylunio a Mynediad ddangos sut y bydd dyluniad a diwyg y datblygiad yn lleihau lefel a chyflymder y traffig i lefelau priodol ac yn ymateb i'r arweiniad yn Llawlyfr y Stryd a Chanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.

### Parcio Ceir

4.1.50 Mae darpariaeth parcio ceir yn ddylanwad mawr ar sut mae pobl yn dewis teithio a'r patrwm datblygu. Hefyd, gall ble a sut y mae ceir yn cael eu parcio fod yn ffactor fawr o ran ansawdd lle.

4.1.51 Dylid sicrhau mai trwy ddylunio y mae mynd i'r afael â darparu mannau parcio ceir, er mwyn sicrhau bod lefel briodol o'r mannau parcio ceir wedi'i hintegreiddio mewn ffordd nad yw'n dominyddu'r datblygiad. Dylai'r mannau parcio adlewyrchu'r cyd-destun lleol, gan gynnwys hygyrchedd i drafnidiaeth gyhoeddus, egwyddorion dylunio trefol a'r amcan i leihau'r ddibyniaeth ar y car preifat a chefnogi pobl i newid eu dull teithio o blaid cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Rhaid i awdurdodau cynllunio gefnogi cynlluniau sy'n cadw lefelau parcio ar eu

[27] Deddf Lleihau Traffig y Ffyrdd 1997 www.legislation.gov.uk/ukpga/1997/54/contents
[28] Deddf Lleihau Traffig y Ffyrdd (Targedau Cenedlaethol) 1998 www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/24/contents

hisaf, yn enwedig parcio oddi ar y stryd, os ydyn nhw wedi'u dylunio'n dda. Mae'n rhaid cydnabod anghenion pobl anabl a darparu lleoedd parcio digonol ar eu cyfer.

4.1.52 Rhaid i awdurdodau cynllunio fynnu safonau da wrth ddylunio mannau parcio rhag i gerbydau ddominyddu'r stryd a chreu anghyfleustra i bobl sy'n cerdded neu'n beicio. Mae hyn yn cynnwys atal pobl rhag parcio eu ceir ar y pafin drwy ddyluniad strydoedd. Dylid sicrhau bod eiddo oddi amgylch yn edrych dros y mannau parcio, er mwyn darparu gwyliadwriaeth naturiol.

4.1.53 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu strategaeth barcio integredig er mwyn cefnogi polisïau trafnidiaeth a lleoliadol cyffredinol y cynllun datblygu. Dylai awdurdodau lleol ystyried materion parcio ar y cyd â'r awdurdodau cyfagos. Ar y cyd, dylent bennu lefelau parcio uchaf ar gyfer categorïau bras o ddatblygiadau, ynghyd â throthwy ar sail maint datblygiad. Dylai'r safonau uchaf gael eu pennu mewn cydweithrediad â sefydliadau â buddiant. Bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod eu safonau parcio yn adlewyrchu darpariaeth trafnidiaeth leol, bod awdurdodau unigol yn eu mabwysiadu fel canllawiau cynllunio ategol, a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Dylai safonau parcio fod yn hyblyg a chaniatáu ar gyfer darparu llai o fannau parcio a chreu lleoedd o ansawdd uchel.

4.1.54 Gall mannau parcio preifat nad ydynt ar gyfer preswylwyr fod yn elfen bwysig o'r ddarpariaeth barcio yng nghanol trefi. Lle bo hynny'n briodol, dylai'r awdurdodau geisio annog ailddatblygu mannau parcio preifat, neu eu hailddefnyddio, er mwyn lleihau'r ddarpariaeth a gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer meysydd parcio preifat a chyhoeddus nad ydynt yn cwrdd â nodau strategol y cynllun datblygu a'r Cydgynllun Trafnidiaeth Lleol / Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

4.1.55 Fel rhan o'r dull cyffredinol o ymdrin â pharcio, dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'u polisïau codi tâl ar gyfer parcio ar y stryd a pharcio oddi ar y stryd, pan fo ganddynt reolaeth dros hynny, i ategu eu polisïau ar ddefnydd tir a hyrwyddo'r defnydd o gerbydau trydan.

### Asesiadau Trafnidiaeth

4.1.56 Mae Asesiadau Trafnidiaeth yn ddull pwysig o bennu graddfa'r effeithiau y mae disgwyl i ddatblygiad, neu ailddatblygiad, arfaethedig eu cael. Maent yn helpu i ragweld effeithiau'r datblygiad er mwyn gallu'u deall a darparu ar eu cyfer.

4.1.57 Rhaid amgáu Asesiad Trafnidiaeth gyda cheisiadau cynllunio am ddatblygiadau, gan gynnwys newid defnydd, sy'n perthyn i gategorïau a nodir yn TAN 18: Trafnidiaeth.[29] Hefyd, mewn ardaloedd lle mae'r rhwydwaith trafnidiaeth yn hynod sensitif, dylai awdurdodau cynllunio ystyried gofyn am Asesiadau Trafnidiaeth ar gyfer datblygiadau sydd y tu allan i'r trothwy a bennwyd yn TAN 18. Gall yr awdurdod cynllunio ofyn am Asesiadau Trafnidiaeth ar gyfer unrhyw ddatblygiad arfaethedig os yw'n credu bod cyfiawnhad dros hynny neu os oes angen penodol. Asesiadau Trafnidiaeth yw sylfaen trafodaethau ar fanylion cynlluniau, gan gynnwys y lefelau parcio, mesurau i wella mynediad i gerddwyr, seiclwyr a defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus, a mesurau i gyfyngu neu leihau lefelau llygredd aer a llygredd sŵn. Dylent ymdrin ag effeithiau trafnidiaeth wrth adeiladau'r datblygiad yn ogystal ag ar ôl ei adeiladu ac wrth ei ddefnyddio. Mae Asesiadau Trafnidiaeth yn sylfaen pwysig hefyd ar gyfer paratoi Cynlluniau Teithio. Ceir rhagor o ganllawiau ar Asesiadau Trafnidiaeth a Chynlluniau Teithio yn TAN 18.

[29] Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-18-trafnidiaeth

## Byw Mewn Lle

### 4.2 Tai

4.2.1 Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio ddeall holl agweddau'r farchnad dai yn eu hardal, a fydd yn cynnwys y gofyn am dai, y cyflenwad o dai a'r tai ddarperir. O ganlyniad, bydd modd i awdurdodau cynllunio ddatblygu polisïau tai'r farchnad agored a thai fforddiadwy ar sail tystiolaeth yn eu cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau rheoli datblygu ar sail tystiolaeth sy'n canolbwyntio ar greu a gwella Lleoedd Cynaliadwy. Dylai datblygiadau tai newydd mewn ardaloedd trefol a gwledig gynnwys cymysgedd o fathau, deiliadaeth, a meintiau tai'r farchnad agored a thai fforddiadwy i ddiwallu'r amrywiaeth o anghenion tai dynodedig a chyfrannu at ddatblygu cymunedau cynaliadwy a chydlynus.

4.2.2 Rhaid i'r system gynllunio:

- nodi cyflenwad o dir i helpu i fodloni'r gofyniad tai a diwallu anghenion gwahanol cymunedau ledled pob deiliadaeth;
- sicrhau bod modd darparu amrywiaeth o dai'r farchnad agored a thai fforddiadwy sydd wedi'u dylunio'n dda, yn effeithlon o ran ynni ac o ansawdd da a fydd yn helpu i greu lleoedd cynaliadwy; a
- chanolbwyntio ar fodloni'r gofyniad am dai a'r cyflenwad tir cysylltiedig.

#### Gofyniad Tai

4.2.3 Fel rhan o broses y cynllun datblygu, rhaid i awdurdodau cynllunio ddeall eu marchnad dai leol a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y gofyn am dai yn eu hardal dros gyfnod y cynllun. Wrth baratoi a chydgysylltu cynlluniau datblygu a strategaethau tai lleol, dylid mabwysiadu dull cydweithredol â chynrychiolwyr tai a chynllunio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac mewn cymunedau.

4.2.4 Os yw ardaloedd marchnadoedd tai yn croesi ffiniau awdurdodau lleol, mae'n rhaid i awdurdodau ystyried goblygiadau posibl gydag awdurdodau cyfagos a chydweithio wrth lunio eu gofynion tai a nodi safleoedd ar gyfer tai. Mae monitro'r materion hyn yn effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol a chyson o dir dichonadwy ar gyfer tai ar gael i fodloni'r gofyniad dynodedig gydol cyfnod y cynllun. Mae'n rhaid sicrhau bod y gofyn am dai sydd wedi'i nodi gan yr awdurdod cynllunio yn ymarferol a bod modd ei fodloni.

4.2.5 Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio nodi'r gofyniad tai yn glir yn eu cynllun datblygu. Rhaid i'r gofynion hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth a mynegi'n glir nifer tai'r farchnad agored a thai fforddiadwy y bydd eu hangen yn yr ardal dros gyfnod y cynllun ym marn yr awdurdod cynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio fynd ati i gynllunio ar gyfer cymysgedd o fathau o dai'r farchnad agored a thai fforddiadwy i fodloni'r gofyniad, gan ystyried anghenion gwahanol eu cymunedau; dylai hyn gynnwys gofynion tai pobl hŷn a phobl ag anableddau. Rhaid ystyried materion lleol, fel nifer yr ail gartrefi a llety gosod tymor byr sydd mewn ardal benodol wrth ddatblygu'r gofyniad am dai fforddiadwy a thai'r farchnad agored ac a yw'r dystiolaeth yn cyfiawnhau polisi lleol penodol i gefnogi hyfywedd cymunedau. Gallai hynny gynnwys er enghraifft cyflwyno cap neu derfyn ar nifer yr ail gartrefi neu lety gosod tymor byr.

4.2.6 Bydd yr Amcanestyniadau Aelwydydd lefel awdurdod lleol diweddaraf i Gymru gan Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDLl) diweddaraf, a'r cynllun Llesiant ar gyfer ardal y cynllun, yn rhan sylfaenol o'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer y cynlluniau datblygu. Dylid ystyried y rhain ynghyd â thystiolaeth allweddol arall mewn perthynas â materion fel beth mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni, cysylltiadau

rhwng tai a swyddi, yr angen am dai fforddiadwy, ystyriaethau'r Gymraeg, ac ymarferoldeb y cynllun er mwyn nodi strategaeth briodol ar gyfer darparu tai yn ardal y cynllun. Rhaid rhoi ystyriaeth briodol hefyd i'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach mewn cynllun datblygu er mwyn sichrau y caiff lleoedd cynaliadwy a chymunedau cydlynus eu creu.

4.2.7 Mae amcanestyniadau aelwydydd yn amcangyfrif nifer yr aelwydydd yn y dyfodol ac maent yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a rhagdybiaethau yn ymwneud ag aelodau a nodweddion aelwydydd. Bydd elfennau penodol o'r amcanestyniadau, fel genedigaethau a marwolaethau, yn aros yn gymharol gyson gydol cyfnod y cynllun. Fodd bynnag, mae elfennau eraill, fel cyfraddau natur yr aelwyd a mudo, yn gallu dylanwadu ar ganlyniadau yn sylweddol. Mae angen i awdurdodau cynllunio asesu a yw elfennau gwahanol yr amcanestyniadau yn briodol i'w hardal, ac os nad ydynt, dylent wneud gwaith modelu, ar sail tystiolaeth gadarn, i nodi dewisiadau amgen.

4.2.8 Dylai'r awdurdodau cynllunio a thai perthnasol weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol, gan gynnwys adeiladwyr tai preifat, i lunio AFDLl[30]. Mae'r asesiadau hyn yn galluogi awdurdodau i ddatblygu dealltwriaeth fanwl o natur a lefel y gofyn a'r angen am dai'r farchnad agored a thai fforddiadwy yn eu cymunedau.

4.2.9 Mewn partneriaeth â'r gymuned, gan gynnwys y sector preifat, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisïau i fodloni'r heriau a'r amgylchiadau hynny sy'n benodol i'w hardaloedd. Os oes angen i'r polisïau hyn wyro o'r polisïau cenedlaethol er mwyn diwallu anghenion penodol lleol am dai ar y farchnad agored na chyfyngir fel rheol ar feddiannaeth, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol roi tystiolaeth glir a chadarn i gefnogi hynny. Gallai'r cyfiawnhad fod yn ymwneud, er enghraifft, â chyflenwad tir, effeithiau amgylcheddol neu gymdeithasol, gan gynnwys nifer yr ail gartrefi a llety gosod tymor byr, naill ar eu pen eu hunain neu fel cyfuniad o ffactorau. Gellid cael tystiolaeth o astudiaethau lleol fel cynlluniau llesiant lleol neu astudiaethau sy'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cynllun datblygu, yn enwedig yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Dylai'r dystiolaeth nodi effeithiau ail gartrefi a llety gosod tymor byr ar gymunedau penodol. Byddai'r Arfarniad Cynaliadwyedd, gan gynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth a allai ddarparu cyfiawnhad dros wyro o'r polisi cenedlaethol.

4.2.10 Lle bo tystiolaeth leol gadarn wedi nodi bod ail gartrefi a llety gosod tymor byr yn effeithio ar y gymuned, gallai awdurdodau cynllunio ystyried dulliau cynllunio lleol cydgysylltiedig. Gallai hynny gynnwys enwi'n benodol safleoedd mewn cynlluniau datblygu ar gyfer cartrefi newydd y cyfyngir eu defnydd i fod yn brif neu unig breswylfa neu i'r farchnad dai leol (gweler paragraff 4.2.9) a/neu gyflwyno cyfarwyddiadau Erthygl 4 mewn ardal benodol lle byddai gofyn am gais cynllunio i newid defnydd prif neu unig breswylfa i fod yn ail gartref neu lety gosod tymor byr. Ar gyfer yr ardal y mae cyfarwyddyd Erthygl 4 yn effeithio arni, dylid gosod cyfyngiadau trwy amod neu rwymedigaeth ar bob cartref newydd, yn cyfyngu ei ddefnydd i fod yn brif neu unig breswylfa. Ceir rhagor o gyngor ar ddefnyddio cyfarwyddiadau Erthygl 4 ac amodau a rhwymedigaethau cynllunio yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu.

### Cyflenwi Tai

4.2.11 Mae'n rhaid i'r cyflenwad tir ar gyfer bodloni'r gofyn arfaethedig am dai mewn cynllun datblygu fod yn ymarferol. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid

[30] Asesiad o'r farchnad dai leol (LHMA): canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU Arweiniad i Asesu'r Farchnad Dai Leol

i gynlluniau datblygu gynnwys cyflenwad o dir sy'n gallu darparu'r nifer a nodir yn y gofyn am dai a rhaid neilltuo lwfans hyblyg ychwanegol priodol lleol rhag ofn na ddaw safleoedd yn rhydd yn ystod cyfnod y cynllun. Rhaid dangos y gallu i ddarparu'r gofyn trwy drywydd tai. Dylid darparu'r trywydd fel rhan o broses y cynllun datblygu a llunio rhan o'r cynllun. Bydd y trywydd yn dangos cyfradd ddisgwyliedig cyflenwi tai ar gyfer tai'r farchnad agored a thai fforddiadwy dros gyfnod y cynllun. Er mwyn bod yn 'ymarferol', rhaid i safleoedd fod yn rhydd o gyfyngiadau cynllunio, ffisegol a pherchenogaeth neu y gellid eu rhyddhau o hynny'n rhwydd, a rhaid iddynt fod yn hyfyw yn economaidd ar yr adeg o'r trywydd pan ddisgwylir iddynt gael eu cyflwyno i'w datblygu, er mwyn cefnogi'r broses o greu cymunedau cynaliadwy.

4.2.12 Rhaid i awdurdodau cynllunio ddefnyddio eu trywydd tai fel sail ar gyfer monitro'r broses o gyflawni eu gofyniad tai. Mae angen gwybodaeth fanwl ar y tai a gyflenwir wedi'i hasesu yn erbyn y trywydd er mwyn llunio rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer Adroddiadau Monitro Blynyddol y cynllun datblygu ac adolygiad cynllunio dilynol. Gall tangyflawni yn erbyn y trywydd fod yn ddigon o reswm ynddo'i hun i adolygu cynllun datblygu. Rhaid i awdurdodau cynllunio fonitro'r tai a gyflenwir ar gyfer Adroddiadau Monitro Blynyddol yn unol â'r canllawiau a nodir yn y *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu*.

4.2.13 Hefyd, dylai awdurdodau cynllunio nodi ble y bydd angen posibl am ymyraethau er mwyn darparu'r cyflenwad tai, gan gynnwys ar gyfer safleoedd penodol. Mae'n rhaid sicrhau bod digon o safleoedd ar gael sy'n addas i bob math o dai er mwyn diwallu anghenion dynodedig cymunedau, gan gynnwys anghenion pobl hŷn a phobl ag anableddau. Yn y cyswllt hwn, dylai awdurdodau cynllunio hyrwyddo cymunedau deiliadaeth gymysg preswyl cynaliadwy gyda thai 'dirwystr', er enghraifft, tai sydd wedi'u hadeiladu'n unol â safonau Cartrefi Gydol Oes[31] i alluogi pobl i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain am hirach.

4.2.14 Fel rhan o'r broses o ystyried dewisiadau cyflenwi tai, dylai awdurdodau cynllunio ddeall cyfraniad posibl holl sectorau'r farchnad dai ac adeiladwyr tai at fodloni eu gofyniad tai. Wrth ddyrannu safleoedd, mae angen i awdurdodau cynllunio ystyried darparu amrywiaeth o safleoedd cynaliadwy ac ymarferol gan roi cyfle i bob sector a phob math o adeiladwr tai, gan gynnwys rhai cenedlaethol, rhanbarthol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, busnesau bach a chanolig (BBaChau), mudiadau tai cymunedol a'r sector hunanadeiladu ac adeiladu pwrpasol, gyfrannu at ddarparu'r gofyniad tai arfaethedig.

4.2.15 Er mwyn helpu i ehangu'r opsiynau ar gyfer cyflenwi tai a'i gwneud yn bosib darparu tai trwy landlordiaid cymdeithasol, BBaChau, mudiadau tai cymunedol a'r sector hunanadeiladu ac adeiladu pwrpasol, dylai awdurdodau cynllunio bennu targed a bennir yn lleol ar gyfer darparu tai ar safleoedd bach. I hwyluso hynny, dylai awdurdodau cynllunio gadw cofrestr o safleoedd addas sy'n llai na'u trothwy dyrannu yn eu cynllun datblygu. Dylai awdurdodau cynllunio weithio hefyd â datblygwyr i annog rhannu safleoedd mawr os gallai hynny helpu i gyflenwi cartrefi'n gynt.

4.2.16 Wrth hyrwyddo hunanadeiladu ac adeiladu pwrpasol, rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried pob opsiwn polisi perthnasol gan gynnwys defnyddio Gorchmynion Datblygu Lleol (LDOs)[32] a hefyd codau dylunio ar gyfer safleoedd

[31] Mae cysyniad y 'Cartrefi Gydol Oes' a hyrwyddir gan y Joseph Rowntree Foundation, yn cynnwys 16 prif safon. Eu hamcan yw darparu cartrefi sy'n hyblyg ac a fydd yn gallu ateb gofynion amrywiaeth eang o anableddau.

[32] Canllawiau ar ddefnyddio gorchmynion datblygu lleol', Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 003/12 www.llyw.cymru/gorchmynion-datblygu-lleol-canllawiau-i-awdurdodau-cynllunio-lleol-cylchlythyr-0032012

penodol[33] i symleiddio'r broses gynllunio ac er mwyn gallu dechrau gweithio ar ddatblygiad tai'n gynt.

4.2.17 Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio, tirfeddianwyr ac adeiladwyr tai gydweithio mewn ffordd adeiladol er mwyn nodi tir ar gyfer tai i'w ddatblygu mewn lleoliadau cynaliadwy. Wrth ddynodi safleoedd sydd i'w neilltuo ar gyfer tai mewn cynlluniau datblygu, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddilyn y drefn chwilio a ddisgrifir ym mharagraff 3.43-3.45, gan ddechrau trwy ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen a/neu a danddefnyddiwyd, mewn aneddiadau, wedyn tir ar ymyl aneddiadau ac yna tir glas o fewn neu ar ymyl aneddiadau. Dylid dilyn y broses hon ar gyfer ardaloedd yn y farchnad dai a bydd yn gofyn am gydweithio rhwng awdurdodau cynllunio pan fydd yr ardaloedd hyn yn cwmpasu mwy nag un awdurdod. Y nod ddylai fod gwneud y defnydd gorau posibl o dir a ddatblygwyd o'r blaen yn lle safleoedd maes glas ar draws ardal y farchnad yn gyffredinol.

4.2.18 Wrth ddatblygu tai, mae manteisio i'r eithaf ar dir addas a ddatblygwyd o'r blaen a/neu a danddefnyddiwyd yn fodd o hybu adfywiad, ac ar yr un pryd leddfu'r pwysau i ddatblygu ar safleoedd maes glas. Er enghraifft, gall safleoedd a dyraniadau nad ydynt yn debygol o fod yn angenrheidiol mwyach ar gyfer swyddfeydd neu at ddefnydd diwydiannol neu fanwerthu fod yn lleoliadau priodol ar gyfer tai. Mae'n rhaid i broses y cynllun datblygu ystyried dad-ddyrannu safleoedd sy'n cael eu tanddefnyddio neu sy'n tanberfformio, a gallai'r broses hon wneud cyfraniad at y cyflenwad tai os oes modd dangos eu bod yn ymarferol ar gyfer tai. Bydd rhaid sicrhau bod polisïau sy'n ceisio manteisio'n llawn ar dir a ddatblygwyd o'r blaen ar gyfer tai yn gwahaniaethu rhwng safleoedd sydd angen eu cadw at ddibenion hamdden, amwynderau neu warchod natur, ac ardaloedd sy'n wirioneddol addas ar gyfer datblygiadau tai.

4.2.19 Mae darparu safleoedd adfywio sy'n seiliedig ar dai yn gallu bod yn anodd weithiau, gan ei gwneud yn anodd nodi amserlenni datblygu. Pan fo gallu i gyflawni'n broblem, dylai awdurdodau cynllunio ystyried hepgor y cyfryw safleoedd o'u cyflenwad tai er mwyn sicrhau nad ydynt yn dibynnu arnynt i fodloni gofyniad tai eu cynllun datblygu. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, mae angen i awdurdodau cynllunio roi strategaeth ar waith i helpu i ddarparu'r safleoedd hyn. Mae'r meini prawf ar gyfer nodi safleoedd adfywio seiliedig ar dai yn gallu cynnwys dangos bod gan y safleoedd addewid mawr o ran datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd, fel cysylltiad â chanolfannau trafnidiaeth neu fynd i'r afael â difwyno neu etifeddiaeth ddiwydiannol; angen a galw hysbys am dai yn yr ardal honno; ac mai'r ymyrraeth arfaethedig yw'r dull gorau o fynd i'r afael â difwyno a chyfyngiadau safle.

4.2.20 Fel rhan o'r broses o brofi ymarferoldeb safleoedd tai, rhaid asesu eu hyfywedd ariannol cyn eu cynnwys fel dyraniadau mewn cynllun datblygu. Yn y cam 'Safle Ymgeisiol' o baratoi cynllun datblygu, rhaid i berchenogion/datblygwyr tir gynnal asesiad cychwynnol o hyfywedd y safle a rhoi tystiolaeth i ddangos ymarferoldeb ariannol eu safleoedd. Yn y cam 'adneuo', rhaid cynnal arfarniad uchel ei statws o hyfywedd y cynllun cyfan i sicrhau ei bod yn bosib darparu'r cynllun datblygu a'i bolisïau mewn egwyddor, gan roi ystyriaeth hefyd i dargedau tai fforddiadwy, seilwaith a gofynion polisi eraill. Hefyd, ar gyfer safleoedd sy'n allweddol i roi strategaeth y cynllun ar waith, rhaid cynnal arfarniad o hyfywedd safle penodol trwy ystyried costau, cyfyngiadau a gofynion penodol manylach. Rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried sut byddant yn diffinio 'safle

[33] 'Design Quality in Local Development Orders', Comisiwn Dylunio Cymru 2012
www.dcfw.org/design-quality-in-local-development-orders

allweddol' yn fuan yn y broses o baratoi cynllun. Rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried hefyd a fydd angen ymyriadau penodol o du'r sector cyhoeddus a/neu breifat, fel strategaethau neu gyllid adfywio, i helpu i gyflenwi'r cyflenwad tai.

4.2.21 Mewn ardaloedd lle mae tai newydd yn cael eu cynnig, mae'n rhaid i gynlluniau datblygu gynnwys polisïau sy'n nodi'n glir bod disgwyl i ddatblygwyr ddarparu budd[34] i'r gymuned sydd â chysylltiad rhesymol â graddfa a lleoliad y datblygiad. Wrth wneud, dylai'r cyfryw bolisïau ystyried hyfywedd economaidd safleoedd a sicrhau nad yw'n afrealistig disgwyl darparu'r budd i'r gymuned ac na fyddai hynny chwaith yn cael effaith afresymol ar y gallu i gyflenwi'r safle.

4.2.22 Os ydy polisïau diweddaraf y cynllun datblygu wedi nodi'r buddiannau cymunedol y disgwylir i'r datblygiad esgor arnynt, dylid rhagdybio bod ceisiadau cynllunio sy'n cydymffurfio â'r polisïau hynny'n hyfyw ac ni ddylai bod angen ystyried materion o ran hyfywedd ymhellach. Mater i'r ymgeisydd neu'r awdurdod cynllunio fydd profi bod amgylchiadau eithriadol penodol yn cyfiawnhau cynnal asesiad hyfywedd yn y cam hwn o'r broses. Mater i'r penderfynwr fydd penderfynu faint o bwysau i'w roi i asesiad o hyfywedd, gan ystyried holl amgylchiadau'r sefyllfa, gan gynnwys a yw'r cynllun datblygu a'r dystiolaeth o hyfywedd sy'n sail iddo yn gyfoes, ac unrhyw newid yn yr amgylchiadau ers mabwysiadu'r cynllun. Gallai'r cyfryw amgylchiadau gynnwys, er enghraifft, bod angen rhagor o wybodaeth ynghylch costau'r seilwaith neu'r safle neu os bu dirwasgiad neu newidiadau economaidd sylweddol tebyg ers mabwysiadu'r cynllun. Pan fo angen trafodaeth, dylai'r awdurdod cynllunio a'r datblygwr weithredu mewn modd agored a thryloyw a dylai'r holl wybodaeth gael ei darparu ar sail 'hawdd i'w deall'.

4.2.23 Bydd angen i awdurdodau cynllunio wneud yn siŵr eu bod yn eu cynlluniau datblygu a thrwy'r broses rheoli datblygiad, yn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir ac adeiladau yn eu hardal. Mae'n rhaid annog dwysedd uwch ar safleoedd yng nghanol trefi ac ar safleoedd eraill sydd â chysylltiadau da o ran cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

4.2.24 Mae'n rhaid i gynlluniau datblygu gynnwys meini prawf polisi clir ar gyfer ystyried ceisiadau i ddatblygu safleoedd nad ydynt wedi'u neilltuo. Gall safleoedd mewnlenwi a hap-safleoedd wneud cyfraniad defnyddiol at gyflenwi tai. Dylid cefnogi cynigion ar gyfer tai ar safleoedd mewnlenwi neu hap-safle o fewn aneddiadau pan fyddant yn cyd-fynd â chanlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy.

4.2.25 Yn y cefn gwlad agored, yn bell o aneddiadau sefydledig a nodir mewn cynlluniau datblygu, neu'n bell o ardaloedd eraill sydd wedi'u neilltuo ar gyfer datblygiad, nid yw'r ffaith y gallai tŷ ar safle penodol fod yng nghudd yn ddadl dda ynddi'i hun dros roi caniatâd; gellid ailadrodd hynny'n rhy aml, er niwed cyffredinol i gymeriad ardal.

### Tai Fforddiadwy

4.2.26 Mae angen y gymuned am dai fforddiadwy yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth lunio polisïau cynlluniau datblygu a phenderfynu ceisiadau cynllunio perthnasol. Ystyr tai fforddiadwy at ddibenion y system cynllunio defnydd tir yw tai y mae mecanweithiau diogel yn berthnasol iddynt er mwyn sicrhau eu bod ar gael i'r rhai na allant fforddio tai ar y farchnad agored, gan gynnwys y meddiannydd cyntaf a phob meddiannydd dilynol.

[34] 'Rhwymedigaethau Cynllunio' Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 13/97 www.llyw.cymru/rhwymedigaethau-cynllunio-cylchlythyr-1397 a 'Defnyddio Amodau Rheoli Datblygiad', Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/14 www.llyw.cymru/defnyddio-amodau-cynllunio-i-reoli-datblygu-cllc-0162014

4.2.27 Mae tai fforddiadwy yn cynnwys tai cymdeithasol ar rent sy'n eiddo i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a thai canolradd lle mae'r prisiau neu'r rhenti yn uwch na rhent tai cymdeithasol ond yn is na'r prisiau neu'r rhenti ar y farchnad agored. Gallai tai fforddiadwy gynnwys hefyd y tai sy'n eiddo i fudiadau tai cymunedol sy'n bodloni diffiniad Llywodraeth Cymru ohonynt, fel a nodir ym mharagraff 4.2.26 uchod. Cyfeirir at bob math arall o dai fel 'tai ar y farchnad agored', hynny yw tai preifat ar werth neu ar rent lle mae'r pris yn cael ei bennu yn y farchnad agored a lle nad yw'r awdurdod lleol yn rheoli pwy sy'n byw ynddynt. Sylweddolir y gall rhai cynlluniau ddarparu ffyrdd cam-wrth-gam o gyrraedd perchenogaeth lawn ac os felly rhaid cael trefniadau diogel i sicrhau bod y derbyniadau cyfalaf yn cael eu hailgylchu i ddarparu tai fforddiadwy yn eu lle.

4.2.28 Mae'n bwysig bod awdurdodau yn deall y galw am fathau gwahanol o dai fforddiadwy (h.y. tai canolradd a thai cymdeithasol ar rent) mewn perthynas â'r cyflenwad, fel bod yr wybodaeth ddiweddaraf ganddynt wrth negodi'r cymysgedd aneddiadau priodol gofynnol ar gyfer datblygiadau newydd. Er mwyn cefnogi polisïau a phenderfyniadau yn ymwneud â cheisiadau cynllunio, dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio'r Asesiad diweddaraf o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) i helpu i nodi'r angen am dai fforddiadwy, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth bod yna broblemau lleol ynghylch fforddiadwyedd fel effaith ail gartrefi a llety gosod tymor byr.

4.2.29 Rhaid i gynlluniau datblygu gynnwys targed ar gyfer tai fforddiadwy (wedi'i fynegi fel nifer y cartrefi). Dylai'r targed ar gyfer tai fforddiadwy fod yn seiliedig ar yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a nodi'r cyfraniadau y bydd disgwyl i'r camau yn y polisïau a nodwyd yn y cynllun datblygu (er enghraifft trothwyon safle, targedau ar gyfer safleoedd penodol, symiau gohiriedig a safleoedd eithriedig tai fforddiadwy) eu gwneud i gwrdd â'r targed hwn. Dylai'r targed ystyried darpariaeth a hyfywedd a fydd yn cael eu heffeithio gan y lefelau arfaethedig o gyllid sydd ar gael ar gyfer tai fforddiadwy, gan gynnwys cymhorthdal cyhoeddus, a chyfraniadau budd cymunedol eraill y mae'r awdurdod cynllunio yn ceisio eu sicrhau.

4.2.30 Os yw polisïau'r cynllun datblygu yn ei gwneud yn glir bod angen elfen o dai fforddiadwy, neu gyfraniadau eraill gan ddatblygwyr, ar safleoedd penodol, bydd hynny'n ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau perthnasol. Felly, dylai ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio ddangos a chyfiawnhau sut y maent wedi penderfynu ar y cyfuniad penodol o dai, gan ystyried polisïau'r cynllun datblygu. Os yw'r awdurdod cynllunio lleol o'r farn nad yw'r cynnig yn cyfrannu'n ddigonol at yr amcan o greu cymunedau cymysg, ar ôl ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol, bydd angen i'r awdurdod negodi diwygiad i'r cyfuniad o dai neu gall wrthod y cais. Dylai polisïau'r cynllun datblygu ddatgan hefyd yr hyn y byddai'r awdurdod yn ei ystyried sy'n dŷ fforddiadwy a'r trefniadau y byddai'n ei ddisgwyl i sicrhau bod tai o'r fath yn cael eu cadw am byth ar gyfer y rheini sydd eu hangen. Rhaid i'r holl dai fforddiadwy, yn cynnwys y rheini a gyflenwir drwy rwymedigaethau cynllunio ac amodau cynllunio, gyrraedd safonau ansawdd datblygu Llywodraeth Cymru.

4.2.31 Dylai cynlluniau datblygu gynnwys naill ai trothwyon safle neu gyfuniad o drothwyon a thargedau ar gyfer safleoedd penodol ar gyfer tai fforddiadwy. Yn achos datblygiadau preswyl, dylai awdurdodau cynllunio lleol bennu trothwyon ar sail capasiti'r safleoedd. Uwchlaw'r trothwyon hynny bydd gofyn i ddatblygwyr ddarparu cyfran o dai fforddiadwy. Mae hyn yn berthnasol i safleoedd a neilltuwyd yn benodol yn y cynllun datblygu ac i safleoedd nad ydynt wedi'u neilltuo (hap-safleoedd). Fel arfer, bydd hyn drwy gyfrwng cyfraniadau o dai fforddiadwy ar y safle. Mewn egwyddor, gall pob safle tai newydd ar y farchnad agored, waeth beth yw maint y safle, helpu i ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy.

4.2.32 Mae targedau ar gyfer safleoedd penodol yn dargedau dangosol ar gyfer tai fforddiadwy y dylid eu pennu ar gyfer pob safle preswyl a phob safle defnydd cymysg sy'n cynnwys elfen o dai preswyl. Yn achos safleoedd a ddaw islaw'r trothwy gall awdurdodau cynllunio sicrhau symiau gohiriedig gan ddefnyddio cytundebau Adran 106. Dim ond ar gyfer hwyluso neu ddarparu tai fforddiadwy y dylai'r awdurdod cynllunio ddefnyddio symiau gohiriedig. Wrth bennu'r trothwyon ar gyfer tai fforddiadwy a/neu dargedau ar gyfer safleoedd penodol, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried eu heffaith ar hyfywedd safleoedd er mwyn sicrhau bod modd darparu safleoedd ar gyfer tai preswyl o hyd.

4.2.33 Rhaid i awdurdodau ddarparu ar gyfer safleoedd tai a arweinir gan dai fforddiadwy yn eu cynlluniau datblygu. Bydd safleoedd o'r fath yn cynnwys o leiaf 50% o dai fforddiadwy yn seiliedig ar y meini prawf yn y cynllun datblygu sy'n adlewyrchu amgylchiadau lleol, ac sy'n ymwneud â chreu cymunedau cynaliadwy.

4.2.34 Dylid rhagdybio bod ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd preswyl sy'n cydymffurfio â pholisïau cyfoes cynllun datblygu o ran cynnwys elfen o dai fforddiadwy, yn hyfyw (gweler paragraff 4.2.21 uchod). Lle bo newid yn yr amgylchiadau yn gofyn am negodi, dylai'r awdurdod cynllunio a'r datblygwr weithredu mewn ffordd agored a thryloyw gyda'r holl wybodaeth yn cael ei darparu ar sail 'hawdd i'w deall'.

4.2.35 Mae'n rhaid ystyried darparu safleoedd eithriedig tai fforddiadwy er mwyn helpu i fodloni gofynion dynodedig a sicrhau hyfywedd y gymuned leol. Os credir bod y cyfryw bolisïau yn briodol, dylid nodi yn eglur bod rhyddhau safleoedd bach mewn aneddiadau presennol, neu am y ffin â hwy, sef safleoedd na chaent eu neilltuo fel arall yn y cynllun datblygu, at ddiben datblygu tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol, yn eithriad i'r polisïau ar gyfer y ddarpariaeth gyffredinol o dai. Rhaid cyfiawnhau polisïau o'r fath yn llawn gan nodi'r math o angen a'r math o ddatblygiad sy'n dod o fewn eu telerau. Dylai'r tai fforddiadwy a ddarperir ar y cyfryw safleoedd ddiwallu anghenion pobl leol am byth.

### Sipsiwn a Theithwyr

4.2.36 Rhaid i awdurdodau lleol asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr a neilltuo safleoedd i ddiwallu'r angen dynodedig[35]. Os yw Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn nodi angen nas diwallwyd, dylai awdurdod cynllunio neilltuo digon o safleoedd yn ei gynllun datblygu er mwyn sicrhau bod modd bodloni'r gofynion safle dynodedig ar gyfer defnydd preswyl a/neu dramwy. Bydd angen i awdurdodau cynllunio ddangos bod safleoedd yn addas ar gyfer

[35] Mae asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr, a'r ddyletswydd i ddarparu safleoedd os yw asesiad yn nodi angen o'r fath, yn ofynion statudol bellach o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

eu datblygu a bod modd eu darparu yn unol â'r amserlenni a nodwyd[36]. Wrth lunio polisïau, dylai awdurdodau cynllunio ymgynghori â darparwyr tai cymdeithasol, cynrychiolwyr cymunedau Sipsiwn a Theithwyr a thirfeddianwyr mewn ardaloedd sy'n debygol o fod yn briodol ar gyfer darparu safleoedd. Dylid cynnal yr ymgynghoraid mewn ffordd sy'n gyson â Chynllun Cynnwys Cymunedau'r awdurdod cynllunio.

### Anheddau Menter Wledig

4.2.37 Diben 'anheddau menter wledig' yw galluogi gweithwyr mentrau gwledig i fyw yn eu gweithle neu ger eu gweithle, gan gynnwys annog pobl ifanc i reoli busnesau fferm a helpu ffermydd sefydledig i arallgyfeirio. Mae anheddau menter wledig yn un o'r ychydig enghreifftiau lle mae modd cyfiawnhau datblygiad preswyl newydd ynysig yng nghefn gwlad agored.

4.2.38 Rhaid mynd ati'n ofalus i archwilio pob cais ar gyfer annedd menter wledig newydd er mwyn sicrhau bod angen gwirioneddol amdani. Bydd yn bwysig penderfynu a ydy'r fenter wledig yn gweithredu fel busnes ac a fydd yn parhau i weithredu am gyfnod rhesymol. Dylai awdurdodau cynllunio ddilyn y canllawiau sydd yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy[37] a'r canllawiau ymarfer perthnasol o ran gofynion arfarnu anheddau menter wledig. Ni ddylid caniatáu ceisiadau ar gyfer anheddau menter wledig oni bai bod yr arfarniad o'r annedd menter wledig yn darparu tystiolaeth bendant o'r angen am annedd. Er mwyn sicrhau bod anheddau menter wledig yn cael eu cadw at y diben y'u bwriadwyd, rhaid rhoi amod sy'n cyfyngu ar feddiannaeth yr eiddo. Hefyd, dylid diffinio anheddau menter wledig fel tai fforddiadwy yn unol â diffiniad TAN 2, Cynllunio a Thai Fforddiadwy, er mwyn sicrhau bod yr annedd ar gael o hyd i ddiwallu anghenion tai fforddiadwy lleol os nad yw'r cyfiawnhad gwreiddiol yn berthnasol bellach.

### Datblygiad Un Blaned

4.2.39 Datblygiad sy'n gwella ansawdd yr amgylchedd neu nad yw'n ei waethygu mewn unrhyw ffordd arwyddocaol yw Datblygiad Un Blaned. Gall Datblygiadau Un Blaned fod ar amryw o ffurfiau a gallant fod yn gartrefi ar eu pennau eu hunain, yn gymunedau cydweithredol neu'n aneddiadau mwy o faint. Gallant fod yn rhan o aneddiadau presennol, neu fod ar y ffin â hwy, neu fod yng nghefn gwlad agored.

4.2.40 Dylai Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored allu darparu o leiaf yr hyn sydd ei angen ar y trigolion o ran incwm, bwyd, ynni a thrin gwastraff am gyfnod o ddim mwy na pum mlynedd o ddyddiad cychwyn y gwaith ar y safle. Dylid dangos hyn trwy gynllun rheoli a luniwyd gan berson(au) cymwys. Os nad oes modd dangos hyn, dylai cynigion gael eu hystyried yn erbyn polisïau sy'n ceisio rheoli datblygiad yng nghefn gwlad agored. Dylai awdurdodau cynllunio ddilyn y canllawiau yn TAN 6 o ran gofynion Datblygiadau Un Blaned[38] a chynlluniau rheoli cysylltiedig.

## Gweithgareddau Mewn Lle

## 4.3 Datblygiadau manwerthu a masnachol

4.3.1 Mae canolfannau manwerthu a masnachol wrth galon gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd, ac maent yn ganolbwynt amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n cefnogi anghenion

[36] Cewch fwy o fanylion y broses o ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr trwy'r system gynllunio yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 005/2018: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn www.llyw.cymru/cynllunio-ar-gyfer-safleoedd-sipsiwn-teithwyr-siewmyn

[37] Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010) www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-6-cynllunio-ar-gyfer-cymunedau-gwledig-cynaliadwy

[38] Cyfarwyddyd ymarfer ar gyfer datblygiadau un blaned www.llyw.cymru/datblygiadau-un-blaned-arweiniad-ymarferol

cymunedau lleol. Mae modd defnyddio dulliau gwahanol o drafnidiaeth i'w cyrraedd, a'r canolfannau hyn yw'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygiad newydd.

4.3.2 Dylai canolfannau manwerthu a masnachol gael eu nodi mewn cynlluniau datblygu a chynnwys canolfannau dinasoedd, trefi, rhanbarthau, lleol, pentrefi a chymdogaethau sefydledig, sy'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd siopa, masnachol a hamdden yn ogystal â lleoedd cyflogaeth, addysg, hunaniaeth ddinesig a rhyngweithio cymdeithasol. Mae cyfleoedd i fyw yn y canolfannau hyn, ynghyd â'u cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da, yn golygu mai nhw yw'r lleoedd mwyaf cynaliadwy.

4.3.3 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi nifer o amcanion cyffredinol ar gyfer canolfannau manwerthu a masnachol, a dylai awdurdodau cynllunio geisio eu cyflawni trwy eu cynlluniau datblygu a'u penderfyniadau rheoli datblygu gan sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint ag y medrant at y nodau llesiant. Mae'n rhaid i'r system gynllunio:

- hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachol trefol a gwledig hyfyw fel y lleoliadau mwyaf cynaliadwy i fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu a chynnal busnes;
- cynnal a gwella bywiogrwydd, hyfywedd a dengarwch canolfannau manwerthu a masnachol; a
- gwella mynediad at, ac o fewn, canolfannau manwerthu a masnachol drwy bob math o drafnidiaeth, gan roi blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.



### Strategaethau Manwerthu

4.3.4 Mae canolfannau manwerthu a masnachol yn ganolog i weithgarwch cymunedol a ffyniant lleol, ac er mwyn cynllunio ar eu cyfer yn effeithiol mae'n bwysig deall eu swyddogaeth, eu rolau a'u cysylltiadau.

4.3.5 Dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio eu cynllun datblygu i gynllunio strategaeth glir ar gyfer datblygiad manwerthu, gan gynnwys polisïau perthnasol, er mwyn darparu canolfannau manwerthu a masnachol bywiog, deniadol a hyfyw. Dylai'r strategaeth a'r polisïau lunio fframwaith ar gyfer dyfodol canolfannau manwerthu a masnachol yn yr ardal, gan ystyried strategaethau awdurdodau cyfagos, er mwyn hyrwyddo sector manwerthu llwyddiannus sy'n cefnogi cymunedau presennol a newydd.

4.3.6 Bydd canolfannau manwerthu a masnachol yn profi twf a dirywiad, a dylai cynlluniau datblygu nodi'r pwysau a'r cyfleoedd manwerthu newidiol hyn a pharatoi ymatebion priodol iddynt yn eu strategaethau manwerthu. Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai y bydd angen cymryd camau rhagweithiol i nodi lleoliadau ar gyfer ehangu canolfannau manwerthu a masnachol. Mewn eraill efallai y bydd angen nodi mesurau i adfywio canolfannau neu i reoli newid ym mhwysigrwydd cymharol canolfan wrth i rolau canolfannau eraill ehangu. Dylai strategaethau a pholisïau cysylltiedig fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

4.3.7 Gall defnyddio prif gynlluniau, briffiau datblygu neu gynlluniau lleoedd ategu strategaethau manwerthu drwy ddarparu manylion ychwanegol a helpu i roi polisïau cynlluniau datblygu ar waith.



Wrth ddatblygu strategaethau, cynlluniau a pholisïau i adfywio canolfannau sy'n bodoli eisoes a'u gwneud yn fwy deniadol, dylai awdurdodau cynllunio ymgynghori â'r sector preifat a chymunedau lleol. Dylai awdurdodau lleol ystyried defnyddio Gorchmynion Datblygu Lleol er mwyn symleiddio'r broses gynllunio lle byddai hynny'n briodol.

4.3.8 Os oes angen am ddatblygiad manwerthu ychwanegol wedi'i nodi trwy broses y cynllun datblygu, dylai awdurdodau cynllunio ystyried darpariaeth o natur, graddfa a lleoliad priodol i ateb y gofyn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

4.3.9 Er mwyn bod yn hyblyg mewn achosion lle nad oes unrhyw safleoedd yn cael eu neilltuo, dylai awdurdodau cynllunio gynnwys polisïau seiliedig ar feini prawf i asesu cynigion.

### Hierarchaethau Canolfannau Manwerthu a Masnachol

4.3.10 Dylai awdurdodau cynllunio sefydlu hierarchaeth o ganolfannau manwerthu a masnachol fel rhan o strategaeth eu cynllun datblygu, gan nodi ffiniau ar y map o gynigion.

4.3.11 Dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio diffiniadau a ddiffiniwyd yn lleol i nodi a chategoreiddio canolfannau manwerthu a masnachol yn ôl swyddogaethau ac ystyried eu rôl yn y dyfodol, gan gydnabod cyfleoedd i gefnogi amcanion canolfannau manwerthu a masnachol Llywodraeth Cymru.

4.3.12 Wrth ddatblygu hierarchaeth, mae angen ystyried maint, graddfa, natur, swyddogaeth a lleoliad y canolfannau manwerthu a masnachol mewn ardal. Dylai'r awdurdod cynllunio ystyried nodweddion pob math o ganolfan er mwyn sicrhau cysondeb wrth eu categoreiddio. Er enghraifft, y defnyddiau amrywiol neu ffiniau'r dalgylch. Dylai'r hierarchaeth wahaniaethu rhwng y canolfannau uwch sydd ag amrywiaeth ehangach o ddefnyddiau a dalgylchoedd mwy o faint, a'r canolfannau is sy'n bwysig i gymunedau o ran eu hanghenion o ddydd i ddydd.

### Profion Anghenion Adwerthu

4.3.13 Mae'n bwysig bod gan gymunedau fynediad i lefelau digonol o ddarpariaeth fanwerthu. Dylai tystiolaeth ddangos a yw darpariaeth fanwerthu yn ddigonol ai peidio, drwy asesu a oes rhagor o gapasiti gwario mewn dalgylch (angen meintiol) neu a oes prinder ansawdd, ystod nwyddau neu hygyrchedd manwerthu (angen ansoddol). Mae profion anghenion yn gymwys i ddefnyddiau adwerthu yn unig ac nid ydynt yn gymwys i ddefnyddiau eraill sy'n ategu canol trefi a dinasoedd. Gweler enghreifftiau o'r defnyddiau hynny ym mharagraff 4.3.21.

4.3.14 Wrth benderfynu a ddylai nodi safleoedd manwerthu cyfleustra neu o fath arall mewn cynlluniau datblygu neu wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar eu cyfer, dylai awdurdodau cynllunio ystyried yn gyntaf a oes angen rhagor o safleoedd manwerthu. Fodd bynnag, nid oes angen dangos yr angen am ddatblygiadau oddi mewn i ffiniau neu safleoedd canolfannau manwerthu a masnachol diffiniedig sydd wedi'u neilltuo mewn cynllun datblygu ar gyfer defnyddiau manwerthu penodol. Mae'r dull gweithredu hwn yn atgyfnerthu rôl canolfannau, a safleoedd eraill sydd wedi'u neilltuo, fel y lleoliad gorau ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau manwerthu, hamdden a masnachol. Nid rôl y system gynllunio yw cyfyngu ar gystadleuaeth rhwng manwerthwyr mewn canolfannau.

4.3.15 Gall angen fod yn feintiol, er mwyn mynd i'r afael â galw mesuradwy nad yw wedi ei ddiwallu am y ddarpariaeth dan sylw, neu'n ansoddol. Dylid rhoi blaenoriaeth i gadarnhau beth yw'r angen meintiol cyn ystyried yr angen ansoddol, a hynny o ran

arwynebedd llawr lle gwerthir nwyddau cyfleus ac arwynebedd lle gwerthir nwyddau a gymherir, yn enwedig fel sail i ddyraniadau mewn cynlluniau datblygu.

4.3.16 Dylai'r asesiad ansoddol gwmpasu agweddau cadarnhaol a negyddol, a gallai ddod yn ystyriaeth bwysig os yw'n:

- cefnogi amcanion a strategaeth fanwerthu cynllun datblygu mabwysiedig neu'r polisïau yn y canllawiau hyn;
- hygyrch iawn drwy gerdded, drwy feicio neu ar drafnidiaeth gyhoeddus;
- cyfrannu at ostyngiad sylweddol yn nifer y teithiau mewn ceir;
- cyfrannu at gydleoli cyfleusterau mewn canolfannau manwerthu a masnachol sy'n bodoli'n barod;
- cyfrannu'n sylweddol at fywiogrwydd, dengarwch a hyfywedd canolfan o'r fath;
- cynorthwyo i liniaru gorfasnachu, neu dagfeydd traffig o amgylch, siopau cyffelyb lleol sy'n bodoli'n barod;
- mynd i'r afael â diffygion, a ddiffiniwyd yn lleol, o ran ansawdd a maint y ddarpariaeth, gan gynnwys yr hyn a fyddai'n gwasanaethu datblygiadau preswyl newydd; neu os yw'n;
- lliniaru diffyg darpariaeth o ran siopau cyfleustra mewn ardal ddifreintiedig.

4.3.17 Mater i'r awdurdod cynllunio fydd penderfynu a chyfiawnhau'r pwys a roddir ar unrhyw asesiad ansoddol. Nid yw buddiannau o ran adfywio a chyflogaeth ychwanegol yn cael eu hystyried yn ffactorau wrth asesu'r angen ansoddol o ran polisi manwerthu. Fodd bynnag, gallant fod yn ystyriaethau perthnasol wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio unigol os gellir dangos tystiolaeth o'u buddiannau o ran adfywio a chreu swyddi. Os nad oes unrhyw angen meintiol neu ansoddol am ragor o ddatblygiad ar gyfer defnyddiau canolfannau manwerthu a masnachol, ni fydd angen nodi safleoedd ychwanegol.

### Prawf Cymalog

4.3.18 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu polisi 'canol trefi'n gyntaf' mewn perthynas â lleoli datblygiadau canolfannau manwerthu a masnachol newydd. Mae Cymru'r Dyfodol yn rhoi rhagor o gyd-destun i'r polisi 'canol trefi'n gyntaf' o ran datblygiadau mawr a rhai'r tu allan i'r canol. Wrth roi'r polisi hwn ar waith, dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu dull cymalog o ddewis safleoedd newydd yn eu cynllun datblygu ac wrth benderfynu ceisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau manwerthu a defnyddiau ategol eraill. Wrth fabwysiadu dull cymalog, dylid rhoi blaenoriaeth i leoli datblygiadau newydd mewn canolfan fanwerthu a masnachol sydd wedi'i diffinio yn hierarchaeth canolfannau'r cynllun datblygu.

4.3.19 Os nad oes safle neu adeilad addas i ddiwallu'r angen a nodwyd mewn canolfan neu ganolfannau manwerthu a masnachol, yna dylid rhoi ystyriaeth i safleoedd ar gyrion y canol, ac os nad oes safleoedd o'r fath yn addas neu ar gael, dim ond wedyn y dylai safleoedd y tu allan i'r canol mewn lleoliadau sy'n hygyrch drwy ddewis o ddulliau teithio gael eu hystyried, gan gynnwys teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Dylai datblygwyr ddangos bod yr holl ddewisiadau posibl o ran canolfannau manwerthu a masnachol, ac yna'r dewisiadau ar gyrion y canol, wedi cael eu hasesu'n drylwyr gan ddefnyddio'r dull cymalog cyn ystyried safleoedd y tu allan i'r canol. Cyfrifoldeb y datblygwr yw profi bod safleoedd canolog wedi cael eu hasesu'n drylwyr.

4.3.20 Dylai safleoedd ar gyrion y canol neu'r tu allan i'r canol fod yn hygyrch drwy ddewis o ddulliau teithio cyhoeddus a phreifat. Ni ddylai datblygiadau manwerthu newydd y tu allan i'r canol nac estyniadau i ddatblygiadau sy'n bodoli eisoes y tu allan i'r canol fod ar raddfa nac o fath nac mewn lleoliad sy'n debygol o danseilio bywiogrwydd, dengarwch a hyfywedd canolfannau manwerthu a masnachol a fyddai fel

arall yn gwasanaethu'r gymuned, ac ni ddylid eu caniatáu os ydynt yn debygol o beryglu'r strategaeth fanwerthu yn y cynllun datblygu. Dylai graddfa prawf cymalog gael ei chytuno mewn trafodaeth cyn cyflwyno cais rhwng yr awdurdod cynllunio a'r datblygwr.

4.3.21 Mae'r dull cymalog yn berthnasol i ddefnyddiau manwerthu a phob defnydd arall sy'n berthnasol i ganolfannau manwerthu a masnachol. Mae defnyddiau ategol eraill yn cynnwys, er enghraifft, gwasanaethau ariannol a phroffesiynol (A2), bwyd a diod (A3), swyddfeydd (B1), gwestai (C1), sefydliadau preswyl (C2), sefydliadau addysgol a dibreswyl eraill (D1), hamdden (D2) a rhai defnyddiau eraill fel golchdai a theatrau[39]. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd gan rai defnyddiau addysg, gofal iechyd a chymunedol ofynion hygyrchedd penodol sy'n golygu bod angen eu lleoli'n agos i'r cymunedau a wasanaethant. Dylai awdurdodau cynllunio fod ag agwedd hyblyg os oes angen. Mae natur y defnydd arfaethedig yn debygol o benderfynu pa fath o ganolfan (h.y. canolfan uwch neu ganolfan is) sy'n addas fel man cychwyn proses y dull cymalog.

4.3.22 Wrth baratoi cynlluniau datblygu, dylai awdurdodau cynllunio lleol, mewn partneriaeth â'r sector preifat, fabwysiadu agwedd gadarnhaol wrth nodi safleoedd sy'n cyd-fynd â'r dull cymalog ac sydd hefyd yn cyd-fynd â'r strategaeth fanwerthu yn y cynllun datblygu o ran maint, graddfa a ffurf y datblygiadau newydd sydd eu hangen. Wrth ddyrannu safleoedd ar gyfer mathau gwahanol o ganolfannau manwerthu a masnachol, dylai awdurdodau cynllunio ystyried ffactorau fel arwynebedd llawr, ansawdd, cyfleustra, y traffig sy'n cael ei greu a natur ddeniadol y safle. Ni ddylai awdurdodau cynllunio ragnodi terfynau caeth o ran arwynebedd llawr ar safleoedd a neilltuwyd, a fyddai'n atal y diwydiant manwerthu mewn ffordd afresymol rhag ymateb i newid yn y galw ac i gyfleoedd.

4.3.23 Mae'n bosibl na fydd rhai mathau o siopau manwerthu, fel siopau sy'n gwerthu nwyddau swmpus ac y mae arnynt angen ystafelloedd arddangos mawr, yn gallu dod o hyd i safleoedd neu adeiladau addas mewn canolfannau manwerthu a masnachol sy'n bodoli eisoes. Mewn achosion o'r fath, dylai siopau o'r fath gael eu lleoli yn y lle cyntaf ar safleoedd a nodwyd at ddiben o'r fath yn y cynllun datblygu, ar safle ar gyrion canolfan os oes modd. Os nad oes safleoedd o'r fath ar gael nac yn addas, gellir ystyried safleoedd eraill ar gyrion canolfannau manwerthu a masnachol, ac yna lleoliadau y tu allan i'r ganolfan, yn amodol ar ganlyniadau'r prawf angen a'r prawf effaith.

4.3.24 Dylai awdurdodau cynllunio gynnwys polisïau yn eu cynlluniau er mwyn amddiffyn safleoedd manwerthu presennol rhag datblygiadau amhriodol. Fodd bynnag, lle bo gan awdurdod cynllunio dystiolaeth nad oes angen safle manwerthu mwyach at y diben y'i bwriadwyd, dylai'r awdurdod ystyried pa ddibenion eraill allai fod yn briodol a chynnwys polisïau yn ei gynllun.

### Asesiadau Effaith Manwerthu

4.3.25 Gall datblygiadau manwerthu y tu allan i ganolfannau manwerthu a masnachol dynodedig, nad ydynt wedi'u lleoli ar safle a neilltuwyd, effeithio ar hyfywedd a bywiogrwydd canolfan. Gall canlyniadau unigol neu gronnus datblygiadau o'r fath gynnwys newidiadau mewn trosiant a gallu masnachu, dewis defnyddwyr, patrymau traffig a theithio, nifer yr ymwelwyr, gan effeithio ar strategaethau adfywio canolfannau a safleoedd manwerthu presennol neu arfaethedig a ddyrannwyd yn y cynllun datblygu. Diben yr asesiad effaith manwerthu yw ystyried y materion hyn a phenderfynu a yw'r datblygiadau hyn yn debygol o arwain at ganlyniadau niweidiol.

39 Mae Gorchymyn Gwlad a Thref (Dosbarthau Defnydd) 1987 (fel y'i diwygiwyd) yn rhannu defnyddiau tir ac adeiladau yn gategorïau o'r enw 'Dosbarthau Defnydd'.

4.3.26 Dylai pob cais cynllunio neu ddyraniad safle manwerthu â thros 2,500 metr sgwâr o arwynebedd llawr gros sy'n cael ei gynnig ar ymyl neu y tu allan i ganolfannau manwerthu a masnachol dynodedig gael ei gefnogi gan asesiad effaith manwerthu, ar ôl sefydlu'r angen.

4.3.27 Ar gyfer ceisiadau cynllunio llai o faint neu wrth ddyrannu safleoedd llai o faint at ddibenion manwerthu, bydd angen i awdurdodau cynllunio benderfynu a oes angen asesiad – er enghraifft, pan allai cynnig llai o faint gael effaith sylweddol ar ganolfan. Dylai ceisiadau am asesiadau effaith manwerthu gan awdurdodau cynllunio ar ddatblygiadau llai o faint fod yn gymesur â'r effeithiau posibl.

4.3.28 Fel arfer, ni fydd angen prawf gofynion manwerthu, prawf cymalog neu asesiad effaith ar gyfer cynigion manwerthu ar ymyl canolfannau neu'r tu allan i ganolfannau sydd i'w lleoli ar safleoedd a ddyrannwyd yn unol â chynllun datblygu cyfoes. Dylai'r awdurdod cynllunio fod wedi cynnal y profion hyn adeg paratoi'r cynllun datblygu a nodi defnyddiau derbyniol ar gyfer y safle. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae'n bosibl na fydd y cynllun datblygu yn rhoi sylw digonol i'r cynnig, a gall fod yn briodol defnyddio un neu fwy o'r profion hyn.

4.3.29 Dros amser, mae'n bosibl y bydd datblygiadau manwerthu ar ymyl canolfannau neu'r tu allan i ganolfannau yn ceisio newid ystod y nwyddau y maent yn eu gwerthu neu natur yr ardal werthu. Dylai awdurdodau cynllunio ragweld newidiadau o'r fath drwy ddefnyddio amodau priodol[40] ar y caniatâd cychwynnol neu mewn perthynas â cheisiadau ar unrhyw newid neu amrywiad dilynol ar amodau. Gall amodau gyfyngu ar faint yr arwynebedd llawr, neu atal datblygiad rhag cael ei isrannu'n nifer mawr o siopau bach er mwyn cyfyngu ar yr amrywiaeth o nwyddau a werthir, neu atal y broses o greu un siop fawr. Hefyd, pe byddai cynnwys swyddfeydd post a fferyllfeydd, er enghraifft, mewn datblygiadau manwerthu y tu allan i ganolfannau yn debygol o arwain at golli'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes mewn canolfan fanwerthu a masnachol dynodedig, dylid annog datblygwyr i beidio â chyflwyno cynigion o'r fath drwy osod amodau priodol. Gallai awdurdodau cynllunio ystyried estyn y rhestr o ddefnyddiau a reolir mewn datblygiadau manwerthu y tu allan i ganolfannau os yw lleoliad defnyddiau o'r fath yn debygol o arwain at golli darpariaeth sy'n bodoli eisoes mewn canolfannau manwerthu a masnachol. Dylid rhoi'r un ystyriaeth i geisiadau i ddileu neu amrywio amodau o'r fath.

### Defnyddiau Cymysg a Phrif Ardaloedd Siopa ac Ardaloedd Siopa Eilaidd

4.3.30 Er y dylai manwerthu (defnyddiau A1) fod yn sail i ganolfannau manwerthu a masnachol, dim ond un o'r ffactorau sy'n cyfrannu at eu bywiogrwydd yw hyn.

4.3.31 Un o nodweddion arferol prif ardaloedd siopa yw cyfran uchel o ddefnyddiau manwerthu A1, ac er mwyn eu dynodi mae angen deall dosbarthiad y defnyddiau presennol mewn canolfan a rhoi ystyriaeth ofalus i rôl canolfan a'i pherthynas â strategaeth fanwerthu'r ardal. Fel arfer, mae ardaloedd siopa eilaidd yn cynnwys defnyddiau cymysg, er enghraifft, siopau, caffis a bwytai, sefydliadau ariannol a gwasanaethau eraill a chyfleusterau cymunedol.

4.3.32 Dylai polisïau hyrwyddo amrywiaeth o ddefnyddiau mewn canolfannau. Dylai awdurdodau cynllunio nodi pa ganolfannau manwerthu a masnachol yn eu cynlluniau datblygu sydd â phrif ardaloedd siopa ac ardaloedd siopa eilaidd, a'u dangos ar y map cynigion.

[40] Cylchlythyr Llywodraeth Cymru WGC016/14, Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu, 2014
www.llyw.cymru/defnyddio-amodaucynllunio-i-reoli-datblygu-cllc-0162014

4.3.33 Nodweddir canolfannau bywiog a hyfyw gan amrywiaeth o weithgarwch a defnydd a ddylai gyfrannu at les a llwyddiant canolfan, gan leihau'r angen am deithio hefyd. Dylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau sy'n disgrifio'r mathau o ddefnydd sy'n debygol o fod yn dderbyniol mewn prif ardaloedd siopa ac ardaloedd siopa eilaidd.

4.3.34 Gall defnyddiau hamdden ac adloniant a bwyd a diod fod o fudd i ganolfannau manwerthu a masnachol, a thrwy roi sylw digonol i ddiogelu amwynderau, gallant gyfrannu at economi lwyddiannus gyda'r nos. Yn ogystal ag amrywiaeth gyffredinol o ddefnyddiau, dylid hefyd annog datblygiadau defnydd cymysg, sy'n cyfuno manwerthu ag adloniant, bwytai a, lle bo hynny'n briodol, preswyl mewn ffordd gynhwysfawr a gynlluniwyd, er mwyn hyrwyddo canolfannau bywiog yn ystod y dydd a gyda'r nos.

4.3.35 Mae'n bosibl y bydd angen agwedd hyblyg at gynllunio er mwyn sicrhau amrywiaeth o ddefnyddiau a gweithgareddau. Os nad oes modd sicrhau cydbwysedd priodol rhwng defnydd a gweithgareddau, dylai awdurdodau cynllunio ystyried gwneud newidiadau i'r defnyddiau derbyniol mewn prif ardaloedd neu ardaloedd eilaidd, neu i ffiniau'r ganolfan fanwerthu a masnachol.

4.3.36 Dylai awdurdodau cynllunio asesu perfformiad canolfannau manwerthu a masnachol ac effeithiolrwydd polisïau cynlluniau datblygu drwy fonitro eu hiechyd[41]. Dylent ddefnyddio'r strategaeth yn eu cynllun datblygu i reoli newid a gweithredu os oes angen mynd i'r afael â hyn. Os yw dirywiad economaidd yn effeithio ar ganolfan fanwerthu a masnachol, gallai pwyslais ar gadw defnyddiau A1 mewn eiddo naill ai mewn prif ardal neu ardal eilaidd, a fu'n wag am gyfnod o amser, danseilio hyfywedd a bywiogrwydd canolfan. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried sut gall defnyddiau nad ydynt yn A1 chwarae mwy o ran mewn cynyddu amrywiaeth a lleihau nifer yr unedau gwag. Gall Gorchmynion Datblygu Lleol helpu i gefnogi camau i leihau nifer yr unedau gwag.

4.3.37 Ar gyrion canolfan fanwerthu a masnachol y mae awdurdodau cynllunio yn asesu eu bod yn dirywio, a lle y credir bod mentrau adfywio yn annhebygol o fod yn llwyddiannus, gall newidiadau i ffin y ganolfan fanwerthu a masnachol fod yn briodol. Gall ad-drefnu ffin canolfan helpu i ganolbwyntio defnyddiau A1 a defnyddiau nad ydynt yn A1 mewn ardal lai o faint ond mwy hyfyw, gan ryddhau eiddo y tu allan i'r ffin newydd o bosibl at ddibenion preswyl a dibenion priodol eraill. Gall newid defnydd i ddefnydd preswyl hefyd fod yn dderbyniol o fewn ffiniau canolfan fanwerthu a masnachol, gan helpu i gyfrannu at hyfywedd a bywiogrwydd canolfan. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd defnydd preswyl yn addas ar loriau gwaelod mewn prif ardaloedd neu feysydd A1 crynodedig eraill, oherwydd gall ddarnio ffryntiad siopau ac effeithio ar fywiogrwydd a hyfywedd canolfan.

4.3.38 Pan fo awdurdod cynllunio lleol o'r farn bod canolfan manwerthu a masnachol wedi dirywio i'r fath raddau fel nad yw mwyach yn hyfyw ac nad oes unrhyw obaith o gadw neu ddenu buddsoddiad yn y dyfodol, yna dylid ystyried dileu statws canolfan fanwerthu'r ardal honno. Dylid gwneud hynny drwy ymgynghori'n llawn â chymunedau fel rhan o'r cynllun datblygu.

4.3.39 Dylai polisïau a chanllawiau cynllunio atodol fod o gymorth i reoli canolfannau manwerthu a masnachol lle bo'n briodol. Gall rheolaeth o'r fath, sy'n cynnwys gwella a hyrwyddo, fod yn ffactor pwysig wrth sicrhau bywiogrwydd, hyfywedd, a dengarwch canolfannau manwerthu. Gall mesurau rheoli hefyd gyfrannu at

[41] Nodyn Cyngor Technegol 4: Datblygiad Manwerthol a Masnachol. Llywodraeth Cymru 2016
www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-4-datblygiad-manwerthol-masnacho

sicrhau amgylchedd diogel lle nad oes unrhyw droseddu. Mae partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'r sector preifat yn hanfodol i lwyddiant strategaethau rheoli o'r fath.

### Siopau Lleol a Siopau Pentref

4.3.40 Mae siopau lleol a siopau pentref, a thafarndai, yn cyflawni swyddogaeth bwysig yn y gymuned leol yn aml, a gall y broses o'u colli gael effaith andwyol, mewn lleoliadau gwledig yn benodol.

4.3.41 Dylid ystyried swyddogaeth economaidd a chymdeithasol siopau lleol, siopau pentref a thafarndai wrth ystyried ceisiadau am newid defnydd i ddefnydd preswyl neu ddefnydd arall. Mewn ardaloedd gwledig, dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu agwedd gadarnhaol at geisiadau i addasu eiddo addas mewn pentrefi yn siopau ac am estyniadau i siopau pentref sydd â'r bwriad o wella eu hyfywedd. Dylid mabwysiadu agwedd gadarnhaol hefyd, yn amodol ar ystyriaethau amwynderau, at ailsefydlu tafarndai yn enwedig, mewn pentrefi sydd wedi colli darpariaeth o'r fath yn gyfan gwbl. Ni ddylai diffyg trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig atal datblygiadau manwerthu neu wasanaethau ar raddfa fach os bydd hynny'n gwasanaethu anghenion lleol.

4.3.42 Gall siopau ategol i ddefnyddiau eraill, fel siopau fferm a fydd yn helpu i ddiwallu'r galw am gynnyrch ffres, siopau crefftau a siopau sy'n gysylltiedig â gorsafoedd petrol, hefyd chwarae rôl ddefnyddiol mewn ardaloedd gwledig drwy ddarparu ffynonellau newydd o swyddi a gwasanaethau. Wrth asesu cynigion o'r fath, dylai Awdurdodau Cynllunio ystyried:

- yr effaith bosibl ar ganolfannau manwerthu a masnachol neu siopau pentref cyfagos;
- pa mor ddymunol fyddai darparu gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn; ac
- effaith debygol y traffig a gaiff ei greu a threfniadau mynediad a pharcio.

### Pwysigrwydd Economïau Gyda'r Nos a'r Nos

4.3.43 Yn aml, mae canolfannau manwerthu a masnachol yn cynnwys gweithgareddau sy'n cyfrannu at economi fywiog a hyfyw gyda'r nos ac yn y nos. Gall defnyddiau o'r fath gynnwys barrau, bwytai, tafarndai, theatrau, cerddoriaeth, celf a lleoliadau adloniant eraill sy'n darparu profiad cymdeithasol a diwylliannol a gofodau lle mae modd meithrin creadigrwydd. Nodweddion tebygol gweithgareddau o'r fath yw lefelau uwch o sŵn, grwpiau mawr o bobl yn ymgynnull, oriau agor hwyrach a mwy o symud o ran traffig.

4.3.44 Pan fydd defnyddiau newydd sy'n cynnwys gweithgareddau gyda'r nos ac yn y nos yn cael eu sefydlu mewn canolfannau manwerthu a masnachol, a'u bod wedi'u lleoli wrth ymyl llety preswyl presennol, dylai'r rhai sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio gynnwys mesurau lliniaru priodol i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau posibl i amwynderau. Yn yr un modd, os yw datblygiad preswyl yn cael ei gynnig wrth ymyl neu gerllaw defnyddiau presennol gyda'r nos neu yn y nos, fel y rhai a ddisgrifiwyd, bydd angen ystyried cydnawsedd y defnyddiau a chynnwys mesurau lliniaru er mwyn lleihau unrhyw effaith ar amwynder unrhyw ddarpar breswylwyr. Defnyddir yr egwyddor cyfrwng newid (gweler Pennod 6 am fwy fanylion) yn sylfaen i gefnogi economi gyda'r nos a datblygu defnyddiau sy'n sensitif i seinweddau canolfannau masnachol prysur.

4.3.45 Dylai awdurdodau cynllunio gydnabod cyfraniad pwysig canolfannau manwerthu a masnachol at greu lleoedd diwylliannol a chreadigol amrywiol a bywiog, a manteision ehangach y rhain wrth sbarduno gwaith adfywio ehangach.

4.3.46 Gall lleoliadau cerdd neu gelf, orielau ac amgueddfeydd newydd neu sydd wedi'u hadnewyddu sbarduno gwaith adfywio ac arwain at sefydlu mannau diwylliannol a chreadigol yn ein canolfannau. Mae'r mannau hyn yn helpu i greu rhagor o fywiogrwydd ac amrywiaeth sy'n sbarduno twf ac adfywio ehangach.

4.3.47 Mae busnesau creadigol a diwylliannol (fel theatrau, canolfannau cerdd a chelf) yn tueddu i ffynnu mewn amgylcheddau sy'n rhannu gofod, ac mae canolfannau yn helpu i greu lleoedd amrywiol, bywiog a hyfyw sy'n ddeniadol i fusnesau cysylltiedig a'r rhai nad ydynt yn gysylltiedig. Yn draddodiadol, mae canolfannau o'r fath yn tyfu o'r gwaelod i fyny, ac mae llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog yn cyflawni swyddogaeth galluogi bwysig. Mae tystiolaeth yn dangos bod y canolfannau hyn yn esblygu o wreiddiau cymharol gyffredin yn aml, gan ddefnyddio adeiladau rhad sy'n wag yn aml.

4.3.48 Wrth greu cynlluniau datblygu, dylai awdurdodau cynllunio ystyried y clystyrau creadigol a diwylliannol hyn yn eu canolfannau manwerthu a masnachol, ac os yn briodol, dylent geisio nodi'r ardaloedd hyn gyda pholisïau diogelu cysylltiedig, er mwyn sicrhau bod eu cyfraniad yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi.

## 4.4 Cyfleusterau Cymunedol

4.4.1 Mae adeiladau a gofodau cymunedol yn ffocws pwysig ar gyfer cynnal cymunedau a'u llesiant. Maent yn ymdrin ag amrywiaeth eang o weithgareddau a gwasanaethau y mae modd eu darparu gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae cyfleusterau cymunedol yn cyfrannu at ymdeimlad o le sy'n bwysig ar gyfer iechyd, llesiant ac amwynder cymunedau lleol, ac yn aml mae eu bodolaeth yn elfen allweddol o greu lleoedd hyfyw a chynaliadwy. Gallant gynnwys ysgolion, cyfleusterau diwylliannol, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, rhandiroedd ac addoldai. Mae Llywodraeth Cymru'n gwbl gefnogol i gymunedau sydd am gymryd rheolaeth ar asedau lle bo hynny'n briodol a lle ceir cefnogaeth leol i hynny.

4.4.2 Dylai awdurdodau cynllunio ddatblygu agwedd strategol a hirdymor at ddarparu cyfleusterau cymunedol wrth baratoi cynlluniau datblygu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dylent weithio gyda'u cymunedau lleol i nodi safleoedd ac adeiladau a all eu helpu i sicrhau buddiannau i'r gymuned ac sy'n cefnogi'r cynllun datblygu a lle bo hynny'n briodol, amcanion y cynllun lleoedd. Wrth ystyried cynigion datblygu, gan gynnwys y rheini sy'n golygu trosglwyddo asedau, dylai awdurdodau cynllunio ystyried anghenion eu cymuned a sicrhau bod cyfleusterau cymunedol yn parhau i fodloni gofynion trigolion yn yr ardal.

4.4.3 Mae gan randiroedd a mannau tyfu cymunedol lawer o fanteision cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd ac iechyd. Gallant gyfrannu at hunaniaeth lle a'i ymdeimlad o gymuned, gan helpu i adfywio mannau agored. Dylai awdurdodau lleol gadw a diogelu safleoedd rhandiroedd presennol, yn enwedig os ydynt yn bwysig fel seilwaith gwyrdd neu ased cymunedol. Os oes galw hysbys amdano, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu tir ar gyfer rhandiroedd. Lle y bo'n briodol, dylai cynlluniau neilltuo tir ar gyfer rhandiroedd a mannau tyfu cymunedol newydd. Mae rhandiroedd statudol yn cael eu diogelu gan y gyfraith. Ni allant gael eu gwerthu na'u defnyddio at ddibenion eraill heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.

4.4.4 Mae meysydd trefi a phentrefi yn cael eu diogelu gan ddeddfwriaeth ac fel rheol gwaherddir datblygu ac eithrio os byddai datblygu yn golygu defnyddio'r tir yn well ar gyfer chwaraeon a hamdden ac mewn amgylchiadau cyfyngedig eraill.

4.4.5 Dylai awdurdodau cynllunio ystyried anghenion eu cymunedau a'r ymwelwyr sy'n ymweld â'u lleoedd. Mae'n bwysig nad yw pobl yn cael eu hallgáu o leoedd am nad oes ynddynt y cyfleusterau cymunedol sydd eu hangen arnynt. Gall toiledau, cyfleusterau newid cewynnau a thoiledau 'changing places' fod â rhan bwysig i wneud lleoedd yn hygyrch a chynhwysol i bawb. Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod y cyfleusterau hyn yn cael eu darparu, os oes tystiolaeth o blaid eu darparu, yn enwedig mewn canolfannau siopa, ysbytai, hybiau trafnidiaeth, canolfannau hamdden ac arenâu.

## 4.5 Mannau Hamdden

4.5.1 Mae mannau ar gyfer hamdden yn hanfodol ar gyfer ein hiechyd, llesiant, amwynder ac yn gallu cyfrannu at seilwaith gwyrdd ardal. Maent yn darparu lleoedd ar gyfer chwarae, chwaraeon, gweithgarwch corfforol iach a lle i ymlacio yng nghanol byd natur yn aml, gan gyfrannu at ein hansawdd bywyd. Bydd rhwydweithiau o ansawdd uchel, mannau gwyrdd hygyrch a mannau hamdden yn hyrwyddo cadwraeth natur a bioamrywiaeth hefyd ac yn darparu cyfleoedd pleserus i drigolion ac ymwelwyr gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol. Mae'r gweithgareddau hyn yn bwysig i lesiant plant ac oedolion a bywyd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd Cymru.

4.5.2 Dylai'r awdurdodau cynllunio ddarparu fframwaith ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden o ansawdd da sydd wedi'u lleoli'n dda, a datblygu polisïau clir ar gyfer darparu, diogelu a gwella cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Dylai'r polisïau hyn bennu safonau ar gyfer y ddarpariaeth, fel bod modd nodi ac unioni diffygion lleol drwy'r broses gynllunio, a llunio polisïau i osgoi neu ddatrys gwrthdaro rhwng gweithgareddau gwahanol.

4.5.3 Dylai mannau gwyrdd agored ffurfiol ac anffurfiol gael eu diogelu rhag cael eu datblygu. Mae hynny'n arbennig o berthnasol mewn ardaloedd trefol, lle mae mannau o'r fath yn cyflawni sawl diben. Yn ogystal â gwella ansawdd bywyd, maent yn cyfrannu at fioamrywiaeth, cadwraeth natur, tirwedd a'r amgylchedd hanesyddol, gwella ansawdd yr aer, diogelu dŵr daear ac fel lleoedd o dawelwch. Mae gan fannau agored o'r fath rôl i'w chwarae hefyd yn diogelu'r hinsawdd ac yn galluogi ardaloedd trefol i ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft drwy gyfrannu at reoli llifogydd a helpu i leihau effeithiau ynysoedd gwres trefol. Mae parciau a gerddi yn hanesyddol bwysig ac maent wedi'u rhestru yng Nghofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol Cymru.

4.5.4 Dylid diogelu pob maes chwarae rhag cael ei ddatblygu, boed yn eiddo i gorff cyhoeddus, preifat neu wirfoddol ac eithrio:

- lle y gellir cadw a gwella cyfleusterau orau drwy ailddatblygu rhan fach o'r safle;
- lle y darperir darpariaeth arall yn yr ardal o'r un budd i'r gymuned, gan osgoi colli'r ddarpariaeth dros dro; neu
- lle y mae gormod o ddarpariaeth o'r fath yn yr ardal.

4.5.5 Dylai awdurdodau cynllunio ddiogelu meysydd chwarae a mannau agored sy'n werthfawr i gymunedau lleol o ran amwynder neu hamdden, rhag cael eu datblygu. Dylent nodi sut y gellir defnyddio tir neu gyrff dŵr a ddatblygwyd o'r blaen, neu dir neu gyrff dŵr segur, at ddibenion chwaraeon a hamdden, yn enwedig yng nghyd-destun adfywio trefol.

4.5.6 Dylai awdurdodau cynllunio annog defnydd amlbwrpas o fannau agored a chyfleusterau, pan fo hynny'n briodol, er mwyn eu defnyddio'n fwy effeithiol. Mae 'Beyond the Six-acre Standard[42], gan Meysydd Chwarae yn cynnig cyngor defnyddiol i awdurdodau cynllunio ar ddarparu mannau agored a chwaraeon a chwarae awyr agored drwy'r system gynllunio.

4.5.7 Dylai Awdurdod Cynllunio ystyried faint o gyfle sydd i ddefnyddio tir a llwybrau segur fel parciau, parciau stribed neu lwybrau gleision mewn ardaloedd trefol ac annog y broses o ddarparu llwybrau beicio a llwybrau troed diogel a deniadol. Os cynigir defnyddio llinellau rheilffyrdd segur neu fannau ar hyd camlesi neu afonydd at ddibenion hamdden, dylai awdurdodau cynllunio sicrhau nad yw hyn yn cael effaith niweidiol ar ddefnyddwyr neu fywyd gwyllt cyfagos, neu ar amddiffynfeydd rhag llifogydd.

[42] www.fieldsintrust.org/Upload/file/guidance/Guidance-for-Outdoor-Sport-and-Play-Wales.pdf

# 5 Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus

## Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus a Llesiant

Mae'r thema Cynhyrchiol a Mentrus yn cwmpasu elfennau economaidd creu lleoedd. Mae'r elfennau hynny'n ategu elfennau'r themâu Actif a Chymdeithasol ac Unigryw a Naturiol a chyda'i gilydd, mae'r tair thema'n cyfrannu at ganlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae'r canlyniadau hyn yn gweithio gyda'i gilydd fel cyfanwaith, gan roi pwyslais ar y Canlyniadau Cynhyrchiol a Mentrus.

Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus yw'r rhai sy'n hyrwyddo ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol drwy ddarparu cyflogaeth a datblygiad economaidd cynaliadwy gyda chysylltiadau da. Mae'r lleoedd hyn wedi'u cynllunio a'u lleoli i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Gwneir hyn drwy eu gwneud yn hawdd i gerdded a beicio iddynt ac o'u hamgylch, i fynd iddynt ar drafnidiaeth gyhoeddus, i leihau'r defnydd o adnoddau anadnewyddadwy ac i ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel.





Mae lleoedd sy'n gynhyrchiol a mentrus yn cyfrannu at saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cynnwys:

Gellir sicrhau **Cymru Lewyrchus** drwy gynyddu gweithgarwch economaidd ym mhob sector ac ar bob lefel. Gwireddir hyn drwy sicrhau bod tir ar gael ar gyfer cyflogaeth, cyfleoedd dysgu gydol oes a hyfforddi, rhwydweithiau cyfathrebu dibynadwy a buddsoddiad mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel. Hyrwyddir dewisiadau ynni effeithlon a ddaw â manteision ariannol nawr a thros oes y datblygiad.

Mae **Cymru Gydnerth** yn cael ei chefnogi gan ein diwydiannau twristiaeth ac amaethyddiaeth a chan harddwch ein tirweddau naturiol, adeiledig a hanesyddol. Rhaid rheoli datblygiadau twristiaeth, sy'n gallu ariannu gweithgareddau cadwraeth, yn ofalus i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn parhau i'w mwynhau. Gall arferion amaeth cynaliadwy helpu i warchod a chyfoethogi natur. Mae topograffi Cymru'n addas ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Gellir cyflawni **Cymru Iachach** drwy leihau allyriadau a llygredd aer trwy gynhyrchu ynni o ffynonellau di-garbon. Gallai dosrannu'n cyfoeth economaidd yn well helpu i leihau tlodi sy'n un o'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd pobl.

Gellir cyflawni **Cymru sy'n fwy Cyfartal** drwy hyrwyddo digon o gyfleoedd cyflogaeth a menter i bobl wireddu'u potensial a thrwy gydnabod ac adeiladu ar gryfderau economaidd cyfredol lleoedd gan helpu i ddod â ffyniant i bawb.

Mae **Cymunedau Cydlynus** yn cael eu creu gan bobl sydd â gwaith sy'n rhoi boddhad y gellir ei gyrraedd yn hawdd yn lleol drwy seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy ac sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol ac yn ddiogel â'u ffrindiau a'u cymdogion.

Mae **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu** yn cael ei chefnogi trwy ddarparu swyddi a gweithgarwch economaidd sydd angen eu cynllunio a'u rheoli'n strategol. Mae'r iaith a'r diwylliant Cymraeg a Chymreig yn gwneud cyfraniad nodedig at hyfywedd cymunedau. Mae angen hyrwyddo ein cynnig i dwristiaid hefyd i gynnal gweithgareddau sy'n adlewyrchu mor unigryw ydym.

Yn anad dim, mae **Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang** yn cael ei hyrwyddo drwy leihau ein hôl-troed carbon drwy seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig, annog busnes sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang a hyrwyddo ffynonellau ynni adnewyddadwy yn hytrach na rhai sy'n allyrru carbon a dewisiadau adnoddau y gellir gwireddu manteision lluosog drwyddynt.

Dylai cynigion datblygu edrych tuag at y **tymor hir** er mwyn ystyried sut y gallant fod yn hyblyg i addasu i anghenion ac arferion cyflogaeth y dyfodol, yn cynnwys ymateb i dueddiadau perthnasol y dyfodol, datgarboneiddio ein system ynni, sut y bydd pobl yn symud o gwmpas neu'n cyfathrebu yn y dyfodol a diogelu'r adnoddau y gall fod eu hangen ar genedlaethau'r dyfodol.

Dylai datblygiad **Atal** problemau rhag digwydd neu waethygu – problemau fel cynhyrchu allyriadau carbon, ansawdd aer gwael a gwastraff a cholli'n hadnoddau naturiol y bydd angen eu rheoli am flynyddoedd lawer i ddod.

Dylid **integreiddio** datblygiad i sicrhau bod materion cyffredin yn cael eu hystyried a'u datrys yn gynnar, fel darparu'r seilwaith digidol a ffisegol angenrheidiol i'n cartrefi a'n busnesau nawr a sicrhau bod yr adnoddau naturiol priodol gennym i wneud hyn.

Mae angen **cydweithio** i gynllunio'n strategol ar gyfer diwallu'n hanghenion cyflogaeth, ynni, gwastraff a mwynau. Mae'r rhain yn feysydd lle bo angen i awdurdodau cynllunio fynd i'r afael â ffactorau sy'n fwy na rhai lleol, hynny â chymorth asiantaethau a chymunedau eraill i sicrhau bod canlyniadau cynaliadwy'n cael eu darparu ledled Cymru.

## Tueddiadau a Materion Cynhyrchiol a Mentrus

Mae ehangder y pynciau yn y thema Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus yn ymateb i dueddiadau a materion y dyfodol y bydd angen mynd i'r afael â nhw drwy'r system gynllunio. Bydd angen i benderfyniadau cynllunio herio'r tueddiadau hyn er mwyn sicrhau ein bod yn creu mannau cynaliadwy.

Mae prif ystyriaethau'r thema hon yn cynnwys:

- sicrhau bod digon o dir cyflogaeth ar gael i ddiwallu anghenion a gofynion sefyllfaoedd cyflogaeth amrywiol yn y dyfodol (yn cynnwys mwy o annibyniaeth a chyfraniad sylweddol i BBaChau at economi Cymru) ond gan sicrhau nad yw gorgyflenwad o dir cyflogaeth yn rhwystro rhyddhau tir ar gyfer dibenion eraill;
- hyrwyddo ac arallgyfeirio'n heconomi wledig i sicrhau ei bod yn addas at y dyfodol ac yn economaidd gynaliadwy a sicrhau bod datblygu diangen mewn ardaloedd gwledig yn cael ei reoli;
- manteisio ar ein cynnig nodedig i dwristiaid i hyrwyddo Cymru i'r byd, gan greu swyddi o ansawdd uchel yn y sector sy'n gwella sgiliau ac yn cynnig gwaith trwy'r flwyddyn;
- paratoi Cymru ar gyfer arloesedd technegol pellach yn y sector ffonau symudol a band eang fel y gall addasu i newid yn y newid gan sicrhau yr un pryd fod gan bob ardal yng Nghymru fynediad i systemau cyfathrebu modern;
- sicrhau bod modd addasu ein seilwaith trafnidiaeth i ddyfeisiadau newydd y dyfodol, fel cerbydau di-yrrwr, y twf mewn Cerbydau Allyriadau Isel Iawn, newid patrymau gweithio a'r defnydd cynyddol o wasanaethau dosbarthu nwyddau ar alw;
- cynyddu'n defnydd o gyfathrebu a thechnoleg digidol integredig i greu 'mannau clyfar' a goblygiadau hyn ar gyfer y ffordd rydym yn teithio, cyfathrebu, gweithio a chymdeithasu;
- cofleidio'r her o ddatgarboneiddio ein sectorau ynni a thrafnidiaeth, gan gynnwys cael gwared ar danwydd ffosil yn raddol a symud tuag at systemau ynni adnewyddadwy datganoledig lleol, storio mwy o ynni i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng y cyflenwad a'r galw a her hynny i'n rhwydweithiau dosbarthu;
- ymateb i heriau cefnogi a galluogi addasu yn yr amgylchedd adeiledig i ymgorffori egwyddorion yr economi gylchol mewn dewisiadau dylunio, wrth ddewis safleoedd, triniaeth ac arferion adeiladu cysylltiedig;
- cefnogi a galluogi capasiti hyfforddi, addysg, seilwaith, adeiladu a gweithgynhyrchu i gefnogi cynnydd tuag at economi gylchol;
- cefnogi a galluogi pobl i ddewis deunyddiau carbon isel, adnewyddadwy a chyfrifol o safbwynt bydeang, a'u defnyddio'n effeithlon ac yn y ffordd fwyaf priodol er mwyn atal gwastraff a sicrhau nad yw adnoddau prin yn cael eu lleihau'n ddiangen; a
- sicrhau bod adnoddau mwynau a allai fod eu hangen yn y dyfodol yn cael eu diogelu a bod cyflenwad digonol o ystod amrywiol o fwynau ar gael dros y tymor hir.

## Cysylltiadau Cynhyrchiol a Mentrus

Mae pynciau polisi'r thema Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus yn gallu gweithio gyda'i gilydd i greu mannau cynaliadwy trwy strategaethau, polisïau a dyraniadau cynlluniau datblygu ac mewn penderfyniadau rheoli datblygu. Yn arbennig:

- dylai datblygiadau newydd gael eu cysylltu'n electronig fel bod mynediad effeithlon i'r rhyngrwyd a systemau cyfathrebu er mwyn sbarduno cystadleurwydd economaidd, cynyddu cyfleoedd gweithio hyblyg a lleihau allgáu digidol;

- dylai potensial seilwaith cludiant newydd/gwell i greu neu adnewyddu canolfannau gweithgarwch economaidd gael ei wireddu gydag uwchgynlluniau gofalus mewn perthynas â nodau a chyfnewidfeydd trafnidiaeth cynaliadwy;
- creu lleoedd y gellir eu cyrraedd yn hawdd ar drafnidiaeth gynaliadwy sy'n manteisio ar eu lleoliad a'r cyfleoedd a gynigir gan y lleoliad hwnnw;
- manteisio ar ein hasedau naturiol a hanesyddol presennol a seilwaith cludiant newydd i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth;
- cydnabod cyfraniad ein porthladdoedd, meysydd awyr a seilwaith trafnidiaeth arall at yr economi a phwysigrwydd cysylltu safleoedd economaidd pwysig â'i gilydd mewn ffordd gynaliadwy;
- annog polisïau a chynigion sy'n hyrwyddo datblygiadau carbon isel a safleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy, gweithgynhyrchu, ymchwil a datblygu yn agos at ardaloedd lle cynhyrchir ynni adnewyddadwy;
- hyrwyddo manteision economaidd cynlluniau ynni, yn enwedig cefnogi'r datblygiadau hynny sy'n cynyddu'r manteision cynllunio i gymunedau;
- nodi a chefnogi'r potensial ar gyfer rhwydweithiau gwres (gan gynnwys ynni o ffatrïoedd gwastraff) ac ardaloedd â'r potensial ar gyfer safonau adeiladu cynaliadwy uwch;
- gweithredu'r egwyddor agosatrwydd ar gyfer gwastraff, mwynau ac ynni ar raddfa leol i leihau'r angen am gludiant ar y ffordd a'i effeithiau a phwysau ychwanegol ar rwydweithiau ynni;
- cydnabod cyfraniad economaidd mwynau wrth ddarparu seilwaith economaidd;
- arddel egwyddorion yr economi gylchol i leihau gwastraff di-angen ac annog gweithgynhyrchu o safon uchel a dewisiadau deunyddiau gwell yn yr amgylchedd adeiledig, yn cynnwys defnyddio deunyddiau gwydn wrth ddylunio datblygiadau;
- cynyddu'r defnydd o'n seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy, gan gynnwys porthladdoedd a rheilffyrdd, i gefnogi symud llwythi yn uniongyrchol a chyflwyno cyfleoedd datblygu economaidd a gwaith mwynau; a
- chydnabod yr effaith y bydd defnyddio mwy o e-fasnach yn ei chael ar ddosbarthu llwythi, gan gynnwys yr angen cynyddol am gyfleusterau dosbarthu, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae mynediad at seilwaith band eang yn cynyddu.

## Cyflwyniad

5.0.1 Mae'r thema polisi cynllunio Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus yn cwmpasu datblygu economaidd, seilwaith ffisegol, ynni a defnyddio adnoddau'n effeithiol.

5.0.2 Mae'n cynnwys datblygu'r tir sydd ei angen ar gyfer cynnal gweithgarwch economaidd, gan gynnwys datblygiadau swyddfa a diwydiannol traddodiadol, mentrau gwledig a thwristiaeth a'r seilwaith trafnidiaeth a'r systemau cyfathrebu sydd eu hangen i wneud y datblygiadau hynny'n gynaliadwy ac yn effeithlon. Mae angen cynhesu a phweru'n cartrefi, busnesau a chymunedau â ffynonellau ynni carbon isel ac mae hynny'n golygu hefyd leihau'n defnydd o ynni a gwneud y gorau o'r ynni a ddefnyddiwn. Bydd angen cwtogi defnydd o ffynonellau ynni anadnewyddadwy er mwyn cyflawni ein targedau o ran defnyddio llai o garbon a'n rhwymedigaethau rhyngwladol mewn perthynas â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Yn olaf, mae angen i'r defnydd o'r adnoddau mwynol sydd eu hangen i adeiladu ein seilwaith gael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy; felly hefyd y gwastraff rydym yn ei gynhyrchu trwy ein holl weithgarwch economaidd.

## Seilwaith Economaidd

### 5.1 Cyd-destun

5.1.1 Mae seilwaith, boed yn ffisegol, yn electronig neu'n ddigidol, yn gwneud cyfraniad allweddol at gynnal llesiant economaidd Cymru. Mae'n galluogi pobl i gysylltu a rhyngweithio â'i gilydd, naill ai'n bersonol neu'n electronig, i wella ffyniant. Mae'n galluogi pobl i deithio rhwng eu gweithle a'u cartref. Mae'n galluogi cludo nwyddau a gwasanaethau i bedwar ban byd. Mae'n galluogi cyfathrebu effeithiol rhwng pobl a busnesau ac yn darparu lle i bobl weithio a mwynhau ein hasedau naturiol a diwylliannol. Mae seilwaith gwael yn gallu cael effaith andwyol ar fuddsoddiad a thwf ac ar ansawdd bywyd, ffyniant a llesiant cymunedau.

### 5.2 Cyfathrebu Electronig

5.2.1 Mae seilwaith cyfathrebu electronig fforddiadwy a diogel yn hollbwysig i bobl a busnesau. Mae'r wybodaeth a'r cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth a ddarperir trwy delathrebu yn sicrhau bod pobl yn cael cysylltu â gwasanaethau pwysig, eu cymunedau a'r byd ehangach ac mae'n hanfodol i'n ffyniant tymor hir. Mae cysylltiadau dibynadwy a chyflym yn hanfodol i ddiwallu anghenion busnesau a sefydliadau eraill, ac i'r rheini sydd gartref sy'n defnyddio gwasanaethau digidol ac yn gweithio. Mae mwy o unigolion yn gweithio o gartref yn dueddiad cynyddol a dylai awdurdodau cynllunio ystyried goblygiadau hyn wrth baratoi eu cynlluniau datblygu.

5.2.2 Mae cymdeithas fodern yn mynnu rhwydweithiau cyfathrebu dibynadwy, cyflym a mawr eu capasiti er mwyn i bobl allu cael at symiau mawr o ddata a'u cyfnewid. Amcan Llywodraeth Cymru yw sicrhau cyswllt band eang cyflym a dibynadwy ym mhob safle yng Nghymru a chynorthwyo'r gwaith o ddarparu seilwaith symudol ledled y wlad.

5.2.3 Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r diwydiant telathrebu a'r rheoleiddiwr cyfathrebu Ofcom i rannu gwybodaeth am seilwaith cyfathrebu, i ddeall materion rheoleiddio, cynllunio ac economaidd a all ddylanwadu ar fuddsoddiad ac i lywio gwaith llunio polisi yn y maes hwn yn y dyfodol.

5.2.4 Defnyddir hawliau datblygu helaeth sydd wedi'u caniatáu i gefnogi darparu seilwaith telathrebu electronig.

#### Telathrebu Symudol [43]

5.2.5 Mae telathrebu symudol yn ymgorffori technoleg a gwasanaethau ffôn symudol a band eang symudol. Dylai'r system gynllunio helpu i gefnogi seilwaith

[43] Cod arferion gorau ar ddatblygu'r rhwydwaith ffonau symudol: www.llyw.cymru/datblygu-rhwydwaith-ffonau-symudol-cod-ymarfer

telathrebu yn ôl yr angen, a dylai ystyried statws tir ac adeiladau gwarchodedig yn ogystal ag ystyriaethau amwynderau i ddiogelu'r pethau mwyaf gwerthfawr yn ein cymunedau a'n hamgylchedd.

5.2.6 Teimlir effeithiau seilwaith telathrebu symudol newydd fwyaf mewn tirweddau sensitif ac ardaloedd dynodedig eraill a dylid eu cynllunio'n ofalus. Fodd bynnag, dyma'r union ardaloedd, yn rhai gwledig gan fwyaf, sy'n diodde'n economaidd ac yn gymdeithasol oherwydd diffyg cyswllt. Rhaid felly wrth gynllunio rhagweithiol ond ystyriol er mwyn sicrhau'r cyswllt mwyaf tra'n diogelu cymeriad yr ardaloedd arbennig hyn.

5.2.7 Dylai awdurdodau cynllunio ymgysylltu â gweithredwyr ffonau symudol wrth baratoi cynlluniau datblygu i drafod darpariaeth gwasanaethau a nodi lle mae signal yn wael neu lle nad yw gwasanaeth yn cael ei ddarparu. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau cynllunio, er enghraifft, pan fydd yn bwrw ymlaen â mentrau neu raglenni sydd â'r nod o wella gwasanaethau a chwmpas telathrebu digidol ledled Cymru.

5.2.8 Mae awdurdodau cynllunio'n cael eu hannog i gadw cofrestr o fastiau a strwythurau eraill y mae offer telathrebu wedi'u cysylltu neu'n gallu cael eu cysylltu wrthyn nhw.

5.2.9 Dylai cynlluniau datblygu amlinellu polisïau ar gyfer datblygiad telathrebu, yn cynnwys polisïau seiliedig ar feini prawf i arwain datblygiadau i leoliadau addas. Dylai meini prawf fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu newidiadau technegol, a gallant roi sylw i leoliad ac ymddangosiad offer, gan gynnwys gofynion lleoli a thirlunio a gynlluniwyd i leihau'r effaith ar amwynder, yn unol â gofynion gweithredol. Os bydd awdurdod cynllunio o'r farn, am resymau'n ymwneud ag amwynder gweledol, y byddai'n well cyfyngu mastiau yn ei ardal i un safle, gallai'r awdurdod ddewis trafod â'r gweithredwyr a pherchennog y tir ymarferoldeb defnyddio rhwymedigaeth neu amod cynllunio i sicrhau gofyniad rhwymol a gorfodadwy y byddai safle'r mast ar gael ar gyfer ei rannu.

5.2.10 Ni ddylai awdurdodau cynllunio gwestiynu'r angen am y system delathrebu na cheisio atal cystadleuaeth rhwng gwahanol weithredwyr. Gallai awdurdodau cynllunio helpu gweithredwyr trwy nodi tir neu eiddo sy'n eiddo i'r awdurdod lleol all fod yn addas ar gyfer datblygiadau telathrebu neu drwy annog pobl eraill i ddarparu safleoedd.

5.2.11 Bydd technolegau newydd megis 5G yn arwain at ddwysáu seilwaith symudol, yn enwedig mewn ardaloedd trefol lle bydd angen mwy o safleoedd celloedd bach o bosib mewn lleoliadau stryd. Bydd angen i'r system gynllunio ymateb yn gadarnhaol i'r esblygiad hwn mewn technoleg, gan ystyried yr effeithiau ar amwynderau a'r amgylchedd hanesyddol yr un pryd.

5.2.12 Dylai awdurdodau lleol gyfeirio at y Cod Arfer Da ar Ddatblygu Rhwydweithiau Ffonau Symudol yng Nghymru sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am leoli a dylunio seilwaith, yn enwedig y gofynion o ran technoleg 5G.[44]

### Defnydd Effeithlon o Seilwaith Telathrebu

5.2.13 Dylai gweithredwyr ffonau symudol rannu mastiau telathrebu lle bo hynny'n bosibl i sicrhau'r defnydd effeithlon o seilwaith ac i leihau'r effaith ar yr amgylchedd. Lle ceir mastiau ar bwys ei gilydd sy'n eiddo i weithredwyr gwahanol, dylai'r gweithredwyr gyfiawnhau hynny yn eu ceisiadau cynllunio.

[44] Mobile phone network development: code of practice (2021)

5.2.14 Anogir rhannu mastiau a safleoedd lle bo hynny'n cynrychioli'r ateb amgylcheddol gorau mewn achos penodol, er enghraifft, mewn ardaloedd dynodedig neu ardaloedd tirwedd sensitif. Bydd dyluniad mastiau yn ystyriaeth bwysig os mai rhannu yw'r dewis a ffefrir, a dylid gwneud ymdrech i guddio cyfarpar lle bo angen. Lle medrid, dylid defnyddio adeiladau a strwythurau eraill i osod cyfarpar newydd a dylai datblygwyr siarad ag awdurdodau cynllunio a'r gymuned i gael hyd i leoliadau posib allai ddod â manteision ychwanegol. Dylai'r gwaith lleoli sicrhau'r signal gorau posibl a, chyn belled ag y bo'n ymarferol, lleihau'r effaith ar amwynder a golwg adeilad.

5.2.15 Dylai awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw effeithiau ar yr amgylchedd y gallai rhannu mastiau eu cael. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os bydd rhannu mast yn golygu codi mast newydd neu newid y mast er mwyn cynyddu ei uchder neu gapasiti ei lwyth. Bydd awdurdodau cynllunio am fod yn fodlon bod lle ar fast neu safle a rennir i offer ychwanegol. Ambell waith, gan ddibynnu ar y lleoliad, bydd rhannu safle'n well na rhannu mast. Bydd angen i awdurdodau lleol ystyried effeithiau cronnus posibl rhannu mast a rhannu safle. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried y cyfyngiadau technegol a'r gofynion gweithredol fydd yn dylanwadu ar benderfyniad datblygwr wrth ddewis safle. Rhaid penderfynu ar bob cais yn unol â'r cynllun datblygu oni bydd ystyriaethau perthnasol yn dweud fel arall.

5.2.16 Wrth i rwydweithiau ddatblygu a thechnoleg newid, anogir ailddefnyddio safleoedd sy'n bod er mwyn lleihau'r angen am safleoedd newydd. Dylid defnyddio amodau hefyd i sicrhau bod offer nad oes ei angen mwyach yn cael ei gymryd o'r safle'n gyflym.

### Defnyddiau Cyffiniol Sensitif

5.2.17 Lle bwriedir codi mast newydd ar neu yn ymyl defnydd sensitif, er enghraifft, maes awyr, ysbyty, crèche, ysgol neu goleg, mae'n bwysig bod gweithredwyr yn ymgysylltu â'r perchenogion yn gynnar yn y broses ddatblygu i drafod unrhyw bryderon technegol neu bryderon eraill y gall lleoliad y mast eu hachosi. Bydd hynny'n cynnwys safleoedd hefyd all fod yn agos i rwydweithiau milwrol neu gyfathrebu eraill. Dylai tystiolaeth o'r ymgysylltu hwn gael ei darparu gyda phob cais.

5.2.18 Cyn belled bod y datblygiad yn bodloni canllawiau'r International Commission on Non-Ionising Radiation Protection (ICNIRP), ni ddylai awdurdodau cynllunio roi ystyriaeth i'r agweddau iechyd ar gyfarpar telathrebu symudol. Disgwylir i bob gorsaf newydd fodloni canllawiau'r ICNIRP.

5.2.19 Ni ddylai awdurdodau cynllunio roi eu polisïau rhagofalus eu hunain ar waith, megis gosod gwaharddiad neu foratoriwm ar ddatblygiad telathrebu newydd neu fynnu isafswm pellter rhwng datblygiad telathrebu newydd a datblygiad presennol.

### Derbyniad Signalau ac Ymyriant

5.2.20 Mae adeiladu adeiladau newydd mawr neu amlwg neu strwythurau eraill fel tyrbinau gwynt yn gallu amharu ar wasanaethau telathrebu a darlledu am eu bod yn gallu atal neu adlewyrchu signalau. Gall ymyriant fod yn ystyriaeth berthnasol hefyd. Dylai awdurdodau cynllunio lleol fod yn fodlon bod y posibilrwydd o ymyriant wedi cael ei ystyried wrth ddewis lleoliad a dyluniad datblygiad, gan y gallent fod yn anodd eu cywiro ar ôl ei adeiladu. Gallai fod yn briodol holi awdurdodau telathrebu neu ddarlledu mewn rhai sefyllfaoedd.

### Band Eang Llinell Sefydlog

5.2.21 Dylai cynigion datblygu ar gyfer seilwaith band eang newydd neu welliannau i rwydweithiau neu offer presennol gael eu cefnogi gan awdurdodau cynllunio. Dylai'r cynigion datblygu newydd gynnwys darparu seilwaith band eang 'a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit' o'r cychwyn Mae 'cyfradd gigabeit' yn cyfeirio at y cysylltedd band eang cyflym a ddarperir fel arfer gan dechnoleg 'cysylltiad ffeibr i'r adeilad' (FTTP) ond gall gynnwys hefyd seilwaith diwifr sefydlog. Mae FTTP yn gallu cario 1000 Mb (neu 1 gigabeit) yr eiliad er bod y gwir gyflymder yn dibynnu ar y gwasanaeth rhyngrwyd a ddarperir. Fel arfer, bydd sicrhau y gall safle 'drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit' yn golygu gosod pibellau tanddaearol ar y safle neu bibellau a chebl ffeibr, i alluogi gweithredwyr band eang i gysylltu'n rhwydd ag anheddau neu fusnesau. Daw canllawiau ynghylch gosod seilwaith band eang mewn annedd o dan y rheoliadau Rheoli Adeiladu, Rhan R – Seilwaith ffisegol ar gyfer rhwydweithiau electronig cyflym iawn. Yn ymarferol, fel arfer y darparwr telathrebu neu gyfuniad o'r darparwr telathrebu a'r datblygwr sy'n gosod y seilwaith digidol ar gyfer datblygiad. Dylai datblygwyr gysylltu â darparwyr cyfathrebu cyn gynted â phosibl yn y broses ddatblygu i gytuno ar gynllun i osod ffeibr os yw neu y bydd hwnnw ar gael.

5.2.22 Mewn ardaloedd gwledig, mae mynediad at fand eang cyflym yn hollbwysig at ddibenion busnes a chymdeithasol. Mae natur anghysbell rhai ardaloedd wedi bod yn her i sefydlu rhwydweithiau modern. Mae rhaglenni diweddaraf Llywodraeth Cymru'n ceisio datrys y broblem hon.

5.2.23 Dylai awdurdodau cynllunio mewn ardaloedd trefol a gwledig gynnwys polisïau yn eu cynlluniau datblygu i fynd i'r afael â'r angen am seilwaith band eang a'r gwaith o'i wella neu ei gyflwyno. Dylai hyn gynnwys meini prawf dylunio a lleoli i helpu i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Dylai awdurdodau gysylltu â darparwyr seilwaith band eang i ddeall gofynion rhaglenni i'r dyfodol o ran cyflwyno a gwella yn eu hardaloedd dros gyfnod y cynllun datblygu.

## 5.3 Seilwaith Trafnidiaeth[45]

5.3.1 Mae'n hanfodol darparu seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy er mwyn creu cyfoeth, mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, lleihau llygredd yr aer a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Dylai'r system gynllunio hwyluso'r gwaith o ddarparu, datgarboneiddio a gwella'r seilwaith trafnidiaeth, mewn ffordd sy'n lleihau'r angen i deithio, yn enwedig gan ddefnyddio cerbydau preifat, a hwyluso a chynyddu teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy[46].

5.3.2 Dylai awdurdodau cynllunio gefnogi gwelliannau angenrheidiol i seilwaith trafnidiaeth, lle gellir dangos bod mesurau o'r fath yn gyson â pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer annog a chynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r ddibyniaeth ar y car preifat ar gyfer teithiau dyddiol. Ni ddylai'r seilwaith trafnidiaeth ennyn galw arwyddocaol am deithiau dyddiol mewn car na chyfrannu at flerdwf trefol neu ddarnio cymdogaethau. Wrth gynllunio a dylunio seilwaith trafnidiaeth, rhaid ystyried anghenion defnyddwyr trafnidiaeth llesol a chynaliadwy cyn anghenion defnyddwyr ceir preifat, yn unol â'r hierarchaeth drafnidiaeth gynaliadwy.

[45] Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-18-trafnidiaeth
[46] Gweler hefyd y Bennod ar Leoedd Actif a Chymdeithasol.

5.3.3 Dylai cynlluniau datblygu nodi a chynnwys polisïau yn ymwneud â datblygu seilwaith trafnidiaeth a gwasanaethau cysylltiedig (megis cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau rheilffordd, porthladdoedd a meysydd awyr), gan gynnwys ardaloedd wedi'u diogelu ar gyfer seilwaith/llwybrau trafnidiaeth i'r dyfodol. Lle bo'n bosibl, dylid dangos union lwybr y seilwaith newydd neu seilwaith gwell arfaethedig yn y cynllun datblygu. Pan nad yw'r union lwybr yn hysbys, gellir cyflwyno polisi diogelu ar gyfer y llecynnau o dir sy'n angenrheidiol ar gyfer y cynllun. Dylid sicrhau cyn lleied â phosib o falltod cynllunio drwy gynnwys, yn y cynllun datblygu, ddim ond y cynlluniau hynny sy'n debygol o gael eu rhoi ar waith o fewn cyfnod y cynllun. Pan fydd cynlluniau datblygu yn cael eu paratoi neu eu diwygio, dylid adolygu'r cynigion trafnidiaeth presennol er mwyn cael gwared ag unrhyw gynigion a gafodd eu diogelu yn y gorffennol ond y rhoddwyd y gorau iddynt, neu unrhyw gynigion y mae'n annhebygol y byddant yn dechrau yn ystod cyfnod y cynllun.

5.3.4 Rhaid bod yn ofalus iawn i liniaru effeithiau andwyol unrhyw seilwaith trafnidiaeth newydd, neu welliannau yn y seilwaith presennol ar yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig ac ar gymunedau lleol gan gynnwys ar iechyd cyhoeddus o ganlyniad i ddarnio cymunedau a llygredd yr aer. Dylid meddwl yn gynnar yn y broses am fesurau seilwaith gwyrdd i leddfu effeithiau negyddol a gwella ansawdd a chysylltedd yr amgylchedd. Dylai'r llwybrau wneud y defnydd gorau o'r tirffurfiau presennol a nodweddion eraill o'r dirwedd er mwyn lleihau sŵn ac effeithiau gweledol, yn amodol ar ddiogelwch ac ystyriaethau amgylcheddol eraill. Lle nad oes llwybrau neu ddewisiadau ymarferol eraill, dylai cynlluniau seilwaith trafnidiaeth ddarparu mesurau lliniaru sy'n lleihau'r effeithiau drwg ac yn cynyddu'r effeithiau da a ddaw yn sgil eu hadeiladu a'u gweithredu, gan gynnwys lleihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â llygredd yn yr aer.

5.3.5 Wrth asesu prosiectau trafnidiaeth, dylai awdurdodau cynllunio ystyried yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)[47]. Mae WelTAG yn broses gymalog sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer dadansoddi problemau cludiant a datblygu ac arfarnu opsiynau cludiant ar sail sbectrwm eang o bolisïau ac ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a thechnegol. Mae'r broses wrthrychol hon yn arbennig o bwysig wrth gynllunio prosiectau seilwaith trafnidiaeth strategol, a thrafnidiaeth sy'n gysylltiedig â datblygiadau mawr, gan ei bod yn helpu i sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i holl effeithiau'r opsiynau trafnidiaeth. Bydd hynnny'n helpu i gael hyd i'r atebion fydd yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf at y nodau llesiant ac yn caniatáu i atebion a mesurau lliniaru gael eu nodi a'u datblygu cyn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynlluniau. Mae'r broses WelTAG yn ffordd hefyd i sicrhau bod atebion yn briodol ar gyfer trechu'r problemau trafnidiaeth a nodir ac osgoi dewis opsiynau moddol heb dystiolaeth ategol.

### Trafnidiaeth Gyhoeddus

5.3.6 Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio hyrwyddo a hwyluso darparu a datgarboneiddio seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus o safon uchel. Dylai cynlluniau datblygu nodi a chefnogi llwybrau, mesurau a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus priodol. Dylid ystyried cynigion yn Llwybr Newydd, y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth a'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol / y Cyd-gynlluniau Trafnidiaeth Lleol (CTLl), a allai gynnwys cyfleusterau gwell i deithwyr bysiau, cynlluniau parcio a theithio, llinellau rheilffordd newydd, gan

[47] Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru www.llyw.cymru/arweiniad-ar-arfarnu-trafnidiaeth-cymru-weltag

gynnwys rheilffordd ysgafn, ailagor rheilffyrdd, darparu gorsafoedd newydd, a gwasanaethau gwell i deithwyr ar reilffyrdd cyfredol. Dylai cynlluniau datblygu nodi hefyd a oes angen trafnidiaeth gyhoeddus i gefnogi datblygiad newydd.

5.3.7 Mewn cynlluniau datblygu, dylai awdurdodau lleol nodi'r angen am safleoedd cyfnewidfeydd ychwanegol a gwelliannau i gyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus cyfredol, yn cynnwys mesurau i hyrwyddo diogelwch personol. Mewn ardaloedd gwledig, dylid nodi safleoedd cyfnewidfeydd mewn nodau lle gellir trosglwyddo rhwng gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus lleol a phellter hir. Dylai awdurdodau lleol ddiogelu cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus cyfredol rhag datblygiad a fyddai'n cyfaddawdu'r gallu i barhau i'w defnyddio hefyd.

5.3.8 Ar y cyd â Trafnidiaeth Cymru a Network Rail, dylid diogelu rheilffyrdd segur neu seidins segur rhag datblygiad allai gael effaith andwyol ar eu defnyddio fel rheilffyrdd yn y dyfodol. Dylai unrhyw gais cynllunio neu bolisi cynllun datblygu arfaethedig yn y cyffiniau neu sy'n cael effaith uniongyrchol ar hen reilffordd ystyried yr effaith ar y potensial i'w defnyddio fel rheilffyrdd yn y dyfodol. Fel mesur dros dro, gallai fod yn briodol defnyddio rheilffyrdd segur fel coridorau gofod agored, er enghraifft ar gyfer cerdded a beicio.

### Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

5.3.9 Mae gan gefnffyrdd a thraffyrdd rôl genedlaethol a rhyngwladol, gan ddarparu rhwydwaith o ffyrdd o safon uchel sy'n cludo traffig pellter hir rhwng canolfannau mawr.

5.3.10 Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael i leihau'r angen i ddefnyddio cefnffyrdd a llwybrau trwodd eraill ar gyfer teithiau lleol, byr. Ni fyddai mynediad uniongyrchol i draffordd neu slipffordd traffordd yn dderbyniol, ac eithrio i ardal gwasanaeth traffordd a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru. Os yn bosibl, dylid osgoi mynediad uniongyrchol o ddatblygiad newydd i briffordd. Os yw'n ymarferol, dylai mynediad fod i ffordd eilaidd. Mewn unrhyw leoliad, gellir helpu llif traffig a diogelwch drwy ddylunio cyffordd dda. Bydd nifer y mynedfeydd a ganiateir yn dibynnu ar ba fath o ffordd yw hi a natur y ffordd. Mewn ffordd debyg, dylai'r math o fynediad a ddarperir adlewyrchu'r math o ffordd a swm a chymeriad y traffig sy'n debygol o ddefnyddio'r mynediad a'r ffordd.

5.3.11 Dylai cynlluniau datblygu nodi'r rhwydwaith priffyrdd, gan gynnwys cefnffyrdd, a nodi'r rhwydwaith craidd ar wahân. Dylid nodi'r llwybrau hyn ar y map cyfyngiadau fel coridorau ar gyfer symud lle bydd datblygiad a fyddai'n cyfaddawdu'r rôl drafnidiaeth strategol hon, neu a fyddai'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd, iechyd, amwynder neu lesiant pobl, yn cael ei wrthwynebu.

5.3.12 Dylai cynlluniau datblygu gynnwys pob cynnig ar gyfer ffyrdd newydd a gwelliannau mawr i'r rhwydwaith priffyrdd dros gyfnod y cynllun, ac amlinellu'r polisi eang ar flaenoriaethau ar gyfer mân welliannau. Ar gyfer cynlluniau ffyrdd lleol, dylai gweithdrefnau'r cynllun datblygu ddarparu'r modd i archwilio'r angen am y llwybr ac ailiniad y llwybr.

5.3.13 Wrth ddylunio cynlluniau ffyrdd neu welliannau ffyrdd newydd, dylid ystyried yr hierarchaeth drafnidiaeth, lle rhoddir ystyriaeth i drafnidiaeth lesol a chynaliadwy cyn cerbydau preifat. Bydd hynny'n helpu i osgoi ynysu'r gymuned oddi wrth gynllun a'i effeithiau ar ddiogelwch, hwylustod ac amwynder llwybrau ar gyfer teithiau ar droed, beic a thrafnidiaeth gyhoeddus.

### Porthladdoedd, Harbyrau, Marinas a Dyfrffyrdd Mewndirol

5.3.14 Mae porthladdoedd, harbyrau, marinas a dyfrffyrdd mewndirol deniadol a defnyddiol sy'n ateb y galw nawr ac yn y dyfodol yn gwneud Cymru'n lleoliad deniadol ar gyfer busnesau, ymwelwyr a chludiant llwythi. Mae cefnogaeth a buddsoddiad yn y cyfleusterau hyn yn datgloi'r potensial i hybu'r economi yn uniongyrchol, trwy gynyddu'r defnydd o'r cyfleusterau, ac yn anuniongyrchol, trwy'r cyfleoedd mae gwell seilwaith trafnidiaeth forol yn eu darparu i sectorau eraill (yn genedlaethol ac yn rhyngwladol).

5.3.15 Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP) yn darparu gweledigaeth glir fel y gall porthladdoedd, harbyrau, marinas a dyfrffyrdd mewndirol gynllunio eu gweithrediadau nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys opsiynau i ehangu a/neu arallgyfeirio. Rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried goblygiadau defnyddio tir WNMP.

5.3.16 Dylai awdurdodau cynllunio geisio hyrwyddo'r defnydd o borthladdoedd, harbyrau, marinas a dyfrffyrdd mewndirol trwy ddiogelu neu ddarparu mynediad iddynt a thrwy gadw neu ddarparu cyfleusterau cei, porthladd, harbwr a rheilffordd i gefnogi gweithgareddau economaidd mewn ffordd sy'n lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd morol. Yn ogystal, dylai awdurdodau cynllunio ystyried ac, os yn briodol, hyrwyddo porthladdoedd a'r ardal o'u cwmpas ar gyfer cyfnewidfeydd llwythi rhyngfoddol a safleoedd cyflogaeth strategol.

### Meysydd Awyr

5.3.17 Mae meysydd awyr yn hybiau pwysig sy'n gwneud cyfraniad allweddol at ddarparu cysylltedd cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer twristiaeth a busnes. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi twf a gwelliannau i feysydd awyr a'u seilwaith yng Nghymru a gwelliannau i gysylltiadau trafnidiaeth iddynt, yn ffyrdd a rheilffyrdd, yn enwedig y rhai sy'n gwella hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus.

5.3.18 Dylai awdurdodau cynllunio gydnabod pwysigrwydd strategol a lleol meysydd awyr a'u potensial fel canolfannau gweithgarwch economaidd. Dylai awdurdodau hyrwyddo mynediad i feysydd awyr trwy drafnidiaeth gynaliadwy, gan ystyried lefelau presennol ac arfaethedig trafnidiaeth gyhoeddus, a sicrhau bod effeithiau amgylcheddol, gan gynnwys llygredd yn yr aer, yn cael eu hystyried yn llawn.

### Cludo Nwyddau

5.3.19 Mae symudiad effeithlon, dibynadwy a chynaliadwy nwyddau'n bwysig i'r economi, i ddarpariaeth effeithiol gwasanaethau sy'n dibynnu ar gyflenwadau, megis iechyd, ac i fywydau bob dydd pobl yn fwy cyffredinol. Nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu'r nwyddau sy'n cael eu cludo gan ar y rheilffyrdd ac ar y dŵr, yn hytrach na'r ffordd.

5.3.20 Dylai awdurdodau cynllunio ystyried arwyddocâd strategol mynediad ar gyfer nwyddau. Dylai awdurdodau cynllunio hyrwyddo opsiynau cludo nwyddau cynaliadwy, gan gynnwys ystyried y potensial i gludo ar y rheilffyrdd, ar y dŵr neu drwy bibell yn hytrach nag ar y ffordd. Dylai cynllun datblygu nodi ac, os yn briodol, ddiogelu llwybrau sy'n ofynnol ar gyfer symud llwythi mewn ffordd gynaliadwy a diogelu seilwaith trafnidiaeth presennol rhag mathau eraill o ddatblygiad.

5.3.21 Dylai awdurdodau lleol ystyried pa lwybrau sydd fwyaf addas i'w defnyddio gan nwyddau ar y ffordd ac annog lleoli neu adleoli canolfannau dosbarthu a gweithredu i safleoedd â mynediad da i'r llwybrau hyn. Mae hyn yn berthnasol hefyd i ddatblygiadau eraill sy'n cynhyrchu symudiadau nwyddau cyson ar y ffordd.

5.3.22 Os yn bosibl, dylai cyfleusterau newydd gael eu lleoli yn ymyl rheilffyrdd a/neu borthladdoedd i hyrwyddo trosglwyddo moddol. Yn ogystal, dylai awdurdodau lleol ystyried dichonoldeb datblygu hybiau HGV y tu allan i ganol dinasoedd/trefi lle byddai nwyddau'n cael eu trosglwyddo i LGVs ar gyfer rhan olaf y daith.

5.3.23 Dylai awdurdodau cynllunio annog adeiladu glanfeydd mewn porthladdoedd ac ar ddiwedd llinellau rheilffordd i wasanaethu datblygiad mwynol newydd yn ymyl y seilwaith rheilffyrdd presennol a diogelu seilwaith trafnidiaeth presennol rhag tarfu gan fathau eraill o ddatblygiad.

5.3.24 Dylai awdurdodau cynllunio ystyried goblygiadau'r twf parhaus mewn gwasanaethau e-fasnach drws-i-ddrws ar gyfer defnydd busnes a domestig. Gall hyn gael effeithiau sylweddol iawn mewn ardaloedd trefol, oherwydd tagfeydd traffig a llygredd aer.

## 5.4 Datblygu Economaidd[48]

5.4.1 At ddibenion cynllunio, mae Llywodraeth Cymru yn diffinio datblygu economaidd fel datblygu tir ac adeiladau ar gyfer gweithgareddau cynaliadwy sy'n creu ffyniant, swyddi ac incwm tymor hir. Dylai'r system gynllunio sicrhau nad yw twf cynnyrch a chyflogaeth yng Nghymru yn cael ei gyfyngu gan brinder tir at ddefnyddiau economaidd.

5.4.2 Mae defnyddiau tir economaidd yn cynnwys y defnyddiau tir cyflogaeth traddodiadol (swyddfeydd, ymchwil a datblygu, diwydiant a warysau), ynghyd â defnyddiau megis manwerthu, twristiaeth a gwasanaethau cyhoeddus. Mae defnyddiau tir economaidd hefyd yn cynnwys sectorau adeiladu, ynni, mwynau, gwastraff a thelathrebu sydd hefyd yn sensitif i bolisi cynllunio. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i atgyfnerthu'r economi sylfaenol, yn benodol y sectorau bwyd, manwerthu, twristiaeth a gofal sy'n chwarae rôl mor bwysig ledled Cymru; dylai'r system gynllunio gefnogi'r nod hwn. Yn yr un modd, ceir cefnogaeth gref i dwf mewn technoleg newydd, arloesol a sectorau gwerth uchel ychwanegol fel peirianneg uwch, ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel, digidol a biodechnoleg. Dylai cynlluniau datblygu ystyried y rôl y gall y sectorau hyn ei chwarae o ran buddsoddi a chreu swyddi yn eu hardal. Mae'r adran hon yn canolbwyntio'n bennaf ar ddefnyddiau tir cyflogaeth traddodiadol (B1, B2 a B8), tra bod polisïau ar sectorau economaidd eraill i'w gweld yn y bennod hon ac yn rhannau eraill y PCC.

### Darparu Digon o Dir Fel Sydd ei Angen gan y Farchnad

5.4.3 Dylai awdurdodau cynllunio roi eu cefnogaeth i ddarparu digon o dir i gwrdd ag anghenion y farchnad gyflogaeth ar lefel strategol a lleol. Dylai cynlluniau datblygu nodi'r gofyn am dir cyflogaeth, dyrannu cymysgedd priodol o safleoedd i ateb y galw a llunio fframwaith ar gyfer diogelu safleoedd cyflogaeth o bwys strategol a lleol.

5.4.4 Os yn bosibl, dylai awdurdodau cynllunio annog a chefnogi datblygiadau sy'n cynhyrchu ffyniant ac adfywio economaidd. Dylai safleoedd a nodir at ddefnydd cyflogaeth mewn cynllun datblygu gael eu diogelu rhag datblygiad amhriodol.

5.4.5 Mae tystiolaeth i lywio darpariaeth defnyddiau datblygu economaidd yn allweddol, a dylai awdurdodau cynllunio weithio gyda'i gilydd i gynhyrchu Adolygiadau Tir Cyflogaeth (ELR)[49] sy'n llywio'r broses hon.

5.4.6 Wrth hyrwyddo datblygu economaidd, dylai awdurdodau cynllunio ystyried yr holl opsiynau polisi, gan gynnwys defnyddio Gorchmynion Datblygu

[48] Gweler Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-23-datblygu-economaidd
[49] Gweler Canllawiau www.llyw.cymru/cynlluniau-datblygu-lleol-canllawiau-ar-ddatblygu-economaidd

Lleol (LDOs)[50] i symleiddio'r broses gynllunio ar gyfer mentrau yn eu hardal. Bydd mecanweithiau polisi, fel LDOs, yn hynod arwyddocaol i'r awdurdodau lleol sydd ag Ardaloedd Menter.

### Tystiolaeth Economaidd ac Adolygiadau Tir Cyflogaeth

5.4.7 Dylai cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu fod yn seiliedig ar dystiolaeth gyfoes leol ac is-ranbarthol. Mae'n bwysig bod tystiolaeth o'r fath yn dangos addasrwydd y cyflenwad presennol o dir cyflogaeth, ynghyd â darpariaeth i'r dyfodol, mewn perthynas â gofynion lleoliadol a datblygiadol y busnes.

5.4.8 Dylai awdurdodau cynllunio weithio gyda'i gilydd a gyda fforymau economaidd perthnasol er mwyn paratoi ELR. Dylai'r adolygiad gynnwys asesiad o'r newid cyflogaeth a ragwelir a defnydd tir, ynghyd ag amcangyfrifon o'r ddarpariaeth tir ar gyfer defnyddiau cyflogaeth sy'n dangos newid net mewn tir/gofod llawr. Dylid ei gyfrif ar gyfer swyddfeydd, diwydiant a warysau ar wahân. Dylai'r dystiolaeth hon helpu i lywio gweledigaeth economaidd ar gyfer yr ardal. Dylid cadw Adolygiadau Tir Cyflogaeth yn gyfredol ac yn berthnasol i amodau'r farchnad ac anghenion y cynllun datblygu.

### Llywio Datblygu Economaidd i'r Lleoliadau Mwyaf Priodol

5.4.9 Mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio'n ymwybodol o anghenion economaidd eu hardaloedd eu hunain a'r rhanbarth lleol.

5.4.10 Er mwyn sicrhau cynllunio effeithiol ar gyfer yr economi, rhaid i awdurdodau cynllunio weithio'n strategol a chydweithredol gan atgyfeirio datblygiad a buddsoddiad i'r lleoliadau mwyaf effeithlon a chynaliadwy, pa bynnag ardal awdurdod lleol y maent ynddi.

5.4.11 Dylid nodi safleoedd cyflogaeth strategol ar raddfa ranbarthol trwy gytundeb ymhlith awdurdodau lleol ynghylch pa safle fyddai'n gwasanaethu'r ardal gyfan orau. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i nodweddion safleoedd cyflogaeth strategol er mwyn sicrhau bod ganddynt rinweddau unigryw a'u bod yn darparu cynnig gwahaniaethol ar draws y rhanbarth. Ni ddylai pob awdurdod lleol ddynodi safle cyflogaeth strategol strategol a dylid diogelu'r safleoedd hyn am eu rhinweddau rhag eu defnyddio at ddibenion heblaw gwaith.

5.4.12 Trwy broses y cynllun datblygu, dylai awdurdodau cynllunio a rhanddeiliaid perthnasol weithio gyda'i gilydd i nodi'r tir mwyaf priodol ar gyfer ei ddatblygu. Nid yw patrymau teithio i'r gwaith yn adlewyrchu ffiniau awdurdod lleol, ac mae'n hollbwysig bod awdurdodau cynllunio yn nodi a gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer eu rôl yn economïau rhanbarthol ac is-ranbarthol Cymru.

5.4.13 Dylai awdurdodau cynllunio geisio:

- cydgysylltu datblygiad gyda phob math o ddarpariaeth seilwaith, megis trafnidiaeth a chyfleustodau;
- cefnogi polisïau a strategaethau economaidd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol;
- alinio swyddi a gwasanaethau â thai a seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy, i leihau'r angen i deithio a'r ddibyniaeth ar deithio mewn car;
- hyrwyddo ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen, tir gwag a thir sy'n cael ei danddefnyddio;
- darparu cyfleoedd cyflogaeth ac adfywio ffisegol i gymunedau difreintiedig;

[50] Cylchlythyr 03/2012 Llywodraeth Cymru – Canllawiau ar ddefnyddio gorchmynion datblygu lleol Ebrill 2012 www.llyw.cymru/gorchmynion-datblygu-lleol-canllawiau-i-awdurdodau-cynllunio-lleol-cylchlythyr-0032012 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 www.legislation.gov.uk/wsi/2012/801/contents/made/welsh

- rheoli'r gwaith o ryddhau safleoedd cyflogaeth diangen at ddefnyddiau eraill;
- cynnig lleoliadau penodol ar gyfer diwydiannau sy'n bwysig yn lleol ac o safbwynt strategol sy'n niweidiol i amwynder ac a all fod yn ffynhonnell llygredd; a
- nodi parthau gwarchod o gwmpas tir ac eiddo sy'n cadw sylweddau peryglus a diogelu gallu busnesau presennol i weithredu neu ehangu trwy atal datblygiad defnyddiau agored i niwed yn y cyffiniau.

5.4.14 Dylai polisïau datblygu a Chanllawiau Cynllunio Atodol (SPG) gefnogi datblygiadau defnydd cymysg, gan gynnwys eiddo masnachol ac unedau byw/gweithio hyblyg, lle bo'r rhain yn briodol.

5.4.15 Er y gall defnyddiau cyflogaeth a phreswyl fod yn gydnaws â'i gilydd, dylai awdurdodau cynllunio roi sylw i agosrwydd a chydnawsedd yr anheddau arfaethedig o safbwynt y defnyddiau diwydiannol a masnachol i sicrhau nad yw cyfleoedd datblygu economaidd ac amwynder preswyl yn cael eu cyfaddawdu.

### Clystyrau Busnes

5.4.16 Fel arfer, mae clystyru economaidd yn digwydd pan fo busnesau o'r un diwydiant neu ddiwydiant tebyg, neu fusnesau â budd cyffredin, yn dewis lleoli eu hunain yn agos at ei gilydd er lles y busnesau i gyd. Yn aml, mae clystyru'n ymwneud â chwmnïau uwch dechnoleg, arloesi neu ymchwil a datblygu, ond gall gynnwys hefyd fusnesau ariannol, bwyd a'r cyfryngau, neu ddiwydiannau cyflenwi sy'n gwasanaethu gweithgynhyrchwyr mwy. Mae busnesau'n gallu elwa ar gyfleusterau a rennir, seilwaith, llafur medrus a chymwys, cadwyni cyflenwi cyffredin a chysylltiadau ag addysg uwch.

5.4.17 Mae Ardaloedd Menter Llywodraeth Cymru'n enghreifftiau o weithredu ar y cyd i annog buddsoddiad mewn sector penodol mewn lle penodol. Dylai awdurdodau cynllunio geisio cefnogi datblygiad rhwydweithiau busnes a chlystyrau, yn enwedig mewn perthynas â mentrau arloesi a thechnoleg.

5.4.18 Dylai polisïau cynlluniau datblygu nodi rhwydweithiau a chlystyrau posibl a nodi'n glir y meini prawf a ddefnyddir i'w categoreiddio. Dylai cysylltiadau seilwaith trafnidiaeth, amgylcheddol a thelathrebu cysylltiedig sydd eu hangen i gefnogi'r rhwydweithiau a'r clystyrau hyn ac i'w gwella lle bo angen, eu cynnwys yn y cynllun datblygu. Dylai awdurdodau cynllunio edrych yn ffafriol ar unrhyw gynigion ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel i wasanaethu clystyrau, megis systemau gwresogi ardal a systemau adfer ynni hynod effeithlon o wastraff, neu ddarparu rhwydwaith integredig o ailgylchu neu gasglu gwastraff.

## 5.5 Twristiaeth

5.5.1 Mae twristiaeth yn cynnwys pob math o weithgareddau, cyfleusterau a mathau o ddatblygiad, ac mae'n hollbwysig i ffyniant economaidd ac i greu swyddi mewn sawl rhan o Gymru. Mae twristiaeth yn gallu bod yn gatalydd ar gyfer adfywio, gwella'r amgylchedd adeiledig a diogelu'r amgylchedd.

5.5.2 Mae'r system gynllunio'n annog twristiaeth os yw'n cyfrannu at ddatblygu economaidd, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio trefol a chynhwysiant cymdeithasol, ac yn cydnabod anghenion ymwelwyr a chymunedau lleol. Mae'r system gynllunio'n gallu helpu hefyd i wella'r ymdeimlad o le mewn ardal sydd â gwerth cynhenid a diddordeb i dwristiaeth. Yn ogystal â chefnogi llwyddiant parhaus ardaloedd twristiaeth presennol, anogir datblygiadau priodol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth mewn cyrchfannau newydd. Mewn rhai mannau, fodd bynnag, efallai y bydd angen cyfyngu ar ddatblygiad newydd i osgoi difrod i'r amgylchedd neu i amwynder pobl leol ac ymwelwyr.

5.5.3 Mewn ardaloedd gwledig, mae datblygiad yn gysylltiedig â thwristiaeth yn elfen bwysig o ddarparu economi iach ac amrywiol. Yn ogystal â ffurfiau mwy traddodiadol o dwristiaeth wledig, dylai awdurdodau cynllunio gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer twristiaeth actif, gwyrdd a diwylliannol pan fo'n briodol. Dylai datblygiadau fod yn ystyriol o'r amgylchedd lleol o ran natur a maint.

5.5.4 Mae llawer o'r ddarpariaeth bresennol o ran cyfleusterau a llety ar gyfer twristiaeth mewn lleoliadau trefol, gan gynnwys trefi a dinasoedd hanesyddol ac arfordirol. Bydd yna le i ddatblygu cyfleusterau twristiaeth wedi'u dylunio'n dda mewn ardaloedd trefol, yn enwedig os byddant yn helpu i adfywio hen ardaloedd diwydiannol. Mae ailwampio ac ailddefnyddio adeiladau hanesyddol mewn ffordd sensitif yn cyflwyno cyfleoedd i gyfleusterau twristiaeth ym mhob ardal.

5.5.5 Mae llwybrau pellter hir, hawliau tramwy, hen reilffyrdd, dyfrffyrdd a seilwaith gwyrdd arall yn gyfleusterau twristiaeth a hamdden pwysig yn eu rhinwedd eu hunain ac fel modd o gysylltu atyniadau.

5.5.6 Dylai awdurdodau cynllunio ddarparu fframwaith ar gyfer cynnal a datblygu cyfleusterau twristiaeth o safon uchel sydd wedi'u lleoli a'u dylunio'n dda. Dylent ystyried maint a dosbarthiad eang atyniadau presennol ac arfaethedig i dwristiaid a dylent sicrhau bod modd darparu datblygiadau cyflenwol megis llety a mynediad mewn ffyrdd sy'n cyfyngu ar yr effeithiau amgylcheddol negyddol yn ogystal ag ystyried y cyfleoedd i gyfoethogi bioamrywiaeth.

5.5.7 Dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu ymagweddau cadarnhaol at gynigion sy'n defnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen neu dir a chyrff dŵr segur at ddefnydd twristiaeth, yn enwedig mewn perthynas ag adfywio trefol.

## 5.6 Yr Economi Wledig

5.6.1 Rhaid i'r economi wledig ddatblygu sail eang er mwyn iddi allu addasu a gwrthsefyll yr heriau y mae'n eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol. Mae digwyddiadau fel yr argyfwng hinsawdd, pandemig y coronafeirws a gadael yr Undeb Ewropeaidd yn dod ag ansicrwydd economaidd a chymdeithasol, a bydd y gallu i ymateb yn hyblyg i'r materion hyn yn allweddol i lwyddiant ardaloedd gwledig yn y dyfodol.

5.6.2 Dylai awdurdodau cynllunio gynllunio'n gadarnhaol i ddiwallu anghenion cyflogaeth gwledig drwy nodi polisïau yn eu cynlluniau datblygu. Drwy gefnogi'r broses o ddatblygu amrywiaeth eang o gyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig, gall awdurdodau cynllunio wella ffyniant economaidd a helpu i fynd i'r afael ag effeithiau dirywiad gwledig neu ddiboblogi pan fo'n briodol. Gall mwy o gyfleoedd gefnogi ac atgyfnerthu llesiant a chynaliadwyedd cymunedau gwledig yn y dyfodol.

5.6.3 Gall llawer o weithgareddau gweithgynhyrchu masnachol ac ysgafn gael eu lleoli mewn ardaloedd gwledig heb beri aflonyddwch annerbyniol na chael effeithiau andwyol eraill[51]. Mae gan fentrau micro a bach gyfraniad pwysig i'w wneud at yr economi wledig, ac maent yn cyfrannu at gystadleurwydd a ffyniant lleol a chenedlaethol. Er y gall rhywfaint o gyflogaeth gael ei greu mewn lleoliadau gwledig trwy ailddefnyddio adeiladau presennol[52], bydd angen datblygiadau newydd mewn llawer o ardaloedd.

5.6.4 Er mwyn datgloi llawn botensial ardaloedd gwledig, dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol at gyflogaeth yn deillio o'r sectorau sylfaenol, arloesol a thechnolegol, yn cynnwys ymchwil a datblygu, yn ogystal â chyflogaeth sy'n deillio o'r sectorau

[51] Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010 www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-6-cynllunio-ar-gyfer-cymunedau-gwledig-cynaliadwy
[52] Nodyn Cyngor Technegol 23, Datblygu Economaidd, Llywodraeth Cymru, 2014 www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-23-datblygu-economaidd

amaethyddiaeth, coedwigaeth a hamdden traddodiadol. Dylid annog cynigion ar gyfer arallgyfeirio, busnesau newydd a micro-fusnesau hefyd, lle y bo'n briodol, er mwyn creu mwy o swyddi a chyfleoedd i greu cyfoeth.

5.6.5 Lle nodir angen, dylai awdurdodau cynllunio ddyrannu safleoedd gwledig newydd ar gyfer datblygu economaidd yn y cynlluniau datblygu.

5.6.6 Mae safleoedd datblygu newydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn debygol o fod yn rhai bach ac, ac eithrio arallgyfeirio gwledig a datblygiad amaethyddol lle mae meini prawf ar wahân yn berthnasol[53], dylent gael eu lleoli fel arfer o fewn ffiniau anheddiad diffiniedig neu yn ymyl ffiniau o'r fath, yn ddelfrydol lle darperir trafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, efallai y bydd gan rai diwydiannau ofynion tir penodol na ellir darparu ar eu cyfer o fewn aneddiadau. Ni ddylai prinder safleoedd cyflogaeth wedi'u dyrannu atal awdurdodau rhag llunio cynigion ar gyfer mentrau priodol bach mewn aneddiadau gwledig cyfagos, yn cynnwys aneddiadau gwledig bach. Dylai awdurdodau cynllunio gynnwys polisi sy'n seiliedig ar feini prawf mewn cynlluniau datblygu i ystyried cynigion o'r fath os ydynt y tu allan i ffiniau anheddiad. Er y dylid diogelu cefn gwlad agored lle bo'n bosibl, dylid cefnogi cynigion i ehangu busnesau presennol sydd wedi'u lleoli yng nghefn gwlad agored, cyn belled nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol.

5.6.7 Er bod busnesau newydd mewn ardaloedd gwledig yn hollbwysig i gynnal a gwella cymunedau gwledig, mae'n annhebygol y bydd datblygiadau sydd ond yn cynnig twf economaidd tymor byr yn briodol. Dylai awdurdodau lleol annog twf hunangyflogaeth a microfusnesau mewn ardaloedd gwledig trwy fabwysiadu ymagwedd gefnogol a hyblyg at weithio o gartref a cheisiadau newid defnydd cysylltiedig.

5.6.8 Dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu ymagwedd adeiladol at gynigion datblygu amaethyddol, yn enwedig y rhai a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion mewn perthynas â newid arferion ffermio neu sy'n angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol, hylendid neu les newydd. Dylent hefyd fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol at drosi adeiladau gwledig i'w hailddefnyddio at ddiben busnes.

5.6.9 Rhaid wrth ofal wrth ystyried datblygiadau da byw dwys pan geir cynnig i'w datblygu yn agos i ddefnyddiau tir sensitif megis cartrefi, ysgolion, ysbytai, swyddfeydd neu ardaloedd amgylcheddol sensitif. Dylid yn arbennig ystyried effeithiau cronnus (gan gynnwys llygredd sŵn ac aer) datblygiadau tebyg yn yr un ardal.

### Arallgyfeirio Busnesau Gwledig

5.6.10 Dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu ymagwedd ragweithiol at brosiectau arallgyfeirio ar ffermydd mewn ardaloedd gwledig. Gall busnesau bach gynnal gweithgareddau ychwanegol yn gynaliadwy ar ffermydd gan ddarparu ffrydiau incwm ychwanegol. Mae arallgyfeirio'n gallu cryfhau'r economi wledig a chyflwyno cyflogaeth a ffyniant ychwanegol i gymunedau.

5.6.11 Er y dylid gwneud pob ymdrech i leoli cynigion arallgyfeirio fel eu bod yn cael eu gwasanaethu'n dda gan drefnidiaeth gyhoeddus, cydnabyddir mai dim ond gyda char y bydd modd cyrraedd rhai cynigion arallgyfeirio. Er y dylid rhoi ystyriaeth gychwynnol i addasu adeiladau fferm presennol, efallai y bydd hi'n briodol darparu adeilad newydd wedi'i ddylunio mewn ffordd sensitif ar fferm o fewn canolfannau fferm presennol os nad oes cyfle i drosi adeilad presennol[54].

[53] Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010 www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-6-cynllunio-ar-gyfer-cymunedau-gwledig-cynaliadwy

[54] Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010 www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-6-cynllunio-ar-gyfer-cymunedau-gwledig-cynaliadwy

5.6.12 O safbwynt datblygu cynaliadwy, dylid cofio y bydd llawer o gynigion arallgyfeirio gwledig bach i ddarparu gwasanaethau lleol yn golygu teithiau byrrach i ddefnyddwyr a fyddai fel arall yn gorfod teithio ymhellach i gael at y gwasanaethau hynny. Gall cynlluniau arallgyfeirio gwledig bach gyfrannu hefyd at hyfywedd cymuned trwy greu ffocws i fywyd y gymuned a chanolfannau ar gyfer gweithgarwch economaidd.

5.6.13 Ceir sawl ffurf ar arallgyfeirio a gall gynnwys gweithgareddau amaethyddol ac anamaethyddol. Gallai'r gweithgareddau hynny gynnwys, er enghraifft, prosesu da byw a chnydau, ffermio da byw a chnydau anhraddodiadol, prosiectau twristiaeth, siopau fferm a gwneud a gwerthu cynnyrch anamaethyddol. Gallai gynnwys cynigion ynni adnewyddadwy hefyd fel cyfleusterau treulio anaerobig neu gyfleusterau solar a gwynt a fydd yn helpu i gynyddu hyfywedd mentrau gwledig drwy leihau eu costau gweithredu. Dylid cefnogi'r cynlluniau hyn pan na fyddant yn cael unrhyw effaith andwyol ar yr amgylchedd ac amwynder lleol.

## Ynni

### 5.7 Cyd-destun

5.7.1 Prif flaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw lleihau'r galw pan fo hynny'n bosibl ac yn fforddiadwy. Rhaid sicrhau mai trydan carbon isel yw'r brif ffynhonnell ynni yng Nghymru. Defnyddir trydan adnewyddadwy i ddarparu gwres a thrafnidiaeth yn ogystal â phŵer. Bydd y cymysgedd o gyflenwad ynni yn y dyfodol yn dibynnu ar amrywiaeth o dechnolegau carbon isel sefydledig a newydd, yn cynnwys biomethan a hydrogen gwyrdd.

5.7.2 Yn gyffredinol, disgwylir i'r galw am bŵer gynyddu wrth i drafnidiaeth a gwres gael eu trydaneiddio mwyfwy. Er mwyn sicrhau y gellir ateb y galw yn y dyfodol, bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith cynhyrchu, trawsyrru a dosbarthu ynni. Bydd angen i'r system integreiddio prosesau cynnyrchu adnewyddadwy â gwasanaethau storio a gwasanaethau hyblygrwydd eraill, er mwyn lleihau'r angen am brosesau cynhyrchu newydd ac atgyfnerthu system grid. Ar y cyd, bydd angen i ni ganolbwyntio ar leihau allyriadau o ffynonellau tanwydd ffosil, a hyrwyddo prosesau cynhyrchu adnewyddadwy sy'n sicrhau gwerth i Gymru.

5.7.3 Mae'r blaenoriaethau hyn yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon fel rhan o'n gwaith datgarboneiddio, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl a chymunedau Cymru er mwyn gwella ansawdd ein bywydau ni ac ansawdd bywydau cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn golygu cymryd camau rhagofalus i atal Cymru rhag bod ynghlwm i gloddio mwy am danwydd ffosil a datblygiadau carbon uchel. Dylai'r system gynllunio hwyluso hyn a thargedau Cymru, y DU ac Ewrop o ran ynni adnewyddadwy.

5.7.4 Mae Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn nodi cyd-destun y cynllun datblygu cenedlaethol ar gyfer ynni ac mae'n darparu polisïau penodol ar gyfer datblygu'r rhwydwaith gwres ac ynni adnewyddadwy.

5.7.5 Mae ceisiadau cynllunio ar gyfer prosiectau cynhyrchu ynni ar y tir yng Nghymru sydd â chapasiti cynhyrchu o rhwng 10MW a 350MW (nid oes yna derfyn uchaf ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ynni gwynt ar y tir) yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru o dan y broses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) ac yn cael eu hystyried o dan bolisïau yn Cymru'r Dyfodol.

5.7.6 Dylai'r system gynllunio sicrhau cymysgedd priodol o ddarpariaeth ynni sy'n cynyddu'r manteision i'n heconomi a'n cymunedau ac yn lleihau

effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol yr un pryd. Mae hyn yn rhan o nod Llywodraeth Cymru i sicrhau'r polisïau datblygu economaidd cryfaf fel sail i dwf a ffyniant yng Nghymru, gan gydnabod pwysigrwydd datgarboneiddio a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel sbardun economaidd ac fel ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy.

5.7.7 Mae manteision ynni adnewyddadwy a charbon isel fel rhan o'r ymrwymiad cyffredinol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a diogelu'r cyflenwad ynni o bwys aruthrol. Trwy barhau i godi tanwyddau ffosil, rydym yn atal cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau cyffredinol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Dylai'r system gynllunio:

- integreiddio datblygiad â darparu seilwaith rhwydwaith grid trydan ychwanegol;
- sicrhau'r opsiwn storio ynni gorau;
- hwyluso'r broses o integreiddio egwyddorion dylunio adeiladau cynaliadwy mewn datblygiad newydd;
- sicrhau'r lleoliad gorau ar gyfer datblygiadau newydd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon;
- cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel cymaint â phosibl;
- sicrhau'r defnydd gorau posibl o ffynonellau ynni lleol, megis rhwydweithiau gwres;
- lleihau effaith carbon dulliau cynhyrchu ynni eraill; a
- symud oddi wrth gloddio am fwynau ynni os yw'r broses yn cynhyrchu llawer o garbon.

### Rhwydwaith Grid Trydan a Storio Ynni

5.7.8 Mae rhwydwaith grid trydan effeithiol yn ofynnol er mwyn cyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dylid mabwysiadu dull integredig o gynllunio ar gyfer datblygiadau ynni a seilwaith rhwydwaith grid trydan ychwanegol. O dan rai amgylchiadau, bydd angen seilwaith rhwydwaith grid trydan ychwanegol i gefnogi'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw yn Cymru'r Dyfodol, ynghyd â datblygiadau cynhyrchu ynni newydd yn fwy cyffredinol.

5.7.9 Y safbwynt a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar linellau pŵer newydd yw y dylid eu gosod o dan ddaear lle bo'n bosibl. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen cymryd safbwynt cytbwys o ran costau, a allai olygu bod prosiectau a fyddai'n dderbyniol fel arall, yn anhyfyw. Lle nad yw'n bosibl gosod llinellau o dan y ddaear mae angen ymgysylltu'n rhagweithiol gyda chwmnïau ynni a'r cyhoedd i liniaru effaith weledol unrhyw linellau trawsyrru newydd posibl.

5.7.10 Dylai awdurdodau cynllunio wneud cynlluniau cadarnhaol ar gyfer seilwaith grid. Dylai cynlluniau datblygu hwyluso'r seilwaith grid sy'n ofynnol i gefnogi'r potensial ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal, yn enwedig ardaloedd wedi'u dynodi ar gyfer datblygiad o'r fath. Dylai awdurdodau cynllunio gefnogi datblygiadau grid priodol, waeth a yw'r datblygiadau i'w cysylltu wedi'u lleoli yn eu hawdurdodau ai peidio.

5.7.11 Dylai awdurdodau cynllunio a'r diwydiant ynni, gan gynnwys y Grid CenedlaethoL a Gweithredwyr Systemau Dosbarthu, ymgysylltu â'i gilydd i sicrhau bod cynlluniau datblygu'n rhoi sylw i faterion seilwaith grid. Gall hyn sicrhau hefyd fod cynlluniau buddsoddi ar gyfer trawsyrru a dosbarthu yn cyd-fynd â'r potensial a nodwyd ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel a heriau trydaneiddio trafnidiaeth a gwres mwyfwy yn y dyfodol.

5.7.12 Mae gan storio ynni gyfraniad pwysig i'w wneud at reoli'r newid i economi carbon isel. Er mwyn cynyddu cyfanswm yr ynni sy'n deillio o ffynonellau adnewyddadwy, mae angen delio â natur ysbeidiol y cyflenwad, a gall storio ynni helpu i sicrhau cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw. Dylid cefnogi cynigion ar gyfer cyfleusterau storio newydd lle medrir.

### Hierarchaeth Ynni ar gyfer Cynllunio


5.7.13 Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru'n cydnabod hierarchaeth ynni. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i bob datblygiad newydd liniaru achosion newid yn yr hinsawdd yn unol â'r hierarchaeth ynni ar gyfer cynllunio, fel y'i dangosir yn y polisïau ynni canlynol. Bydd lleihau'r galw am ynni a defnyddio ynni'n fwy effeithiol, trwy leoliad a dyluniad datblygiad newydd, yn helpu i ateb y galw am ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae hyn yn bwysig iawn o ran cefnogi'r broses o drydaneiddio'r defnydd o ynni, megis trwy gynyddu'r defnydd o geir trydan a phympiau gwres. Mae gan bob agwedd ar yr hierarchaeth ynni gyfraniad i'w wneud o ran helpu i gyflawni targedau datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy.

### Targedau Ynni Adnewyddadwy

5.7.14 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy:

- Cymru i gynhyrchu 70% o'r trydan y mae'n ei ddefnyddio o ynni adnewyddadwy erbyn 2030;
- un Gigawat o'r capasiti trydan adnewyddadwy yng Nghymru i fod o dan berchnogaeth leol erbyn 2030; a
- prosiectau ynni adnewyddadwy newydd i fod ag elfen o berchnogaeth leol.

Ffigur 10: Yr Hierarchaeth Ynni ym maes Cynllunio



5.7.15 Mae gan y system gynllunio gyfraniad gweithredol i'w wneud i helpu i gyrraedd y targedau hyn o ran capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd a hyrwyddo mesurau effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau.

## Lleihau'r Galw am Ynni a Defnyddio Ynni'n Fwy Effeithiol

### 5.8 Adeiladau Cynaliadwy

5.8.1 Dylai'r system gynllunio gefnogi datblygiad newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithiol iawn, yn cefnogi datgarboneiddio, yn mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd ac yn addasu i effeithiau yr argyfwng hinsawdd nawr ac i'r dyfodol trwy ymgorffori mesurau lliniaru ac addasu effeithiol.

5.8.2 Polisi Llywodraeth Cymru yw sicrhau adeiladau di-garbon a pharhau i hyrwyddo pob math o dechnolegau carbon isel a di-garbon fel ffordd o gyflawni hyn.

5.8.3 Dylai egwyddorion dylunio adeiladau cynaliadwy fod yn rhan annatod o'r gwaith o ddylunio datblygiad newydd. Dylai cynigion datblygu:

- lliniaru achosion newid yn yr hinsawdd trwy leihau allyriadau carbon ac allyriadau nwyon tŷ gwydr eraill sy'n gysylltiedig â lleoliad y datblygiad, ei ddyluniad, ei adeiladu, ei ddefnyddio ac yn y pen draw, ei ddymchwel; a
- chynnwys nodweddion sy'n galluogi addasu'n effeithiol i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd nawr ac i'r dyfodol, a gwydnwch yn erbyn yr effeithiau hynny.

5.8.4 Er mwyn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a chadw ynni ymhellach, dylai awdurdodau cynllunio ystyried cynnwys polisïau cynllun datblygu sy'n ei gwneud yn ofynnol i geisiadau ar gyfer datblygiadau mawr gynnwys Adroddiad Ynni. Dylai'r adroddiad annibynnol hwn gynnwys argymhellion i'r datblygwr ynghylch effeithlonrwydd ynni a thechnolegau ynni adnewyddadwy priodol y gellid eu hymgorffori yn y datblygiad. Dylid cynnwys ymateb i'r adroddiad hwnnw gan y datblygwr hefyd yn y cais. Os bydd awdurdodau cynllunio o'r farn na roddwyd ystyriaeth ddigonol i faterion ynni wrth ddylunio prosiect, gallant wrthod rhoi caniatâd cynllunio.

5.8.5 Dylai awdurdodau cynllunio asesu safleoedd strategol i nodi cyfleoedd i sicrhau safonau adeiladu cynaliadwy uwch, gan gynnwys di-garbon, yn eu cynllun datblygu. Wrth gyflwyno safonau sy'n uwch na'r safonau gofynnol cenedlaethol, a amlinellir mewn Rheoliadau Adeiladu, dylai awdurdodau cynllunio sicrhau eu bod yn seilio'u penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn ac yn ystyried hyfywedd economaidd y cynllun.

5.8.6 Mae TAN 12: Canllaw Dylunio[55] a'r Canllawiau Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy[56] yn rhoi arweiniad ar ddylunio adeiladau cynaliadwy. Dylai Datganiadau Dylunio a Mynediad ddangos sut mae egwyddorion dylunio adeiladau cynaliadwy wedi'u hystyried yn y broses ddylunio[57].

5.8.7 Dylai datblygwyr ystyried gofynion y dyfodol o ran lleihau cyfanswm y carbon mewn adeiladau newydd, wrth ddylunio eu cynlluniau, o ganlyniad i newidiadau i Reoliadau Adeiladu Cymru. Bydd ystyried unrhyw newidiadau i'r dyfodol yn sicrhau bod elfennau dylunio unrhyw ofynion yn cael eu hystyried cyn gynted â phosibl.

[55] Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-12-dylunio
[56] Canllawiau Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy www.llyw.cymru/cynllunio-ar-gyfer-adeiladau-cynaliadwy-canllawiau
[57] Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru www.llyw.cymru/ceisiadau-cynllunio-canllawiau-ar-ddatganiadau-dylunio-mynediad

## 5.9 Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

5.9.1 Dylai awdurdodau lleol hwyluso pob math o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a dylent geisio cydweithrediad trawsadrannol i gyflawni hyn. Wrth wneud, dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau y gwneir y gorau o botensial llawn eu hardal o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel a bod targedau ynni adnewyddadwy yn cael eu cyrraedd. Dylai awdurdodau cynllunio geisio manteisio i'r eithaf ar ynni adnewyddadwy drwy gysylltu'r cynllun datblygu â strategaethau awdurdod lleol eraill, yn cynnwys cynlluniau Llesiant Lleol a strategaethau Economaidd/ Adfywio.

### Cynllunio Ynni Lleol a Rhanbarthol

5.9.2 Er mwyn cynorthwyo i gyflawni targedau ynni a datgarboneiddio, rhaid i awdurdodau lleol a rhanbarthol weithredu mewn ffordd lesol ac arweiniol ar lefel leol a/neu ranbarthol drwy bennu eu gweledigaeth ar gyfer datgarboneiddio ac ynni yn eu hardaloedd. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylid ystyried systemau cyfan wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer system ynni carbon isel. Rydym yn archwilio'r defnydd o Gynllunio Ynni Ardal Leol (LAEP), sydd â'r nod o lywio, llunio a galluogi agweddau allweddol ar drosglwyddo i system ynni carbon isel.

5.9.3 Mae LAEP yn ystyried y system ynni gyfan: y bobl, y stoc dai, daearyddiaeth a dyheadau; ac mae'n nodi beth sydd ei angen, ble ac erbyn pryd. Ystyrir awdurdodau lleol yn bartner arweiniol yn y gwaith hwn. Mae LEAP yn nodi'r cyfuniad dewisol o newidiadau technolegol a newidiadau system sydd eu hangen i'r system ynni lleol, i ddatgarboneiddio gwres a thrafnidiaeth leol a gwireddu cyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn lleol. Mae'n helpu ardaloedd lleol i ddatblygu cynlluniau i gyrraedd eu targedau newid hinsawdd drwy archwilio amrywiaeth o sefyllfaoedd ynni lleol. Mae'n ystyried y defnydd o ynni ar gyfer gwres, pŵer a thrafnidiaeth ar lefel o fanylder sydd ei hangen i weithredwyr rhwydwaith ddylunio ac adeiladu grid ar y cyflymder sy'n ofynnol yn sgil yr argyfwng hinsawdd.

5.9.4 Mae Ofgem wedi datblygu methodoleg[58] ar gyfer LAEP y mae'n ystyried y gellid ei defnyddio i ddarparu tystiolaeth gredadwy i gefnogi cynlluniau rhwydwaith, mewn cyd-destun buddsoddi rhagflaenorol. Mae gweithio gan ddilyn 'dull' cyffredin yn sicrhau y caiff y tirwedd ynni ei ddadansoddi'n gyson mewn ardaloedd lleol ac mae'n lleihau'r risg y caiff cynlluniau ynni eu datblygu gan ddefnyddio rhagdybiaethau a setiau data gwahanol, na ellir eu defnyddio wedyn i fynd i'r afael â'r heriau sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol, llywio darlun cenedlaethol, na bwydo i gynlluniau rhwydwaith ynni.

5.9.5 Gan ddefnyddio LAEP neu dystiolaeth cynllun datblygu arall, dylai awdurdodau lleol nodi targedau heriol ond cyflawnadwy ar gyfer ynni adnewyddadwy mewn cynlluniau a strategaethau lleol / rhanbarthol neu mewn cynlluniau datblygu. Er mwyn nodi targed mesuradwy y gellir ei asesu a'i fonitro, dylid ei fynegi fel ffigur capasiti gosodedig ynni absoliwt. Dylid ei gyfrifo o botensial adnoddau'r ardal ac ni ddylai ymwneud ag angen lleol am ynni.

[58] Canllawiau: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Llawlyfr i Gynllunwyr
www.llyw.cymru/cynlluniau-datblygu-lleol-canllawiau-ar-ynni-adnewyddadwy-ac-ynni-carbon-isel

5.9.6 Dylai awdurdodau lleol ystyried yr adnodd ynni adnewyddadwy sydd ar gael iddynt yn eu hardaloedd wrth lunio eu targed ynni adnewyddadwy, wedi'i lywio gan sail dystiolaeth briodol, a defnyddio'r amrywiaeth lawn o opsiynau polisi sydd ar gael, yn cynnwys polisïau datblygu yn eu cynlluniau datblygu. Ni ddylid ystyried bod targedau'n derfynau uchaf. Yn hytrach, dylid eu defnyddio fel adnodd i wneud y mwyaf o'r adnodd sydd ar gael. Ni ddylid gwrthod ceisiadau cynllunio am eu bod yn rhagori ar darged ynni adnewyddadwy.

5.9.7 Dylai awdurdodau cynllunio a datblygwyr ystyried anghenion ynni cynigion datblygu dyrannu safleoedd. Ar y cyd â gweithredwyr grid, dylent asesu a yw'r seilwaith angenrheidiol ar waith i ateb galw yn y dyfodol. Bydd cydbwysedd lleol y rhwydwaith ynni yn ystyriaeth hanfodol yn hyn o beth, a dylai awdurdodau cynllunio ystyried y lleoedd gorau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn lleol i helpu i wella gwydnwch y grid yn y dyfodol.

5.9.8 Er mwyn hwyluso gwaith cynllunio ynni lleol a rhanbarthol, rhaid i awdurdodau lleol ddatblygu sail dystiolaeth (a all gynnwys LAEP) i lywio datblygiad polisïau ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dylai awdurdodau cynllunio:

- ystyried y cyfraniad y gall eu hardal ei wneud at leihau allyriadau carbon a chynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- cydnabod y bydd dulliau darparu technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn amrywio;
- nodi'r potensial i ddarparu adnoddau ynni adnewyddadwy hygyrch ac ymarferol ar gyfer eu hardal, gan gynnwys gwres, ac ystyried y defnydd tebygol o'r adnodd hwn dros gyfnod y cynllun;
- ystyried yr effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a'r cyfleoedd sy'n codi o ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- ystyried effeithiau cronnol datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a'u seilwaith cysylltiedig, er enghraifft cysylltiadau grid;
- nodi'r meini prawf ar gyfer penderfynu ar geisiadau ar gyfer safleoedd yn seiliedig ar eu capasiti gosodedig;
- cysylltu â'r diwydiant datblygu ynni adnewyddadwy ac ystyried a oes modd darparu'r cynlluniau;
- ystyried materion sy'n gysylltiedig â chysylltiad grid (gweler yr adran Seilwaith Grid) a'r rhwydwaith cludiant; ac
- ystyried blaenoriaethau lleol a strategol ar gyfer ynni adnewyddadwy.

5.9.9 Mae Canllawiau: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Llawlyfr i Gynllunwyr[59] yn rhoi arweiniad ar sut i ddatblygu sylfaen o dystiolaeth. Mae'n cynnwys cyngor ar ddatblygu Asesiad o Ynni Adnewyddadwy, Cynllun Cyfleoedd Ynni ac Asesiad o Safleoedd Strategol a sut y gellir eu troi'n bolisïau cynllunio. Mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio'n gorfforaethol ar draws llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Ond dylid eu haddasu i'r amgylchiadau lleol er mwyn gallu gwneud y gorau o gyfleoedd trydan a gwres adnewyddadwy ac ni ddylid defnyddio rhagdybiaethau o ran y fethodoleg i gyfyngu ar yr adnodd sydd wedi'i glustnodi. Anogir arloesedd a dylai awdurdodau cynllunio ddatblygu sylfaen o dystiolaeth a pholisïau sy'n addas i'r ardal. Fe allai hefyd fod mantais i awdurdodau lleol gydweithio ar lefel rhanbarth. Dylid defnyddio'r asesiadau hyn ar y cyd â chynlluniau/strategaethau

[59] Canllawiau: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Llawlyfr i Gynllunwyr www.llyw.cymru/cynlluniau-datblygu-lleol-canllawiau-ar-ynni-adnewyddadwy-ac-ynni-carbon-isel

ynni lleol a rhanbarthol i geisio cyflawni dyheadau ynni ehangach awdurdod lleol.

5.9.10 Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod polisïau cynlluniau datblygu'n cefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel ym mhob rhan o Gymru, yn arwain datblygiadau i'r mannau iawn ac yn pennu'n glir y meini prawf lleol a ddefnyddir i werthuso cynigion (gweler isod).

### Cynhyrchu Ynni yn Lleol

5.9.11 Mae Llywodraeth Cymru'n annog defnyddio ynni adnewyddadwy a charbon isel lleol fel rhan o'r gorchymyn i leihau allyriadau carbon. Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn cynnig potensial sylweddol i gymunedau a busnesau bach ddatblygu eu prosiectau eu hunain er budd lleol.

5.9.12 Dylai awdurdodau cynllunio wneud cynlluniau cadarnhaol i ddefnyddio trydan a gwres a gynhyrchir yn lleol i helpu i gyflawni'r targed cenedlaethol o un Gigawatt erbyn 2030. Dylent gynhyrchu polisïau a chynigion sy'n:

- hwyluso'r gwaith o gydleoli datblygiadau mawr i alluogi defnyddio cyfleoedd gwres lleol;
- hwyluso'r gwaith o gysylltu ynni adnewyddadwy a charbon isel â datblygiad newydd mawr a defnyddwyr ynni mawr;
- cynyddu'r defnydd o wres gwastraff neu ffynonellau gwres eraill fel hen weithfeydd glo; a
- hyrwyddo rhwydweithiau gwres.

5.9.13 Dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio eu sail dystiolaeth i lywio polisïau a chynigion ar gyfer ynni lleol. Dylai cynlluniau datblygu gefnogi cyfleoedd a nodir ar gyfer rhwydweithiau gwres, cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel lleol a chydleoli cynigion newydd a dyraniadau tir gyda datblygiadau presennol, cyflenwyr gwres a defnyddwyr gwres. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi trefi a dinasoedd penodol ledled Cymru lle dylai awdurdodau lleol ymchwilio ymhellach i'r posibilrwydd o sefydlu rhwydweithiau gwres. Fodd bynnag, dylid ymchwilio i rwydweithiau gwers ardal fel rhan o astudiaethau cynllunio ynni lleol a rhanbarthol a'u cefnogi pan fo hynny'n ymarferol.

### Polisïau Lleoliadol ar gyfer Datblygu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

5.9.14 Dylai awdurdodau cynllunio gefnogi a llywio datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel er mwyn gwneud y gorau o botensial eu hardal. Dylai awdurdodau cynllunio asesu'r cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal a defnyddio'r dystiolaeth i sefydlu polisïau gofodol yn eu cynllun datblygu, sy'n nodi'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygiadau ynni islaw 10MW. Dylai bod rhagdybiaeth o blaid datblygu yn yr ardaloedd a nodir, gan gynnwys derbyn y bydd y dirwedd yn newid, gyda pholisïau â meini prawf clir yn amlinellu'r ystyriaethau lleoliadol manwl y bydd angen eu hystyried yng ngham y cais cynllunio.

5.9.15 Y tu hwnt i ardaloedd a nodwyd, dylai ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel gael eu pennu yn seiliedig ar deilyngdod y cynnig unigol. Nid yw'r angen lleol am gynllun penodol yn ystyriaeth berthnasol gan fod cynhyrchu ynni o arwyddocâd cenedlaethol, ac mae'r angen i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a charbon isel yn cael ei gydnabod. Dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau bod potensial ynni adnewyddadwy a charbon isel llawn eu hardal yn cael ei wireddu a bod ganddynt bolisïau gyda meini prawf ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio y tu allan i'r ardaloedd a nodir.

### Datblygiad Ynni Gwynt ar Raddfa Fawr

5.9.16 Mae Cymru'n lle gwyntog iawn ac, o ganlyniad, mae ynni gwynt yn rhan allweddol o'r gwaith o gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy i'r dyfodol.

5.9.17 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer pennu cynlluniau ynni adnewyddadwy 10MW a mwy o dan y weithdrefn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Ar gyfer datblygiadau gwynt ar raddfa fawr, mae'n nodi Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw lle mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi modelu'r effaith debygol ar y dirwedd ac wedi penderfynu y gallant gymryd datblygiad mewn modd derbyniol. Mae rhagdybiaeth o blaid datblygiad ynni gwynt ar raddfa fawr (yn cynnwys ailbweru) yn yr ardaloedd hyn, yn amodol ar feini prawf a nodir yn y polisi.

5.9.18 Ni ddylai awdurdodau cynllunio lleol geisio diwygio'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw o fewn eu ffiniau am eu bod yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu. Gall CDLlau geisio diffinio ardaloedd o fewn yr Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer defnyddiau tir eraill (yn cynnwys safleoedd datblygu ynni adnewyddadwy islaw 10MW), ond ni ddylai unrhyw benderfyniadau polisi a chynllunio lleol ddylanwadu ar allu datblygiadau gwynt ar raddfa fawr i gael eu cyflwyno yn yr Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw.



### Rheoli Datblygu ac Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

5.9.19 Wrth benderfynu ar geisiadau ar gyfer yr amrywiaeth o dechnolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel, dylai awdurdodau cynllunio ystyried:

- cyfraniad y cynnig at gyflawni targedau Cymru, y DU ac Ewrop;
- y cyfraniad at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr; ac
- y manteision a'r cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach yn sgil datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel.

5.9.20 Dylai awdurdodau cynllunio nodi a mynnu ffyrdd addas o osgoi, lliniaru neu wneud iawn am effeithiau andwyol datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dylai cynigion ar gyfer eu hadeiladu, eu rhedeg, eu datgomisiynu, eu trwsio ac ôlofalu amdanynt, ystyried:

- yr angen i leihau effeithiau ar gymunedau lleol, megis trwy lygredd sŵn ac aer, er mwyn diogelu ansawdd bywyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- yr effaith ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol;
- effaith gronnus;
- capasiti'r rhwydwaith cludiant, a'r effeithiau ar y rhwydwaith hwnnw;
- materion yn ymwneud â'r cysylltiad grid lle cynigir datblygiadau ynni adnewyddadwy (trydan); ac
- effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar leoliad a dyluniad datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel, y modd y caiff ei adeiladu a'r modd y caiff ei weithredu. Wrth wneud hynny, dylai ystyried a yw mesurau i ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn arwain at effeithiau eraill.



5.9.21 Cyn cyflwyno cais, dylai datblygwyr datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel, lle medrir, ystyried sut i osgoi effeithiau andwyol neu fan leiaf eu lleihau, trwy ystyried yn ofalus leoliad, graddfa, dyluniad a mesurau eraill.

5.9.22 Beth bynnag fo maint cynllun, dylai datblygwyr fynd ati'n weithredol i ymgysylltu â'r gymuned leol ar gynigion ynni adnewyddadwy. Dylai hyn gynnwys trafodaethau cyn gwneud cais a darparu gwybodaeth gefndirol am y dechnoleg ynni adnewyddadwy arfaethedig.

5.9.23 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau ymarfer ar wahân yn tynnu sylw at oblygiadau cynllunio amrywiaeth eang o dechnolegau ynni adnewyddadwy[60].

### Cyfranogaeth Leol a Budd i'r Gymuned

5.9.24 Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel a ddatblygir gan sefydliadau wedi'u lleoli'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn cynnwys grwpiau cymunedol, neu sydd o fudd cymesur i'r gymuned neu i Gymru yn gyffredinol. Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi ar berchenogaeth leol o ddatblygiadau ynni[61]. Roedd yn nodi disgwyliad Llywodraeth Cymru i bob prosiect ynni adnewyddadwy newydd yng Nghymru gynnwys o leiaf un elfen o berchenogaeth leol; i gadw cyfoeth a rhoi budd gwirioneddol i gymunedau. Mae creu datblygiadau sy'n eiddo lleol yn cynnig cyfle cryf i gadw gwerth economaidd, gan gyfrannu at ffyniant.

5.9.25 Dylai'r manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd (gan gynnwys creu swyddi) sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiad gael eu hystyried yn llawn a chyfrannu at y broses benderfynu. Fodd bynnag, rhaid i benderfyniadau cynllunio fod yn seiliedig ar asesiad o effeithiau'r datblygiad arfaethedig, pwy bynnag yw'r ymgeisydd.

5.9.26 Mae profiad wedi dangos bod cyfleoedd sylweddol i gyflawni mantais leol drwy ddatblygiadau ynni adnewyddadwy. Gellir cyfiawnhau rhai manteision fel lliniaru effeithiau datblygu drwy'r broses gynllunio. Hefyd, gall datblygwyr gynnig manteision nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r broses gynllunio. Lle y bo'n ymarferol, dylai awdurdodau lleol hwyluso ac annog cynigion o'r fath. Gall Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru gefnogi a chynghori ar gyfranogiad lleol mewn datblygu ynni adnewyddadwy a manteisio arno.

5.9.27 Dylai awdurdodau cynllunio gydnabod bod grwpiau cymunedol sy'n ceisio hyrwyddo prosiectau ynni adnewyddadwy gael eu tywys trwy'r system gynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio helpu cymaint â phosibl wrth ymdrin â'r prosiectau hyn.

5.9.28 Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi datblygwyr masnachol i weithio gyda sefydliadau cymunedol i ddatblygu prosiectau rhanberchnogaeth. Rydym yn cefnogi hefyd yr egwyddor o sicrhau cyfraniadau ariannol i gymunedau sy'n cynnig cartref i'r datblygiadau hyn trwy drefniadau gwirfoddol. Ni ddylai trefniadau o'r fath effeithio ar y broses benderfynu na chael eu trin fel ystyriaeth berthnasol, oni bai bod hynny'n bodloni'r profion a amlinellir yng Nghylchlythyr 13/97: Rhwymedigaethau Cynllunio[62].

[60] Goblygiadau cynllunio datblygiadau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel: canllaw ymarfer www.llyw.cymru/goblygiadau-cynllunio-datblygiadau-ynni-adnewyddadwy-ac-ynni-carbon-isel-canllaw-ymarfer

[61] Perchenogaeth leol o gynhyrchu ynni yng Nghymru: datganiad polisi www.llyw.cymru/perchnogaeth-leol-o-gynhyrchu-ynni-yng-nghymru-datganiad-polisi

[62] Cylchlythyr 13/97: Rhwymedigaethau Cynllunio www.llyw.cymru/rhwymedigaethau-cynllunio-cylchlythyr-1397

### Ailbweru, Estyn Bywyd, Datgomisiynu ac Adfer

5.9.29 Mae estyn bywyd ac ailbweru seilwaith ynni adnewyddadwy yn bwysig ar gyfer taro targedau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio. Dylai awdurdodau cynllunio gefnogi cynlluniau o'r fath ac ystyried y newidiadau a fu o ran technoleg a hyfywedd ynni adnewyddadwy. Gallai hynny olygu, er enghraifft, y bydd fformat fferm wynt sy'n cael ei hailbweru yn wahanol i'r cynllun gwreiddiol. Dylai awdurdodau cynllunio bennu meini prawf bras ar gyfer penderfynu ar geisiadau i estyn bywyd neu ailbweru, ar sail effeithiau ychwanegol y cynllun newydd.

5.9.30 Dylai datblygiadau cysylltiedig ag ynni gael eu datgomisiynu a dylai safleoedd gael eu hadfer cyn gynted ag y daw eu defnydd i ben. Dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio amodau cynllunio neu gytundebau cyfreithiol i ddatgomisiynu datblygiadau a seilwaith cysylltiedig ac adfer y safle. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried cynnwys amodau priodol ar gyfer datgomisiynu datblygiadau cynhyrchu ynni ac adfer safleoedd pan fyddant yn cyrraedd diwedd eu hoes dylunio, gan ystyried unrhyw ddefnydd dilynol arfaethedig o'r safle. Hefyd, dylai gweithredwyr sicrhau bod digon o arian yn cael ei roi o'r neilltu i'w galluogi i fodloni rhwymedigaethau adfer. Gall awdurdod ofyn am warantau ariannol ar ffurf rhwymedigaeth cynllunio/cytundeb Adran 106, fel rhan o'r broses o gymeradwyo caniatâd cynllunio i sicrhau y cyflawnir y broses adfer yn llawn.

## 5.10 Mwynau Ynni

5.10.1 Mae'r galw am fwynau ynni yn seiliedig i raddau helaeth iawn ar gynhyrchu pŵer. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targedau newid yn yr hinsawdd ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a hyrwyddo datgarboneiddio. Ar lefel y DU mae cynhyrchu pŵer glo yn cael ei ddileu'n raddol. Mae hyn yn golygu symud oddi wrth gloddio am danwydd ffosil at ddiben cynhyrchu ynni. Yn yr hierarchaeth ynni cynllunio, ystyrir bod cloddio am fwynau at ddiben cynhyrchu ynni yn annymunol gan mai dyma'r dull cynhyrchu sy'n defnyddio'r mwyaf o garbon. Diben yr hierarchaeth hon yw annog cynigion cynhyrchu a ffefrir i ddod ymlaen a pheidio annog cynigion sy'n cynnwys cloddio am danwyddau ffosil.

### Olew a Nwy ar y Tir

5.10.2 Mae cloddio am nwy ac olew, boed hynny trwy ddulliau confensiynol neu anghonfensiynol, yn cael ei ddosbarthu fel datblygiad mwynau, a rhaid i weithgareddau ar y tir o dan drwyddedau olew a nwy perthnasol gael eu cyflawni yn unol â gofynion y caniatâd cynllunio[63].

5.10.3 Mae sawl trwydded wedi'u cyhoeddi yng Nghymru, ond nid oes unrhyw olew na nwy sylweddol wedi'u cynhyrchu. Mae cynigion olew a nwy anghonfensiynol ar gyfer methan o wely glo, nwy siâl a nwyeiddio glo dan y ddaear yn amodol ar Gyfarwyddiadau Hysbysu sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob cynnig o'r fath gael ei atgyfeirio i Lywodraeth Cymru i'w ystyried os yw'r awdurdod cynllunio yn awyddus i gymeradwyo'r cais.

### Camau Datblygu Olew a Nwy ar y Tir

5.10.4 Y cyfnodau cyffredinol yn ymwneud â datblygiad olew a nwy ar y tir yw:

- chwilio gan ddefnyddio arolygon seismig i ddarparu gwybodaeth am strwythurau daearegol a drilio cychwynnol i ddilysu presenoldeb neu absenoldeb cronfeydd olew neu nwy;
- arfarnu asesiad archwiliadau gan ddefnyddio profion ffynnon estynedig a drilio ychwanegol i bennu a yw datblygu cronfeydd yn opsiwn ymarferol yn economaidd;

[63] Yn sgil y system drwyddedu a sefydlwyd ym 1995, cyflwynwyd un drwydded, sef y Drwydded Datblygu a Chwilio am Betrol (PEDL), ar gyfer gweithgareddau chwilio, arfarnu a datblygu, tra bo nwyeiddio glo dan y ddaear yn cael ei drwyddedu gan yr Awdurdod Glo.

- mae datblygu a chynhyrchu trwy ddatblygu seilwaith maes a chynhyrchu hydrogarbonau o'r gronfa hyd nes y bydd cronfeydd sy'n ymarferol yn economaidd wedi eu dihysbyddu; a
- mae datgomisiynu, adfer ac ôl-ofal yn cyfeirio at weithrediadau i roi'r gorau i ffynhonnau, gwaredu gosodiadau wyneb ac adfer y safle.

5.10.5 Bydd awdurdod cynllunio fel arfer yn derbyn tri chais cynllunio ar wahân ar gyfer datblygiad olew a nwy ar y tir. Bydd y cais cynllunio cyntaf yn gofyn am ganiatâd i chwilio. Bydd yr ail yn gais cynllunio newydd ar gyfer datblygu a chynhyrchu a bydd y trydydd cais cynllunio yn gofyn am ganiatâd i ddatgomisiynu, adfer ac ôlofal. Mae arfarnu'r safle'n rhan o'r cam trwyddedu ond ni fyddai fel arfer yn gam cynllunio ar wahân. Gallai cais datgomisiynu ac adfer gael ei gyflwyno ym mhob cam os na fydd y gweithredwr am fwrw ymlaen â chynhyrchu ffynnon.

5.10.6 Mae pob cyfnod yn cynhyrchu effeithiau ar y wyneb ac o dan ddaear, a byddant yn cynnwys gwahanol brosesau, amserlenni, cyfarpar a symudiadau cerbydau. Felly, mae angen ystyried pob un o'r materion hyn o'r newydd ar gyfer pob cais cynllunio a gyflwynir. Hyd yn oed os oedd hi'n briodol i roi caniatâd cynllunio i chwilio am yr adnodd, nid yw hynny'n golygu o reidrwydd y byddai'n briodol i ganiatáu cloddio masnachol yn yr un lleoliad. Dylai pob cais cynllunio am unrhyw gyfnod datblygu gael ei bennu yn ôl ei haeddiant ei hun[64].

### Adnoddau Olew a Nwy ar y Tir

5.10.7 Mae cyfarpar cloddio am fethan o wely glo yn debyg i'r cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer cronfeydd nwy confensiynol, ond mae methan o wely glo yn fwy anodd i'w gloddio, yn enwedig o wythiennau glo newydd oherwydd bod hydreiddiad glo yn naturiol isel. Y dull mwyaf cyffredin o gloddio am fethan o wely glo yw trwy bwmpio dŵr o'r wythïen. Mae pwmpio dŵr o'r wythïen yn lleihau'r pwysau, gan alluogi methan i lifo allan o'r mandyllau a'r holltau yn y wythïen. Mae hollti hydrolig yn broses arall a ddefnyddir i gael nwy o wythiennau glo

5.10.8 Mae mathau eraill o nwy anghonfensiynol o lo yn cynnwys methan o byllau glo segur (drilio i mewn i hen byllau glo i gasglu methan), methan pyllau glo (casglu'r methan sy'n cael ei ryddhau yn ystod gweithrediadau cloddio) a nwyeiddio glo o dan ddaear (cynhyrchu methan trwy hylosgi gwythiennau glo o dan ddaear yn rhannol). Er bod rhai o'r dulliau hyn yn rhai gweithredol, mae nwyeiddio glo dan ddaear yn ddull heb ei brofi ar gyfer codi nwy.

5.10.9 Mae olew a nwy siâl wedi'u dal yn y mandyllau a'r holltau mewn craig siâl. Mae'n anoddach i'w dynnu nag olew neu nwy o gronfeydd confensiynol oherwydd bod hydreiddiad y graig siâl yn naturiol isel. O ganlyniad, defnyddir cyfuniad o dechnegau drilio llorweddol a hollti hydrolig.

### Dulliau Anghonfensiynol o Gloddio am Olew a Nwy ar y Tir

5.10.10 Mae yna ystyriaethau amgylcheddol a thechnegol penodol sy'n gysylltiedig â dulliau cloddio anghonfensiynol, gan gynnwys:

- gall cyfanswm oes amcangyfrifedig safle fod hyd at 20-30 mlynedd os yw'r safle'n addas ar gyfer cynhyrchu;

[64] Mae Map Ffordd Rheoleiddio, sy'n nodi'r holl brosesau rheoleiddio y bydd angen i weithredwr eu bodloni cyn drilio am nwy ac olew anghonfensiynol, wedi'i gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Nwy ac Olew Anghonfensiynol.

- mae cam cynhyrchu ffynnon unigol yn para tua 15 mlynedd fel arfer. Er bod gan ffynhonnau nwy siâl, er enghraifft, oes hir, mae allbwn yn gostwng i tua 10% o'r cynhyrchiant cychwynnol ar ôl 5 mlynedd. Byddai'r pad yn aros yn ei le, gyda rhai darnau bach o seilwaith a chyfarpar arwyneb;
- os yw safle'n addas ar gyfer cynhyrchu, fel arfer mae cloddio'n golygu llawer mwy o ffynhonnau na nwy confensiynol gyda gweithgarwch safle cysylltiedig a bydd yn cymryd mwy o le ar y tir na nwy confensiynol;
- ar ôl tua dwy flynedd, byddai'r gweithgarwch mawr ar y safle'n dod i ben ac yn cael ei ddisodli gan waith cynnal a chadw rheolaidd. Yna'r prif weithgareddau ar safle fyddai cynnal a chadw a symud nwyddau o'r safle, er y gallai ffynhonnau eraill cael eu drilio;
- mae cloddio'n golygu defnyddio dulliau drilio llorweddol yn ogystal â fertigol;
- defnyddio hylif hollti hydrolig, sy'n cynnwys dŵr yn bennaf, ond gyda thywod hefyd i gadw'r holltau ar agor a chemegau i wella effeithlonrwydd y broses;
- gwaredu'r dŵr a gynhyrchwyd wrth ysgogi'r ffynnon a chynhyrchu nwy, a all amrywio mewn lefelau halogiad; ac
- effeithiau andwyol posibl ar adnoddau o dan y wyneb, megis dŵr daear.

### Cynigion Cynllunio ar gyfer Olew a Nwy ar y Tir

5.10.11 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau heriol ar gyfer datgarboneiddio a chynhyrchu rhagor o ynni adnewyddadwy. Nid yw echdynnu parhaus o'r holl danwyddau ffosil, gan gynnwys nwy siâl a methan gwely glo a nwyeiddio glo tanddaearol yn gydnaws â'r targedau hynny. Amcan polisi Llywodraeth Cymru felly yw osgoi echdynnu parhaus a'r defnydd o danwydd ffosil. Wrth wneud cynnig i echdynnu nwy ac olew ar y tir, bydd angen darparu tystiolaeth gadarn a chredadwy i'r perwyl bod cynigion yn cydymffurfio â'r hierarchaeth ynni, gan gynnwys sut maent yn gwneud cyfraniad angenrheidiol tuag at ddatgarboneiddio'r system ynni. Ym mhob ystyr arall, bydd polisïau mwynau sy'n anelu at atal a chyfyngu ar effeithiau amgylcheddol cloddio ac am sicrhau adferiad, yn berthnasol.

5.10.12 Yng Nghymru, prin iawn yw'r wybodaeth am yr adnoddau sy'n debygol o fod yn fasnachol hyfyw i gloddio amdanynt, ac mae angen data cynhwysfawr i ddarparu gwybodaeth sylfaenol gadarn y gellid ystyried unrhyw geisiadau yn ei herbyn. Fel rhan o ymagwedd ragofalus, dylid cynnal archwiliad cynhwysfawr a chadarn o unrhyw gynigion ar gyfer olew a nwy ar y tir cyn penderfynu ar geisiadau cynllunio a dylai unrhyw bolisïau perthnasol ar gyfer datblygiad mwynau sy'n ceisio gwarchod amwynder a'r amgylchedd gael eu hystyried.

### Glo

5.10.13 Rhan o bolisi ynni Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yw rhoi'r gorau i ddefnyddio glo i gynhyrchu ynni. Mae cynlluniau presennol Llywodraeth y DU yn ceisio dileu'n raddol ynni a gynhyrchir gan lo erbyn 2025 ac, yng Nghymru, mae targedau uchelgeisiol i gyfyngu ar allyriadau carbon. Ymgorfforir hyn oll yn Neddf yr Amgylchedd. Mae cloddio am lo wedi gostwng i lefel lle mai dim ond ychydig iawn o safleoedd glo brig[65] sy'n dal i weithredu yng Nghymru. Mae'r galw am lo lleol i'r dyfodol yn ansicr, o ran y defnydd cynyddol o fewnforion, a gofynion lleihau anodd.

[65] Mae'r term glo brig yn cael ei ddefnyddio yn y fan hon yn ei ystyr generig i gynnwys yr holl ddulliau o weithio glo ar yr wyneb.

5.10.14 Ni ddylid caniatáu cynigion ar gyfer datblygiadau glo brig, pyllau glo dwfn na gwaredu gwastraff pyllau glo. Pe bai cynigion yn cael eu cyflwyno o dan amgylchiadau cwbl eithriadol, byddai'n rhaid iddynt ddangos yn glir pam mae eu hangen yng nghyd-destun targedau lleihau allyriadau newid yn yr hinsawdd a diogelwch ynni.

5.10.15 O dan amgylchiadau eithriadol iawn, fe allai fod rhyw fudd o ran diogelwch y cyhoedd o godi glo. Er enghraifft, lle bod hen lofa wedi ansefydlogi'r tir. Rhoddir ystyriaeth bellach i gyflwr y tir a sefydlogrwydd tir ym Mhennod 6. Ceir rhagor o gyngor yn MTAN 2 Glo[66].

5.10.16 Dylid darparu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i gyd-fynd ag unrhyw gais am waith glo brig. Os bydd awdurdod cynllunio'n penderfynu bod ymgeisydd wedi methu â darparu gwybodaeth ddigonol am effeithiau iechyd, ni ddylai brosesu'r cais na mynd ati i wneud penderfyniad yn ei gylch heb yr wybodaeth honno. Os yw cais am waith glo brig yn ddatblygiad Asesiad o'r Effaith ar Iechyd at ddibenion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017 ac os yw gwaith glo yn debygol o gael effaith sylweddol ar iechyd pobl, gall yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd lywio'r Datganiad Amgylcheddol.

5.10.17 Nid oes angen diogelu adnoddau glo sylfaenol. Ond caiff awdurdodau cynllunio ac eithrio Parciau Cenedlaethol ddewis diogelu adnoddau glo sylfaenol gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau unigol. Os dyna'u dymuniad, byddai gofyn iddynt gynnwys polisïau priodol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r cyfnod cyn echdynnu, yn eu cynlluniau datblygu. Ni ddylai awdurdodau cynllunio nodi ardaloedd lle na fyddai gweithrediadau glo yn dderbyniol.

## Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau Perthnasol a Hyrwyddo'r Economi Gylchol

### 5.11 Cyd-destun

5.11.1 Mae creu lle yn cynnwys y gydberthynas rhwng yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Wrth ddewis pa adnoddau perthnasol i'w defnyddio, dylid ystyried gwneud y defnydd mwyaf priodol a chynaliadwy o adnoddau y mae pen draw iddynt a hyrwyddo egwyddorion yr economi gylchol.

5.11.2 Ystyr economi gylchol yw un sy'n ceisio cadw deunyddiau, cynhyrchion a chydrannau mewn defnydd am gyn hired â phosibl. Mae gan ymagwedd o'r fath fanteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, megis cynnydd yng ngwerth a chynhyrchiant deunyddiau, arbedion ariannol i'r sector adeiladu ac atal gwastraff. Trwy fabwysiadu egwyddorion yr economi gylchol, mae arbedion o fwy na 2% o gyllideb y prosiect yn bosib, diolch i'r hierarchaeth wastraff ac i reoli gwastraff yn effeithiol.[67]

5.11.3 Mae egwyddorion yr economi gylchol yn gam oddi wrth y model llinellol presennol o wneud, defnyddio a thaflu ac yn gam tuag at fodel ailddefnyddio, trwsio ac ailgylchu'r gwastraff a gynhyrchir gan ddatblygiad. Mae'r system gynllunio'n hwyluso ailgylchu deunyddiau trwy gefnogi defnyddio agregau eilaidd wrth adeiladu ond dylai egwyddor yr economi gylchol fod yn sail i bob datblygiad.

5.11.4 Dylai hyrwyddo'r deunydd mwyaf priodol sydd ar gael osgoi gorddefnyddio adnoddau anadnewyddadwy ac osgoi cynhyrchu gwastraff. Bydd hynny'n golygu annog defnyddio adnoddau adnewyddadwy neu'r rheini sy'n defnyddio ond ychydig o ynni i'w cynhyrchu a hyrwyddo defnyddio deunydd eildro ac eilaidd pan fyddant yn addas ac ar gael. Gallai defnyddio

66 www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-mwynau-mtan-cymru-2-glo
67 Closing the Circle, Circular economy: Opportunity for the welsh built environment www.cewales.org.uk/files/1714/9372/0995/Closing_the_circle_Circular_economy_Opportunity_for_the_welsh_built_environment_Summary.pdf

deunydd lleol arwain at leihau allyriadau trafnidiaeth gan gefnogi dyheadau i ddiogelu a chryfhau arbenigrwydd lleol. Pa ddeunydd bynnag y dewisir ei ddefnyddio, dylid gwneud y gorau ohono trwy annog pobl i'w ddefnyddio'n effeithiol. Mae hynny'n golygu defnyddio llai o adnoddau yn y lle cyntaf a pheidio â chynhyrchu gwastraff nad oes modd ei ailddefnyddio'n effeithiol.

5.11.5 Dylid cymryd hyn i ystyriaeth wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth gynnig datblygiad a gwneud penderfyniadau cynllunio, hynny law yn llaw â pholisïau eraill sy'n diogelu cyflenwadau o'r deunyddiau sydd eu hangen ar gymdeithas, gan gynnwys deunydd sylfaenol. Bydd hynny'n helpu i sichrau bod deunyddiau ar gael yn y tymor hir.

5.11.6 Dylid ystyried y deunydd neu'r adnoddau sydd eu hangen ac sy'n cael eu darparu ar gyfer datblygu a'r rheini y gallai'r datblygiad eu cynhyrchu yn fuan yn y broses gynllunio i helpu i sichrau bod y gwaith adeiladu yn gost effeithiol. Mae'r amser a dreulir yn y cyfnod dylunio yn allweddol o ran gwneud y defnydd gorau o adnoddau a sicrhau manteision lluosog, fel ffyniant economaidd, ecosystemau cryf, gwireddu dyheadau cymdeithasol a diogel amwynder ac iechyd cymunedau.

5.11.7 Bydd deall a nodi nodweddion penodol economi gylchol mewn perthynas â chynllunio yn cynnwys rhoi ystyriaeth fuan wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth ddylunio cynigion datblygu i'r canlynol:

- hyrwyddo defnyddio adeiladau sy'n bod eisoes os medrir;
- dylunio gwastraff allan trwy ddefnyddio deunyddiau sy'n cael neu y gellir eu hailgynhyrchu, eu hadfer, eu dadelfennu a'u hailgylchu neu y gellir eu tynnu'n ddarnau a'u hailddefnyddio;
- dylunio gwastraff allan trwy ddewis a thrin safleoedd yn briodol;
- annog ffordd fwy hyblyg a hirdymor o ddylunio adeiladau gan ddewis dyluniadau y gellir eu haddasu yn ystod eu hoes yn ogystal ag ar ddiwedd eu hoes;
- ymgorffori yn y dyluniad ddeunyddiau ac elfennau sy'n cael eu hailddefnyddio; a
- chydnabod synergeddau a'r manteision economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol lluosog a ddaw o ddewis y deunyddiau priodol.

## 5.12 Dewisiadau Dylunio i Atal Gwastraff

5.12.1 Bydd hyrwyddo'r dewis gorau o ddeunyddiau a defnyddio'r deunyddiau hynny'n effeithlon yn mynd law yn llaw yn aml. Bydd defnyddio llai o adnoddau yn y lle cyntaf yn helpu i osgoi creu gwastraff nad oes modd ei ailddefnyddio'n effeithiol, ac mae atal gwastraff yn allweddol er mwyn defnyddio adnoddau naturiol yn effeithlon[68]. Dylid nodi cyfleoedd i leihau neu ailgylchu gwastraff fel rhan o ddyluniad, gwaith adeiladu a gweithredu adeiladau newydd wrth gynnig strategaethau cynlluniau a pholisïau, gan gynnwys unrhyw ddyraniadau penodol, ac yn fuan yn y broses wrth ddylunio cynigion datblygu.

5.12.2 Dylai awdurdodau cynllunio ystyried dewisiadau dylunio a'r gwaith o ddewis a thrafod safle wrth asesu cynigion datblygu ac annog newid tuag at gylchu llif deunyddiau. Mae mesurau sy'n atal gwastraff yn cynnwys lleihau cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir, ailddefnyddio deunyddiau, estyn oes cynhyrchion ac ystyried sut y gellid ymgorffori deunydd ar safle o fewn datblygiad newydd. Os cynhyrchir gwastraff, dylai gael ei gadw ar wahân i'w ailddefnyddio neu ei ailgylchu. Dylid edrych ar bob

[68] Mae ymchwil Rhagoriaeth Adeiladu yng Nghymru (CEW) wedi dangos bod modd cyflawni arbedion o 2% ar gyfartaledd ar gostau prosiect trwy ystyried atal, lleihau ac ailddefnyddio adnoddau a gwastraff.

cyfle i ymgorffori deunyddiau neu gynhyrchion sydd wedi'u hailddefnyddio neu eu hailgylchu mewn adeiladau neu strwythurau newydd.

### Cydbwysedd Deunyddiau ar Safle

5.12.3 Mae angen rhywfaint o weithrediadau peirianyddol torri a llenwi ar safleoedd adeiladu. Mae lleihau lefel y cloddwaith torri a llenwi yn lleihau gwastraff ac yn diogelu priddoedd, yn lleihau'r defnydd o ynni ac yn lleihau symudiadau trafnidiaeth i safle ac oddi yno. Yn y pen draw, mae'n lleihau cyfanswm y deunyddiau a anfonir i safleoedd tirlenwi ac yn gwneud defnydd cynaliadwy o adnodd sydd â phen draw iddo. Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i fesurau o'r fath a'u cydbwyso â'r effeithiau gweledol cyffredinol.

5.12.4 Fel rhan o'r gwaith o drin safle, dylid asesu cydbwysedd torri a llenwi deunyddiau a gloddiwyd i osgoi creu gwastraff na ellir ei ailddefnyddio'n effeithiol oherwydd prinder cyfleusterau storio, megis 'chwareli trefol', a chyfleusterau ailbrosesu. Dylai datblygwyr ddylunio cynigion i sicrhau cydbwysedd o ran y cloddwaith trwy gyflwyno cynllun rheoli deunyddiau naturiol fel rhan o gynigion datblygu sy'n ceisio lleihau'r torri a llenwi neu sy'n darparu ar gyfer cynnal gwaith adfer yn rhan arall o'r ardal. Efallai y ceir gostyngiadau cost sylweddol, mewn costau deunyddiau, gostyngiad mewn costau gwaredu a gostyngiad sylweddol mewn symudiadau cerbydau sy'n gysylltiedig â symud deunyddiau, o ymgorffori ystyriaethau o'r fath wrth ddylunio cynigion a chynnal gwaith cynllunio cyn gweithredu gofalus.

### Dewisiadau Dylunio Addasadwy

5.12.5 Wrth nodi nodweddion dylunio economi gylchol mae'n ddefnyddiol ystyried mai'r cynnyrch yw'r adeilad neu'r seilwaith ac mai'r cydrannau yw'r pethau sydd yn y cynnyrch hwnnw, sef y deunyddiau adeiladu. Pan fydd ased yn cael ei adnewyddu neu pan nad oes angen ased mwyach, gall gael ei ddatgysylltu a gall ei gydrannau, briciau, blociau, concrit, gael eu hystyried fel deunyddiau crai i'w hailddefnyddio neu eu hailgylchu, heb anfon unrhyw beth i safle tirlenwi. Dylai cynigion datblygu gynnwys nodweddion dylunio a deunyddiau sy'n galluogi hyblygrwydd a'r gallu i addasu gydol oes cynllun adeilad ac sy'n galluogi ailddefnyddio wrth ddymchwel.

### Dylunio gyda Deunyddiau Lleol, Amgen neu wedi'u Hailgylchu

5.12.6 Mae sgil-gynhyrchion diwydiannol wedi cael eu defnyddio ers sawl blwyddyn i gynhyrchu agregau eilaidd er mwyn gwarchod prif adnoddau[69]. Dylid annog ailddefnyddio ac ailgylchu deunydd sydd ar gael yn lleol yn unol â'r egwyddor agosatrwydd. Lle bo hynny'n briodol, dylai cynlluniau datblygu annog ailddefnyddio ac ailgylchu agregau eilaidd, gwastraff adeiladu, dymchwel a chloddio, lludw llosgyddion a deunyddiau eildro priodol eraill.

5.12.7 Gall slag o waith gwneud dur, deunydd o siâl pyllau glo, lludw o orsafoedd pŵer a gwastraff llechi gael eu prosesu a'u defnyddio i adeiladu yn lle mwynau eraill, ac maent yn cynrychioli tua 10% o gyfanswm y cyflenwad agregau. Gallai'r defnydd o'r deunyddiau hyn gyfrannu ymhellach at gyflenwad cyffredinol agregau. Mae wynebau ffordd a gwastraff adeiladu a dymchwel yn ffynhonnell sylweddol o agregau amgen, ac mae llawer o'r rhain yn cael eu hailddefnyddio eisoes fel rhan o waith trin ar y safle a chynigion ailddatblygu[70]. Mae ymchwil wedi nodi ffactorau allweddol sy'n tueddu i gyfyngu ar ailddefnyddio, gan gynnwys cyfleusterau ailgylchu annigonol[71] a manylebau diangen o fanwl ar gyfer ffyrdd.

[69] Occurrence and Utilisation of Mineral and Construction Wastes (DoE – Arup Economics), 1991; Slate Waste Tips and Workings in Britain (DoE – Richards, Moorehead and Laing), HMSO, 1995.
[70] Use of Waste and Recycled Materials as Aggregates (DoE – Building Research Establishment), 1995.
[71] Aggregates in Construction – Current Practice, Scope for Substitution and Intensity of Use (DoE – Ecotec Research), 1995; Managing Demolition and Construction Waste (DoE – Howard Humphreys), 1994.

5.12.8 Dylai awdurdodau cynllunio annog ffyrdd arloesol o ailgylchu, yn enwedig y rheini sy'n esgor ar fanteision lluosog fel costau ynni is a llai o allyriadau cysylltiedig. Gallent gynnwys annog yr arfer o ailgylchu ar safleoedd mwynau, gan ystyried yr holl gostau a'r manteision tebygol, cefnogi 'chwareli trefol' ac annog ailgylchu gwastraff adeiladu a dymchwel ar y cyd â defnyddiau addas eraill, megis o fewn iardiau deunyddiau adeiladu.

5.12.9 Dylid cynnwys gofod a chyfleusterau digonol ar gyfer casglu, compostio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff yn rhan o ddyluniad neu lle bo hynny'n briodol, ddiwyg unrhyw ddatblygiad, a dylid llunio mesurau i atal gwastraff yn ystod y camau dylunio, adeiladu a dymchwel[72].

## 5.13 Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Cynaliadwy

5.13.1 Mae gan y system gynllunio gyfraniad pwysig i'w wneud o ran hwyluso rheoli gwastraff yn gynaliadwy trwy ddarparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a fydd yn cydnabod y manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y gellir eu gwireddu drwy reoli gwastraff fel adnodd i ddiwallu anghenion cymdeithas a busnesau, ac ar yr un pryd:


- lleihau i'r eithaf unrhyw effeithiau amgylcheddol andwyol ac osgoi risgiau i iechyd pobl;
- diogelu ardaloedd a ddynodwyd ar sail tirwedd a chadwraeth natur rhag datblygu amhriodol; a
- diogelu amwynder preswylwyr, defnyddwyr tir eraill a dulliau eraill o ddefnyddio tir rhag effaith cyfleusterau rheoli gwastraff, presennol neu arfaethedig.

5.13.2 Rhaid i fanteision sy'n gallu deillio o gynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff, ynghyd ag effaith cynigion ar amwynder pobl leol a'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, gael eu hasesu'n ddigonol i bennu a yw cais cynllunio'n dderbyniol ac, os na ellir lliniaru effeithiau andwyol ar amwynder neu'r amgylchedd, dylid gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.

5.13.3 Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio, adrannau perthnasol eraill awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gydweithio'n agos i sicrhau bod amodau sy'n gysylltiedig â chaniatadau cynllunio a'r rhai sy'n gysylltiedig â Thrwyddedau Amgylcheddol yn ategu ei gilydd ac nid yn dyblygu ei gilydd. Dylai sicrhau bod digon o wybodaeth yn dod gyda'r cynigion datblygu i fodloni awdurdodau cynllunio bod modd eu rheoleiddio'n effeithiol. Dylai CNC helpu'r awdurdod cynllunio i sefydlu'r safbwynt hwn trwy roi cyngor priodol. Dylid olrhain ceisiadau am ganiatâd cynllunio ac amgylcheddol ar y cyd os medrir, yn enwedig os ydy'r cynigion yn rhai cymhleth, hynny er mwyn osgoi oedi ac i osgoi cyflwyno ceisiadau sy'n cael eu gwrthod neu amodau a allai ddyblygu'r drwydded.

[72] Cynllun yw Cynllun Rheoli Gwastraff Safle SWMP) i helpu cleientiaid, datblygwyr a chontractwyr yn y sector adeiladu a dymchwel i feddwl cyn dechrau prosiect am y gwastraff a gynhyrchir, sut i leihau'r gwastraff a chyllunio i reoli'n gynaliadwy y gwastraff a gynhyrchir.

Ffigur 11: Hierarchaeth Gwastraff




5.13.4 Mae polisi Llywodraeth Cymru ar reoli gwastraff wedi'i gynnwys yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff, Ailgylchu a Mwy a chynlluniau sector cysylltiedig[73]. Mewn egwyddor, dylai awdurdodau cynllunio fod yn gefnogol o gyfleusterau sy'n cyd-fynd â dyheadau'r dogfennau hyn, gan adlewyrchu blaenoriaethau'r hierarchaeth gwastraff (gweler Ffigur 11) cyn belled ag y bo modd.

5.13.5 Yr hierarchaeth gwastraff yw'r pwynt cychwyn allweddol ar gyfer pob math o gynigion rheoli gwastraff. Ond dylai unrhyw ystyriaeth o'r hierarchaeth gael ei gosod yn erbyn y ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n berthnasol yn unrhyw achos. Dylid ystyried atal gwastraff a dulliau o annog ailddefnyddio ac ailgylchu yn fuan yn y broses, wrth ddewis deunydd a dylunio.

5.13.6 Mae gan CNC rôl statudol mewn perthynas â rheoli a rheoleiddio gwastraff a chasglu data ar gynhyrchu a rheoli gwastraff. Mae ganddo rôl allweddol o ran darparu cyngor arbenigol i awdurdodau cynllunio fel rhan o'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu ac fel ymgynghorai ar geisiadau cynllunio penodol. Mae'r rôl hon yn bwysig i helpu awdurdodau cynllunio i werthuso gwybodaeth gymhleth ynghylch gwastraff, a gwneud dyfarniadau technegol pan fo angen.

### Cyfleusterau/Seilwaith Gwastraff

5.13.7 Mae'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CSM) yn disgrifio'r fframwaith casglu gwastraff i ddarparu'r atebion gorau ar gyfer diwallu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol hyd at 2050[74]. Mae'n dynodi y dylid lleihau'r ddibyniaeth ar waredu ac adfer o blaid casglu meintiau uwch o ddeunyddiau a ddidolir yn y ffynhonnell, ac wedyn eu hailbrosesu ynghyd â pharatoi gwastraff i'w ailddefnyddio.

---

[73] Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Cymru'n Un – Cymru Un Blaned, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/tuag-at-ddyfodol-diwastraff-ein-strategaeth-wastraff.pdf
[74] Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd, Llywodraeth Cymru 2012 www.llyw.cymru/gwaredu-gwastraff

### Asesiadau a Monitro Gwastraff

5.13.8 Dylai cynlluniau datblygu ddangos sut mae'r polisi gwastraff cenedlaethol, ac yn enwedig y Cynllun Sector CSM, ynghyd ag unrhyw safbwynt newydd a fabwysiedir mewn adroddiadau ar fonitro'r cynllunio gwastraff ac unrhyw fath arall o flaenoriaethau rheoli gwastraff sy'n berthnasol i'r ardal leol, wedi eu hystyried. Bydd CNC yn cyfrannu at ddatblygu a gweithredu'r trefniadau monitro trwy ddarparu data ac arbenigedd.

5.13.9 Nid yw hyn yn golygu y bydd rhaid i'r asesiadau gwastraff yng Nghynllun y Sector CSM gael eu hailadrodd gan awdurdodau cynllunio ar lefel ranbarthol neu leol. Ond, er mwyn cefnogi'r hierarchaeth wastraff, bydd hi'n bwysig i awdurdodau cynllunio fonitro cynnydd tuag at ddarparu rhwydwaith integredig a digonol o osodiadau gwaredu gwastraff a gosodiadau ar gyfer adfer gwastraff trefol cymysg a gwastraff tebyg o sectorau masnachol a diwydiannol, ynghyd ag aelwydydd preifat[75]. Oherwydd hyn, mae trefniadau monitro rhanbarthol ar waith i sicrhau bod y sefyllfa ddiweddaraf ar gael i lywio penderfyniadau. Mae mwy o fanylion yn Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff.

### Darparu Seilwaith Gwastraff Eang ac Amrywiol

5.13.10 Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio gefnogi darparu a lleoli amrywiaeth eang o seilwaith gwastraff, gan gynnwys cyfleusterau i adfer gwastraff trefol cymysg, ac efallai cyfleusterau gwaredu ar gyfer gwastraff gweddilliol, na ellir ei drin yn uwch i fyny'r hierarchaeth gwastraff. Bydd i ba raddau mae cynnig yn dangos cyfraniad at yr amcanion, polisi, targedau ac asesiadau yn y polisi gwastraff cenedlaethol yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

5.13.11 Bydd cysyniad y 'Weithfa Addas Agosaf' a'r egwyddor hunangynhaliaeth ond yn berthnasol mewn perthynas â gwastraff a gwmpesir gan Erthygl 16 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff[76] ddiwygiedig, a'r egwyddorion hynny ddylai lywio'r gwaith o ddarparu rhwydwaith integredig a digonol ar gyfer trin gwastraff o'r fath. Dylai'r rhwydwaith gynnwys yr holl gyfleusterau ategol sydd eu hangen, megis gorsafoedd trosglwyddo gwastraff a chyfleusterau prosesu.

5.13.12 Ar gyfer pob math o wastraff, dylid nodi lleoliadau addas ar gyfer datblygiadau rheoli gwastraff cynaliadwy mewn cynlluniau datblygu yn ogystal â meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau o'r fath, gan gydnabod mai'r lleoliadau mwyaf priodol fydd y rhai sy'n amharu leiaf ar y boblogaeth leol a'r amgylchedd ac sydd â'r potensial gorau i gyfrannu at fframwaith seilwaith eang. Efallai y bydd angen cydweithredu a chydweithio i ymateb yn strategol i ofyniad a nodwyd fel rhan o waith monitro gwastraff. Fodd bynnag, ni ddylent allgáu darpariaeth ar gyfer gwastraff neu brosiectau eraill a allai arwain at lygredd, na gwahardd pob cais i'w sefydlu. Dylent wneud darpariaeth ymarferol ar gyfer mathau penodol o ddiwydiant neu gyfleuster a all fod yn niweidiol i amwynder neu fuddiannau cadwraeth, neu ffynhonnell bosibl o lygredd. Fel rhan annatod o gynllunio gwastraff, rhaid wrth siarad effeithiol â'r diwydiant rheoli gwastraff a rheolwyr a chonsortia gwastraff awdurdodau lleol.

[75] Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 19 Tachwedd 2008 ar wastraff gan ddirymu rhai Cyfarwyddebau, Erthygl 16(1) www.europa.eu/legislation_summaries/

[76] Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, dyddiedig 19 Tachwedd 2008 ar wastraff gan ddirymu rhai Cyfarwyddebau. Mae Erthygl 16 yn ymwneud â gwastraff trefol cymysg ac yn cynnwys y gwastraff cymysg hwnnw a gesglir gan drydydd partïon oddi wrth y sectorau masnachol a diwydiannol yn ogystal ag aelwydydd preifat. www.europa.eu/legislation_summaries/environment/ waste_management/ev0010_en.htm

### Ei gwneud hi'n Haws i Ailddefnyddio ac Ailgylchu Deunyddiau

5.13.13 Mae'n debygol y bydd newid mawr yn natur a math y seilwaith sydd ei angen i gefnogi newid tuag at ailgylchu deunyddiau. Bydd angen i gyfleusterau gefnogi effeithlonrwydd uchel ac ailddefnyddio ac ailgylchu o safon uchel, er enghraifft, bydd hybiau casglu yn angenrheidiol i gefnogi dychwelyd deunyddiau i'r pwynt gweithgynhyrchu. Bydd gofyn i'r diwydiant rheoli gwastraff sicrhau ei fod yn y lle gorau i reoli llifoedd deunydd yn effeithiol a bydd yn rhaid wrth gydweithio rhyngddo a'r awdurdodau cynllunio a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

5.13.14 Fel rhan o'r gwaith o baratoi cynllun datblygu dylai awdurdodau cynllunio annog ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff adeiladu a dymchwel yn ogystal â gwastraff mwynol a diwydiannol. Dylai pob awdurdod cynllunio, naill ai'n annibynnol neu ar y cyd â'i gymdogion, wneud darpariaeth ar gyfer storio a phrosesu deunyddiau anadweithiol sy'n deillio o waith adeiladu, dymchwel a chynnal a chadw trwy nodi mewn cynlluniau datblygu y lleoliadau a ffefrir ar gyfer cyfleusterau ailgylchu. Ar yr adegau prin hynny pan na ellir nodi safleoedd addas mewn cynlluniau datblygu, dylid cynnwys meini prawf clir ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio am safleoedd ailgylchu.

5.13.15 Dylai cynigion ar gyfer paratoi deunyddiau i'w hailddefnyddio a chyfleusterau ailddefnyddio gael eu cefnogi gan awdurdodau cynllunio, gan ystyried ffactorau sy'n gysylltiedig â gosod a chasglu nwyddau, natur y gwaith trwsio, cynnal a chadw a thrin, yr angen i sicrhau trafnidiaeth foddhaol a hygyrchedd y lleoliadau anfon a chasglu nwyddau ac unrhyw oblygiadau amgylcheddol ac amwynder posibl.

## 5.14 Mwynau

5.14.1 Mae angen amrywiaeth eang o fwynau ar gymdeithas, a bydd yr angen hwnnw'n parhau hyd y gellir rhagweld. Mwynau yw prif gyfansoddion y rhan fwyaf o ddeunyddiau adeiladu, a llawer o gynhyrchion fferyllol, cemegol, amaethyddol, cerbydau modur, metelegol, electroneg, awyrofod, plastigau, ceramig a phapur. Mae mwynau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant adeiladu a chynhyrchion mwynau yn hynod bwysig yng Nghymru, ac yn hollbwysig ar gyfer tai a seilwaith, megis ysgolion, ffyrdd, rheilffyrdd, meysydd awyr ac amddiffynfeydd rhag llifogydd, ac mae cyflenwad cyson a digonol o ddeunyddiau yn angenrheidiol.

5.14.2 Rôl yr awdurdod cynllunio mewn perthynas ag echdynnu mwynau yw cadw cydbwysedd rhwng y gofyn sylfaenol i sicrhau bod cyflenwad digonol o fwynau a'r angen i warchod yr amwynder a'r amgylchedd. Dyma'r egwyddorion allweddol:

- darparu'n gadarnhaol ar gyfer diogelwch a gwaith adnoddau mwynau i ddiwallu anghenion cymdeithas heddiw ac yfory, gan annog defnydd effeithlon a phriodol o ddeunyddiau o safon uchel;
- gwarchod nodweddion amgylcheddol a diwylliannol lleoedd, gan gynnwys y rhai â phriodoleddau cynhenid megis bywyd gwyllt, tirweddau, coetiroedd hynafol a nodweddion hanesyddol, ac amddiffyn iechyd a diogelwch a llesiant cyffredinol pobl;
- lleihau effaith cloddio am fwynau a gweithrediadau cysylltiedig yn ystod y cyfnod gweithio trwy sicrhau bod unrhyw effaith ar nodweddion amgylcheddol perthnasol a achosir wrth echdynnu mwynau a chludo mwynau, er enghraifft, ansawdd aer a seinwedd, o fewn y terfynau derbyniol; ac

- adfer y tir i safon uchel fel nad yw'n dirywio i gyflwr diffaith a dod â manteision gwirioneddol i gymunedau a/neu fywyd gwyllt, gan gynnwys ôl-ddefnyddiau buddiol neu gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a'r amgylchedd hanesyddol.

5.14.3 Mae'n bosibl na fydd yn dderbyniol echdynnu mwynau mewn rhai ardaloedd. Er enghraifft, lle byddai cynnig i echdynnu mwynau'n achosi difrod amlwg i'r amgylchedd, gan gynnwys safleoedd dynodedig, na ellir eu hosgoi trwy amodau cynllunio neu gytundebau, ni ddylid rhoi caniatâd cynllunio.

5.14.4 At ddibenion cynllunio, mae cloddio am fwynau a datblygiad cysylltiedig yn cynnwys yr holl fwynau a sylweddau mewn, ar neu o dan dir a gloddiwyd naill ai trwy waith o dan ddaear neu ar y wyneb[77]. Mae gwaith mwynau yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad am y rhesymau a ganlyn:

- mae'n rhaid darganfod bod mwynau'n bodoli ar safle cyn y caniateir cloddio amdanynt;
- defnydd tir dros dro yw cloddio am fwynau, ac ni ellir meddwl amdano fel defnydd parhaol o dir, er y gallai'r gwaith fynd yn ei flaen am amser hir; a
- phan fo'r gwaith yn dod i ben, mae'n rhaid adfer y tir i safon uchel at ddefnydd buddiol a chynaliadwy er mwyn osgoi sefyllfa lle bydd tir mewn cyflwr diffaith, a dod â manteision gwirioneddol i gymunedau a/neu fywyd gwyllt.

### Defnyddio Mwynau'n Effeithlon

5.14.5 Er bod gan Gymru adnoddau helaeth o fwynau defnyddiol, mae'n bwysig sicrhau nad ydynt yn cael eu gwastraffu a'u bod yn cael eu defnyddio'n effeithlon at y diben(ion) a nodwyd yn y caniatâd cynllunio, er y gall fod angen hyblygrwydd o dan rai amgylchiadau.

5.14.6 O dan rai amgylchiadau eithriadol, gellid bod wedi rhoi caniatâd cynllunio oherwydd anghenion y DU neu angen ranbarthol am fwynau mewn ardaloedd lle na fyddai cloddio am fwynau fel arfer yn addas oherwydd gwrthwynebiadau amgylcheddol neu wrthwynebiadau o ran polisi. Mewn achosion o'r fath, mae'n hanfodol nad yw'r mwynau'n cael eu defnyddio at ddiben ar radd is na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol. Pan ganiateir echdynnu mwynau fel eithriad i bolisi arferol mewn man penodol er mwyn diwallu angen penodol, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i amodau priodol a/neu gyfyngiadau amser er mwyn sicrhau bod gwaith cloddio mwynau at y diben a fwriadwyd yn cael ei reoli'n ddigonol. Byddai dulliau rheoli o'r fath yn arbennig o briodol mewn Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Safleoedd Ramsar, ond gallent fod yn briodol mewn mannau eraill hefyd, er enghraifft, Safleoedd Treftadaeth y Byd neu dirweddau hanesyddol cofrestredig neu ddynodiadau cadwraeth natur anstatudol. Wrth benderfynu ar gynigion cynllunio, dylid ystyried y dull echdynnu a phrosesu er mwyn lleihau'r gwastraff a gynhyrchir.

### Diogelu Adnoddau Mwynau a Seilwaith

5.14.7 Mae'n bwysig bod mynediad at adnoddau mwynau, yn cynnwys deunyddau eilaidd, wedi'u hailgylchu ac wedi'u carthu'n forol, sydd eu hangen ar gymdeithas, ynghyd â seilwaith cysylltiedig â mwynau i ddiwallu'r angen hwn, yn cael eu diogelu er mwyn atal sterileiddio gan fathau eraill o ddatblygiadau parhaol. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried yr hirdymor a'r angen i gymryd camau ataliol i osgoi creu problemau yn y dyfodol. Nid yw diogelu yn golygu bod gwaith mwynau'n cael ei dderbyn; yn hytrach, mae'n golygu bod

[77] Adran 336, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

lleoliad ac ansawdd y mwynau'n hysbys a bod y cyfyngiadau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r cloddio, gan gynnwys y potensial i gloddio am fwynau cyn ymgymryd â mathau eraill o ddatblygiad, wedi'u hystyried.[78]

5.14.8 Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i bwysigrwydd y mwynau neu'r seilwaith sy'n ofynnol i gefnogi datblygiad mwynau, megis glanfeydd cyfredol neu arfaethedig, terfynellau rheilffordd, cyfleusterau prosesu cysylltiedig a ffatrïoedd llwytho, yn gymharol â'r angen am ddatblygiadau nad ydynt yn cynnwys mwynau, er mwyn osgoi colli seilwaith ac adnoddau y gallai fod eu hangen dros y tymor hir.

5.14.9 Gan ddefnyddio'r Mapiau Adnoddau Mwynau Cenedlaethol a Mapiau Diogelu Agregau Cenedlaethol Cymru, dylai ardaloedd i'w diogelu gael eu nodi ar fapiau cynigion a dylai polisïau ddiogelu adnoddau mwynau posibl rhag datblygiadau parhaol eraill a fyddai naill ai yn eu sterileiddio neu'n rhwystro gwaith cloddio, neu a allai rwystro gwaith o'r fath yn y dyfodol wrth i dechnoleg newid. Dylai cynlluniau datblygu hybu'r gwaith o integreiddio a chydgysylltu'r broses cynllunio trafnidiaeth a defnydd tir, a dylai'r gwaith hwnnw gynnwys darparu cyfleusterau storio digonol ar gyfer mwynau mewn porthladdoedd a therfynfeydd rheilffordd.

### Sicrhau Cyflenwad

5.14.10 Mae sicrhau cyflenwad cynaliadwy o fwynau'n fater strategol sy'n chwarae rhan sylfaenol o ran cefnogi datblygiadau nad ydynt yn ymwneud â mwynau. Dylai pob awdurdod cynllunio mwynau sicrhau ei fod yn gwneud cyfraniad priodol at ddiwallu anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol am fwynau cynradd sy'n adlewyrchu natur a maint adnoddau yn yr ardal a'r defnydd gorau a mwyaf priodol ohonynt, yn amodol ar ystyriaethau amgylcheddol ac ystyriaethau cynllunio eraill. O ran agregau, dylid gwneud hyn o dan ofal Gweithgorau Agregau Rhanbarthol y De a'r Gogledd sy'n gyfrifol am gynnig trosolwg rhanbarthol o'r cyflenwad a'r galw a thrwy'r fframwaith a ddarperir gan y Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau.

5.14.11 Rhaid ystyried y cyfraniad y gallai adnodd ei wneud at alw'r DU lle mae'r mwyn yn brin neu'n gyfyngedig neu dylid ystyried galw rhanbarthol wrth wneud penderfyniadau cynllunio, ac yn anaml iawn y bydd hi'n dderbyniol i geisio diwallu anghenion lleol yn unig neu wrthwynebu pob math o waith mwynau mewn ardal ar sail effeithiau amgylcheddol andwyol arwyddocaol. I'r graddau bo hynny'n ymarferol, dylid nodi'r ardaloedd y gellir eu gweithio yn y dyfodol mewn cynlluniau datblygu, os oes modd gwneud hynny mewn ffordd gynaliadwy. Bydd datblygu mwynau'n cynnig buddiannau i'r ardal, megis swyddi mewn ardaloedd gwledig, ond bydd yn rhaid eu cydbwyso â'r egwyddorion allweddol a ddisgrifir ym mharagraff 5.14.2.

5.14.12 Dylai cyfraniad deunyddiau gwastraff eildro ac agregau eilaidd gael ei ystyried lle gallant gael eu defnyddio'n foddhaol ac yn ymarferol yn lle prif fwynau o dir, yn ogystal â defnydd deunyddiau a gloddiwyd o'r môr os oes modd cael gafael ar y rhain mewn ffordd gynaliadwy. Fodd bynnag, ni ddylid dibynnu ar y ffynonellau hyn i gyfiawnhau methu ag asesu'r cyflenwad posibl o adnoddau ar y tir ac i warchod adnoddau mwynau cychwynnol posibl o'r tir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Asesu'r Cyflenwad a Galw

5.14.13 Dylai cynlluniau datblygu amlinellu'r strategaeth eang ar gyfer gwaith mwynau a datblygiad cysylltiedig cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, a dylid nodi ardaloedd ar gyfer gwaith i'r dyfodol lle gellir cyflawni'r gwaith hwn mewn

[78] Cyhoeddi Mapiau Diogelu Agregau www.nora.nerc.ac.uk/id/eprint/20138/1/Aggregates_Safeguarding_Map_Of_Wales_Final.pdf; BGS Mapping www.bgs.ac.uk/mineralsuk/planning/resource.html

ffordd gynaliadwy. Dylai strategaeth o'r fath amlinellu disgwyliadau'r awdurdod cynllunio o ran sut mae'r safleoedd mwynau presennol yn gweithredu nawr ac yn y dyfodol.

5.14.14 Dylai cynlluniau datblygu asesu, yn unol ag ystyriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, arwyddocâd yr holl fathau o waith mwynau yn yr ardal, gan edrych ar yr angen am fwynau, lle mae'r mwynau hynny, y broses o gynhyrchu pob math o fwynau ac ar y cyflenwadau y mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ar eu cyfer. Mae'n hanfodol bod ganddynt gronfa gynhwysfawr a chyfoes o wybodaeth er mwyn hwyluso'r gwaith o gynllunio'n gynaliadwy ar gyfer cloddio am fwynau yn y dyfodol.

5.14.15 Dylid archwilio banciau tir am agregau i nodi unrhyw ddiffygion ac i sicrhau bod capasiti cynhyrchu'n cael ei gynnal. Yr hyn yw banc tir yw stoc o fwy nag un caniatâd cynllunio sydd, fel arfer, yn gysylltiedig â chloddio am fwynau nad ydynt yn cynhyrchu ynni. Mae'n darparu ar gyfer parhad cynhyrchiant er gwaethaf amrywiadau yn y galw. At ddibenion sefydlogrwydd masnachol, mae'r diwydiant agregau angen banc tir hyfyw sydd wedi hen ennill ei blwyf. Dylai awdurdodau cynllunio gynnwys polisïau yn eu cynlluniau datblygu ar gyfer cynnal, trwy gydol cyfnod y cynllun, fanciau tir ar gyfer mwynau nad ydynt yn cynhyrchu ynni ac y mae galw amdanynt ar hyn o bryd. Rhaid i'r rhain fod yn ddigonol, ond nid yn ormodol[79]. Felly, dylid cynnal banc tir deng mlynedd o leiaf ar gyfer craig wedi malu a banc tir saith mlynedd o leiaf ar gyfer tywod a graean trwy gydol cyfnod pob cynllun datblygu, oni bai y cytunir i awdurdodau eraill gynyddu eu darpariaeth i wneud iawn am hynny. Nid oes gofyn cadw banc tir mewn Parciau Cenedlaethol ac AHNE.

5.14.16 Gall ffiniau ardaloedd awdurdodau cynllunio mwynau fod yn sail addas ar gyfer polisi banc tir, ond mewn rhai awdurdodau, efallai y bydd yr ardal weinyddol yn rhy fach, y cyfyngiadau amgylcheddol yn rhy bwysig, neu'r adnoddau y gellir gweithio arnynt yn rhy gyfyngedig i ganiatáu polisi banc tir unigol. O dan yr amgylchiadau hynny, rhaid i awdurdodau gytuno i gydweithio ag awdurdodau cyfagos yn unol â'r trefniadau rhanbarthol presennol, ac mae'n bosibl y bydd angen iddynt drafod ag awdurdodau cynllunio mwynau perthnasol yn Lloegr.

### Safleoedd Anweithredol

5.14.17 Yn achos safleoedd anweithredol â chaniatâd cynllunio ar gyfer gwaith yn y dyfodol, y bernir eu bod yn annhebygol o gael eu defnyddio hyd y gellir rhagweld, dylid nodi safleoedd o'r fath yn y cynllun datblygu, a dylid paratoi strategaeth addas a pholisïau cysylltiedig er mwyn esbonio'r defnydd arfaethedig o'r tir hwnnw yn y dyfodol. Byddai'n rhesymol i'r polisïau hynny gynnwys:

- defnyddio gorchmynion gwahardd er mwyn sicrhau na fydd unrhyw gloddio pellach heb ganiatâd cynllunio newydd er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch gweithio'r safleoedd hynny yn y dyfodol;
- cynigion adfer ac ôl-ofal (a allai gynnwys aildyfiant naturiol at ddibenion cadwraeth natur/buddiannau ecolegol yn unol â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth lleol, asesiadau seilwaith gwyrdd neu warchod asedau hanesyddol ar gyfer twristiaeth); ac
- ôl-ddefnydd arfaethedig addas.

[79] Gweler llythyr y Gweinidog 25 Gorffennaf 2014 www.llyw.cymru/agregau-datganiadau-technegol-rhanbarthol-banciau-tir-cl-05-14

5.14.18 Yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru yn arbennig, mae ardaloedd helaeth o fanciau tir agregau, ond mae cyfran sylweddol o'r adnoddau hynny mewn safleoedd a fu'n anweithredol ers amser hir ac y mae posibilrwydd na fyddant yn cael eu defnyddio eto. Mae'n bwysig penderfynu'n derfynol ar ddyfodol y safleoedd hynny er mwyn rhoi sicrwydd i'r gymuned leol a sicrhau bod hen weithfeydd yn cael eu hadfer cyn gynted ag y bo modd, yn cynnwys manteisio ar unrhyw botensial i wella cydnerthedd rhwydweithiau ecolegol. Mae er budd i'r diwydiant mwynau bod banciau tir yn adlewyrchu posibiliadau gwirioneddol ar gyfer cloddio am fwynau yn y dyfodol. O dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd angen cadw banc tir digonol trwy roi caniatadau newydd mewn lleoliadau mwy derbyniol. Dylai gweithredwyr mwynau drafod gyda'r awdurdodau unrhyw ganiatâd sydd heb ei weithredu ac na fydd yn cael ei ddefnyddio eto. Os bu'r safleoedd hynny'n anweithredol, ac nad oes unrhyw olwg y byddant yn cael eu gweithio yn y dyfodol, dylai awdurdodau ystyried defnyddio gorchmynion gwahardd.

### Ardaloedd Gwaith ar gyfer y Dyfodol

5.14.19 Lle bo angen, dylai awdurdodau cynllunio roi arweiniad clir ynghylch lle byddai cloddio am fwynau nad ydynt yn cynhyrchu ynni yn debygol o fod yn dderbyniol, a chynnwys polisïau sy'n gwarchod dynodiadau amgylcheddol neu hanesyddol sensitif ac sy'n diogelu'r amgylchedd ac adnoddau. Mae'r ymagwedd hon yn darparu lefel uchel o sicrwydd i bawb. Dylid cysylltu polisïau a chynigion ag ardaloedd penodol o dir oni bai bod rheswm da pam nad oes modd gwneud hynny, a dylent gwmpasu adnoddau mwynau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd neu y gall fod angen eu defnyddio hyd y gellir rhagweld. Dylid nodi'r lleoedd hynny'n glir ar fap cynigion, a dylent fod ar ffurf:

- Safleoedd Penodol lle mae adnoddau mwynau o bwys masnachol i'w cael, a lle bo unrhyw geisiadau cynllunio a gyflwynir ar gyfer y safleoedd hynny yn debygol o fod yn dderbyniol o safbwynt cynllunio;
- Ardaloedd a Ffefrir sef ardaloedd lle gwyddys bod adnoddau ac iddynt rywfaint o botensial masnachol, a lle byddai'n rhesymol disgwyl i ganiatâd cynllunio gael ei roi;
- Ardaloedd Chwilio lle byddai cloddio am fwynau yn debygol o fod yn briodol ar rai safleoedd, gan ddibynnu ar amgylchiadau economaidd a/neu amgylcheddol. Bydd ardaloedd chwilio yn diffinio ardaloedd bras y credir bod ynddynt adnoddau mwynau o bwys masnachol ond nad oes sicrwydd ynghylch union faint o'r adnoddau hynny sydd i'w cael yno. Mewn ardaloedd o'r fath, mae'n debyg y byddai mesurau lliniaru priodol yn gallu goresgyn yr holl effeithiau amgylcheddol. Mewn ardaloedd chwilio, byddai modd rhoi caniatâd cynllunio er mwyn mynd i'r afael â diffygion yn y cyflenwad pe na bai ardaloedd penodol neu ardaloedd a ffefrir ar gael, neu pe na bai modd estyn safleoedd sy'n bodoli eisoes. Fel rheol, ni fyddai'n briodol i awdurdod nodi ardaloedd chwilio, a'r rheini'n unig, mewn cynllun, a byddai angen rhoi cyfiawnhad llawn dros wneud hynny; neu
- Ardaloedd Eraill: Ni ddylid rhoi caniatâd cynllunio mewn ardaloedd y tu allan i'r rheini a nodir yn y cynllun oni bai bod angen y mwynau dan sylw oherwydd diffyg amlwg yn y cyflenwad, ac oni bai y profwyd bod y cynllun yn amgylcheddol dderbyniol ac na fydd yn effeithio'n andwyol ar amwynder trigolion na chymunedau cyfagos[80].

[80] Environmental Effects of Surface Mineral Workings (DoE – Roy Waller Associates), 1992.

5.14.20 Dylai awdurdodau gynnal asesiadau rheolaidd o'r adnoddau mwynau sy'n bodoli yn eu hardaloedd a hefyd o'r adnoddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer. Gallant wneud hynny'n unigol neu ar y cyd ag awdurdodau cyfagos[81].

### Anghenion Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol ar gyfer Mwynau Nad Ydynt yn Cynhyrchu Ynni

5.14.21 Gall mwynau nad ydynt yn cynhyrchu ynni gael eu rhannu'n agregau ac yn fwynau nad ydynt yn agregau, er yn ymarferol, gellir gweithio rhai mwynau, megis calchfaen, ar gyfer sawl math o ddefnydd. Gall cloddio am fwynau pur neu fwynau o safon uchel i fodloni manyleb benodol olygu bod angen cael gwared ar ddeunydd o radd is. Lle bynnag y bo modd, dylai'r adnoddau prin sydd ar gael o ddeunydd gradd uchel gael eu cadw at y defnydd mwyaf priodol.

### Agregau

5.14.22 Mae'n hanfodol, er lles economaidd y wlad, bod y diwydiant adeiladu yn cael cyflenwad digonol o'r mwynau sydd eu hangen arno. Prif ffynonellau agregau yw tywod a graean a chreigiau wedi'u malu – sy'n cael eu casglu oddi ar y tir ac o'r môr. Defnyddir nifer o ddeunyddiau eilaidd at ddibenion adeiladu.
Yn aml, mae'r deunyddiau hyn yn sgil-gynhyrchion prosesau diwydiannol, ac maent yn cynnwys slag o waith dur, lludw o orsafoedd pŵer, gwastraff pyllau glo, gwastraff llechi a deunyddiau wedi'u hailgylchu sy'n dod o waith dymchwel a gwastraff ffyrdd. Wrth ystyried ceisiadau cynllunio, dylid cofio pa mor bwysig yw agregau i'r DU, a dylid hefyd ystyried polisïau eraill yn y canllawiau hyn ac yn y Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTANs) a'r Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) perthnasol. Er mwyn

[81] Ar gyfer agregau trwy arolygon blynyddol RAWP a thrwy baratoi datganiadau technegol rhanbarthol bob pum mlynedd



gwarchod adnoddau naturiol, dylid rhoi pwyslais arbennig, lle bo hynny'n briodol, ar ddefnyddio mwy o gynhyrchion amgen yn hytrach na deunyddiau sylfaenol[82].

5.14.23 Mae agregau sy'n addas ar gyfer gwaith adeiladu a chynnal a chadw wynebau ffordd, lle mae agregau gradd uchel yn ofynnol ar gyfer wynebau gwrth-sgid, yn bwysig i'r DU[83] ac mae adnoddau sylweddol ar gael yng Nghymru. Dylid rhoi pwyslais sylweddol ar angen y DU ac angen rhanbarthol am fwynau o'r fath cyn belled bod modd cyfyngu effeithiau amgylcheddol i lefelau derbyniol. Nodweddion sylfaenol y deunyddiau hyn, sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth agregau â diben mwy cyffredinol, yw eu gallu i fodloni'r manylebau caeth sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu a thrwsio ffyrdd, a lle bo'n bosibl dylid defnyddio agregau manyleb uchel ar gyfer y dibenion hyn. Dylai awdurdodau cynllunio nodi adnoddau agregau gradd uchel ac ystyried a oes angen gwarchod yr adnoddau hyn a chysylltiadau rheilffordd posibl i'r adnoddau rhag sterileiddio.

5.14.24 Defnyddir llechi ar gyfer toi, i orchuddio adeiladau ac at ddibenion addurniadol, ac ar ffurf powdr a gronynnau at ddibenion arbenigol fel llenwadau ar gyfer cynhyrchion bitwminaidd, neu fel teils o lechi cywasgedig[84]. Mae llechi Gogledd-orllewin Cymru yn rhai o safon uchel, ac mae llawer ohonynt ar gael. Mae cyfanswm yr arwynebedd tir yr effeithir arno gan waith cloddio llechi yn gymharol fach, ond mae llawer iawn o ddeunydd gwastraff wedi'i gynhyrchu, ac ar hyn o bryd, nid oes llawer o botensial i ddefnyddio'r deunydd hwnnw. Yn Ne Cymru, mae dosbarthiad llechi yn fwy cyfyngedig ac ni fu gwaith mawr ar yr adnodd hwn ers blynyddoedd lawer, er bod rhywfaint o wastraff llechi wedi'i ddefnyddio fel deunydd agregau. Yn y Gogledd, dylid annog y defnydd cynyddol o wastraff llechi, yr un fath â phob ffynhonnell deunydd eilaidd a lle nad yw'r opsiwn hwn yn fasnachol hyfyw, dylai ardaloedd gael eu nodi i'w hadfer. Mae chwareli llechi yn gwneud cyfraniad pwysig at gynnal cymeriad adeiladau lleol, lle mae defnyddio llechi o fath penodol yn bolisi cynllunio caeth. Mae'n bwysig bod y cyflenwad llechi'n cael ei gynnal, ond wedi'i gydbwyso yn erbyn yr angen i warchod tirweddau pwysig.

### Mwynau nad ydynt yn Agregau

#### *Cerrig Dimensiwn*

5.14.25 Mae cerrig addas yn bwysig er mwyn adfer adeiladau hanesyddol a henebion, a gall cerrig o'r fath fod ar gael o weithfeydd bach mewn lleoliadau penodol i gyflenwi marchnadoedd lleol. Defnyddir cerrig dimensiwn mewn adeiladau newydd pan fo'n bwysig cadw cymeriad adeilad lleol. Efallai y bydd angen cael cerrig dimensiwn o ffurfiannau geolegol nad ydynt i'w gweld yn aml iawn, a hynny er mwyn cael math arbennig o liw, ansawdd neu unffurfedd. Yn aml, mae modd i gyfran fawr o'r gwastraff a gynhyrchir gael ei ddefnyddio fel agreg adeiladu cyffredinol. Fel rheol, bydd y galw yn y farchnad yn arwain at gyfraddau cynhyrchu isel o nifer cymharol fach o safleoedd a all fod yn rhai dros dro neu'n rhai ysbeidiol ac efallai y bydd angen dull hyblyg i ymdrin â hyd hir caniatadau cynllunio sy'n deillio o batrwm gweithio o'r fath. Dylid ystyried yr effaith gronnol a gaiff nifer o safleoedd bach yn gweithredu'n agos at ei gilydd.

#### *Calchfaen at Ddibenion Diwydiannol*

5.14.26 Mae calchfaen yn darparu'r deunydd crai ar gyfer diwydiannau mawr ac mae'n bwysig i'r economi genedlaethol bod mwynau o'r ansawdd a'r maint gofynnol yn parhau i gael eu cynhyrchu a'u gwarchod i'w defnyddio yn erbyn

82 Improving the Information Base on Secondary Minerals/C&D Waste for Use as Aggregates in Wales, Aggregates Levy Sustainability Fund for Wales (Arup), 2004.
83 High Specification Aggregates for Road Surfacing Materials (DoE – Travers Morgan), 1993.
84 Slate Waste Tips and Workings in Britain (DoE – Richards, Moorehead and Laing), 1995.

sterileiddio a rhag eu defnyddio fel deunydd gradd is yn y dyfodol. Efallai y bydd angen cynnal banc tir hirach o gronfeydd mewn safleoedd o'r fath nag sy'n ofynnol ar gyfer agregau cyffredinol i gyfiawnhau'r buddsoddiad mawr mewn gweithfeydd. Anogir awdurdodau cynllunio mwynau i drafod y materion hyn gyda'r diwydiant gyda'r nod o ddod i gytundeb ynghylch faint o adnoddau sy'n debygol o fod eu hangen yn ystod oes cynllun datblygu.

5.14.27 Mae adnoddau calchfaen sy'n cynnwys isafswm penodol o garbonad calsiwm a lefelau isel o amhureddau yn cael eu defnyddio at ddibenion diwydiannol, megis cynhyrchu haearn a dur, fel catalydd mewn offer i ddadswlffwreiddio nwyon simnai, ac wrth weithgynhyrchu sment. Ceir calchfaen pur iawn[85] yn Ne Cymru, lle mae'r rhan fwyaf o'r calchfaen yn cynnwys rhywfaint o ddeunydd pur iawn, ond fe'i gwelir fwyaf yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, lle mae chwareli yn cynhyrchu calchfaen i'w ddefnyddio yng ngwaith dur Port Talbot. Mae calchfaen Jwrasig gradd isel Bro Morgannwg a'r calchfaen gradd uchel Carbonifferaidd yn darparu'r deunydd crai ar gyfer gweithgynhyrchu sment. Yng Ngogledd Cymru, ger y ffin rhwng Sir y Fflint a Sir Ddinbych, y mae'r haenau mwyaf trwchus o galchfaen pur iawn ac maent yn cyflenwi cerrig ar gyfer gwaith sment Bwcle.

5.14.28 Yn y rhan fwyaf o chwareli, mae calchfaen pur iawn yn cael ei gloddio gyda chalchfaen ar gyfer agregau, a gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng y deunydd a gynhyrchir ar gyfer dwy farchnad wahanol nes y daw'r gwaith prosesu i ben. Mae'r effaith amgylcheddol a gaiff cloddio am ddeunyddiau pur iawn yn debyg i effaith amgylcheddol cloddio am agregau, ac eithrio y gallai'r offer prosesu fod yn fwy, ac y gallai bod angen teithio ymhellach er mwyn cludo'r cynnyrch i farchnadoedd diwydiannol. Lle mae chwareli'n cynhyrchu calchfaen at ddefnydd agregau ac at ddefnydd arall, fel arfer bydd y gronfa'n cael ei rhannu a phob categori'n cael ei bennu gan y gronfa a ragwelir ar gyfer pob math. Dylai gweithredwyr sicrhau bod cronfeydd o'r fath yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf a fformiwlâu masnach cydnabyddedig (er enghraifft, PERC).

*Mawn*

5.14.29 Yn draddodiadol, mae mawn wedi cael ei ddefnyddio fel cyfrwng tyfu neu i wella cyflwr ffisegol y pridd, ond mae'r defnydd o ddeunyddiau eraill wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawdau diwethaf.

5.14.30 Mae mawnogydd yn dal i fod yn bwysig iawn o ran cadwraeth natur ac maent, yn aml, yn archaeolegol bwysig ac yn darparu dalfa garbon. Dylid diogelu'r ardaloedd hynny, a'u gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ni ddylid rhoi caniatâd i gloddio mawn yn y dyfodol oni bai ei fod wedi'i gyfyngu i amgylchiadau gwbl eithriadol mewn ardaloedd sydd eisoes wedi'u difrodi'n sylweddol gan weithgareddau dynol diweddar lle gallai adfer y tir er mwyn creu cynefinoedd gwlyptir wella, o ran ei phwysigrwydd cadwraeth natur, mawnog sydd wedi'i dihysbyddu. Dylid ymgynghori â CNC ac ag ecolegwyr a chyngorydd archaeolegol yr awdurdod cynllunio am unrhyw gynlluniau i gloddio mawn.

*Mwynau Eraill*

5.14.31 Yn hanesyddol, mae mwynau megis clai tân, tywod silica, cornfaen a mwynau metelifferaidd i gyd wedi cyfrannu at ddiwydiant amrywiol o ran cloddio am fwynau. Dros amser, mae'r gweithgareddau hyn wedi dirywio ac mae rhai yn annhebygol o gael eu hailfywiogi. Os gwneir ceisiadau am ddatblygiad, dylid defnyddio'r polisi seiliedig ar feini prawf ar gyfer cloddio am agregau. Efallai y bydd hi'n briodol ystyried polisïau eraill, a bennir fesul achos, gan gynnwys asesiad o'r angen am y mwynau.

[85] Appraisal of high-purity limestones in England and Wales – A Study of resources, needs, uses and demands (DoE), 1991.

5.14.32 Defnyddir glo gan fwyaf i gynhyrchu ynni ond mae gan lo ddibenion eraill. Fe'i defnyddir at ddibenion diwydiannol yn y diwydiant dur, mewn marchnadoedd carbon arbenigol, i wneud concrit ac at ddibenion domestig. Defnyddir glo golosg er enghraifft, y caiff y rhan fwyaf ohono ei fewnforio, i weithgynhyrchu golosg ar gyfer y diwydiant dur ac yn uniongyrchol mewn ffwrneisi chwyth. Er na ddylid caniatáu defnyddio glo i gynhyrchu ynni, os daw cais cynllunio eithriadol ar gyfer defnydd diwydiannol i lo, yna rhaid ystyried pob achos yn unigol a defnyddio'r polisïau sydd wedi'u cynnwys yn MTAN 2: Glo, yn cynnwys y prawf a amlinellir ym mharagraff 45 o MTAN 2.

*Pyllau Benthyg*

5.14.33 Gweithfeydd mwynau dros dro yw'r rhain, sy'n cael eu gweithio er mwyn gwasanaethu prosiectau adeiladu penodol. Maent yn gysylltiedig â chontractau priffyrdd, neu safleoedd llenwi siâl bach fel arfer. Gall fod angen llawer iawn o fwynau mewn amser byr ar gyfer contractau mawr, a hynny fel llenwad peirianyddol. Gall hynny gael cryn effaith ar yr amgylchedd a tharfu ar gymunedau lleol.

5.14.34 Dylid lleoli pyllau benthyg ar y safle adeiladu, neu'n agos at y safle hwnnw, a lle bynnag y bo modd, dylid cyflenwi'r mwynau'n uniongyrchol heb ddefnyddio ffyrdd cyhoeddus. Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod manteision amgylcheddol clir o ddefnyddio pyllau benthyg arfaethedig yn hytrach na chyflenwad o agregau eilaidd neu agregau wedi'u hailgylchu, neu o safleoedd mwynau sefydledig neu ardaloedd a nodwyd yn y cynllun datblygu. Mae gan byllau benthyg y potensial i gael effaith andwyol ar dystiolaeth archaeolegol claddedig, a dylid cynnal ymgynghoriad cynnar â chynghorydd archaeolegol yr awdurdod cynllunio fel bod modd nodi'r holl nodweddion archaeolegol sensitif hysbys. Mae'n bwysig bod pyllau benthyg yn cael eu hadfer i'r un safon uchel ag a ddisgwylir ar gyfer mathau eraill o ddatblygiadau mwynau. Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i effaith gronnol bosibl nifer o byllau benthyg sy'n agos at ei gilydd, ac efallai na fyddai hynny'n briodol mewn lleoliadau sy'n arbennig o sensitif. Dylid ymgynghori cyn gynted ag y bo modd gydag awdurdodau cynllunio mwynau fel y bo modd ystyried yr holl ddewisiadau cyflenwi posibl heb arafu'r prosiect adeiladu.

**Diogelu Nodweddion a Phriodoleddau Arbennig Lleoedd**

5.14.35 Ni ddylid caniatáu datblygiadau mwynau mewn Parciau Cenedlaethol nac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol iawn. Felly, mae'n rhaid i bob cais sy'n ymwneud â mwynau gael ei archwilio'n drwyadl ac mae'n rhaid dangos bod pob datblygiad mwynau mawr o fudd i'r cyhoedd cyn rhoi caniatâd ar ei gyfer. Wrth ystyried ceisiadau o'r fath, bydd angen asesu:

- yr angen am y datblygiad o ran ystyriaethau'r DU yn ymwneud â chyflenwad mwynau;
- yr effaith y byddai caniatáu neu wrthod y datblygiad yn ei chael ar yr economi leol;
- a ellir trefnu cyflenwadau eraill am gost resymol, a'r posibilrwydd o fedru diwallu anghenion mewn ffordd arall;
- effaith andwyol y cynigion ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol a'r gymuned leol a'r dirwedd ac i ba raddau y gellir lliniaru'r effaith honno, a/neu effaith andwyol y cynigion ar gadwraeth natur ar y safle o ran cynefinoedd, rhywogaethau gwarchodedig, bioamrywiaeth; ac
- yn achos estyniadau i chwareli sy'n bodoli eisoes a safleoedd eraill lle cloddir am fwynau, i ba raddau y byddai'r cynnig yn gwella'r dirwedd leol ac yn darparu ar gyfer cadwraeth natur a bioamrywiaeth.

5.14.36 Gall datblygiadau gerllaw'r ardaloedd hyn neu'n gyfagos iddynt gael effaith hynod andwyol ar eu nodweddion arbennig. Dylid mynd ati'n ofalus i asesu datblygiadau mwynau arfaethedig sydd gerllaw neu'n gyfagos i Barc Cenedlaethol neu AOHNE ac a allai effeithio ar olwg yr ardaloedd hynny, a hynny er mwyn penderfynu a yw'r effaith amgylcheddol ac amwynderol yn dderbyniol ai peidio, neu a ellir gosod amodau addas a boddhaol i liniaru'r effaith honno.

5.14.37 Os oes cynigion mwynau mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, AGA posibl neu ar safleoedd a gafodd eu categoreiddio'n ardaloedd o'r fath, neu mewn ardaloedd a ddynodwyd yn ACA, sydd wedi gwneud cais i fod yn ACA, neu y bwriedir eu dynodi felly, neu mewn safleoedd Ramsar, neu os oes cynigion sy'n debygol o effeithio ar ardaloedd o'r fath ni ddylent ddigwydd ond mewn amgylchiadau eithriadol. Pe bai'r cynnig yn effeithio'n andwyol ar integriti'r safle gan ystyried unrhyw gyngor a roddir gan CNC, a phe na fyddai amodau yn dileu'r effaith honno, ni ddylid rhoi caniatâd cynllunio oni bai y byddai modd trefnu cyflenwadau amgen am gost resymol, oni bai nad oes modd o ddiwallu'r angen mewn unrhyw ffordd arall, a bod sylw wedi'i roi i ystyriaethau megis yr angen am y datblygiad o ran cyflenwad mwynau'r DU, a'r effaith y byddai caniatáu neu wrthod y datblygiad yn ei chael ar yr economi leol. Dylid asesu datblygiadau mwynau mewn safleoedd cadwraeth natur anstatudol yn ofalus i weld a yw'r effeithiau amgylcheddol ac amwynderol yn dderbyniol neu ddim yn cymharu â buddiannau'r datblygiad mwynau.

5.14.38 Gallai cynigion mwynau o fewn heneb restredig gael effaith ar ei arwyddocâd, a dylid eu hystyried yn ofalus. Dylid ystyried effaith datblygiad mwynau ar heneb restredig a'i lleoliad ac os na ellir lleddfu'r effeithiau hynny'n ddigonol, dylid gwrthod rhoi caniatâd cynllunio oni cheir amgylchiadau eithriadol.

5.14.39 Dylai awdurdodau cynllunio a'r diwydiant mwynau roi ystyriaeth i'r angen i warchod maint ac ansawdd cyflenwadau dŵr wyneb a dŵr daear[86] [87]. Ni ddylai newidiadau yn y lefel trwythiad o ganlyniad i gloddio am fwynau neu gael gwared ar wastraff mwynau achosi effaith annerbyniol ar adnoddau dŵr, na niweidio neu effeithio'n andwyol mewn unrhyw ffordd arall ar adnoddau dŵr neu ffynonellau dŵr, yn unol â'r egwyddorion yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Gallai adnoddau o'r fath fod yn rhan annatod o safleoedd sydd o werth mawr o ran eu tirwedd neu sy'n bwysig o ran cadwraeth natur, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig.

5.14.40 Gall newidiadau yn y lefel trwythiad hefyd greu peryglon daearegol mawr megis priddoedd clai'n crebachu ac yn arwain at dirlithriad neu gwymp carstig mewn ardaloedd calchfaen. Mae'n debyg y bydd angen monitro effaith newidiadau i ddŵr wyneb a dŵr daear a chyflwyno camau i adfer y sefyllfa. Rhaid i awdurdodau cynllunio ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar y materion cymhleth hyn ac os oes unrhyw amheuaeth, dylent weithredu yn unol â'r egwyddor ragofalus wrth wneud penderfyniadau ar ddatblygiadau mwynau.

5.14.41 Yn ogystal â gradd y Dosbarthiadau Tir Amaethyddol, gallai ffactorau amaethyddol fel adeiladau fferm, cadwraeth pridd, cyflenwad dŵr y fferm, dŵr arwyneb a draeniad caeau fod yn faterion y dylid rhoi sylw iddynt wrth ystyried cwmpas y cynigion ar gyfer gwaith, adfer ac ôl-ofal mwynau. Dylid amcanu, lle medrir, at gadw'r effeithiau andwyol sy'n digwydd o ganlyniad i'r datblygiad mwynau ar amaeth mor fach â phosib. Mae'r ffactorau hyn yn debygol o fod yn arbennig o berthnasol os mai'r bwriad yw ffermio'r safle ar ôl ei adfer.

[86] Guide Groundwater Protection Zones in England and Wales (NRA).
[87] Environmental Geology in Land Use Planning (DETR – Symonds Travers Morgan), 1998.

### Lleihau Effeithiau Cloddio am Fwynau a Gwaith Cysylltiedig

5.14.42 Ni ddylai gwaith mwynau achosi unrhyw effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd neu ar amwynder. Os nad yw hyn yn bosibl, mae angen i waith gael ei reoli a'i fonitro'n ofalus fel bod unrhyw effeithiau andwyol ar gymunedau lleol a'r amgylchedd yn cael eu lliniaru i lefelau derbyniol. Rhaid i unrhyw effeithiau ar gymunedau lleol a'r amgylchedd gael eu lleihau i safon dderbyniol.

5.14.43 Dylai cynlluniau datblygu nodi'r meini prawf ar gyfer cynigion mwynau yn glir, er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith annerbyniol o andwyol ar yr amgylchedd ac ar amwynder trigolion lleol[88]. Rhaid mynd i'r afael â'r materion canlynol:

- mynediad a chreu traffig, gan gynnwys y llwybrau i'w defnyddio i gludo'r mwynau;
- sŵn[89], o ran terfynau, mathau a lleoliadau;
- rheoli llygredd aer, sef llwch, mwg a mygdarth[90];
- cael gwared ar wastraff mwynau;
- rheoli gwaith ffrwydro[91];
- draenio tir, effaith ar adnoddau dŵr daear ac atal cyflenwadau dŵr rhag cael eu llygru[92];
- ymyrraeth weledol a thirweddau cyffredinol;
- effaith ar safleoedd cadwraeth natur, geoamrywiaeth ac asedau hanesyddol, gan nodi polisïau clir a phendant ar gyfer ardaloedd a ddynodwyd yn statudol a safleoedd sydd heb eu dynodi'n statudol;
- ansefydlogrwydd tir;
- hyrwyddo defnydd o dir ansefydlog, diffaith neu lygredig, a hyrwyddo gwaith i'w drin;
- effaith gronnol; a
- gwaith adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd.

### Clustogfeydd

5.14.44 Yn aml, ceir gwrthdaro rhwng gweithfeydd mwynau a defnyddio tir at ddibenion eraill, a hynny oherwydd yr effaith amgylcheddol a gaiff sŵn a llwch sy'n codi wrth gloddio am fwynau a'u prosesu, a dirgrynu oherwydd gwaith ffrwydro[93]. Dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio clustogfeydd i warchod ardaloedd o amgylch gweithfeydd mwynau sy'n bodoli eisoes a gweithfeydd arfaethedig o'r fath. Y nod yw osgoi datblygiadau newydd a fyddai'n sensitif i effeithiau andwyol, gan gynnwys ardaloedd preswyl, ysbytai ac ysgolion. O fewn y glustogfa, ni ddylid cloddio o'r newydd am fwynau ac ni ddylid caniatáu datblygiadau sensitif newydd, ac eithrio lle bo safle'r datblygiad newydd, mewn perthynas â'r gwaith mwynau, wedi'i leoli mewn ardal adeiledig sydd eisoes yn bodoli, neu ar ochr bellaf ardal adeiledig o'r fath sydd eisoes yn rhan o'r glustogfa. Gall datblygiadau eraill, gan gynnwys diwydiant, swyddfeydd a rhai datblygiadau ategol sy'n ymwneud â gweithfeydd mwynau, sy'n llai sensitif i effeithiau gweithfeydd mwynau, fod yn dderbyniol o fewn y glustogfa fesul achos.

5.14.45 Er mwyn osgoi gwrthdaro rhwng gweithfeydd mwynau a defnyddio tir at ddibenion eraill, dylid dynodi clustogfeydd mewn cynlluniau datblygu o amgylch safleoedd mwynau sy'n bodoli eisoes neu o amgylch safleoedd mwynau arfaethedig. Byddai maint y glustogfa'n dibynnu ar nifer o ffactorau: maint, math a lleoliad y gweithfeydd, topograffi'r

88 Environmental Effects of Surface Mineral Workings (DoE – Roy Waller Associates), 1992.
89 The Control of Noise at Surface Mineral Workings (DoE – WS Atkins), 1990.
90 Environmental Effects of Dust from Surface Mineral Workings (DETR – Arup Environmental & Ove Arup), 1995.
91 Environmental Effects of Production Blasting from Surface Mineral Workings (DETR – Vibrock Ltd), 1998.
92 Reducing the Effects of Surface Mineral Workings on the Water Environment (DETR – Symonds), 1998.
93 Environmental Effects of Surface Mineral Workings (DoE – Roy Waller Associates), 1992.

ardal o'u hamgylch, y lefelau presennol a disgwyliedig o sŵn a llwch, y dirgrynu a welir ar hyn o bryd ac a ragwelir yn sgil gwaith ffrwydro, a'r mesurau lliniaru sydd ar gael.

5.14.46 Bydd clustogfeydd, o reidrwydd, yn amrywio o ran maint yn dibynnu ar ba fwyn sy'n cael ei gloddio ac ar natur y gwaith, ond rhaid eu diffinio a'u nodi'n glir ar fapiau cynigion cynlluniau datblygu. Bydd hyn yn sicrhau bod canllawiau diamwys ar gael ar ba mor agos y caiff gweithfeydd mwynau fod at ddefnydd sensitif o dir. Bydd yn fodd hefyd i wneud yn siŵr bod effaith bosibl gweithfeydd mwynau, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn cael ei chydnabod ac y cynllunnir ar ei chyfer yn yr ardal o amgylch y gweithfeydd mwynau. Mae canllawiau pellach yn yr MTAN ar y ffactorau y dylid eu hystyried wrth ddiffinio clustogfeydd ar gyfer mwynau penodol. Er mai prif bwrpas clustogfeydd yw cyfyngu ar effaith gweithfeydd mwynau dylid ystyried eu rôl fuddiol ehangach fel rhan o ddarpariaeth seilwaith gwyrdd a diogelu a gwella bioamrywiaeth.

### Estyniadau

5.14.47 Dylai estyniadau i weithfeydd mwynau sy'n bodoli, boed yn estyniadau amser, ochrol neu ddyfnder, gael eu hystyried yn yr un modd â cheisiadau am safleoedd newydd. Bydd angen i bob cais ystyried yr effaith ar y safle i gyd a'i gyffiniau, a bydd angen i bob cais gael ei ystyried ar sail teilyngdod.

5.14.48 Dylai presenoldeb chwarel fod yn ystyriaeth bwysig wrth ystyried cynnig i estyn. Gallai fod buddiannau i estyn safle o ran rhannu seilwaith, er enghraifft, yn hytrach na gweithio ar safle maes glas.

### Cludo Mwynau ar y Ffordd

5.14.49 Er mai'r rheilffordd a'r dyfrffyrdd yw'r opsiynau a ffefrir ar gyfer cludo deunyddiau swmpus, os mai cludo ar y ffordd yw'r unig fodd i wasanaethu datblygiadau mwynau newydd, mae gallu'r rhwydwaith ffyrdd i ymdopi'n ddiogel â symud mwynau a chynhyrchion cysylltiedig yn ystyriaeth berthnasol. Gan fod datblygiadau mwynau yn digwydd fel arfer mewn ardaloedd gwledig, lle gall y rhwydwaith ffyrdd fod yn annigonol i ddarparu ar gyfer nifer mawr o gerbydau trymion, mae angen ystyried yn ofalus yr effaith a gaiff y traffig a gynhyrchir gan ddatblygiadau mwynau, ac mae'n bosibl y bydd angen asesu effaith y traffig. Os oes angen, dylid rheoli'r llwybrau a ddefnyddir gan gerbydau mwynau trwy gytundebau Adran 106 neu drwy amodau cynllunio er mwyn annog traffig i ddefnyddio llwybrau penodol trwy gynllunio mynedfeydd yn ofalus a thrwy ddefnyddio arwyddion priodol. Dylid annog gostyngiad yn lefel y traffig ar y ffyrdd er mwyn gwarchod amwynder a'r amgylchedd trwy leihau aflonyddwch a thagfeydd, yn enwedig mewn ardaloedd preswyl.

### Adfer ac Ôl-ofal

5.14.50 Oni bai bod cynlluniau newydd i gloddio am fwynau yn darparu ar gyfer gwaith adfer boddhaol ac addas, dylid gwrthod caniatâd cynllunio. Dylai gosod amodau cynllunio fod yn fodd i sicrhau bod tir yr effeithir arno gan gloddio am fwynau yn cael ei adfer cyn gynted ag y bo modd i safon uchel sy'n addas i'r defnydd y cytunwyd arno ar ei gyfer ar ôl i'r gwaith cloddio ddod i ben[94] Dylai'r gwaith adfer ddechrau o fewn chwe mis i ddiwedd y gwaith cloddio pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol ac eithrio pan fo gwaith adfer graddol wedi dechrau yn barod. Dylai gwaith adfer ac ôl-ofal fod yn fodd i o leiaf gynnal ansawdd y tir a'r tirweddau yn yr hirdymor, ac yn ddelfrydol, bydd y gwaith

[94] Restoration & Revegetation of Colliery Spoil Tips & Lagoons (DoE – Richards Morehead and Laing), 1996.

hwnnw'n gwella ansawdd hirdymor y tir a'r tirweddau a gymerwyd er mwyn cloddio mwynau. Dylai'r cyfnod ôl-ofal pum mlynedd statudol gael ei ymestyn fel sy'n briodol at y defnydd terfynol bwriedig. Fel arfer, bydd defnyddiau terfynol megis cadwraeth natur angen o leiaf 15 mlynedd ac efallai y bydd angen symiau gohiriedig i dalu costau cynhaliaeth tymor hir. Bydd hynny o fudd i gymunedau lleol ac yn sicrhau bod ased naturiol gwerthfawr yn cael ei warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

5.14.51 Gall gwaith adfer gynnig cyfleoedd[95] i greu neu wella safleoedd at ddibenion cadwraeth natur ac er mwyn cyfrannu at dargedau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU neu eu cyfatebol a'r rheini a fabwysiadwyd mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth lleol ymmhob rhan o Gymru. Gall gwaith adfer ddarparu cyfleoedd hefyd i warchod asedau hanesyddol a'u lleoliadau. Dylid ystyried y gallu i fanteisio ar y cyfleoedd hyn ar lefel strategol drwy asesiadau seilwaith gwyrdd. Gallai hynny hefyd arwain at fuddiannau fel gwarchod cnycau daearegol a mynediad i'r cyhoedd.

5.14.52 O ystyried yr oes hir sydd i lawer o safleoedd gwaith mwynau, mae'n hanfodol sicrhau cyn gynted ag y bo modd, a phryd bynnag y bo hynny'n ymarferol ac yn briodol, bod gwaith adfer yn cael ei wneud yn raddol[96] . Mae defnydd cynyddol o waith adfer graddol o'r fath yn lleihau effaith weledol gweithgareddau mwynau ar unrhyw adeg arbennig ac yn sicrhau bod gwaith adfer yn parhau trwy gydol y gweithgareddau cloddio, gan leihau'r posibilrwydd o ddifrod amgylcheddol oherwydd na chafodd y safle ei adfer.

### Ôl-ddefnydd

5.14.53 Gall ôl-ddefnydd gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth/coetir, cadwraeth natur, treftadaeth, mannau agored cyhoeddus, hamdden neu ddatblygiadau eraill. Mae'n debyg y bydd angen caniatâd cynllunio ar wahân ar gyfer unrhyw ôl-ddefnydd ac eithrio amaethyddiaeth, coedwigaeth, cadwraeth natur neu hamdden anffurfiol sydd, fel arfer, yn ddatblygiad a ganiateir.

5.14.54 Dylai'r egwyddorion arweiniol sy'n pennu'r ôl-ddefnydd posibl a wneir o safle fod yn rhan o'r cais i gloddio am fwynau neu o'r adolygiad o'r caniatâd cynllunio mwynau, er y gall yr angen i fod yn hyblyg ac i adolygu'r sefyllfa godi'n aml yn ystod oes y gwaith mwynau. Gan ddefnyddio'r egwyddorion arweiniol yn fframwaith, a hyd yn oed ar gyfer safleoedd mwynau sy'n cael eu gweithio yn yr hirdymor, mae'n rhaid cytuno, yn ystod cyfnod cyflwyno'r cais, ar y safon isaf o waith adfer a fydd yn dderbyniol. I fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd a geir trwy waith adfer, mae'n hanfodol ymgynghori â'r awdurdod cynllunio mwynau cyn cyflwyno'r cais i gloddio am fwynau er mwyn penderfynu ar yr egwyddorion arweiniol mwyaf priodol ac felly, ar yr ôl-ddefnydd mwyaf addas o'r tir ar ôl iddo gael ei adfer.

5.14.55 Lle bo hynny'n briodol, dylai cynlluniau datblygu, ar sail asesiadau o'r seilwaith gwyrdd, gan gynnwys cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol a strategaethau cefn gwlad, roi arweiniad ar ôl-ddefnydd dymunol a safonau adfer. Bydd y math o ôl-ddefnydd a ddewisir yn dibynnu ar lawer o ystyriaethau, gan gynnwys strategaeth gyffredinol y cynllun datblygu, yn ogystal â'r lleoliad, y tirffurf terfynol, argaeledd ac ansawdd pridd neu ddeunyddiau adfer eraill a'r defnydd a wneir o dir cyfagos.

[95] Reclamation of Damaged Land for Nature Conservation (DoE – Land Use Consultants & Wardell Armstrong), 1996.
[96] Landform Replication as a Technique for Reclamation of Limestone Quarries (DoE – Limestone Research Group), 1992.

### Gwarantau Ariannol

5.14.56 Dylai amodau cynllunio fedru sicrhau bod safleoedd mwynau yn cael eu hadfer, a bod cynlluniau ôl-ofal ac ôl-ddefnydd ar eu cyfer[97] [98]. Dylai gweithredwyr a thirfeddianwyr sicrhau bod cyllid digonol yn cael ei roi o'r neilltu i'w galluogi i fodloni rhwymedigaethau o ran adfer ac ôl-ofal. Nid oes yn rhaid adneuo holl gost y gwaith adfer yn y dechrau un, ond dylid ychwanegu at y symiau a neilltuir fel eu bod yn cyd-fynd â'r rhaglen waith neu'r gwaith cloddio. Os bydd safle'n cael ei weithio dros gyfnod hir, gall y perchennog newid a dylid annog rhoi gwarant ariannol i sicrhau bod digon o arian i gwblhau'r gwaith adfer a'r gwaith ôl-ofal. Ar safleoedd glo, y nod yw sicrhau bod y costau adfer llawn yn cael eu talu yn unol â'r cyfnod datblygu fel yr amlinellir yn nodyn cyfarwyddyd Arfer Gorau yr Awdurdod Glo. Yn achos safleoedd mwy, waeth pa fwyn a gloddir, dylid gwneud gwaith adfer graddol gan ddefnyddio'r ffrwd gyllido sydd ei hangen ar wahanol gyfnodau yn ystod y gwaith. Dewis arall rhesymol i weithredwyr y safleoedd yw cymryd rhan mewn cynlluniau cydariannu neu gynlluniau gwarantu sy'n eu diogelu rhag methiant ariannol posib.

5.14.57 Nid yw gadael safleoedd heb eu hadfer am gyfnod hir, neu oedi cyn gwneud gwaith adfer priodol, yn dderbyniol. Er mwyn tawelu pryderon cymunedau lleol ynglŷn â chwblhau cynigion i adfer y safle, a chan gydymffurfio â'r egwyddor mai'r llygrwr ddylai dalu, pryd bynnag y bo hynny'n rhesymol, caiff awdurdodau ofyn am warantau ariannol fel modd o sicrhau bod safleoedd yn cael eu hadfer yn briodol ac o fewn amser rhesymol. Er mwyn sicrhau bod y gwaith adfer llawn yn cael ei wneud, caiff awdurdod ofyn, yn ystod y broses o roi caniatâd cynllunio, am warantau ariannol trwy rwymedigaeth/cytundeb cynllunio Adran 106. Mae gan rai awdurdodau ddeddfwriaeth leol i'w galluogi i gynnwys y ddarpariaeth hon fel amod sy'n gysylltiedig â'r caniatâd cynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio mwynau ystyried yr angen i osgoi gosod costau sy'n fwy na'r hyn sydd ei angen neu am gyfnodau hirach nag sydd eu hangen mewn gwirionedd er mwyn cyrraedd y safonau gorau.

[97] Bydd bondiau ariannol yn ofynnol ac yn cael eu gorfodi ar gyfer safleoedd glo un ai drwy Ddeddfau lleol neu amodau/cytundebau lleol.
[98] Effectiveness of Restoration Conditions for Mineral Workings and the need for Bonds (DoE – Arup Economics), 1993.

# 6 Lleoedd Unigryw a Naturiol

## Creu Lleoedd Unigryw a Naturiol a Llesiant

Mae'r thema Unigryw a Naturiol yn cwmpasu elfennau amgylcheddol a diwylliannol creu lle. Mae'r elfennau hynny'n ategu elfennau'r themâu Actif a Chymdeithasol a Chynhyrchiol a Mentrus a chyda'i gilydd, mae'r tair thema'n cyfrannu at ganlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae'r canlyniadau hyn yn gweithio gyda'i gilydd fel cyfanwaith, gan roi pwyslais ar y Canlyniadau Unigryw a Naturiol.

Mae lleoedd Unigryw a Naturiol yn cyfrannu at saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y ffyrdd canlynol.

Gellir gwireddu nod Cymru Lewyrchus drwy werthfawrogi ansawdd ein tirweddau a'n hamgylchedd hanesyddol am eu pwysigrwydd o safbwynt twristiaeth, busnesau, swyddi lleol, cynnyrch adeiladu o ffynonellau lleol, o ran denu mewnfuddsoddiad ac er mwyn i gymunedau lleol allu mynd iddynt, eu defnyddio a'u mwynhau. Drwy ddiogelu, cynnal a gwella bioamrywiaeth, gwneud ecosystemau ynghyd â'n hamgylchedd naturiol yn fwy cyffredinol yn fwy cydnerth, bydd hi'n bosibl diogelu asedau economaidd at y dyfodol mewn ymateb i heriau yr argyfwng hinsawdd a hyrwyddo dewis adnoddau carbon isel a phriodol sy'n mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd a darparu gwasanaethau ecosystemau costeffeithiol fel aer a dŵr glân.





Mae'r nod **Cymru Gydnerth** yn cael ei gefnogi drwy ddiogelu a darparu tirweddau a chynefinoedd digonol o ran graddfa, maint ac amrywiaeth, ynghyd â'r cysylltedd rhyngddynt, i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Gyda'r gefnogaeth hon, gallant wrthsefyll pwysau newid, mynd i'r afael â llygredd, diogelu adnoddau ac ansawdd dŵr, diogelu pridd a lleihau llifogydd, creu dalfeydd carbon (yn enwedig mewn ardaloedd trefol), a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd yn seiliedig ar werthfawrogi a galluogi mynediad i'r amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig.

Gellir cyflawni'r nod **Cymru Iachach** drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer cysylltu â'r amgylchedd naturiol a hanesyddol, caniatáu mynediad at fannau tawel, mynd i'r afael â llygredd aer a risgiau amgylcheddol eraill a hyrwyddo teithio llesol ac annog ffyrdd iachach o fyw gyda'r fantais o wella llesiant corfforol a meddyliol.

Gellir cyflawni'r nod **Cymru sy'n fwy Cyfartal** drwy hwyluso mynediad i'r amgylchedd naturiol a hanesyddol ar gyfer manteision corfforol a chymdeithasol, yn enwedig lle ceir anghydraddoldebau. Dylai gwaith adfywio hyrwyddo defnydd buddiol o'n gwaddol hanesyddol o fwyngloddio a diwydiant mewn ffordd sensitif i alluogi cymunedau a'r amgylchedd naturiol ffynnu a diogelu symbylwyr twristiaeth arwyddocaol fel Llwybr Arfordir Cymru a sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb.

Mae'r nod **Cymunedau Cydlynus** yn cael ei gynnal a'i greu drwy ddarparu lleoedd i bobl ryngweithio a chyflawni gweithgareddau cymunedol, yn cynnwys mannau hamdden, chwarae, tyfu bwyd a chyfleoedd i gysylltu â natur. Mae llygredd neu risgiau fel llifogydd yn cael eu lliniaru neu eu hosgoi ac yn seiliedig ar sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i gymunedau ffynnu a chynnal gweithgareddau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol mewn amgylchedd iach, deniadol a dymunol.

Bydd **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu** yn golygu adeiladu ar y nodweddion unigryw ac arbennig sy'n rhoi 'ymdeimlad' a hunaniaeth unigryw i leoedd. Meithrin a chynnal ymdeimlad o le drwy amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig a darparu ar gyfer a chefnogi defnyddiau a gweithgareddau sy'n darparu ar gyfer profiadau creadigol a diwylliannol.

Bydd **Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang** yn cael ei hyrwyddo drwy leihau allyriadau carbon, mynd i'r afael â llygredd aer a rheoli risgiau amgylcheddol. Mae'n rhaid cyflawni hyn mewn ffordd sy'n hyrwyddo amgylchedd naturiol a hanesyddol a ddylai gael ei amddiffyn a'i wella er mwyn ei nodweddion arbennig a'i werth cadwraeth natur yn ogystal â'r ffordd mae'n cyfrannu at amcanion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ehangach, mannau cynnal cerddoriaeth, theatrau ac adeiladau crefyddol ac ysbrydol â'u gwreiddiau yn y gymuned.

Dylid ffurfio strategaethau, polisïau a chynigion datblygu cynlluniau datblygu er mwyn ceisio diogelu a gwella nodweddion arbennig a phriodoleddau cynhenid lleoedd yn y **tymor hir**, boed yn amgylcheddau naturiol, hanesyddol neu adeiledig, gan sicrhau eu hirhoedledd yn wyneb newid. Mae hyn yn golygu amddiffyn a gwella tirweddau, cynefinoedd, bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a'r amgylchedd hanesyddol er eu lles eu hunain yn ogystal ag elfennau eraill o'r byd naturiol, fel adnoddau dŵr neu ansawdd aer. Dylid atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Dylid gwyrdroi colledion bioamrywiaeth, lleihau llygredd, mynd i'r afael â risgiau amgylcheddol a gwella cydnerthedd ecosystemau'n gyffredinol. Pan gynigir datblygiad priodol, mae'n rhaid ei ddatblygu mewn ffordd **integredig**, ei wau i'w le/cyd-destun ochr yn ochr â natur i sicrhau bod materion cyffredin yn cael eu hystyried a'u datrys yn nechrau'r broses o lunio cynllun neu gynnig unigol a bod manteision lluosog fel seilwaith gwyrdd, yn cael eu sicrhau. Dylai cynigon weithio'n greadigol â natur a dylent ddangos sut mae penderfyniadau ynghylch dylunio, lleoli, graddfa dwysedd ac ystyriaethau allweddol yn seiliedig ar ystyriaethau ynghylch bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

Rhaid i **gydweithio** ddigwydd yn strategol wrth gynllunio er mwyn diogelu a gwella tirweddau, yr amgylchedd hanesyddol, bioamrywiaeth, geoamrywiaeth, ansawdd aer a seinweddau yn ogystal â mynd i'r afael â risgiau amgylcheddol i sicrhau bod blaenoriaethau'n gyson a bod

modd darparu cyfleoedd, fel adfywio a darparu cartrefi, yn gynaliadwy. Bydd rhai materion yn gofyn am gydweithio ar draws ffiniau, a chydweithio ar gynlluniau datblygu a mentrau eraill fydd y ffordd orau o fynd i'r afael â nhw. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen sicrhau **cyfranogiad** da gan wahanol asiantaethau a chymunedau i sicrhau y gellir alinio anghenion a dyheadau, targedu buddsoddiad yn y mannau cywir a chyflawni canlyniadau buddiol drwy ddefnyddio gwybodaeth, tystiolaeth ac asesiadau a rennir yn well. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r Datganiadau Ardal yn darparu tystiolaeth ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â rheoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol a dylai dull dadrisgio hwyluso mwy o dryloywder am risgiau amgylcheddol, atebion priodol a'r potensial ar gyfer manteision cysylltiedig ehangach.

## Tueddiadau Naturiol ac Unigryw

Bydd angen mynd i'r afael â thueddiadau'r dyfodol sy'n berthnasol i thema Unigryw a Naturiol, yn unigol ac mewn ffordd integredig drwy fabwysiadu canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy a'r amcanion ar gyfer lleoedd a nodwyd yn y themâu Cynhyrchiol a Mentrus ac Actif a Chymdeithasol. Bydd rhai tueddiadau'n fuddiol a dylid eu hwyluso drwy'r system gynllunio. Mae'n rhaid herio a gwyrdroi tueddiadau neu gylchoedd negyddol a chwilio am ymddygiad a chanlyniadau mwy cynaliadwy yn eu lle. Mae'n rhaid meithrin newid yn y ffordd mae pawb sy'n rhan o'r broses gynllunio yn ymateb, ar lefel strategol a lleol wrth lunio a chynllunio cynigion unigol.

Mae'r prif faterion yn y thema hon yn cynnwys:

- **Dirywiad hirdymor a chronig bioamrywiaeth a cholli cynefinoedd**: Ceir gwasgfeydd a gofynion sy'n cynnwys newidiadau yn y defnydd o dir a môr, gan gynnwys colli arferion rheoli tir traddodiadol, defnydd uniongyrchol o organeddau, newid yn yr hinsawdd, llygredd a mudiad rhywogaethau estron goresgynnol. Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 yn adrodd am golledion cynefinoedd a phoblogaethau rhywogaethau dros y ganrif ddiwethaf ac yn awgrymu bod y dirywiad yn un cronig, y bydd yn parhau yn sgil digwyddiadau sydd eisoes wedi digwydd a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd a darnio cynefinoedd yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, nid yw ecosystemau Cymru'n ddigon cryf, fel y gwelir gan ddiffyg adferiad rhywogaethau'n bennaf.
- **Addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd**: Mae'r cyfuniad o gynhesu sydd wedi digwydd, ynghyd â chynhesu ychwanegol, fel a ragwelir gan y dystiolaeth ddiweddaraf am newid yn yr hinsawdd, yn golygu bod yna effeithiau sylweddol posibl i Gymru o ran addasu. Mae'r heriau'n cynnwys llifogydd a risgiau newidiadau arfordirol i gymunedau, busnesau a seilwaith; risgiau i iechyd, llesiant a chynhyrchiant yn sgil tymheredd uchel; risg o brinder dŵr yn y cyflenwad dŵr cyhoeddus, amaethyddiaeth, cynhyrchu ynni a diwydiant a risgiau i bridd, bioamrywiaeth a chynefinoedd ar y tir, arfordir, môr a dŵr croyw. Mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio'n sylweddol ar gymeriad tirwedd hefyd, ac ar adeiladau hanesyddol, ansawdd a natur unigryw ardaloedd lleol, yn uniongyrchol wrth i orchudd tir newid, cynefinoedd a rhywogaethau symud ac yn anuniongyrchol drwy ddylanwadu ar benderfyniadau defnydd tir.
- **Cydnabod a mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n dylanwadu ar newid tirwedd**: yn ôl yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, mae'r newid i'r dirwedd genedlaethol hyd at 2015 wedi bod yn fychan yn gyffredinol, ond cafwyd rhai newidiadau sylweddol yn lleol. Y prif gyfraniadau i newid tirwedd y gall y system gynllunio ddylanwadu arnynt yw ehangu aneddiadau, datblygiadau masnachol, diwydiannol, ynni a chwarela, gwelliannau i ffyrdd a datblygiadau hamdden mawr, yn cynnwys unrhyw fesurau lliniaru cysylltiedig.
- **Lefelau llygredd aer a dŵr yn codi**: mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn sôn am y cynnydd mewn llygredd aer gan gynnwys llygryddion sy'n deillio o drefoli, traffig ffyrdd a dwysáu amaethyddiaeth. O fewn yr amgylcheddau dŵr croyw a'r môr, mae'r Adroddiad yn nodi y ceir lefelau uwch o faethynnau a llygryddion cemegol sy'n niweidiol i gydnerthedd ecosystemau a'u gallu i weithio.

- **Colli canolfannau ar gyfer cynnal gweithgareddau diwylliannol neu asedau hanesyddol:** deall heriau colli nodweddion diwylliannol sy'n rhoi i le ei ymdeimlad unigryw, gan gynnwys y rheini sydd o dan bwysau arbennig oherwydd y cynnydd yn y galw am gael byw mewn trefi, a mynd i'r afael â'r heriau hynny.

## Cysylltiadau Unigryw a Naturiol

Wedi'u sbarduno gan ganlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy, mae'n rhaid ystyried pynciau polisi'r thema Lleoedd Unigryw a Naturiol gyda'i gilydd â themâu Cynhyrchiol a Mentrus ac Actif a Chymdeithasol wrth ffurfio strategaethau, polisïau a chynigion cynlluniau datblygu ac wrth gynllunio a datblygu cynigion unigol a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

Bydd nodweddion a phriodoleddau amgylcheddol lleoedd yn amrywio ledled Cymru, gan greu nodweddion gwahanol neu unigryw sy'n gysylltiedig â'u treftadaeth naturiol neu ddiwylliannol arbennig nhw, a dylai'r rhain gael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi ynddynt eu hunain a'u gwarchod a'u gwella. Bydd blaenoriaethau ar gyfer ardaloedd gwledig a threfol yn adlewyrchu sut mae'r nodweddion a'r priodoleddau hyn yn cyfrannu at ba mor ddeniadol ac addas y mae rhywle i fyw ynddo ac at gydnerthedd, gweithrediad, ffyniant economaidd ac, yn y pen draw, iechyd, amwynder a llesiant pobl a lleoedd.

Bydd canlyniadau Unigryw a Naturiol dymunol yn seiliedig ar gynnal a chreu lleoedd lle:

- mae rôl tirweddau, yr amgylchedd hanesyddol, cynefinoedd a bioamrywiaeth, nodweddion amgylcheddau arfordirol, gwledig neu drefol mewn cyfrannu at leoedd Unigryw a Naturiol yn cael ei nodi, ei ddeall, ei werthfawrogi, ei ddiogelu, ei gynnal a'i wella;
- nad yw cynefinoedd a rhywogaethau'n cael eu darnio a'u hynysu ymhellach lle medrir a bod coridorau a cherrig sarn i fywyd gwyllt yn cael eu diogelu a'u gwella gan ffurfio rhwydweithiau ecolegol ehangach;
- mae safleoedd a ddynodwyd am eu pwysigrwydd o ran tirwedd, bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth yn cael eu hystyried yn llawn a'u nodweddion arbennig yn cael eu gwarchod a'u gwella, tra dylid cydnabod bod y gyfres o safleoedd yn ganolog i wella cydnerthedd ecosystemau;
- mae cynigion datblygu yn cael eu llywio'n uniongyrchol gan yr egwyddor o gadw a gwella cynefinoedd a rhywogaethau sydd eisoes yn bodoli. Dyma'r opsiwn mwyaf cost effeithiol a chadarn ar gyfer bioamrywiaeth, o ystyried buddiannau dull ataliol;
- mae cyfleoedd ym mhob ardal i wella cydnerthedd ecosystemau'n cael eu cymryd drwy fynd i'r afael â phroblemau fel adeiladu ar orlifdiroedd, llygredd gwasgaredig, cywasgu a selio pridd, diogelu mawn a gwella dulliau o amddiffyn rhag llifogydd arfordirol mewn ardaloedd trefol a glandiroedd arfordirol;
- mae manteisio ar gyfleoedd i wella iechyd a llesiant, yn arbennig i leihau lefelau llygredd aer cyfartalog, diogelu seinweddau priodol, creu mannau tawel, sicrhau systemau draenio cynaliadwy, sicrhau cynlluniau dŵr sensitif, mynd i'r afael â rheoli carbon mewn pridd a sicrhau mynediad i leoedd anffurfiol ar gyfer hamdden drwy seilwaith gwyrdd a ddarperir er mwyn gwella capasiti i addasu i heriau newid yn yr hinsawdd, fel perygl llifogydd a thymheredd uwch;
- manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu seilwaith gwrdd, yn enwedig lle byddai hynny'n gwneud ecosystemau'n fwy cydnerth; a lle
- mae cefnogi datblygiadau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ardal ac yn mynd i'r afael â risgiau amgylcheddol sy'n cyfyngu ar botensial ac yn effeithio'n andwyol ar gymunedau a'r amgylchedd naturiol ac adeiledig drwy ddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen neu adeiladau presennol a manteisio ar gyfleoedd i 'lanhau' tir a mynd i'r afael â thir diffaith lle mae hyn yn cael ei seilio ar yr amgylchedd hanesyddol a naturiol.

## Cyflwyniad

6.0.1 Mae thema Lleoedd Naturiol ac Unigryw'r pynciau polisi cynllunio'n cwmpasu'r amgylchedd hanesyddol, tirweddau, bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a chynefinoedd, nodweddion arfordirol, ansawdd aer, seinwedd[99], gwasanaethau dŵr, llifogydd a risgiau amgylcheddol eraill (ar yr wyneb ac o dan yr wyneb).

6.0.2 Mae'n rhaid diogelu nodweddion arbennig ac unigryw a phriodoleddau cynhenid yr amgylchedd naturiol ac adeiledig am yr hyn ydynt, am resymau hanesyddol, golygfaol, esthetig a chadwraeth natur. Maent yn rhoi hunaniaeth a chymeriad unigryw i leoedd ac yn darparu profiadau diwylliannol a ffyrdd iach o fyw.

6.0.3 Yn ogystal â'r nodweddion hynny a ystyrir yn arbennig neu'n unigryw, ceir rhinweddau amgylcheddol eraill i le sy'n bresennol ymhob man. Mae elfennau amgylcheddol lleoedd, fel aer glân, mynediad at fannau agored ac ansawdd dŵr, yn gysylltiedig ag ansawdd yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Mae elfennau amgylcheddol lleoedd yn llywio ac yn dylanwadu ar iechyd a llesiant yn ogystal â chyfrannu at gynnal a chreu lleoedd sy'n gallu gwrthsefyll newid ac addasu iddo. Mae'n rhaid i leoedd naturiol ac unigryw gynnal neu gynnwys seilwaith gwyrdd, gan gydnabod y rhan eang y gall ei chwarae fel elfennau allweddol eu ffabrig naturiol neu adeiledig. Bydd gwneud hynny'n gwella iechyd a llesiant cymunedau a'r amgylchedd.

## Adnabod Nodweddion Arbennig Lleoedd

### 6.1 Yr Amgylchedd Hanesyddol

6.1.1 Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys yr holl elfennau ffisegol sydd wedi goroesi o weithgarwch dyn yn y gorffennol ac mae'n dangos sut mae'r cenedlaethau'r gorffennol wedi ffurfio'r byd o'n cwmpas. Mae'n rhan annatod o ddiwylliant Cymru a'i chymeriad, ac mae'n cyfrannu at ein hymdeimlad o le a'n hunaniaeth. Mae'n gwella ein hansawdd bywyd, yn ychwanegu at natur unigryw ardaloedd yn rhanbarthol ac yn lleol ac mae'n ased economaidd a chymdeithasol bwysig.

6.1.2 Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys nodweddion hanesyddol unigol a elwir, gyda'i gilydd, yn asedau hanesyddol. Mae enghreifftiau o'r hyn sy'n gallu cyfrif fel ased hanesyddol yn cynnwys:

- Adeiladau rhestredig;
- Ardaloedd cadwraeth;
- Asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig;
- Parciau a gerddi hanesyddol;
- Trefweddau[100];
- Tirweddau Hanesyddol;
- Safleoedd Treftadaeth y Byd; ac
- Olion archaeolegol (yn cynnwys henebion cofrestredig).

6.1.3 Mae sut mae asedau hanesyddol yn cael eu nodi yn gallu amrywio. Mae'r asedau hanesyddol pwysicaf yn cael eu gwarchod yn statudol neu wedi'u cofnodi mewn cofrestrau ffurfiol sy'n dangos eu bod o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Hwyrach fod llawer o rai eraill heb gael eu nodi'n ffurfiol hyd yma, fel olion archaeolegol wedi'u claddu.

#### Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Hanesyddol a'i Asedau

6.1.4 Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n rhoi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru mewn ffordd gynaliadwy. PCC sy'n rhoi'r fframwaith i'r polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer ystyried yr amgylchedd hanesyddol ac ategir hynny gan arweiniad yn Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd

[99] Diffinnir seinweddau ym mharagraff 6.7.1.
[100] Mae Cadw wedi cyhoeddi nifer o astudiaethau ar gymeriad trefi ledled Cymru sy'n darparu mwy o wybodaeth am y cysyniad o dreflun fel nodwedd trefol hanesyddol pwysig www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/creu-lleoedd/nodweddion-hanesyddol

Hanesyddol[101] a chanllawiau Cadw ynghylch yr arferion gorau wrth ymdrin â'r amgylchedd hanesyddol[102].

6.1.5 Rhaid i'r system gynllunio ystyried amcanion Llywodraeth Cymru i warchod, diogelu, hyrwyddo a gwella'r amgylchedd hanesyddol fel adnodd ar gyfer llesiant cyffredinol cenedlaethau presennol a'r dyfodol. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd cyfyngedig na ellir ei adnewyddu ac yn un sy'n cael ei rannu, ac mae'n rhan hollbwysig ac annatod o hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol Cymru. Mae'n cyfrannu at fywiogrwydd economaidd a diwylliant, balchder dinesig, natur unigryw'r ardal leol ac ansawdd bywyd yng Nghymru. Dim ond drwy warchod a diogelu asedau hanesyddol unigol a'u lleoliad a gofalu amdanynt yn briodol y gellir sicrhau'r amgylchedd hanesyddol fel adnodd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Egwyddorion Cadwraeth sydd wedi'u cyhoeddi gan Cadw yn pwysleisio'r angen i seilio penderfyniadau ar ddealltwriaeth o'r effaith y gallai cynnig ei chael ar arwyddocâd ased hanesyddol.

6.1.6 Mae amcanion penodol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn ceisio:

- gwarchod Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd;
- cadw olion archaeolegol, er eu mwyn eu hunain ac oherwydd y rôl y maent yn ei chwarae o ran addysg, hamdden a'r economi;
- diogelu cymeriad adeiladau hanesyddol a rheoli newid er mwyn sicrhau y caiff eu diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig ei gadw;
- diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, gan helpu ar yr un pryd i sicrhau eu bod yn parhau'n llewyrchus ac yn ffyniannus;
- cadw diddordeb arbennig y safleoedd hynny sydd ar y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol; a
- gwarchod ardaloedd ar y gofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru.

6.1.7 Mae'n bwysig fod y system gynllunio yn ceisio gwarchod, cadw a gwella arwyddocâd asedau hanesyddol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried lleoliad ased hanesyddol a allai ymestyn y tu hwnt i'w chwrtil. Dylai unrhyw newid sy'n effeithio ar ased hanesyddol neu ei leoliad gael ei reoli mewn ffordd sensitif a chynaliadwy.

6.1.8 Cyfrifoldeb pawb sydd â buddiant yn y system gynllunio, gan gynnwys awdurdodau cynllunio, ymgeiswyr, datblygwyr a chymunedau, yw gofalu'n briodol am yr amgylchedd hanesyddol yn eu hardal. Mae'r gwaith o warchod, cadw a gwella asedau hanesyddol yn fwyaf effeithiol pan mae'n cael ei ystyried ar y cam cynharaf o baratoi cynlluniau neu wrth ddylunio cynigion newydd.

6.1.9 Rhaid i unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud drwy'r system gynllunio ystyried yn llawn beth fyddai'r effaith yn ei olygu i'r amgylchedd hanesyddol[103] ac i arwyddocâd a gwerth treftadaeth asedau hanesyddol unigol a'u cyfraniad at gymeriad lle[104].

### Adeiladau Rhestredig

6.1.10 Dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid diogelu neu wella adeilad rhestredig a'i leoliad, a allai ymestyn y tu hwnt i'w gwrtil. Ar gyfer unrhyw gynnig datblygu sy'n effeithio ar adeilad rhestredig neu ei leoliad, y brif ystyriaeth

[101] Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-24-yr-amgylchedd-hanesyddol
[102] Canllaw Cadw ar yr arferion gorau wrth ymdrin â'r amgylchedd hanesyddol www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/creu-lleoedd/deddfwriaeth-a-chanllawiau/polisi-cyngor-a-chyfarwyddyd
[103] Ceir rhagor o wybodaeth am sut i ystyried effeithiau cynigion ar yr amgylchedd hansyddol, gan gynnwys y gofyn am Asesiad a Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yn Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-24-yramgylchedd-hanesyddol a Chanllawiau Cadw ar yr Arferion Gorau www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cy-placemaking/asesiadau-oreffaith-ar-dreftadaeth/asesiadau-or-effaith-ar
[104] Darllenwch Bennod 2 am ragor o wybodaeth am greu lle a chymeriad lle.

berthnasol yw'r gofyniad statudol i roi ystyriaeth arbennig i ddymunoldeb diogelu'r adeilad, ei leoliad neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ganddo.

6.1.11 Ar gyfer adeiladau rhestredig, y nod ddylai fod i ddod o hyd i'r ffordd orau o warchod a gwella eu rhinweddau arbennig, gan sicrhau y gellir parhau i wneud defnydd cynaliadwy ohonynt. Fel arfer, parhau â'r defnydd gwreiddiol neu ei adfer ddylai fod y dewis cyntaf ond ni fydd pob defnydd gwreiddiol yn ymarferol nac yn briodol mwyach. Wrth weithredu rheolaethau cynllunio a rheolaethau adeilad rhestredig, dylid cydnabod yr angen am hyblygrwydd pan fydd yn rhaid ystyried ffyrdd newydd o ddefnyddio adeilad rhestredig er mwyn sicrhau y bydd adeilad yn goroesi neu y bydd ganddo ddyfodol economaidd cadarn[105].

6.1.12 Dylai dymchwel unrhyw adeilad rhestredig gael ei ystyried yn ddigwyddiad eithriadol a rhaid bod cyfiawnhad cryf tu hwnt dros wneud hynny.

6.1.13 Mae'n rhaid i ymgeiswyr am ganiatâd adeilad rhestredig allu cyfiawnhau eu cynigion, dangos pam fod newid neu ddymchwel adeilad rhestredig yn ddymunol neu'n angenrheidiol ac ystyried effaith unrhyw newid ar ei arwyddocâd. Dylid cynnwys hyn mewn datganiad o'r effaith ar dreftadaeth, a fydd yn gymesur ag arwyddocâd yr adeilad a hyd a lled y newid a gynigir.

### Ardaloedd Cadwraeth

6.1.14 Dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth a'i lleoliad. Mae angen rheoli ardaloedd cadwraeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn diogelu neu gwella eu cymeriad a'u golwg a gwireddu eu gwerth treftadaeth yn llawn.

Dylai awdurdodau cynllunio lunio eu meini prawf eu hunain ar gyfer adolygu ardaloedd cadwraeth hen a/neu newydd a'u ffiniau. Gall paratoi arfarniadau a chynlluniau rheoli ar gyfer ardaloedd cadwraeth gynorthwyo awdurdodau cynllunio i arfer eu swyddogaethau rheoli datblygiadau[106].

6.1.15 Mae rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau, gan gynnwys hysbysebion, sy'n amharu ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol. O dan amgylchiadau eithriadol, gellir diystyru'r rhagdybiaeth o blaid gwaith datblygu yr ystyrir ei fod yn ddymunol ar sail buddiant cyhoeddus.

6.1.16 Gall ardal gadwraeth gael ei diogelu neu ei gwella gan ddatblygiad sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal neu nad yw'n amharu arnynt. Gellir ystyried mesurau lliniaru hefyd, a allai olygu bod datblygiad arfaethedig yn cael effaith niwtral neu gadarnhaol mewn ardal gadwraeth.

6.1.17 Mae dynodi ardal gadwraeth yn golygu os dymchwelir adeilad anrhestredig yn llwyr neu'r rhan fwyaf ohono, y bydd rheolaeth ar y gwaith hwnnw, ond nid oes angen caniatâd ardal gadwraeth er mwyn dymchwel adeiladau yn rhannol. Mae'r gweithdrefnau fwy neu lai yr un peth â'r gweithdrefnau ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig. Wrth ystyried cais am ganiatâd ardal gadwraeth, dylid ystyried effeithiau ehangach y gwaith dymchwel ar yr ardal o amgylch yr adeilad ac ar ddiddordeb pensaernïol, archaeolegol neu hanesyddol yr ardal gadwraeth yn gyffredinol. Dylid hefyd ystyried strwythurau newydd. Dylid profi cynigion yn unol ag arfarniadau o ardaloedd cadwraeth, lle maent ar gael.

[105] Am ragor o wybodaeth ynghylch rheoli adeiladau rhestredig, darllenwch ganllaw Cadw ar yr arferion gorau: Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/adeiladau-rhestredig/adeiladau-rhestredig-sydd-mewn-perygl?_gl=1*lub4t5*_ga*MTgzNzYwMjQ3MC4xNjgzNzI5ODY0*_ga_B2BCVKM874*MTcwNjYwOTE5NC4zOS4xLjE3MDY2MDkzOTQuMTAuMC4w#section-rheoli-adeiladau-rhestredig-sydd-mewn-perygl-

[106] Ceir rhagor o wybodaeth am reoli ardaloedd cadwraeth, gan gynnwys arfarniadau o ardaloedd cadwraeth a chynlluniau rheoli yn Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-24-yr-amgylchedd-hanesyddol a chanllaw Cadw ar yr arferion gorau: www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/ardaloedd-cadwraeth/rheoli-ardaloedd-cadwraeth

### Parciau a Gerddi Hanesyddol

6.1.18 Dylai awdurdodau cynllunio werthfawrogi, gwarchod, diogelu a gwella'r budd arbennig a geir mewn parciau a gerddi sydd wedi'u cynnwys ar y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru. Dylai'r gofrestr gael ei hystyried ym mhenderfyniadau awdurdodau cynllunio. Dylid defnyddio Asesiadau Seilwaith Gwyrdd i ystyried rôl parciau a gerddi hanesyddol a dylid cynnwys canfyddiadau asesiadau cymeriad tirwedd eraill mewn asesiadau hanesyddol a diwylliannol i sicrhau bod gwybodaeth yn gyson.

6.1.19 Dylai effaith datblygiad arfaethedig ar barc neu ardd gofrestredig sydd wedi'i chynnwys ar y gofrestr, neu leoliad y parc/gardd, fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio[107].

### Tirweddau Hanesyddol

6.1.20 Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwarchod ardaloedd ar y gofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru[108].

6.1.21 Dylai awdurdodau cynllunio ddiogelu'r asedau hynny sydd ar y gofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru. Fel uchod, dylai tystiolaeth ac asesiadau a gynhelir ac a rennir am resymau ehangach, fel Asesiadau Seilwaith Gwyrdd, gael eu defnyddio i nodi a deall tirweddau hanesyddol yn well a sicrhau bod eu priodoleddau'n cael eu gwarchod a'u gwella. Dylid ystyried y gofrestr wrth ystyried effeithiau datblygiadau sy'n bodloni meini prawf yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol neu os yw wedi cael ei alw i mewn, bod y datblygiad ym marn Gweinidogion Cymru, yn ddigon mawr fel bod ei effeithiau ar y dirwedd hanesyddol yn fwy na lleol. Mae'n bosib y bydd angen asesiad o effaith datblygiad ar dirwedd hanesyddol os cynigir ei gynnal o fewn tirwedd hanesyddol gofrestredig neu ei lleoliad a bod potensial am wrthdaro â pholisi'r cynllun datblygu.

### Safleoedd Treftadaeth y Byd

6.1.22 Mae Safleoedd Treftadaeth y Bydd yn ddynodiadau rhyngwladol sy'n cael eu cydnabod am eu Gwerth Eithriadol i'r Byd gan UNESCO. Mae'r system gynllunio yn cydnabod yr angen i warchod Gwerth Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru i'r Byd. Mae effeithiau datblygiadau arfaethedig ar Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad a, lle bo'n bodoli, clustogfa Safle Treftadaeth y Byd, yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio[109].

### Olion Archaeolegol

6.1.23 Mae'r system gynllunio yn cydnabod yr angen i warchod olion archaeolegol. Mae gwarchod olion archaeolegol a'u lleoliad yn parhau i fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, p'un a yw'r olion hynny'n heneb gofrestredig ai peidio.

6.1.24 Pan fydd datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio ar olion archaeolegol o bwys cenedlaethol a'u lleoliadau, dylai fod rhagdybiaeth o blaid eu gwarchod yn ffisegol yn y fan a'r lle. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y rhoddir caniatâd cynllunio os bydd datblygiad yn cael effaith andwyol ar heneb gofrestredig (neu safle archaeolegol y dangoswyd ei fod o bwys cenedlaethol) neu'n cael effaith niweidiol amlwg ac annerbyniol ar ei leoliad.

6.1.25 Mewn achosion sy'n cynnwys olion archaeolegol llai pwysig, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol bwyso

[107] Ceir rhagor o wybodaeth am sut i ystyried parciau a gerddi hanesyddol wrth benderfynu ar gais cynllunio yn Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-24-yr-amgylchedd-hanesyddol a chanllaw Cadw ar yr arferion gorau: Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru: www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/parciau-a-gerddi-hanesyddol-cofrestredig/rheoli-parciau-a

[108] Ceir rhagor o wybodaeth am y gofrestr o dirweddau hanesyddol a sut i'w defnyddio i benderfynu ar geisiadau cynllunio yn Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-24-yr-amgylchedd-hanesyddol

[109] Ceir rhagor o wybodaeth am Safleoedd Treftadaeth y Byd yn Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-24-yr-amgylchedd-hanesyddol a chanllaw Cadw ar yr arferion gorau: Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/asedau-hanesyddol-eraill/safleoedd-treftadaeth-y-byd/rheoli

a mesur pwysigrwydd cymharol yr olion archaeolegol a'u lleoliadau yn ôl ffactorau eraill, gan gynnwys yr angen am y datblygiad arfaethedig.

6.1.26 Pan fo'n hysbys bod olion archaeolegol yn bodoli neu fod posibilrwydd iddynt oroesi, dylai'r cais gael ei gyflwyno gyda gwybodaeth ddigonol, drwy asesiad wrth ddesg a/neu werthusiad yn y maes, er mwyn cael dealltwriaeth lawn o effaith y cynnig ar arwyddocâd yr olion. Gellir cysoni anghenion archaeoleg a datblygu, a lleihau unrhyw wrthdaro posibl i raddau helaeth, drwy drafod ac asesu'n gynnar.

6.1.27 Os yw'r awdurdod cynllunio yn bwriadu cymeradwyo cais a lle mae olion archaeolegol yn cael eu heffeithio gan gynigion sy'n eu newid neu'n eu dinistrio, rhaid i'r awdurdod cynllunio fod yn fodlon bod y datblygwr wedi sicrhau darpariaeth briodol a boddhaol ar gyfer eu cofnodi ac ymchwilio iddynt, ac yna dadansoddi a chyhoeddi'r canlyniadau a rhoi'r archif sy'n deillio o'r gwaith mewn storfa gymeradwy. Ar brydiau, caiff olion archaeolegol na ddisgwylir eu gweld eu darganfod wrth adeiladu'r datblygiad. Dylid paratoi cynllun archwilio ysgrifenedig i ystyried sut i ymateb i hynny neu gellid ymdrin â'r mater trwy amod goruchwylio priodol. Os ceir hyd i olion sydd o bwys cenedlaethol, mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i restru'r safle a bryd hynny, rhaid wrth ganiatâd heneb gofrestredig cyn cael bwrw ymlaen â'r gwaith.[110]

### Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol

6.1.28 Caiff y cofnodion amgylchedd hanesyddol statudol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol eu rheoli a'u diweddaru gan Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru ar ran Gweinidogion Cymru. Rhaid defnyddio'r cofnodion hyn fel ffynhonnell allweddol o wybodaeth wrth wneud penderfyniadau cynllunio sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol. Dylid gofyn i'r Ymddiriedolaethau am gyngor ar eu defnyddio at ddiben gwneud penderfyniadau[111]

### Polisïau Amgylchedd Hanesyddol Penodol i Ardaloedd Lleol

6.1.29 Dylai cynlluniau datblygu ystyried cynnwys polisïau penodol i'r ardal leol sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol. Rhaid iddynt fod yn unigryw ac ymwneud yn unig â'r elfennau treftadaeth hynny sy'n cael eu gweld fel ystyriaethau pwysig o safbwynt cynllunio lleol. Gall gynnwys polisïau penodol i'r ardal leol yn ymwneud â:

- **Safleoedd Treftadaeth y Byd** – mae'n rhaid i gynlluniau datblygu adlewyrchu'r ffaith bod Safleoedd Treftadaeth y Byd unigol wedi'u harysgrifio gan UNESCO oherwydd eu Gwerth Cyffredinol Eithriadol. Os yw asedau'n dod o dan awdurdodaeth mwy nag un awdurdod, mae angen sicrhau bod polisïau cynllunio cyson yn y cynlluniau datblygu perthnasol. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u lleoliad yw trwy i bob awdurdod perthnasol fabwysiadu a chytuno ar ganllawiau cynllunio atodol cyson.
- **Olion archaeolegol** – gall olion archaeolegol heb eu cofrestru a'u lleoliadau gael eu nodi mewn cynlluniau datblygu fel rhai o bwysigrwydd lleol ac sy'n haeddu cael eu cadw. Ni ddylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau sy'n ymwneud ag ariannu gwaith archaeolegol yn gyfnewid am roi caniatâd cynllunio. Ni ddylid rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n niweidiol yn archaeolegol dim ond oherwydd bod cynnig i gofnodi safleoedd y byddai'n ddymunol (oherwydd lefel eu

[110] Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch ystyried olion archaeolegol trwy'r broses gynllunio, gan gynnwys asesiad desg, gwerthusiad maes ac ystyried olion archaeolegol na rhagwelwyd mohonynt, yn Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-24-yr-amgylchedd-hanesyddol

[111] Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch paratoi a defnyddio cofnodion amgylchedd hanesyddol yng nghanllaw Cadw ar yr arferion gorau: Cofnodion Amgylched Hanesyddol yng Ngymru: Llunio a Defnyddio www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/creu-lleoedd/cofnodion-amgylchedd-hanesyddol

pwysigrwydd) ac yn bosibl eu diogelu yn ffisegol yn y fan a'r lle.

- **Adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth** – gall cynlluniau datblygu gynnwys polisïau sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer diogelu'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys gwarchod neu wella adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth a'u lleoliad. Gallant hefyd gynnwys polisïau sy'n ymwneud ag ailddefnyddio neu ddatblygiad newydd sy'n effeithio ar ardaloedd a/neu adeiladau hanesyddol penodol, a allai fod o gymorth i sicrhau adfywio trefol a gwledig. Ni ddylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau ar gyfer dynodi ardaloedd cadwraeth newydd nac ymestyn ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes. Dylai'r broses o asesu, diffinio'n fanwl neu adolygu ffiniau a llunio cynigion ar gyfer ardaloedd cadwraeth unigol gael ei dilyn ar wahân i'r cynllun datblygu.
- **Asedau hanesyddol o bwys lleol** – Gall awdurdodau cynllunio ddatblygu rhestrau o asedau hanesyddol lleol sydd o ddiddordeb arbennig yn lleol, nad ydynt yn cael eu gwarchod yn statudol, ond sy'n gwneud cyfraniad pwysig at natur unigryw'r ardal leol ac a allai gyfrannu at wybodaeth y cyhoedd. Pan fydd awdurdod cynllunio lleol yn dewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig[112], mae'n rhaid cynnwys polisïau ar gyfer eu gwarchod a'u gwella yn y cynllun datblygu.

### Datblygiad Galluogi

6.1.30 Datblygiad galluogi yw un sy'n gallu cynnig buddiannau sylweddol o ran treftadaeth ond a fyddai, fel arfer, yn groes i amcanion eraill polisi cynllunio cenedlaethol neu leol.

6.1.31 Gall datblygiad galluogi fod yn briodol os yw'r budd cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag achub, gwella neu hyd yn oed waddoli ased hanesyddol bwysig yn drech na'r niwed i fuddiannau perthnasol eraill[113]. Mae'n rhaid iddo bob amser fod yn gymesur â'r budd cyhoeddus a gyniga.

6.1.32 Wrth ystyried datblygiad galluogi, dim ond os bodlonir pob un o'r meini prawf canlynol y dylid rhoi caniatâd cynllunio:

- cafodd effaith y datblygiad ei diffinio'n fanwl yn y cais o'r cychwyn, ac fel arfer drwy roi caniatâd cynllunio llawn, yn hytrach na chaniatâd cynllunio amlinellol;
- mae cyflawni'r amcan treftadaeth yn cael ei gysylltu'n bendant ac mewn ffordd orfodol â'r datblygiad galluogi;
- caiff y lle dan sylw ei atgyweirio yn ôl safon y cytunwyd arni, neu os yw'r arian i wneud hynny'n cael ei ddarparu, mor gynnar â phosibl yn ystod y datblygiad galluogi, yn ddelfrydol o'r cychwyn ac yn sicr cyn cwblhau neu feddiannu'r datblygiad galluogi;
- mae'r awdurdod cynllunio'n monitro'n agos y ffordd y'i gweithredir, gan weithredu'n ddi-oed os oes angen i sicrhau y bodlonir y rhwymedigaethau; a
- nid yw'r datblygiad galluogi'n esgor ar risgiau arwyddocaol, er enghraifft datblygiad preswyl ar orlifdir neu effaith arwyddocaol ar ansawdd yr aer neu ar y seinwedd.

[112] Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch adnabod asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig yn y broses gynllunio yn Nodyn Cyngor Tehnegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-24-yr-amgylchedd-hanesyddol a chhanllaw Cadw ar yr arferion gorau: Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/asedau-hanesyddol-eraill/asedau-hanesyddol-o-ddiddordeb-lleol

[113] Ceir y profion sy'n pennu pryd y gallai datblygiad galluogi fod yn dderbyniol yng nghanllaw Cadw: Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru mewn ffordd Gynaliadwy www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/asedau-hanesyddol-eraill/asedau-hanesyddol-o-ddiddordeb-lleol

## 6.2 Seilwaith Gwyrdd

6.2.1 Seilwaith gwyrdd yw'r rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n britho ac yn cysylltu lleoedd. Gall elfennau cydrannol seilwaith gwyrdd weithredu ar raddfeydd gwahanol ac mae rhai cydrannau, fel coed a choetir, yn aml yn bresennol ym mhob man ac yn gweithredu ar bob lefel. Ar raddfa tirwedd, gall seilwaith gwyrdd gynnwys ecosystemau cyfan fel gwlyptiroedd, dyfrffyrdd, mawndiroedd a chadwyni o fynyddoedd neu gallant fod yn rhwydweithiau cysylltiedig o gynefinoedd mosäig, gan gynnwys glaswelltiroedd. Ar raddfa leol, gallai gynnwys parciau, caeau, pyllau dŵr, mannau gwyrdd naturiol, hawliau tramwy cyhoeddus, rhandiroedd, mynwentydd a gerddi neu gall fod yn nodweddion sy'n cael eu cynllunio neu'n rheoli fel systemau draenio cynaliadwy. Ar raddfeydd llai, gall ymyriadau trefol unigol fel coed stryd, perthi ar ochr ffyrdd a thoeon/waliau gwyrdd i gyd gyfrannu at rwydweithiau seilwaith gwyrdd.

6.2.2 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi cyd-destun ar gyfer cyflwyno seilwaith gwyrdd amlbwrpas. Mae diogelu a darparu seilwaith gwyrdd yn gallu gwneud cyfraniad sylweddol at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yn arbennig at ddiogelu, cynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn nhermau'r amrywiaeth o fewn ecosystemau, y cysylltiadau rhwng ecosystemau a maint a chyflwr yr ecosystemau hyn, fel eu bod yn gallu dygymod â gwasgfeydd, ymadfer ac addasu iddynt yn well. Mae hyn yn golygu bod datblygu seilwaith gwyrdd yn ffordd bwysig i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd Adran 6[114].

6.2.3 Gall seilwaith gwyrdd ddarparu sawl swyddogaeth ar yr un pryd ac felly o ganlyniad mae'n cynnig manteision lluosog, ar gyfer cydnerthedd cymdeithasol, economaidd yn ogystal ag amgylcheddol. Gall cydrannau seilwaith gwyrdd, drwy wella cydnerthedd ecosystemau, arwain at fanteision cadarnhaol i lesiant gan gynnwys rheoli llifogydd, puro dŵr, ansawdd aer gwell, llai o lygredd sŵn a chymedroli'r hinsawdd leol, lliniaru newid hinsawdd a chynhyrchu bwyd. Mae'r manteision hyn yn bwysig mewn amgylcheddau trefol, lle gallant hwyluso'r manteision iechyd a llesiant sy'n gysylltiedig â mannau agored, aer glân a mwy o lonydd, er enghraifft, yn ogystal â chreu ymdeimlad o le a gwell cydlyniant cymdeithasol. Yn ogystal, mae gan seilwaith gwyrdd rôl mewn gwarchod natur unigryw ardal, darparu manteision economaidd a chyfleoedd cymdeithasol a chymunedol.

### Mynd ati'n rhagweithiol i ddarparu Seilwaith Gwyrdd

6.2.4 Mae seilwaith gwyrdd yn chwarae rôl hollbwysig o ran llywio ein lleoedd a'n hymdeimlad o lesiant, ac maent yn hanfodol i ansawdd y lleoedd rydym yn byw, gweithio a chwarae ynddynt. Rhaid i'r system gynllunio gyfrannu cymaint â phosibl at ddiogelu a darparu asedau a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd fel rhan o'r ymdrech i gyflawni amcanion cymdeithasol ac economaidd ehangach y gymdeithas a diwallu anghenion cymunedau lleol. Bydd gweithio mewn ffordd ragweithiol a gofodol, sy'n cysylltu â gweithgarwch ehangach awdurdodau lleol i ddiogelu a darparu seilwaith gwyrdd, yn helpu i roi eglurder ynghylch y cyfraniad y gall y system gynllunio ei wneud. Mae hyn yn golygu ystyried sut mae'n cyd-fynd â chyfundrefnau cynnal a rheoli sydd ar waith nawr ac yn y dyfodol mewn ardaloedd trefol ac yn cyfrannu tuag at weithgareddau rheoli tir ehangach mewn ardaloedd gwledig er mwyn helpu natur i ymadfer, a'i adnoddau naturiol sylfaenol[115]. I wneud hyn, bydd angen

[114] Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
[115] Polisi Cymru'r Dyfodol 9.

cydweithio effeithiol ar draws sectorau a gweithgareddau amrywiol, gan gynnwys ar draws ffiniau gweinyddol. Bydd angen sefydlu trefniadau i hyrwyddo cydweithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle bydd tir cydbwyso a ddarperir oddi ar y safle i fynd i'r afael ag unrhyw fioamrywiaeth a gollir a gwneud gwelliannau yn sicrhau'r budd mwyaf i fioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol cydnerth.

### Asesiadau Seilwaith Gwyrdd

6.2.5 Rhaid i awdurdodau cynllunio, wrth fabwysiadu dull strategol a rhagweithiol o ymdrin â seilwaith gwyrdd, bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, gynhyrchu rhestrau a mapiau cyfredol o seilwaith gwyrdd ac asedau a rhwydweithiau ecolegol sy'n bodoli'n barod. Gall awdurdodau lleol fod wrthi'n cynnal asesiadau o'r fath a/neu'n paratoi gwybodaeth o'r fath i ategu eu strategaethau seilwaith gwyrdd a lle bo hyn yn digwydd, dylai awdurdodau cynllunio gyfrannu at y broses hon a defnyddio'r rhestrau a'r mapiau i gefnogi dull gofodol yn eu cynlluniau datblygu. Mae Asesiadau o Seilwaith Gwyrdd yn darparu tystiolaeth allweddol sy'n helpu i baratoi cynlluniau datblygu ac os nad yw awdurdodau yn cynnal asesiadau'n barod, dylent wneud hynny fel rhan o'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu. Dylai Asesiadau o Seilwaith Gwyrdd o'r fath ddefnyddio setiau data sy'n bodoli eisoes a'r wybodaeth orau sydd ar gael i ddatblygu adnodd tystiolaeth integredig ar ffurf map ar gyfer bioamrywiaeth, cydnerthedd ecosystemau a gwasanaethau ecosystem a ddarperir. Bydd gwneud hynny'n hwyluso dull rhagweithiol ac yn galluogi mwy o gyfraniadau at sicrhau nodau llesiant.

6.2.6 Dylai Asesiadau o Seilwaith Gwyrdd hefyd ddefnyddio'r sail dystiolaeth a ddarperir gan Ddatganiadau Ardal a Mapiau Rhwydweithiau Natur Cyfoeth Naturiol Cymru, Asesiadau Llesiant a data a mapiau seilwaith gwyrdd a gesglir ar lefel leol a rhanbarthol sydd eisoes yn ategu ymagwedd awdurdodau lleol at seilwaith gwyrdd. Dylid ymgorffori'r canlyniadau yn y cynlluniau datblygu er mwyn iddynt gael eu hystyried yn fuan ac mewn ffordd gydgysylltiedig i fwydo dyluniad a datblygiad y cynllun datblygu a'r strategaethau tir ynddo. Dylai'r Asesiad o Seilwaith Gwyrdd a'i ganlyniadau gael eu hystyried hefyd yn gynnar mewn cynigion datblygu, a llywio'r gwaith o gynllunio a gweithredu prosiectau.

6.2.7 Un o brif amcanion yr asesiad yw ystyried sut y gall seilwaith gwyrdd esgor ar fanteision arwyddocaol a bydd hyn yn galw am gydweithio â rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys ar draws ffiniau gweinyddol. Dylai awdurdodau lleol ddatblygu fframwaith amlswyddogaethol, cydlynol a gofodol o seilwaith gwyrdd i wella iechyd a llesiant cyffredinol cymunedau a'r amgylchedd. Dylid defnyddio'r asesiad i ddatblygu dull cadarn o gynnal a gwella bioamrywiaeth, cynyddu cydnerthedd ecolegol a'r manteision lu sy'n deillio o natur, a dylai nodi cyfleoedd strategol allweddol lle byddai diogelu, cadw, adfer, creu a chysylltu nodweddion a swyddogaethau gwyrdd yn sicrhau'r manteision mwyaf sylweddol. Rhaid i ganlyniadau'r asesiad o seilwaith gwyrdd fynd i'r afael â'r canlynol:

- Nodi nodweddion yn y dirwedd, bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a nodweddion hanesyddol a diwylliannol y mae seilwaith gwyrdd yn chwarae rhan ynddynt, sydd eisoes yn cael eu diogelu fel rhan o dirweddau trefol a gwledig amlswyddogaethol;

- Yr argyfwng natur gan nodi a dangos sut y gellir sicrhau mantais net i fioamrywiaeth a gwella priodweddau cydnerthedd ecosystemau, llunio cysylltiadau â gweithgarwch rheoli tir arall, fel cynlluniau adfer natur lleol, a nodi tir y gall fod ei angen er mwyn diogelu, cadw ac adfer natur (a darparu mantais net i fioamrywiaeth). Mae hyn yn cynnwys cydnabod gwerth safleoedd dynodedig ac adnoddau naturiol fel mawndiroedd, fel rhan o rwydweithiau ecolegol cydnerth. Mewn ardaloedd trefol, dylai diogelu a darparu seilwaith gwyrdd gael eu hystyried ochr yn ochr ag anghenion trefniadau cynnal ehangach ac unrhyw rôl y gall datblygiad ei chwarae wrth wneud cyfraniad effeithiol. Gall yr asesiadau helpu i nodi sut y caiff effaith rhywogaethau estron goresgynnol a'r risg o gyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol eu rheoli;
- Lleihau llygredd, i'r graddau sy'n bosibl, trwy nodi atebion sy'n seiliedig ar seilwaith gwyrdd/natur sy'n rhan o neu sy'n ategu gweithgarwch arall ar lefel y dalgylch i leihau llygredd ac adfer cynefinoedd glan afon ac eraill yn well;
- Yr argyfwng hinsawdd drwy sicrhau bod y manteision amlswyddogaethol sy'n deillio o goed a choetiroedd yn cael eu nodi; er enghraifft, drwy gynyddu'r canopi coed mewn ardaloedd trefol fel y gellir cysgodi rhag tymereddau uwch, a thrwy fynnu cynlluniau effeithiol ar gyfer rheoli llifogydd yn naturiol a chynlluniau draenio cynaliadwy. Gall mesurau o'r fath hefyd helpu i gynnal ansawdd aer da a seinweddau priodol;
- Iechyd a llesiant cymunedau drwy sicrhau bod mannau gwyrdd naturiol amrywiol eu maint ar gael o fewn pellter cerdded a beicio rhesymol; a
- Sut y dylai'r system gynllunio sicrhau bod seilwaith gwyrdd yn cael ei weithredu a'i reoli, gan gydnabod ei natur ddynamig, dros y tymor hir.

6.2.8 Dylai'r angen i ecosystemau, cynefinoedd a rhywogaethau ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a gwasgfeydd eraill gael ei ystyried fel rhan o'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd. Yn hyn o beth, rhaid nodi ffyrdd o osgoi neu wyrdroi darnio cynefinoedd, a gwella cysylltedd cynefinoedd lle bo hynny'n briodol, drwy hyrwyddo coridorau bywyd gwyllt, diogelu coridorau glan afon a nodi cyfleoedd i adfer tir, lleihau llygredd, rheoli'r dirwedd, adfer cynefinoedd a chreu a gwella natur. Bydd gwaith datblygu yn chwarae rôl ddeublyg fel rhan o ddull gofodol. Yn gyntaf, rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau bod datblygiad yn osgoi ac yna'n lleihau unrhyw effaith ar fioamrywiaeth ac ecosystemau ac, yn ail, ei fod yn darparu cyfleoedd gwella o fewn ardaloedd y nodwyd eu bod yn bwysig i allu rhywogaethau i ymaddasu/a neu symud i gynefinoedd mwy addas.

6.2.9 Rhaid i awdurdodau cynllunio annog rheolaeth briodol o nodweddion y dirwedd sy'n bwysig i fflora a ffawna gwyllt er mwyn ategu a gwella cydlyniant ecolegol y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, neu Natura 2000[116] fel y cyfeiriwyd ato, yn ogystal â SoDdGAau a safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol eraill. Y nodweddion dan sylw yw'r rheini sydd, diolch i'w strwythur llinellol a pharhaus neu eu swyddogaeth fel 'cerrig sarn' neu 'goridorau bywyd gwyllt', yn hanfodol ar gyfer mudo, gwasgaru neu gyfnewid genetig. Mae diogelu a chreu rhwydweithiau o safleoedd statudol ac anstatudol a nodweddion tirwedd sy'n cysylltu un cynefin â'r llall yn gallu gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth, sicrhau manteision net i fioamrywiaeth a thrwy wneud, gwella ansawdd y lle lleol a'i allu i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd.

[116] Adran 41 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1012/contents/made

6.2.10 Rhaid i Asesiadau o Seilwaith Gwyrdd a'r data a'r mapiau sy'n deillio ohonynt gael eu hadolygu yn rheolaidd i sicrhau bod yr wybodaeth am gynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion ac adnoddau gwyrdd eraill yn gyfoes. Bydd hyn yn sicrhau bod penderfyniadau ar reoli datblygiad yn seiliedig ar wybodaeth ofodol briodol am effeithiau posibl y datblygiad ar fioamrywiaeth a swyddogaethau'r seilwaith gwyrdd ac yn helpu i nodi ble y gellir sicrhau mathau gwahanol o fanteision seilwaith gwyrdd/gwasanaethau ecosystemau. Dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio'r data gorau sydd ar gael i sefydlu a monitro set o ddangosyddion allweddol, ac ymgorffori'r dangosyddion hyn yn eu Hadroddiadau Monitro Blynyddol (AMRs) a, lle y bo'n briodol, yng Nghynllun ac Adroddiad priodol Adran 6. Bydd y dangosyddion hyn yn benodol i'r lle dan sylw a gallant gynnwys gwybodaeth am rywogaethau a chynefinoedd allweddol, cyfleoedd i ddiogelu, cadw, adfer a gwella natur (er mwyn sicrhau mantais net i fioamrywiaeth) a manteision/gwasanaethau ecosystem sy'n cyfrannu at iechyd a llesiant cymunedau. Byddai'r gwaith o fonitro llwyddiant a chyflawni manteision net i fioamrywiaeth a gaiff eu sicrhau drwy amodau a rhwymedigaethau yn bwydo'n ddefnyddiol i'r broses hon, yn ogystal ag unrhyw gynllun rheoli y cytunwyd arno ar gyfer y safle. Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd, dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio'r data hyn i ddangos a fu mantais neu golled net i fioamrywiaeth; a oes cynnydd yn cael ei wneud o ran sicrhau mesurau lliniaru a gwella; a dylent ddefnyddio'r tueddiadau a nodwyd i benderfynu ar flaenoriaethau cynllunio a phenderfynu yn y dyfodol, a hynny er lles nodau Dyletswydd Adran 6.

### Integreiddio Seilwaith Gwyrdd a Datblygu

6.2.11 Dylid gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig drwy gynnwys seilwaith gwyrdd mewn gwaith datblygu drwy ddewis lleoliadau priodol a defnyddio dylunio creadigol. Trwy gynllunio a dylunio gofalus, a gaiff eu llywio gan lefel briodol o waith asesu, gall seilwaith gwyrdd sicrhau bod manteision bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem yn cael eu rhoi ar waith mewn datblygiadau a lleoedd newydd, gan helpu i oresgyn y posibilrwydd o wrthdaro rhwng amcanion, a chyfrannu at amrywiaeth o ganlyniadau iechyd a llesiant.

6.2.12 Dylai datganiad seilwaith gwyrdd gael ei gyflwyno gyda phob cais cynllunio. Bydd y datganiad hwn yn gymesur â maint a natur y datblygiad arfaethedig a bydd yn disgrifio sut mae seilwaith gwyrdd wedi cael ei ymgorffori yn y cynnig. Yn achos mân ddatblygiad, disgrifiad byr fydd y datganiad hwn ac ni ddylai fod yn ofyniad beichus i geisyddion. Bydd y datganiad seilwaith gwyrdd yn ffordd effeithiol o ddangos canlyniadau amlswyddogaethol cadarnhaol sy'n briodol i'r safle dan sylw a rhaid ei ddefnyddio i ddangos sut mae'r dull fesul cam (Paragraff 6.4.15) wedi cael ei ddefnyddio.

6.2.13 Mae sawl ffordd o ymgorffori seilwaith gwyrdd, yn dibynnu ar anghenion safle a'r cyfleoedd a gynigir ganddo, a dylid cyfeirio at yr asesiad o seilwaith gwyrdd, fel y bo'n briodol, er mwyn canfod blaenoriaethau lleol. Mae tirlunio, toeon gwyrdd, ymylon gwyrdd, systemau draenio cynaliadwy a gerddi yn enghreifftiau o fesurau dylunio unigol sy'n gallu esgor ar fanteision cynyddol ehangach, yn enwedig mewn perthynas â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn ogystal â sicrhau rhinweddau amgylcheddol eraill a ddymunir mewn lleoedd. Yn achos datblygiadau mwy, dylai mesurau tirwedd ehangach, fel creu dolydd cyfoethog eu rhywogaethau,

coetiroedd a gwella cysylltiadau rhwng ardaloedd o werth i fioamrywiaeth, gael eu hystyried. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai datganiad seilwaith gwyrdd amlygu unrhyw ddata sylfaenol a ystyriwyd ac unrhyw arolygon ac asesiadau a gynhaliwyd, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: arolygon o gynefinoedd a rhywogaethau, arolygon ac asesiadau coed, datganiadau draenio cynaliadwy, cynlluniau rheoli tirwedd ac ecoleg, asesiadau o fannau agored a'r mannau gwyrdd a chysylltiadau teithio llesol sydd wedi'u darparu.

6.2.14 Dylai cynigion datblygu gael eu llywio gan y blaenoriaethau a nodir mewn asesiadau o seilwaith gwyrdd a chanllawiau cynllunio lleol. Mae safonau Adeiladu â Natur yn arferion da ac yn ysgogiad effeithiol i ddatblygwyr wella ansawdd eu cynlluniau a dangos sut y caiff adnoddau naturiol eu rheoli'n gynaliadwy. Bydd defnyddio'r safonau hyn mewn ffordd sy'n gymesur â natur a maint y datblygiad arfaethedig yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi mewn amgylchiadau lle nad oes asesiad o seilwaith gwyrdd, cynllun na Chanllawiau Cynllunio Atodol neu leol perthnasol. Caiff y safonau eu hategu gan system achredu a lle y bo'n bosibl, dylid ceisio sicrhau achrediad o dan y safonau hyn.

## 6.3 Tirwedd

6.3.1 Tirwedd yw ardal, fel y caiff ei dirnad gan bobl, y mae ei chymeriad yn deillio o weithrediad a rhyngweithiad ffactorau naturiol a/neu ddynol. Llywir polisi tirwedd gan Gonfensiwn Tirweddau Ewrop[117].

6.3.2 Mae tirweddau Cymru yn gyfoethog ac yn amrywiol. Mae llawer o dirweddau Cymru'n eiconig, ac mae chwarter arwynebedd tir y wlad wedi'i ddynodi naill ai'n Barc Cenedlaethol neu'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Gall cymeriad a phriodoleddau arbennig ein lleoedd a'n tirweddau i gyd, yn drefol a gwledig, ddarparu ymdeimlad cryf o le, ysbrydoliaeth a pherthyn, a chyfrannu at hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru.

6.3.3 Mae holl dirweddau Cymru'n cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniad hanfodol at ymdeimlad o le, a dylai awdurdodau lleol warchod a gwella eu nodweddion arbennig, gan dalu sylw dyledus i'r manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol maent yn eu darparu, a'u rôl o ran creu lleoedd sy'n cael eu gwerthfawrogi. Mae ystyried tirwedd wrth ddechrau ffurfio strategaethau a pholisïau mewn cynlluniau datblygu ac wrth gynnig datblygiadau'n hollbwysig i gynnal eu priodoleddau arbennig ac ychwanegu atynt, a sicrhau'r manteision gorau posibl i lesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, yn ogystal â helpu i gyflwyno dull effeithiol ac integredig o reoli adnoddau naturiol yn yr hirdymor. Bydd angen cydweithio ac ymgysylltu ag awdurdodau cynllunio cyfagos, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cadw a'r trydydd sector i fanteisio ar amrywiaeth eang o arbenigedd a thystiolaeth. Mae hyn yn golygu:

- sicrhau bod Cymru'n cyfrannu at gyflawni cyfrifoldebau a rhwymedigaethau rhyngwladol ar gyfer tirweddau;
- sicrhau bod safleoedd dynodedig statudol yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n briodol;
- sicrhau y gwarchodir gwerth pob tirwedd am ei rinweddau arbennig a chymeriad unigryw; a
- sicrhau bod y cyfleoedd mae tirweddau'n eu darparu ar gyfer twristiaeth, hamdden awyr agored, cyflogaeth leol, ynni adnewyddadwy a llesiant ac iechyd corfforol a meddyliol yn cael eu hystyried a manteision llesiant lluosog i bobl a chymunedau'n cael eu sicrhau.

117 www.coe.int/en/web/landscape/home

6.3.4 Pan na ellir osgoi effeithiau andwyol ar gymeriad tirwedd, bydd angen gwrthod caniatâd cynllunio.

### Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

6.3.5 Y dynodiadau tirwedd statudol sy'n berthnasol yng Nghymru yw Parciau Cenedlaethol, ac AHNE. Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau cynllunio i ystyried dibenion Parciau Cenedlaethol ac AHNE. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i bob gweithgaredd sy'n effeithio ar Barciau Cenedlaethol ac AHNE, waeth a yw'r gweithgareddau hynny o fewn lleoliad yr ardaloedd dynodedig neu yng nghyffiniau'r ardaloedd hynny. Dylai'r tirweddau dynodedig fod yn sbardun i ddefnyddio a rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yn eu hardaloedd, a dylai awdurdodau cynllunio ystyried eu rhinweddau arbennig penodol wrth arfer eu swyddogaethau ac unrhyw gynlluniau rheoli perthnasol.

6.3.6 Dylai awdurdodau cynllunio parciau cenedlaethol roi pwys mawr ar ddibenion statudol Parciau Cenedlaethol, sef gwarchod a gwella eu harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau eu priodoleddau[118]. Dylai awdurdodau cynllunio fynd ati hefyd i feithrin llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol eu cymunedau lleol.

6.3.7 Yn yr AHNE, dylai awdurdodau cynllunio roi pwys mawr ar warchod a gwella harddwch naturiol AHNE, a dylent ystyried bywyd gwyllt, treftadaeth ddiwylliannol, a llesiant cymdeithasol ac economaidd yr ardaloedd.

6.3.8 Yr un statws sydd i Barciau Cenedlaethol ac AHNE o ran harddwch eu tirwedd a'u golygfeydd, a rhaid diogelu'r ddau yn llwyr rhag datblygiadau anaddas.

6.3.9 Dylid rhoi pwys mawr ar rinweddau arbennig ardaloedd dynodedig wrth baratoi cynlluniau datblygu ac yn y broses rheoli datblygu. Rhaid asesu cynigion mewn Parciau Cenedlaethol ac AHNE yn ofalus i wneud yn siŵr bod eu heffeithiau ar y nodweddion hynny sydd i fod i gael eu gwarchod gan y dynodiad, yn dderbyniol. Rhaid i gyfraniad datblygiad at reoli'r ardal ddynodedig yn gynaliadwy gael ei ystyried.

6.3.10 Mewn Parciau Cenedlaethol neu AHNE, mae ystyriaethau arbennig yn berthnasol i gynigion datblygu mawr. Ni ddylai datblygiadau mawr ddigwydd mewn Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol. Gallai hyn godi os gwelir, ar ôl archwiliad trwyadl, bod angen cyhoeddus sy'n drech na dim arall, y byddai gwrthod caniatâd yn niweidiol dros ben i'r economi leol a phan nad oes modd lleoli'r datblygiad mewn man arall neu ddiwallu'r angen mewn rhyw fodd arall. Rhaid cyflawni unrhyw waith adeiladu ac adfer yn ôl safonau amgylcheddol uchel.

Gan hynny wrth asesu ceisiadau am ddatblygiadau mawr dylid asesu:

- yr angen am y datblygiad, yn nhermau ystyriaethau cenedlaethol, ac effaith ei ganiatáu neu ei wrthod ar yr economi leol;
- y gost a'r posibilrwydd o ddarparu'r datblygiad y tu allan i'r ardal a ddynodwyd neu ddiwallu'r angen amdano mewn rhyw ffordd arall; ac
- unrhyw effaith andwyol ar yr amgylchedd a'r dirwedd, ac i ba raddau y gellid lleihau a/neu leddfu hynny.

[118] Yn ôl Egwyddor Sandford, os oes gwrthdaro rhwng y dibenion hyn, rhoddir y pwys mwyaf ar warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol.



6.3.11 Bydd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn rhan o'r gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Ardaloedd y Cynllun Datblygu Strategol fydd ardal y Cydbwyllgor Corfforaethol a bydd yn cynnwys unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfan neu ran ohono o fewn ardal y Cydbwyllgor Corfforaethol. Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn aelodau o Gydbwyllgorau Corfforaethol at ddibenion cynllunio datblygiadau strategol. Nid yw aelodaeth o Gydbwyllgor Corfforaethol yn effeithio ar ddibenion statudol Parciau Cenedlaethol.

### Nodweddion Tirweddau Lleol

6.3.12 Dylai awdurdodau cynllunio ddarparu ar gyfer gwarchod tirweddau lleol, a'u gwella lle bo hynny'n briodol. Gallai hyn gynnwys polisïau ar gyfer nodweddion, priodoleddau a rhinweddau'r dirwedd sydd o bwys lleol, a dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA). Dylai awdurdodau cynllunio ddatgan pa nodweddion, priodoleddau neu rinweddau sydd angen eu gwarchod ymhellach, ac egluro sut bydd y polisi neu'r dynodiad yn gwneud hynny. Dylid defnyddio LANDMAP ac unrhyw asesiadau cysylltiedig o gymeriad tirwedd (gan gynnwys y gofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru) wrth baratoi polisïau tirwedd lleol a chanllawiau cynllunio atodol, ac i helpu i nodi neu ddiwygio ATA.

6.3.13 Dynodiadau anstatudol yw ATA sy'n diffinio ardaloedd lleol o bwysigrwydd tirwedd mawr, a allai fod yn unigryw, yn eithriadol neu'n benodol i'r ardal. Dylai awdurdodau cynllunio roi'r dynodiadau hyn ar waith lle mae rheswm da dros gredu na all polisïau cynllunio arferol eu gwarchod yn ddigonol.

6.3.14 Mae nodweddion daearegol yn rhan allweddol o'n hamgylchedd naturiol, ac mae gwarchod geoamrywiaeth yn sail i'r gwaith ehangach o warchod a rheoli ein hadnoddau naturiol, yn cynnwys argaeledd tir, potensial o ran ynni adnewyddadwy, cyflenwad dŵr daear a pherygl llifogydd.

6.3.15 Mae Geoparciau a Biosfferau Byd-eang UNESCO yn ardaloedd o bwys daearegol rhyngwladol, wedi'u rheoli â chysyniad cyfannol o warchod, addysg a datblygu cynaliadwy. Mae Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol (RIGS) yn ddynodiadau anstatudol sy'n cydnabod nodweddion tirwedd daearegol a geomorffolegol o bwys lleol neu ranbarthol. Caiff RIGS eu dewis am eu rhinweddau addysgol, gwyddonol, hanesyddol ac esthetig, a chânt eu dynodi trwy gynlluniau datblygu.

6.3.16 Dylai awdurdodau cynllunio warchod y nodweddion a'r rhinweddau y mae Geoparciau a RIGS wedi'u dynodi o'u herwydd, ac fe'u hanogir i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer ymgorffori nodweddion daearegol wrth ddylunio datblygiad, yn enwedig lle mae tystiolaeth berthnasol yn dod i'r amlwg trwy Asesiadau o'r Seilwaith Gwyrdd.

6.3.17 Caiff rhai Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) eu dynodi hefyd am eu nodweddion daearegol neu geomorffolegol sydd o bwys cenedlaethol, ac mae dyletswydd ar awdurdodau cynllunio i wneud mwy i warchod a gwella'r nodweddion hynny.

### Tir Comin

6.3.18 Mae tir comin yn adnodd y mae terfyn iddo ac ni ddylid ei ddatblygu onid oes raid. Mae'n bwysig o safbwynt amaethyddol ac mae'n cael ei werthfawrogi am ei fuddiannau hamdden ac amgylcheddol, yn enwedig ei rôl bwysig o ran gwarchod cynefinoedd. Ni ddylid rhwystro nac atal mynediad iddo yn ddiangen, i sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n briodol. Dylid ystyried ei rôl a'i werth ehangach drwy Asesiadau o'r Seilwaith Gwyrdd.

6.3.19 Yn ogystal â chaniatâd cynllunio, bydd gwaith penodol sy'n atal neu'n amharu ar fynediad i neu dros dir comin neu sy'n gofyn am osod wyneb newydd angen caniatâd Gweinidogion Cymru. Lle rhoddir caniatâd cynllunio i ddatblygu ar dir comin, dylid cynnwys nodyn cynghori yn datgan efallai fod angen caniatâd Gweinidogion Cymru hefyd o dan ddeddfwriaeth tir comin[119].

### Gwybodaeth am Dirweddau

6.3.20 Mae LANDMAP yn adnodd gwybodaeth, methodoleg, a gwaelodlin monitro pwysig ar gyfer tirweddau Cymru, a gall helpu i lywio gwaith cynllunio ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn ardal. Mae LANDMAP yn disgrifio ac yn gwerthuso agweddau ffisegol, ecolegol, gweledol, diwylliannol a hanesyddol ar dirweddau Cymru, ac yn sail i ddull cenedlaethol cyson â sicrwydd ansawdd o asesu tirweddau. Gall asesiadau LANDMAP helpu i lywio asesiadau seilwaith gwyrdd, canllawiau cynllunio atodol ar dirwedd, penderfyniadau rheoli datblygu, asesu cymeriad tirwedd, ardaloedd o dirwedd arbennig, natur unigryw leol, dylunio, ac astudiaethau o sensitifrwydd tirweddau.

6.3.21 Dylai Awdurdodau Cynllunio ddefnyddio LANDMAP wrth baratoi cynlluniau ac asesiadau tirwedd sydd eu hangen i lywio cynlluniau datblygu, canllawiau cynllunio atododol a'r broses rheoli datblygu. Dylai asesiadau LANDMAP gael eu cyhoeddi.

## 6.4 Bioamrywiaeth a Rhwydweithiau Ecolegol

6.4.1 Mae bioamrywiaeth yn sail i strwythur a gweithrediad ecosystemau. Mae'n golygu'r amrywiaeth o organebau byw boed hynny ar lefel genetig, rhywogaeth, cynefin neu ecosystem. Mae ecosystem yn cynnwys organebau byw, planhigion, anifeiliaid a micro-organebau, ar y cyd â'u hamgylchedd anfyw (aer, dŵr, mwynau a phridd) a'r holl ryngweithio amrywiol a chymhleth sy'n digwydd rhyngddynt.

6.4.2 Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd uwch yn ymwneud â bioamrywiaeth[120] a chydnerthedd ecosystemau[121] (dyletswydd adran 6). Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru a bydd yn helpu i sicrhau'r cyfraniadau mwyaf posibl at gyflawni nodau llesiant. Mae Adran 7 y Ddeddf[122] yn gofyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi a chadw rhestrau o rywogaethau a mathau o gynefinoedd yr ystyrir eu bod o'r 'pwysigrwydd pennaf' at ddiben cynnal a gwella'r fioamrywiaeth honno[123]. Mae'r Cynllun Adfer Natur yn cefnogi'r gofyniad deddfwriaethol hwn i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, mynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd colli bioamrywiaeth drwy ganolbwyntio ar natur wrth wneud penderfyniadau a chynyddu cydnerthedd ecosystemau drwy gymryd camau penodol sy'n canolbwyntio ar y 6 amcan ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau.

[119] Gallai hyn fod yn ofynnol o dan amryw ddeddfwriaethau tir comin, a'r rhai mwyaf cyffredin yw Adran 38 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 neu Adran 16 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006.

[120] Diffinnir **bioamrywiaeth** gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) fel yr amrywiaeth ymysg organebau byw o bob ffynhonnell yn cynnwys, ymhlith eraill, y tir, y môr ac ecosystemau dyfrol eraill a'r cymhlethdodau ecolegol maent yn rhan ohonynt; mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o fewn rhywogaethau, rhwng rhywogaethau ac mewn ecosystemau. Mae amrywiaeth yn nodwedd strwythurol o ecosystemau, ac mae amrywiaeth ymhlith ecosystemau yn elfen o fioamrywiaeth.

[121] **Ecosystemau** Roedd CBD yn diffinio ecosystemau fel cymhlethfa ddeinamig o blanhigion, anifeiliaid a micro-organebau a'u hamgylchedd anfyw yn rhyngweithio fel uned weithredol. Nodwedd allweddol ecosystemau yw eu bod yn systemau sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn gyda nodweddion newydd sy'n deillio o ryngweithio rhwng yr elfennau byw ac anfyw sy'n eu creu.

[122] www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/section/7

[123] Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Adran 7

6.4.3 Mae gan y system gynllunio rôl allweddol o ran helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynyddu cydnerthedd ecosystemau, ar wahanol raddfeydd, drwy sicrhau bod mecanweithiau priodol ar waith i ddiogelu rhag colled a sicrhau gwelliant.[124] O gydnabod bod gwaith datblygu yn angenrheidiol ac y bydd yn effeithio i raddau ar fioamrywiaeth, dylai'r system gynllunio sicrhau bod mantais net gyffredinol i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau a fydd yn arwain at wella llesiant. Dylai mynd i'r afael â chanlyniadau newid yn yr hinsawdd fod yn rhan ganolog o unrhyw fesurau i warchod, cynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Dylid ystyried gwybodaeth a geir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, Datganiadau Ardal, Cynlluniau Natur Lleol, Cynlluniau Gweithredu Adfer Natur Lleol, Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a'r wybodaeth a gedwir gan Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol.
Mae angen i strategaethau, polisïau a chynigion datblygu cynlluniau datblygu ystyried yr angen i:

- helpu i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau;
- sicrhau bod gweithredu yng Nghymru'n cyfrannu at gyflawni cyfrifoldebau a rhwymedigaethau rhyngwladol ar gyfer bioamrywiaeth a chynefinoedd, gan gynnwys y targedau diweddaraf a nodwyd yn Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang y Cenhedloedd Unedig yn 2022;
- sicrhau bod safleoedd a chynefinoedd dynodedig statudol ac anstatudol yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n briodol a bod eu rôl yn ganolog i'r rhwydweithiau ecolegol cydnerth a ddiogelir;
- diogelu rhywogaethau gwarchodedig a rhywogaethau o'r pwysigrwydd pennaf ac asedau bioamrywiaeth sy'n bodoli'n barod rhag effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol neu gronnus sy'n amharu ar eu buddiannau cadwraeth natur ac yn peryglu cydnerthedd rhwydweithiau ecolegol a'r cydrannau sy'n sail iddynt, fel dŵr a phridd, gan gynnwys mawn; a
- cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a rhwydweithiau ecolegol cydnerth trwy wella'u hamrywiaeth, eu cyflwr, eu maint a'u cysylltedd.

6.4.4 Mae'n bwysig bod bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau'n cael eu hystyried yn gynnar wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth gynnig neu ystyried cynigion datblygu. Gan nad yw'r ystyriaethau hyn yn cael eu cyfyngu gan ffiniau gweinyddol na chan weithgarwch sectorau na threfniadau rheoleiddio, mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw'n strategol drwy ymgynghori a chydweithio gydag awdurdodau cynllunio cyfagos a chyrff eraill fel CNC a'r trydydd sector. Mae'n rhaid cymryd pob cam rhesymol i gynnal neu wella bioamrywiaeth a chryfhau cydnerthedd ecosystemau. Dylid cydbwyso'r rhain gydag anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach busnesau a chymunedau lleol.
Pan na ellir osgoi, lleihau na lliniaru/adfer neu fel dewis olaf, gyfnewid effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, bydd angen gwrthod caniatâd cynllunio.

[124] Mae rhwydweithiau ecolegol cydnerth yn hanfodol i adfer natur ac maent yn rhwydweithiau o gynefinoedd mewn cyflwr ecolegol da sy'n cysylltu safleoedd sydd wedi'u gwarchod â'i gilydd ac â lleoedd da eraill am fioamrywiaeth ar draws y dirwedd ehangach, gan sicrhau'r manteision mwyaf i fioamrywiaeth ac i les pobl (Cymru'r Dyfodol, Polisi 9).

### Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (Dyletswydd Adran 6)

6.4.5 Rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu na ddylai unrhyw ddatblygiad beri colled sylweddol o ran cynefinoedd neu boblogaethau rhywogaethau, yn lleol nac yn genedlaethol a rhaid i'r datblygiad weithio ochr yn ochr â natur a bod o fantais net i fioamrywiaeth a gwella cydnerthedd ecosystemau neu alluogi hynny i ddigwydd. Mantais net i fioamrywiaeth yw'r cysyniad y dylai datblygiad adael bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystem mewn cyflwr sylweddol well nag yr oedd cynt, trwy sicrhau manteision tymor hir, mesuradwy a dangosadwy, yn bennaf ar y safle neu wrth ei ymyl. Mae'r dull fesul cam a amlinellir isod yn ffordd o ddangos y camau sydd wedi cael eu cymryd i sicrhau mantais net i fioamrywiaeth. Wrth wneud, rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau hefyd, yn enwedig y priodweddau canlynol neu Fframwaith DECCA fel y'i gelwir[125]:

- amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
- hyd a lled a maint ecosystemau;
- cyflwr ecosystemau yn cynnwys eu strwythur a'u gweithrediad;
- cyflwr y cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau;
- gallu ecosystemau i ymaddasu gan gynnwys eu gallu i ymaddasu i amrywiaeth o wasgfeydd sy'n debygol o godi o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, a'u gallu i wrthsefyll y gwasgfeydd hynny ac ymadfer ar eu hôl.

6.4.6 Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i awdurdodau cynllunio roi sylw i:

- y rhestr o gynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf i Gymru, a gyhoeddwyd o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;
- yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol, a gyhoeddir gan CNC;
- unrhyw Ddatganiad Ardal a gyhoeddir gan CNC ac sy'n cwmpasu'r cyfan neu ran o'r ardal lle mae'r awdurdod yn arfer ei swyddogaethau a Mapiau Rhwydweithiau Natur CNC[126]; a
- arweiniad a roddir i awdurdodau cyhoeddus gan Weinidogion Cymru o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

6.4.7 Dylai awdurdodau cynllunio gyfeirio hefyd at wybodaeth arolygon ecolegol diweddar (lle y bo'n briodol) ac ystyried gwybodaeth ecolegol leol a gyflwynir gan sefydliadau amgylcheddol cydnabyddedig.

6.4.8 Dylai pawb sy'n rhan o'r broses gynllunio (gan gynnwys y trydydd sector a chymunedau) fynd ati mewn ffordd ragweithiol a chreadigol i hwyluso'r gwaith o gyflawni canlyniadau bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau gan fod ymyriadau ar raddfa fach yn cyfrannu at gydnerthedd cenedlaethol. Yn arbennig, rhaid i awdurdodau cynllunio ddangos eu bod wedi ceisio cyflawni dyletswyddau a gofynion Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) drwy gymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau[127]. Bydd hynny'n gofyn am weithredu ar lefel cynllun ac, yn ddelfrydol, weithredu cydgysylltiedig ar draws rhanbarthau ac is-ranbarthau. Dylai gweithredu o'r fath hwyluso dyletswydd Adran 6 ar lefel y cynigion datblygu unigol trwy osod fframwaith

[125] www.cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/696279/ecosystem-resilience-in-a-nutshell-1-what-is-ecosystem-resilience.pdf
[126] www.mapdata.llyw.cymru/layergroups/geonode:nrw_habitat_network
www.mapdata.llyw.cymru/layergroups/geonode:nrw_priority_ecological_networks
[127] Ceir rhagor o wybodaeth am Adran 6 yn: www.llyw.cymru

bras o gyfleoedd i sicrhau mantais net i fioamrywiaeth. Bydd y dull fesul cam yn helpu'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i sicrhau mantais net i fioamrywiaeth ac mae gofyn i ddatblygwyr ddatblygu cynigion mewn ffordd a fydd yn sicrhau mantais net i fioamrywiaeth gan ddangos sut y maent wedi defnyddio'r dull fesul cam.

### Trefniadau cydweithio

6.4.9 Efallai na fydd yn bosibl i awdurdodau cynllunio nodi cyfleoedd i sicrhau mantais net i fioamrywiaeth o fewn eu ffiniau gweinyddol eu hunain a gall fod angen iddynt gydweithio er mwyn nodi, sicrhau a monitro manteision net i fioamrywiaeth ar draws ardaloedd mwy, gan ddefnyddio mecanweithiau rhanbarthol sy'n bodoli'n barod neu sefydlu trefniadau gwirfoddol newydd. Bydd cydweithio ar y sail hon yn golygu ystyried ffyrdd o nodi a neilltuo tir er mwyn sicrhau manteision net i fioamrywiaeth a sefydlu ffynonellau o gyllid posibl ar gyfer prosiectau adfer natur. Fel rhan o ddull cydgysylltiedig, gall fod yn bosibl hefyd creu sefyllfa lle caiff manteision net i fioamrywiaeth eu sicrhau cyn i ddatblygiadau ar raddfa lai gael eu cyflawni. Byddai angen i fanteision net i fioamrywiaeth gael eu monitro er mwyn sicrhau na chânt eu colli i ddatblygiadau yn y dyfodol ac nad yw cynigion datblygu yn effeithio ar feysydd presennol o fanteision net i fioamrywiaeth a rhai y cytunwyd arnynt yn flaenorol[128].

6.4.10 Mae'r fframwaith eang ar gyfer gweithredu dyletswydd Adran 6, sicrhau manteision net i fioamrywiaeth a meithrin cydnerthedd drwy'r system gynllunio yn cynnwys mynd i'r afael â'r holl nodweddion canlynol:

## Gweithredu Dyletswydd Adran 6: Fframwaith DECCA

**Amrywiaeth:** amrywiaeth ar lefel fiolegol, gan gynnwys ar y lefel genynnau, rhywogaeth, cynefin, ecosystem neu forlun/tirlun, yn ogystal â'r lefel ddaearegol a ffisegol, yw sail bioamrywiaeth, ecosystemau cydnerth, eu gweithrediad a'r gwasanaethau ecosystem pwysig y maent yn eu darparu. Mae ecosystemau mwy amrywiol yn gallu gwrthsefyll dylanwadau allanol yn well (mae hyn yn cynnwys amrywiaeth fiolegol, daearegol a ffisegol y safle). Mae hyn yn golygu y dylai cynlluniau strategol a chynigion datblygu unigol osgoi effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, drwy ystyried sut y gall asedau bioamrywiaeth gael eu cynnal a'u gwella.

**Hyd a lled:** sicrhau bod mecanweithiau'n caniatáu ar gyfer clustnodi cynefin posib, cynnal asedau bioamrywiaeth a rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes a hyrwyddo'r gwaith o adfer cynefinoedd sydd wedi'u difrodi neu eu haddasu neu gynefinoedd posib a chreu cynefinoedd newydd, gan fod ecosystemau bach eu maint yn llai cydnerth i ddylanwadau allanol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gynlluniau strategol a chynigion datblygu unigol osgoi unrhyw golled o ran bioamrywiaeth a chynnwys mesurau priodol i gynnal a chynyddu cynefinoedd sy'n bodoli eisoes, yn enwedig cynefinoedd sy'n fach neu sy'n dirywio, drwy adfer cynefinoedd a chreu nodweddion a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd gydag ardaloedd cyffiniol a chyfagos;

[128] Lle i'r grŵp gorchwyl a gorffen ystyried opsiynau posibl.

**Cyflwr:** mae angen i asedau bioamrywiaeth ac ecosystemau fod mewn cyflwr iach i weithio'n effeithiol, darparu ystod o wasanaethau ecosystemau pwysig a bod yn fwy cydnerth i ddylanwadau allanol. Gall amrywiaeth o wasgfeydd gan gynnwys defnydd tir a newid hinsawdd, llygredd, rhywogaethau estron goresgynnol a gorddefnydd fel a ddisgrifir yn SoNaRR, gael effaith andwyol ar iechyd ecosystemau.

Er mwyn sicrhau cyflwr da, rhaid cael prosesau naturiol gweithredol ar raddfa ddigonol neu drefniadau rheoli priodol i ddarparu cymhlethdod strwythurol a chynnal mosäig amrywiol o gynefinoedd. Ni ddylai penderfyniadau cynllunio strategol na chynigion datblygu unigol beryglu cyflwr ecosystemau.

Trwy ddatblygu tirwedd mewn dull integredig, er enghraifft, dull sy'n ystyried effeithiau a manteision uniongyrchol, anuniongyrchol a chronnol ac sy'n ceisio lleihau gwasgfeydd, dylai fod modd gwneud cyfraniad cadarnhaol. Mae cynllunio yn y tymor hir ar gyfer rheoli cynefinoedd a gedwir yn allweddol i ddiogelu'u cyflwr trwy er enghraifft, defnyddio rhwymedigaethau cynllunio;

**Cysylltedd:** manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu cysylltedd swyddogaethol a ffisegol rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth o fewn a rhwng ecosystemau ac ar draws tirweddau, gan adeiladu ar gysylltedd ac ansawdd sy'n bodoli eisoes ac annog creu, adfer a rheoli cynefinoedd yn briodol, gan gynnwys y cysylltiadau o fewn a rhwng cynefinoedd, i ganiatáu i rywogaethau loffa am fwyd, bridio a mudo ac ymateb i'r newid yn yr hinsawdd a gwasgfeydd eraill, yn ogystal â chaniatáu llif prosesau naturiol (fodd bynnag, dylid cymryd mesurau i atal llifoedd annymunol fel rhywogaethau estron goresgynnol a maethynnau).

Gallai'r cyfleoedd i'w cymryd ar lefel strategol gynnwys ehangu arwynebedd cynefinoedd, datblygu clustogfeydd o amgylch safleoedd dynodedig neu asedau neu goridorau bioamrywiaeth eraill, gan gynnwys coridorau afonydd a thrafnidiaeth, cael gwared ar rwystrau a chreu 'cerrig sarn' a fydd yn cryfhau gallu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol i addasu i newid, yn cynnwys newid yn yr hinsawdd.

Dylai cynigion datblygu unigol nodi ac ymgorffori mesurau fydd yn caniatáu i gysylltiadau priodol gael eu gwneud rhwng y safle a'i gyffiniau er mwyn gwella cysylltedd;

**Addasu:** gellir ymaddasu i wasgfeydd, eu gwrthsefyll ac ymadfer ar eu hôl pan fydd priodoleddau cydnerthedd ecosystemau – amrywiaeth, hyd a lled, cyflwr a chysylltedd ecosystemau – mewn cyflwr da.

Nid yw rhywogaethau a chynefinoedd yn sefydlog: wrth gynllunio i adfer natur, dylid ceisio cynnal cynefinoedd a rhywogaethau cysylltiedig wrth i'r ddaearyddiaeth a'r defnydd tir newid o'u cwmpas, gan fanteisio ar brosesau naturiol a chyfleoedd i ganfod atebion sy'n seiliedig ar natur.

Mae hyn yn golygu y dylai cynllunio strategol a chynigion datblygu unigol nodi'r effeithiau ar fioamrywiaeth, un o briodoleddau ecosystem gydnerth, gan ddefnyddio'r gwasgfeydd a nodir yn SoNaRR. Dylent ymgorffori mesurau i wella gallu bioamrywiaeth i ymaddasu i'r gwasgfeydd, i'w gwrthsefyll ac i ymadfer ar eu hôl. Bydd gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth a sicrhau a gwella seilwaith gwyrdd yn ffyrdd allweddol o wneud hyn yn ogystal â gwireddu uchelgeisiau cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Cynnal a Gwella Bioamrywiaeth

6.4.11 Rhaid i awdurdodau cynllunio ddilyn dull fesul cam o gynnal a gwella bioamrywiaeth, meithrin rhwydweithiau ecolegol cydnerth a darparu manteision net i fioamrywiaeth drwy sicrhau bod unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd yn cael eu hosgoi yn y lle cyntaf, yna eu lleihau a'u lliniaru, ac fel ateb olaf, eu digolledu. Rhaid darparu gwelliannau drwy sicrhau manteision i fioamrywiaeth yn bennaf ar y safle neu wrth ei ymyl, sy'n ychwanegol i'r rheini sydd eu hangen i liniaru neu ddigolledu yn sgil effaith negyddol.


6.4.12 Ar ôl gweithio mewn ffordd iteraidd, yn unol â Ffigur 12 isod, drwy gamau'r dull fesul cam isod, a darparu tystiolaeth yn y Datganiad Seilwaith Gwyrdd bod y dull fesul cam wedi cael ei ddilyn, rhaid darparu cynllun o welliannau er mwyn sicrhau mantais net i fioamrywiaeth. Os na chaiff cynnig i wella bioamrywiaeth sy'n gymesur â maint a natur y datblygiad ei gynnig fel rhan o gais, rhoddir pwysoliad arwyddocaol i hynny, ac oni cheir ystyriaethau perthnasol arwyddocaol eraill sy'n awgrymu fel arall, bydd angen gwrthod caniatâd.

Gallai mesurau gwella gynnwys creu cynefinoedd o berthnasedd lleol ar y safle a/neu gallent fod yn rhan o'r datblygiad ei hun drwy ffafrio defnyddio rhywogaethau cynhenid ac atebion bioamrywiol sy'n seiliedig ar natur fel SuDS, toeon gwyrdd, rheoli glaswelltir ar gyfer blodau gwyllt neu refugia ymlusgiaid, ehangu coetir, a chreu gwlyptir.

6.4.13 Bydd gwneud yr ecosystem yn fwy cydnerth, yn enwedig trwy wella cysylltedd â'r ardal gyfagos, yn gyfraniad allweddol at welliannau a strategaethau osgoi, lleihau a lliniaru ar y safle. Dylid dangos cyn belled ag y gall hynny fod yn ymarferol sut y byddai datblygiad yn gwella nodweddion cydnerthedd.

6.4.14 Gall awdurdodau cynllunio sicrhau bod gwelliannau bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni ar bob cam o'r dull fesul cam isod drwy osod amodau cynllunio a/neu rwymedigaethau eraill ar ganiatâd cynllunio Dylai awdurdodau cynllunio ofalu bod unrhyw amodau sydd eu hangen i roi'r polisi hwn ar waith yn berthnasol i gynllunio, a bod y datblygiad yn un a ganiateir, yn orfodadwy, yn fanwl-gywir ac yn rhesymol ym mhob ffordd arall.

## Ffigur 12: Crynodeb o'r Dull Fesul Cam



### 6.4.15 Y Dull Fesul Cam

1a) Y flaenoriaeth gyntaf i awdurdodau cynllunio yw osgoi difrod i fioamrywiaeth yn ei hystyr ehangaf (h.y. yr amrywiaeth o rywogaethau a chynefinoedd a'u nifer) a gallu'r ecosystem i weithio. Os gallai fod yna effeithiau amgylcheddol andwyol, rhaid i awdurdodau cynllunio fod yn fodlon bod ystyriaeth lawn wedi'i rhoi i safleoedd amgen rhesymol (gan gynnwys opsiynau lleoli a dylunio amgen) a fyddai'n achosi llai o ddifrod neu'n esgor ar fanteision.

1b) Fel mater o egwyddor, mae cynigion mewn safleoedd dynodedig yn annerbyniol ac felly dylid eu hepgor o chwiliadau safleoedd a gynhelir gan ddatblygwyr. Mae'r egwyddor hon hefyd yn gymwys i'r safleoedd hynny y ceir rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig ynddynt y byddai eu colli yn golygu eu colli am byth[129] ac sy'n rhaid eu diogelu. Y safleoedd hyn yw calon y rhwydweithiau ecolegol cydnerth a rhaid diogelu, cynnal a gwella eu rôl a'r gwasanaethau ecosystem y maent yn eu darparu, a'u diogelu rhag datblygiad. Byddai'n ddigwyddiad cwbl eithriadol pe gellid cyfiawnhau datblygiad o dan yr amgylchiadau hyn.

2. Pan fydd pob opsiwn o ran lleoliad, safle a dylunio i osgoi difrodi bioamrywiaeth wedi cael ei ystyried, dylai ymgeiswyr trwy drafod ag awdurdodau cynllunio geisio lleihau'r effaith gychwynnol ar fioamrywiaeth ac ecosystemau trwy:

- gynnal cymaint â phosibl o'r cynefin sy'n cynnal bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n gweithio, yn enwedig os oes cynefinoedd a rhywogaethau Adran 7 yn bresennol, trwy leihau maint y datblygiad a'i osod yn briodol ar y safle, gan roi sylw dyledus i'r potensial i gynnal a rheoli'r ardaloedd a gedwir yn barhaus yn y tymor hir er budd bioamrywiaeth;
- sicrhau bod gan gynefinoedd a gedwir gysylltiadau da o hyd â chynefinoedd cyfagos i ddarparu cysylltedd ar gyfer rhywogaethau allweddol a sicrhau bod statws cadwraeth ffafriol poblogaethau rhywogaethau lleol yn cael ei gynnal;
- cadw nodweddion sy'n bodoli eisoes, datblygu cynllun rheoli i ofalu amdanynt yn y dyfodol (e.e. coed, perthi, glaswelltiroedd cyfoethog eu rhywogaethau, rhostiroedd, gwlyptiroedd, pyllau dŵr a chynefinoedd dŵr croyw) a defnyddio clustogfeydd priodol i'w gwarchod rhag effeithiau adeiladu a gweithrediadau; a
- defnyddio atebion creadigol/arloesol profedig (lle bo angen) i leihau difrod a chynnal nodweddion bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n bodoli eisoes ar y cyd â strategaethau unioni a monitro cadarn.

3a) Ar ôl dilyn y mesurau i leihau effeithiau, os gwelir y gallai bioamrywiaeth ac ecosystemau gael eu colli neu eu difrodi o hyd trwy sgil-effeithiau, dylai'r datblygiad a gynigir liniaru'r difrod hwnnw. Rhaid rhoi mesurau lliniaru ar waith i gyfyngu ar effeithiau negyddol datblygiad.

[129] Cynefinoedd, gan gynnwys yr adnoddau naturiol sy'n eu hategu, y byddai'n anodd iawn o safbwynt technegol (neu'n cymryd llawer iawn o amser) eu hadfer, eu hail-greu neu'u hailosod ar ôl iddynt gael eu dinistrio, gan ystyried eu hoed, eu natur unigryw, eu rhywogaethau amrywiol neu'u prinder. Mae enghreifftiau'n cynnwys coetir hynafol a choed aeddfed, perthi hynafol, coetiroedd gwlyb, twyni tywod, mawndir, glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau, priddoedd sydd heb eu troi ers tro, corgorsydd, morfeydd heli a ffeniau iseldir.

3b) Dylai mesurau lliniaru neu adfer effeithiol gael eu cynnwys yn y cynnig dylunio ar ôl ystyried camau un a dau uchod. Rhaid dylunio mesurau lliniaru neu adfer i fynd i'r afael â'r effeithiau negyddol penodol drwy atgyweirio cynefinoedd sydd wedi'u difrodi a rhywogaethau yr amharwyd arnynt. Dylent geisio adfer cynefinoedd a rhywogaethau ar raddfa well na thebyg am debyg, gan ystyried amhariad ac oedi ac, ym mhob achos, dylai mesurau lliniaru neu adfer geisio adeiladu cydnerthedd ecosystemau ar y safle a, lle y bo'n bosibl, yn yr ardal ehangach. O dan rai amgylchiadau, lle nad yw mesurau lliniaru tebyg am debyg yn bosibl, yn enwedig o safbwynt mesurau adfer, gall fod angen ystyried mesurau digolledu ar y safle yn gyntaf. Wrth ddylunio mesurau lliniaru pan fo ansicrwydd, dylai ceisyddion ddilyn yr egwyddor ragofalus a thybio y bydd effaith arwyddocaol. Dim ond fel opsiwn olaf y dylid ystyried mesurau digolledu oddi ar y safle (fel y nodir yng ngham pedwar isod).

4. Ar ôl cymryd yr holl gamau uchod, a lle nad yw newidiadau, safleoedd amgen, amodau neu rwymedigaethau'n ddigonol i sicrhau canlyniadau i fioamrywiaeth ar y safle/gerllaw iddo, ac fel dewis olaf, rhaid digolledu oddi ar y safle i wneud iawn am ddifrod na ellir ei osgoi. Rhaid i'r digollediad hwn fod yn ddigon o faint i wneud iawn am unrhyw golled. Os na fydd modd gweithio ar sail cynllun, rhaid i'r mesurau digolledu ddilyn tystiolaeth ar sail lle a disgwylir i'r ymgeisydd fynd i'r afael â'r canlynol:

a. Dylai'r digolledu oddi ar y safle fod ar ffurf adfer cynefin neu greu cynefin fel rheol, neu ddarparu cytundebau rheoli hirdymor i wella cynefinoedd sy'n bodoli eisoes a sicrhau manteision net i fioamrywiaeth. Dylid cynnal asesiad ecolegol llawn er mwyn cael llinell sylfaen ffurfiol hynny cyn dechrau creu neu adfer cynefin a digon ymlaen llaw cyn colli'r fioamrywiaeth ar y safle.

b. Dylid defnyddio'r Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd i nodi lleoliadau addas ar gyfer sicrhau digollediad oddi ar y safle. Lle bo'n bosibl, dylai dull ar lefel y dirwedd, sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau yn ehangach, helpu i bennu lleoliadau ar gyfer digolledu. Dylai'r Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd ddarparu canllaw gofodol i gyfleoedd a nodwyd eisoes i sicrhau manteision net i fioamrywiaeth. Bydd defnyddio'r asesiad hwn yn helpu i bennu a ddylai lleoliadau ar gyfer digolledu cynefin gael eu lleoli yn agos i'r safle datblygu, neu ai cynefin newydd neu fesurau rheoli ychwanegol wedi'u lleoli ymhellach o'r safle fyddai'r ffordd orau o gynnal bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ar raddfa ehangach.

c. Lle ceir cais i ddigolledu rhywogaethau penodol, dylai'r ffocws fod ar gynnal neu wella poblogaeth y rhywogaeth yn ei gwasgariad naturiol. Gallai'r dull hwn hefyd nodi lleoliadau ar gyfer digolledu rhywogaethau penodol ymhellach o'r safle. Lle maent yn bodoli, dylid defnyddio Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau Gofodol i helpu i ganfod lleoliadau addas.

d. Dylai unrhyw ddigolllediad a gynigir fod yn seiliedig ar le, gan ystyried Dyletswydd Adran 6 (Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau), fframwaith DECCA a chyngor ecolegol priodol gan ecolegydd o'r awdurdod lleol, CNC a/neu ecolegydd â chymwysterau addas.

5. I gyd-fynd â phob cam o'r dull fesul cam, rhaid cael cynllun rheoli hirdymor o fesurau osgoi, lleihau, lliniaru/adfer a digolledu priodol y cytunwyd arnynt, ochr yn ochr â'r mesurau gwella y cytunwyd arnynt. Dylai'r cynllun rheoli nodi'r trefniadau rheoli uniongyrchol a pharhaus ar gyfer y safle, trefniadau i fonitro'r holl fesurau yn y dyfodol a dylai nodi'n glir y mecanweithiau cyllido sydd ar waith i gyflawni amcanion y cynllun rheoli. Rhaid i'r cynllun rheoli nodi sut y caiff manteision net i fioamrywiaeth eu sicrhau cyn gynted â phosibl a dylai fod yn ymatebol ar lefel leol ac yn berthnasol i amgylchiadau lleol.

6. Yn olaf, pan fo'n amlwg bod effaith andwyol ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn bwysicach nag ystyriaethau perthnasol eraill dylid gwrthod y datblygiad.

6.4.16 Bydd y ffactorau canlynol yn effeithio ar y dull 'fesul cam' uchod o reoli:

- Bydd angen i ddatblygwyr gynnal arolygon, gwaith ymchwil a chwiliadau data cyn gwneud cais er mwyn pennu llinell sylfaen o gyflwr bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau'r safle. Ystyrir cyfraniad y safle o ran ei amrywiaeth, ei hyd a'i led, ei gysylltedd, ei gyflwr a'r gwasanaethau ecosystem a ddarperir ganddo, at rwydweithiau ecolegol cydnerth.[130] Yn achos ceisiadau gan ddeiliaid tai, dylai awdurdodau cynllunio amlinellu disgwyliadau ynghylch yr wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu gyda chais, gan gydnabod y dylai'r mesurau gwella fod yn gymesur â maint y cais. Mae'n bwysig iawn deall cyd-destun ecolegol y datblygiad er mwyn hwyluso/gallu cynnig ymateb cymesur i arwyddocâd unrhyw effaith bosibl.
- Ni ddylai darpar ymgeiswyr gynnal unrhyw waith clirio na fu gofyn amdano cyn cyflwyno cais cynllunio gan y gall hynny ei gwneud yn fwy anodd i gynnig datblygu sicrhau mantais net i fioamrywiaeth. Lle bo safle wedi'i glirio cyn ei ddatblygu dylid cymryd bod gwerth ei fioamrywiaeth fel yr oedd cyn i unrhyw ymchwiliadau neu waith clirio gael ei gynnal. Rhaid sicrhau manteision net i fioamrywiaeth o'r pwynt hwnnw ymlaen. Bydd modd barnu statws cynefin y safle trwy edrych ar y dystiolaeth sydd wedi para ar y safle a thrwy gynnal asesiadau desg lleol (rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau eu bod yn gallu cael at y ffynonellau data hyn). Os na cheir tystiolaeth i'r gwrthwyneb, rhagdybir bod y safle mewn cyflwr da.
- Rhaid i bob datblygiad sicrhau manteision net i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ar sail cyflwr llinell sylfaen y safle (yn unol â maint a natur y datblygiad a gynigir). Hyd yn oed os caiff gwerth y fioamrywiaeth ei gynnal, bydd dal yn rhaid wrth broses ragweithiol i geisio a sicrhau gwelliannau, hynny trwy ddyluniad y datblygiad a'r ffordd yr eir ati i'w roi ar waith.

[130] Noder bod yn rhaid cynnal arolygon ar adeg briodol o'r flwyddyn.

6.4.17 Lle bo safle eisoes wedi'i ddyrannu mewn cynllun datblygu sydd wedi'i fabwysiadu, efallai na fydd modd dilyn y dull 'fesul cam' yn ei drefn oherwydd efallai y bydd peth gwaith eisoes wedi'i wneud fel rhan o'r dyraniad hwnnw. Ond pan gaiff cynlluniau eu hadolygu, dylid ystyried y dyraniadau o'r newydd ar sail y polisi 'fesul cam' ac yn unol â chyflwr presennol eu bioamrywiaeth a'u rôl posibl o ran gwella cydnerthedd ecosystemau. O dan yr amgylchiadau hynny, efallai y bydd angen datddyrannu safleoedd. Os bydd cymaint o waith wedi'i wneud ar safle fel ei bod yn amhosibl ei ddatddyrannu, dylid cadw'r effeithiau mor fach â phosibl a nodi cyfleoedd i liniaru, ac fel ateb olaf, i ddigolledu. Rhaid bod modd sicrhau hynny.

### Safleoedd dynodedig

6.4.18 Mae llawer o'r ardaloedd sy'n bwysig iawn am eu bioamrywiaeth wedi'u dynodi'n statudol neu'n anstatudol. Mae'r safleoedd hyn yn gwneud cyfraniad hanfodol at ddiogelu bioamrywiaeth, cynnal cydnerthedd ecosystemau ac yn gallu bod yn bwysig o ran darparu cyfleoedd i gyflawni amcanion llesiant ehangach.

6.4.19 Mae dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol yn dod dan ofynion statudol ac anstatudol gwahanol. Mae canllawiau pellach, yn enwedig mewn perthynas â'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, wedi'u cynnwys yn TAN 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur. Er y gall y broses ddynodi amrywio, rhaid i bob safle dynodedig allu parhau i warchod y fioamrywiaeth a'r nodweddion sy'n sail i'w ddynodiad a chyfrannu at gydnerthedd ecosystemau ar y raddfa briodol. Ni ddylai gwaith datblygu amhriodol na gweithgarwch arall amharu ar y gallu hwn.



### Gwarchod a Rheoli Safleoedd Dynodedig

6.4.20 Rhaid i safleoedd â dynodiad statudol gael eu diogelu rhag difrod a dirywiad, gyda'u nodweddion pwysig yn cael eu gwarchod a'u gwella drwy reolaeth briodol. Dylai cyfraniad y safle dynodedig at rwydweithiau ecolegol cydnerth gael ei gydnabod a'i gynnwys wrth ymdrin yn strategol â pholisi a phenderfyniadau cynllunio. Dylid llunio cysylltiadau rhwng gweithgarwch cynllunio a gweithgarwch rheoli ehangach er mwyn adfer a gwella natur. Mae camau gweithredu ategol, ac ar y cyd, rhwng pob sector a'r tu hwnt i ffiniau'r safleoedd dynodedig eu hunain, yn angenrheidiol er mwyn gwella graddfa, cysylltedd a'r gallu i ymaddasu a mynd i'r afael â'r argyfwng natur.

6.4.21 Dylai'r rhesymau sy'n ategu'r dynodiad ar bob lefel ac amlinelliad o nodweddion cymwys y dynodiad gael eu cofnodi'n glir fel rhan o'r Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd a'u hystyried wrth lunio cynlluniau datblygu, wrth ddylunio cynigion datblygu newydd ac mewn penderfyniadau rheoli datblygu.

6.4.22 Fel rhan o Asesiad o Seilwaith Gwyrdd, gall fod angen gwahaniaethu rhwng arwyddocâd perthynol y dynodiad, wrth ystyried gwerth y buddiannau cadwraeth natur a'r pwys a roddir ar y gwerth hwn mewn perthynas â chynigion datblygu. Dylid cydnabod y bydd gan bob safle dynodedig rôl unigryw a phwysig i'w chwarae wrth sicrhau rhwydweithiau ecolegol cydnerth a gall y cyfraniad hwn fod yr un mor bwysig mewn cyd-destun lleol â'i statws dynodi.



## Ffigur 13: Safleoedd dynodedig

<table>
<tr><th>Dynodiad</th><th>Statudol neu Anstatudol</th><th>Rhyngweithiad â'r Dull Fesul Cam</th></tr>
<tr><td>Ardal Cadwraeth Arbennig</td><td>Statudol</td><td rowspan="5">Osgoi</td></tr>
<tr><td>Ardal Gwarchodaeth Arbennig</td><td>Statudol</td></tr>
<tr><td>Safleoedd Ramsar</td><td>Statudol</td></tr>
<tr><td>Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig</td><td>Statudol</td></tr>
<tr><td>Gwarchodfa Natur Genedlaethol</td><td>Statudol</td></tr>
<tr><td>Gwarchodfa Biosffer UNESCO</td><td>Anstatudol</td><td rowspan="8">Cymhwyso’r Dull Fesul Cam i benderfynu</td></tr>
<tr><td>Geoparciau UNESCO</td><td>Anstatudol</td></tr>
<tr><td>Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur</td><td>Anstatudol</td></tr>
<tr><td>Gwarchodfa Natur Leol</td><td>Anstatudol</td></tr>
<tr><td>Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol</td><td>Anstatudol</td></tr>
<tr><td>Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGS)</td><td>Anstatudol</td></tr>
<tr><td>Darpar Ardaloedd Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol)</td><td>Cynllun Datblygu</td></tr>
<tr><td>Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth/Mapiau Rhwydweithiau Natur (CNC)</td><td>Datganiadau Ardal/ Asesiadau Seilwaith Gwyrdd</td></tr>
</table>

6.4.23 Dylai awdurdodau cynllunio ystyried cyfleoedd i adfer rhwydweithiau cynefinoedd i gyflwr iach a nodwyd o ganlyniad i gynnal Asesiad o’r Seilwaith Gwyrdd. Dylent ystyried hefyd nodi ymyriadau priodol i sicrhau nodweddion cydnerthedd, sef amrywiaeth, graddfa, cysylltedd, cyflwr a gallu i ymaddasu. Mae hyn yn cynnwys nodi cyfleoedd i adfer a gwella natur hyd yn oed os yw hyn y tu allan i’w ffiniau gweinyddol ei hun. Bydd defnyddio dull gofodol sydd, er enghraifft, yn nodi parthau clustogi o amgylch safleoedd dynodedig neu gerrig sarn i wella cysylltedd rhyngddynt, yn atgyfnerthu gallu safleoedd dynodedig i lwyr gyflawni eu rôl wrth wraidd rhwydweithiau ecolegol cydnerth ac annog adferiad natur ar raddfa fwy.

### Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

6.4.24 Mae SoDdGA o bwys cenedlaethol. Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, yn rhoi dyletswydd ar bob corff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau cynllunio, i gymryd camau rhesymol, sy’n gyson â’r ffordd gywir o arfer eu swyddogaethau, i barhau i warchod a gwella’r nodweddion sy’n pennu bod SoDdGA o ddiddordeb arbennig. Gall SoDdGA gael ei ddifrodi gan ddatblygiadau y tu mewn i’w ffiniau neu gerllaw ac, mewn rhai achosion, gan ddatblygiadau sydd gryn bellter i ffwrdd.

6.4.25 Dylid osgoi unrhyw ddatblygiad ar SoDdGA os nad oes ei angen at ddiben rheoli'r safle. Mae hyn yn fater o egwyddor er mwyn sicrhau bod safleoedd dynodedig yn gallu parhau i gyflawni eu rôl fel rhan sylfaenol o'r rhwydweithiau ecolegol cydnerth. Caiff yr hyn sydd ei angen er mwyn rheoli safle ei ystyried fesul achos ond mae'n debygol o fod yn gyfyngedig i'r gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni ei amcanion cadwraeth, gan gynnwys adfer a helpu natur i ymadfer, yn ogystal â seilwaith rheoli safle, dulliau naturiol ar gyfer rheoli llifogydd ac atebion priodol eraill sy'n seiliedig ar natur. Gall fod ymyriadau dymunol mewn SoDdGAau sy'n ymwneud â mynediad cyhoeddus, teithio llesol, prosiectau addysgol a mân ddatblygiadau eraill sydd eu hangen er mwyn diogelu ei rôl fel tirwedd fyw. Gall hyn gynnwys datblygiadau amaethyddol, fel ysguboriau newydd, storfeydd slyri sydd eu hangen i leihau llygredd, addasiadau i ysguboriau er mwyn cefnogi twristiaeth neu newidiadau neu estyniadau eraill i dai neu adeiladau sy'n bodoli eisoes ar safleoedd cyflogaeth lle gellir ystyried bod effeithiau ar y nodweddion y cafodd y safle ei ddynodi i'w gwarchod yn dderbyniol.

6.4.26 Ceir rhagdybiaeth yn erbyn pob math arall o ddatblygiad mewn SoDdGA fel mater o egwyddor a dylai'r rhagdybiaeth hon gael ei hadlewyrchu'n briodol mewn cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygiad. Ceir rhagdybiaeth hefyd yn erbyn datblygiad nad yw o fewn SoDdGA ond sy'n debygol o ddifrodi SoDdGA. Yn yr achos hwnnw, rhaid asesu cynigion yn ofalus er mwyn sicrhau y deellir yn glir yr effeithiau ar y buddiannau cadwraeth natur y bwriadwyd i'r dynodiad eu gwarchod. Dylid gwrthod y datblygiad os ceir effaith andwyol ar y nodweddion y cafodd y safle ei ddynodi i'w gwarchod. Dylid ysgwyddo cyfrifoldebau a rhwymedigaethau rhyngwladol a chenedlaethol am gadwraeth, ac yn unol ag amcanion y dynodiad, dylid gwarchod safleoedd sydd â dynodiad statudol, rhag difrod a dirywiad; dylid cadw a gwella eu nodweddion pwysig a dylid dangos bod capasiti i'w hadfer trwy ac o dan reolaeth briodol.

6.4.27 Dim ond o dan amgylchiadau cwbl eithriadol a dim ond pan ystyrir bod datblygiad yn briodol ac na fydd yn debygol o niweidio SoDdGA a bod cytundeb eang a chlir i liniaru a gwella fel rhan o gynllun datblygu y dylai datblygiad gael ei gynnig. Mae hyn yn golygu y caiff datblygiad ei ystyried yn annerbyniol os na cheir barn y cytunwyd arni mewn cynllun datblygu sy'n dynodi ei fod yn dderbyniol yn nhermau ei effaith ar nodweddion hysbysedig SoDdGA.

6.4.28 Cyn awdurdodi datblygiad y tu allan i SoDdGA ond sy'n debygol o niweidio unrhyw un o nodweddion hysbysedig SoDdGA, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol rybuddio CNC am y gweithrediadau arfaethedig, a rhaid iddynt ystyried ei gyngor wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ai peidio ac wrth osod amodau cynllunio. Os bydd awdurdod cynllunio lleol am roi caniatâd cynllunio yn groes i gyngor CNC, rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru. At ddibenion cynllunio defnydd tir, caiff SoDdGAau arfaethedig eu trin yn yr un modd â SoDdGAau hysbysedig[131].

### Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Safleoedd Ramsar

6.4.29 Mae safleoedd ACA ac AGA o bwys Ewropeaidd. O dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) (y Rheoliadau Cynefinoedd), rhaid i bob corff cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau cynllunio) ystyried gofynion Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar y CE wrth arfer ei swyddogaethau. Atgyfnerthir ACAau ac ACAau trwy eu dynodi'n SoDdGAau sy'n eu gwarchod fel baent yn SoDdGA. Cyn caniatáu datblygiad neu cyn mabwysiadu cynllun

[131] Mae canllawiau ar roi'r polisi hwn ar waith wrthi'n cael eu paratoi gyd chymorth CNC.

defnyddio tir sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar ACA neu AGA (gan gynnwys tir y tu allan i ffin ACA neu AGA), rhaid i awdurdodau cynllunio gynnal asesiad priodol o'r goblygiadau i'r nodweddion dynodedig, ymgynghori â CNC a rhoi sylw i farn CNC. Fel arfer, ni chaiff y datblygiad ei ganiatáu neu'r cynllun ei fabwysiadu ond os gwêl yr awdurdod cynllunio na chaiff effaith andwyol ar integredd y safle, gan ystyried hefyd yn ôl y gofyn unrhyw fesurau, amodau cynllunio neu rwymedigaethau ychwanegol. Gellir caniatáu datblygiad neu bolisi mewn cynllun defnyddio tir os na ellir cyflawni ei ganlyniadau fel arall a bod yn rhaid ei gynnal am ei fod yn angenrheidiol er gwir les y cyhoedd serch asesiad negyddol o'r goblygiadau, cyn belled ag yr hysbysir Gweinidogion Cymru amdano. Rhaid cymryd unrhyw fesurau sydd eu hangen i ddiogelu cydlyniant cyffredinol y rhwydwaith o ACA ac AGA. Mae safleoedd Ramsar yn ardaloedd pwysig o wlyptir a ddynodir o dan Gonfensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o bwys rhyngwladol. Fel ag yn achos ACA ac AGA, atgyfnerthir safleoedd Ramsar trwy eu dynodi'n SoDdGa ond ni ddônt o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Er hynny, dylid trin safleoedd Ramsar o fewn y system gynllunio fel pe baent yn ACA neu AGA. Ceir rhagor o wybodaeth am yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn TAN 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio.

### Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Safleoedd Ramsar a gynigir

6.4.30 Dylai safleoedd sydd wedi'u cynnig yn ffurfiol fel ACA neu AGA ac nad ydynt yn dod o dan amddiffyniad cyfreithiol y Rheoliadau Cynefinoedd eto, gael eu trin gan y system gynllunio fel pe baent wedi'u dynodi'n ACA neu AGA. Dylid dilyn yr un drefn, fel mater o bolisi, yn achos safleoedd sy'n cael eu cynnig fel safleoedd Ramsar.

### Gwarchod Dynodiadau Anstatudol

6.4.31 Er nad oes proses statudol i warchod dynodiadau anstatudol, yn wahanol i ddynodiadau statudol, mae Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol, Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol yn gwneud cyfraniad hanfodol at sicrhau rhwydwaith ecolegol ar gyfer bioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth a dylai cynlluniau datblygu a'r broses rheoli datblygu eu hamddiffyn. Weithiau safleoedd anstatudol yw craidd rhwydwaith hanfodol o gynefinoedd dan fygythiad ac maent yn gallu chwarae rhan hollbwysig i ddiogelu, cynnal, cysylltu ac adfer bioamrywiaeth a chyfrannu at adfer natur a manteision net i fioamrywiaeth. Cyn awdurdodi datblygiad sy'n debygol o ddifrodi dynodiad natur lleol, dylai awdurdodau cynllunio roi hysbysiad o'r bwriad i gynnal y gwaith i Ecolegydd yr awdurdod lleol neu i fudiad amgylcheddol y trydydd sector. Ym mhob achos rhaid cael barn ysgrifenedig ecolegydd yr awdurdod lleol. Pan fydd Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd wedi nodi bod angen cynnal neu wella nodweddion neu briodoleddau penodol y safle, dylai awdurdodau cynllunio ddatgan yn eu cynlluniau datblygu pa nodweddion neu briodoleddau sydd angen yr amddiffyniad hwn a pham, ac egluro sut bydd y polisïau'n sicrhau'r amddiffyniad hwn. Yn yr un modd, dylai asesiadau ystyried presenoldeb rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth yn cynnwys y rhai ar y rhestr Adran 7 a dylid rhoi pwyslais priodol ar eu diogelu.

6.4.32 Os bydd awdurdod lleol wedi penderfynu peidio â dangos dynodiadau anstatudol ar fap cynigion neu gyfyngiadau am eu bod mor fach, dylai cynlluniau datblygu gynnwys polisi sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer safleoedd sy'n bodloni'r meini prawf priodol ar gyfer dynodi safle anstatudol (gan gynnwys y safleoedd hynny sydd heb eu nodi ar hyn o bryd). Dylai'r safleoedd hyn fod gyfwerth â safleoedd sydd wedi'u mapio.

6.4.33 Dylai polisïau ar gyfer safleoedd anstatudol ei gwneud hi'n glir nad yw dynodiadau o'r fath yn atal datblygiadau priodol lle na cheir effeithiau andwyol ar y nodweddion y cafodd y safle ei ddynodi i'w gwarchod nac ar gydnerthedd yr ecosystem ehangach. Lle nad oes modd osgoi niwed, dylid ei leihau i'r eithaf drwy ddefnyddio mesurau lliniaru a dylid ei wrthbwyso gymaint â phosibl drwy fesurau digolledu a ddyluniwyd i sicrhau nad oes unrhyw leihad yng ngwerth cadwraeth cyffredinol yr ardal neu'r nodwedd,[132] a sicrhau manteision net i fioamrywiaeth.

### Mawndiroedd

6.4.34 Mae pridd mawnog yn arbennig o fregus ac os caiff ei niweidio, peryglir cydnerthedd yr ecosystemau y mae'n eu cynnal. Dim ond 3-4% o Gymru sydd o dan fawnogydd ond er hynny, maent yn storio o gwmpas 20-25% o'r holl garbon pridd. Os nodir bod mawnog yn rhan o gynnig ar gyfer datblygiad, dylid rhoi pwys mawr ar ei amddiffyn oherwydd pwysigrwydd arbennig ei gyfraniad at gynnal adnoddau naturiol cenedlaethol fel carbon pridd, bioamrywiaeth a rheoli llifogydd ac oni cheir ystyriaethau perthnasol arwyddocaol eraill sy'n awgrymu fel arall, bydd yn rhaid gwrthod caniatâd. Wrth ystyried maen prawf 1 y dull 'fesul cam' ac wrth ddilyn y drefn chwilio wrth baratoi cynlluniau datblygu, bydd yn bwysig bod gwybodaeth gywir wrth law a bydd Llywodraeth Cymru wedi darparu Map Mawndiroedd Cenedlaethol fel cam cyntaf ar gyfer nodi lleoliad mawndiroedd.[133]

### Rhywogaethau a Warchodir

6.4.35 Mae presenoldeb rhywogaeth sy'n cael ei gwarchod o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd neu'r DU neu o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ystyriaeth berthnasol pan fo awdurdod cynllunio lleol yn ystyried cynnig datblygu a fyddai, o'i dderbyn, yn debygol o darfu ar neu beri niwed i'r rhywogaeth neu ei chynefin ac i sicrhau bod amrywiaeth a phoblogaeth y rhywogaeth yn cael eu cynnal. Dylai awdurdodau cynllunio lleol gynghori unrhyw un sy'n cyflwyno cais cynllunio bod yn rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaethau statudol i warchod rhywogaethau sy'n effeithio ar y safle dan sylw a'r cyffiniau o bosibl. Er mwyn cael gwybodaeth i helpu i lywio'r penderfyniad cynllunio, efallai y bydd angen arolwg ecolegol i gadarnhau a oes rhywogaeth a warchodir yn bresennol ac asesiad o effaith debygol y datblygiad ar rywogaeth a warchodir er mwyn helpu'r broses rheoli datblygu. Ystyrir mai'r arfer gorau yw cael ecolegydd cymwys i sgrinio a oes rhywogaeth a warchodir yn bresennol gan ddefnyddio'r data a ddarperir gan y Ganolfan Cofnodion Amgylcheddol Leol berthnasol.[134]

6.4.36 Mae datblygiadau bob amser yn amodol ar y ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu rhywogaethau a warchodir gan Ewrop p'run a ydynt ar safle a ddynodwyd ai peidio. Mewn cynigion, os byddai'r gwaith datblygu yn amharu ar ddiogelu rhywogaethau a warchodir gan Ewrop, byddai angen rhanddirymiadau o ddarpariaethau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Ni ellir awdurdodi rhanddirymiad heblaw pan nad oes dewis arall boddhaol ac os na fydd y cam gweithredu a awdurdodir yn amharu ar gynnal y boblogaeth o'r rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraeth ffafriol yn ei chynefin naturiol. Rhaid i'r gwaith datblygu i'w awdurdodi fod yn waith a wneir er mwyn gwarchod 'iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, neu am resymau cwbl hanfodol eraill er budd y cyhoedd, gan gynnwys rhai sydd o natur gymdeithasol neu economaidd a chanlyniadau buddiol sydd o bwysigrwydd sylfaenol i'r amgylchedd'.

132 Gweler paragraff 5.5.3 o TAN 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio.
133 Porth Data Mawndiroedd www.welsh-nrw.hub.arcgis.com/apps/6c566be75f16489088a096fc4e53a315/explore
134 Gweler paragraff 6.2.2 Nodyn cyngor technegol (TAN) 5: cynllunio a chadwraeth natur | LLYW.CYMRU

Mae rhanddirymiadau'n cael eu hawdurdodi trwy gyfrwng trwydded a roddir gan CNC a ddylai hysbysu awdurdod lleol fod cais am drwydded wedi'i ganiatáu. Mae dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i ystyried gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd wrth arfer eu swyddogaethau. Er mwyn osgoi sefyllfa lle mae datblygiadau sydd â chaniatâd cynllunio yn methu â chael rhanddirymiad mewn perthynas â rhywogaethau a warchodir gan Ewrop, rhaid i awdurdodau cynllunio roi ystyriaeth i'r tri gofyniad rhanddirymiad uchod wrth ystyried cynigion datblygu lle y mae rhywogaeth a warchodir gan Ewrop yn bresennol.

### Coed, Coetiroedd a Pherthi

6.4.37 Mae coed, perthi (gwrychoedd), grwpiau o goed ac ardaloedd o goetir o bwysigrwydd mawr i fioamrywiaeth. Maent yn gynefinoedd cysylltu pwysig ar gyfer rhwydweithiau ecolegol cydnerth ac maent yn gwneud cyfraniad ehangach hanfodol at gymeriad y dirwedd, diwylliant, treftadaeth, naws am le, ansawdd aer, hamdden a chymedroli'r hinsawdd leol. Maent yn gwneud cyfraniad hollbwysig hefyd at fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy storio carbon, a gallant ddarparu cysgod, bwyd i anifeiliaid gwyllt, manteision ehangach i'r dirwedd trwy ddal llygredd aer a llygredd gwasgaredig, dulliau naturiol i reoli llifogydd a deunyddiau adeiladu. Dylai pwysigrwydd coed, yn enwedig coed trefol, wrth greu lleoedd unigryw a naturiol sydd o fudd i iechyd a llesiant cymunedau, nawr ac yn y dyfodol, gael ei hyrwyddo wrth lunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau[135]. Rhaid i awdurdodau cynllunio hyrwyddo camau i blannu coed a pherthi newydd, grwpiau o goed ac ardaloedd o goetir fel rhan o ddatblygiad newydd.

6.4.38 Mae rhywogaethau coed a pherthi brodorol Cymru, sy'n nodweddiadol o'r ardal, yn darparu swyddogaeth gref o ran cynnal cydnerthedd yr ecosystem, gan ddarparu adnoddau i fywyd gwyllt, yn enwedig planhigion a rhywogaethau brodorol eraill. Gall rhywogaethau coed a pherthi brodorol hefyd ategu cyfleoedd ar gyfer aildyfiant naturiol. Ochr yn ochr â mathau o gynefinoedd coetir ehangach, fel coed pori, tir parc a pherllannau traddodiadol, mae rhywogaethau coed a pherthi brodorol yn helpu i ddiffinio ein tirwedd a'n treftadaeth ddiwylliannol, gan greu ymdeimlad cryf o le a chysylltiad â'r gorffennol.

6.4.39 Rhaid i awdurdodau cynllunio warchod coed, perthi, grwpiau o goed ac ardaloedd o goetir lle mae iddynt werth ecolegol, lle maent yn cyfrannu at gymeriad neu amwynder ardal leol arbennig, neu lle maent yn cyflawni swyddogaeth fuddiol i'r seilwaith gwyrdd[136]. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried pwysigrwydd coed a choetir, yn enwedig coetir brodorol a choed gwerthfawr, a dylent ystyried strategaethau coed neu ganllawiau cynllunio atodol yr awdurdod lleol a'r Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd. Dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu targedau canopi coed gofynnol sy'n briodol, yn berthnasol yn lleol ac y mae'n rhaid eu cyflawni o fewn amser penodol ar gyfer eu hardal er mwyn llywio gwaith diogelu a, lle bo angen, ymestyn y canopi coed. Bydd yr asesiad o'r seilwaith gwyrdd a chymhorthion fel astudiaeth CNC 'Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru' ac erfyn i-Tree Eco Forest Research yn helpu i weld beth yw'r llinell sylfaenol o orchudd coed a helpu i benderfynu ar dargedau priodol a mesuradwy ar gyfer gorchudd y canopi.[137] Ceir hefyd arfau i helpu i ddewis rhywogaethau a dylunio coetiroedd mewn ardaloedd trefol.[138]

---

135 Gorchudd coed yn nhrefi a dinasoedd Cymru, gweler: gorchudd-coed-yn-nhrefi-a-dinasoedd-cymru.pdf (naturalresources.wales)

136 Safon Brydeing – BS5837:2012 Trees in relation to design, demolition and Constructions – Recommendations.

137 Cyfoeth Naturiol Cymru / Coed Trefol

138 www.naturalresources.wales/urbantrees?lang=en
www.naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/woodlands-and-forests/?lang=cy
www.naturalresources.wales/about-us/what-we-do/our-roles-and-responsibilities/green-spaces/?lang=cy
www.www.tdag.org.uk/our-guides.html

6.4.40 Lle ceir coed, coetir a pherthi, dylai ceisiadau cynllunio nodi mesurau i'w cadw, eu diogelu a'u hintegreiddio. Lle bo arolygon yn nodi coed, perthi, grwpiau o goed ac ardaloedd o goetir a all wneud cyfraniad sylweddol i'r ardal, dylai'r coed hyn gael eu cadw a'u diogelu. Wrth ddarparu gwasanaethau a seilwaith cyfleustodau ar gyfer y safle, dylid hefyd osgoi colli coed, coetiroedd neu berthi a rhaid ystyried hyn fel rhan o'r cynnig datblygu; os caiff coed o'r fath eu colli, caiff rhai newydd eu plannu gan ddilyn y cymarebau plannu a nodir isod.

6.4.41 Er bod y system gynllunio yn canolbwyntio'n bennaf ar goed trefol, dylai awdurdodau cynllunio gydnabod pwysigrwydd coed mewn ardaloedd gwledig, naill ai fel coetiroedd, o fewn perthi a chloddiau, neu goed unigol mewn caeau, neu fel coed pori. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod effeithiau newid yn yr hinsawdd yn arwain at blâu a chlefydau sy'n difrodi llawer o'n rhywogaethau brodorol yn y dirwedd wledig. Dylid ystyried ffyrdd cadarnhaol o gadw coed gwledig a dylid cymryd mesurau i'w hailosod mewn ffordd effeithiol a darbodus, naill ai drwy blannu rhai newydd neu eu galluogi i dyfu i'w llawn botensial.

6.4.42 Ni chaniateir cael gwared ar goed, coetir a pherthi yn barhaol oni bai bod budd cyhoeddus sylweddol a phenodol. Lle gwaredir coed a pherthi, yn unigol neu fel grŵp, fel rhan o gynllun arfaethedig, rhaid i awdurdodau cynllunio ddilyn y dull fesul cam yn gyntaf fel y nodir ym mharagraff 6.4.15. Lle nad oes modd osgoi colled, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr blannu coed a pherthi eraill fel mesur digolledu (sy'n gymesur â'r hyn a gollir a gaiff ei nodi drwy asesiad o werth seilwaith gwyrdd gan gynnwys bioamrywiaeth, gwerth y dirwedd a'r carbon a ddelir). Caiff y coed newydd eu plannu gan ddilyn cymhareb sy'n gymesur ag ansawdd a phwysigrwydd amgylcheddol ac ecolegol y goeden (coed) a gollwyd a rhaid gwneud hynny ar y safle yn ddelfrydol, neu'n union wrth ymyl y safle, gan blannu o leiaf 3 coeden o fath tebyg a maint cymharol am bob coeden a gollwyd. Pan gollir coedlan neu gysgodfa o goed fel rhan o gynllun sydd wedi'i gynnig, rhaid i'r gwaith digolledu adlewyrchu maint, dyluniad a rhywogaethau'r ardal a gollwyd. O dan yr amgylchiadau hynny, rhaid plannu o leiaf 1600 o goed llydanddail yr hectar a 2500 o goed conwydd yr hectar. Dylai safle plannu pob coeden newydd fod yn addas i'w helpu i sefydlu a ffynnu, a sicrhau ei thyfiant digyfyngiad hirdymor er mwyn cyflawni'r buddiannau amgylcheddol ac ecolegol mwyaf posibl.

6.4.43 Mae coetiroedd hynafol, coetiroedd lled-naturiol, coed hynafol, aeddfed a threftadaeth unigol a pherthi hynafol yn adnoddau naturiol na ellir mo'u hadfer, ac maent yn werthfawr o ran tirwedd, bioamrywiaeth a diwylliant. Dylai coed, coetiroedd a pherthi o'r fath gael eu gwarchod rhag gwaith datblygu a fyddai'n golygu eu bod yn dirywio neu'n cael eu colli ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol lle ceir buddiannau cyhoeddus arwyddocaol a phenodol. Rhaid i'r mesurau diogelu hyn atal gweithrediadau a allai fod yn niweidiol ac atal y coed a'r perthi hyn rhag cael eu colli'n ddiangen[139]. Yn achos safle sydd wedi'i gofnodi ar y Rhestr Coetiroedd Hynafol, dylai awdurdodau ystyried barn CNC. Dylai awdurdodau cynllunio roi sylw i'r Rhestr Coed Hynafol, gweithio i sicrhau ei bod yn fwy cyflawn a'i defnyddio i sicrhau bod coed a choetir yn cael eu gwarchod ac i nodi cyfleoedd i blannu mwy ohonynt fel rhan o'r asesiad o'r seilwaith gwyrdd, yn arbennig ar gyfer gorchudd canopi.

[139] Ceir rhagor o wybodaeth am goetir hynafol ar wefan CNC.

6.4.44 Dylai'r gwaith o warchod a phlannu coed a pherthi gael ei gyflawni, lle bo'n briodol, drwy strategaethau a pholisïau penodol i'r ardal leol, drwy osod amodau wrth roi caniatâd cynllunio, a/neu drwy wneud Gorchmynion Diogelu Coed (TPO)[140]. Dylent gael eu cynnwys yn yr asesiadau a chynlluniau Seilwaith Gwyrdd hefyd.

## 6.5 Ardaloedd Arfordirol

6.5.1 Mae'r rhyngwyneb rhwng tir a môr yn esgor ar y priodoleddau unigryw sy'n gysylltiedig ag ardaloedd arfordirol. Yn ogystal â chyfleoedd, mae'r nodweddion yn cyflwyno'u heriau eu hunain sy'n gofyn am ystyriaethau ac ymatebion penodol.

6.5.2 Bydd nodi a deall y priodoleddau unigryw hyn a sut maent yn rhyngweithio gyda'i gilydd[141], yn helpu i sicrhau bod dulliau cynllunio mewn ardaloedd arfordirol yn gynaliadwy yn amgylcheddol ac yn economaidd ac yn gyfiawn yn gymdeithasol ac yn cydnabod bygythiad yr argyfwng hinsawdd. Ochr yn ochr â hyn mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru'n nodi cyfleoedd i ddatblygu moroedd Cymru yn gynaliadwy[142] trwy lywio penderfyniadau ynghylch datblygiadau newydd a phynciau cysylltiedig ar y tir ac yn y môr. Dylai cynlluniau datblygu a'r Cynllun Morol weithio gyda'i gilydd a chefnogi cydbenderfyniadau a chydweithio ar draws rhyngwyneb a ffiniau môr a thir.

6.5.3 Y prif egwyddorion cynllunio ar gyfer mannau arfordirol, sy'n adlewyrchu egwyddorion Rheolaeth Integredig ar barthau Arfordirol yw cefnogi datblygiad trefol a gwledig ar yr un pryd â bod yn ymwybodol o'r heriau sy'n deillio o ryngweithiad deinamig pwysau naturiol a datblygu mewn ardaloedd arfordirol, ac ymateb yn briodol i'r heriau hynny. Mewn cynlluniau datblygu felly, mae gofyn am strategaethau ecolegol a ffisegol gydnerth sy'n gallu addasu i newid cymdeithasol ac economaidd. Trwy gymryd y ffactorau hyn i ystyriaeth, sicrheir bod cynlluniau datblygu a'r Cynllun Morol yn ategu'i gilydd.

6.5.4 Gall pwysau datblygu o'r tir gynnwys datblygiadau mawr ar yr arfordir, gwaith mewn porthladd a harbwr, cyfleusterau hamdden, cynhyrchu ynni adnewyddadwy neu amddiffynfeydd arfordirol. Gall pwysau o'r môr gynnwys gwaredu gwastraff, pysgota ar y môr, hwylio at ddibenion hamdden, carthu sianelau mordwyadwy, chwaraeon dŵr ac ymdrochi, tynnu agregau morol neu gynhyrchu pŵer o'r llanw neu'r tonnau. Gall yr effeithiau sy'n gysylltiedig â'r cyfryw weithgareddau fod yn eang a rhychwantu'r môr a'r arfordir. Gallent ymwneud â defnydd amhriodol o dir o ganlyniad i'r pwysau am wasanaethau a chyfleusterau. Gallai'r rheini effeithio ar fusnesau a swyddi yn ogystal ag ar gymeriad naturiol a hanesyddol yr arfordir a'r forwedd, yn enwedig lle maent yn amlwg o'r arfordir ar y tir a'r môr.

6.5.5 Mae'r argyfwng hinsawdd yn gwaethygu'r heriau sy'n wynebu mannau arfordirol, sy'n arwain at golli cynefinoedd a warchodir, drwy 'wasgfa arfordirol', neu golli nodweddion sy'n amddiffyn rhag llifogydd, fel twyni tywod, yn ogystal â'r effeithiau dilynol ar draethau hamdden, pobl ac eiddo. Dylid cydnabod bod rhai cynefinoedd yn anadferadwy pe'u collir, a dylid eu diogelu fel adnoddau prin all ddod i ben.

[140] Mae gan awdurdodau lleol bŵer cyffredinol i wneud Gorchymyn Diogelu Coed (TPO) os yw'n ymddangos ei bod yn fuddiol gwneud hynny o safbwynt amwynder. Gallant wneud TPO dros dro sy'n dod i rym ar unwaith, ac sy'n gallu para chwe mis neu nes i'r TPO gael ei gadarnhau.

[141] Nod rheolaeth integredig ar barthau arfordirol yw bod yn broses gyfranogol a deinamig ar gyfer integreiddio'r polisïau sy'n dylanwadu ar leoedd arfordirol. Cyfathrebiad gan y Comisiwn i Gyngor a Senedd Ewrop, 'Integrated Coastal Zone Management: A Strategy for Europe'. (COM/2000/547) www.ec.europa.eu/environment/iczm/comm2000.htm

[142] Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru www.llyw.cymru/y-mor-a-physgodfeydd

6.5.6 Dylai awdurdodau cynllunio ei gwneud yn gwbl glir beth mae'r arfordir yn ei olygu iddynt a datblygu, neu gymhwyso, polisïau penodol sy'n adlewyrchu priodoleddau eu harfordiroedd. Wrth wneud hynny dylent gydnabod y cysylltiadau rhwng priodoleddau ffisegol, biolegol a defnydd tir eu hardaloedd arfordirol ac effeithiau newid hinsawdd. Bydd hynny'n golygu ystyried yr effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â chynnydd gam wrth gam yn y risgiau i'r arfordir dros amser yn ogystal ag unrhyw newidiadau graddol buddiol mewn defnydd tir.

6.5.7 I rai awdurdodau, gallai hyn olygu nodi ardaloedd sy'n debygol o fod yn addas ar gyfer datblygiadau yn ogystal â'r rheini sy'n destun cyfyngiadau sylweddol ac yn cael eu hystyried yn anaddas i'w datblygu. Gall ardaloedd sy'n destun cyfyngiadau neu sy'n cael eu hystyried yn anaddas ar gyfer datblygiad gynnwys y rheini:

- lle mae gwarchod neu wella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol yn golygu bod rhaid cyfyngu ar ddatblygu;
- lle bydd angen ystyried amharu gweledol a'r hyn sy'n weladwy rhwng tir môr yn ofalus;
- lle bo angen rhoi polisïau penodol ar waith mewn ardaloedd Arfordir Treftadaeth;
- lle dylid amddiffyn mynediad i lwybrau arfordirdol; a
- gallai fod risg o erydu, llifogydd neu dir ansad.

6.5.8 Mewn ardaloedd eraill gallai potensial economaidd yr arfordir gael ei wireddu mewn modd cynaliadwy[143]. Dylai Datganiadau Ardal a chynlluniau lleol eraill ar gyfer ardaloedd arfordirol ddarparu gwybodaeth berthnasol.

### Datblygiad ar yr Arfordir

6.5.9 Ni ddylid cynnig datblygu mewn ardaloedd arfordirol fel rheol oni bai bod angen iddo fod ar yr arfordir. Yn benodol, anaml iawn mai ardaloedd arfordirol heb eu datblygu fydd y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer datblygiad. Pan fo datblygiad newydd yn gofyn am leoliad ar yr arfordir, ardaloedd arfordirol datblygedig fydd yn cynnig yr opsiwn gorau gan amlaf, ar yr amod bod materion sy'n gysylltiedig â newid arfordirol wedi cael sylw. Mae materion o'r fath yn cynnwys risgiau erydu, llifogydd, tir ansad a'r dulliau a ffefrir ar gyfer mynd i'r afael â risgiau o'r fath, ac effeithiau ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol.

6.5.10 Cyn i ddatblygiadau parhaol a hirdymor, yn cynnwys rhai o bwys rhanbarthol neu genedlaethol, gael caniatâd cynllunio, bydd rhaid dangos bod angen lleoliad arfordirol ar sail priodoleddau'r arfordir dan sylw. Lle ystyrir bod modd cyfiawnhau datblygiad, dylid ei ddylunio i allu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd yn ystod ei oes a sicrhau nad yw'n arwain at gynnydd graddol annerbyniol yn y risg. Lle bo'n briodol, dylai awdurdodau cynllunio nodi safleoedd allweddol ar gyfer datblygiadau arfaethedig o bwysigrwydd cenedlaethol neu ranbarthol sy'n gofyn am leoliad arfordirol yn eu cynlluniau datblygu, yn enwedig pan fo angen am ddatblygiadau o'r fath wedi'i nodi eisoes. Mae goblygiadau dyraniadau o'r fath yn debygol o fod yn eang a gallent ofyn am gydweithio y tu hwnt i ffiniau gweinyddol.

[143] Bydd gan ddarpariaethau Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 oblygiadau i awdurdodau cynllunio lleol yn ardaloedd arfordirol Cymru www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2009/23/contents

6.5.11 Mae'n bosibl na fydd datblygiadau dros dro yn cael effaith andwyol ar briodoleddau arfordirol neu newid arfordirol ond gallent gynnig cyfle i hwyluso gweithgareddau twristiaeth. Mae angen gofal, fodd bynnag, i sicrhau bod modd rheoli risgiau fel llifogydd yn dderbyniol, yn enwedig yn achos defnydd sensitif lle gall meddianwyr ddisgwyl bod yn rhesymol ddiogel rhag peryglon arfordirol. Gall y posibilrwydd o wrthdaro godi lle gall effaith lefel y môr yn codi a datblygiad, gan gynnwys rheolaeth arfordirol, effeithio ar gynefinoedd rhynglanwol neu asedau hanesyddol. Dylai gwarchod cydnerthedd amgylcheddau o'r fath gael ystyriaeth briodol wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

### Safleoedd Dynodedig neu Warchodedig ar yr Arfordir

6.5.12 Dylai cynigion datblygu geisio gwarchod neu wella tirwedd a chymeriad naturiol neu hanesyddol arfordiroedd sydd heb eu datblygu. Dylai tirweddau penodol yr arfordir gael eu cydnabod a'u gwarchod os ydynt yn cynrychioli priodoleddau arwyddocaol lle. Nid yw dynodiad arfordir treftadaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar statws yr ardal o safbwynt cynllunio, ond bydd y nodweddion a gyfrannodd at ddynodi ardaloedd o'r fath yn ystyriaethau pwysig mewn cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau rheoli datblygu. Mae arfordiroedd treftadaeth yn cael eu diffinio gan awdurdodau lleol ar y cyd ag CNC ac fe'u defnyddir fel erfyn rheoli i gydbwyso'r gofyn am gadwraeth a'r gofyn i gael mynd at barth arfordirol.

6.5.13 Mae'n bwysig cydnabod bod datblygiad ar y tir yn gallu cael effaith ar y môr a bydd dynodiadau cadwraeth yn ymestyn islaw'r distyll ond nid yw hynny'n wir am reolaeth gynllunio. Dylid gwarchod ardaloedd morol ac arfordirol dynodedig lle gallai datblygiad ar y tir gael effaith ar y rhesymau dros y dynodiad, ac er mwyn atal unrhyw effeithiau annerbyniol sylweddol. O ran aberoedd a rhannau eraill o'r arfordir agored, gall awdurdodau cynllunio ac asiantaethau a grwpiau buddiant eraill gydweithredu i baratoi cynlluniau rheoli aber, cynlluniau rheoli arfordirol neu asesiadau o'r forwedd. Dylai'r rhain ategu polisïau datblygu a Chynlluniau Rheoli Traethlin a bod yn gydnaws â nhw. Bydd angen cydweithio i sicrhau bod modd cynnal a gwella graddfa, maint a chysylltedd rhwng safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth natur.

### Newid i'r Arfordir

6.5.14 Fel rhan o'r gwaith o ddeall priodoleddau arfordir, dylid cydnabod bod y codiad yn lefel y môr, ymchwydd storm, gweithrediad tonnau a newidiadau mewn morffoleg arfordirol a chyflenwad gwaddodion yn gallu arwain at effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar yr arfordir. Gall effeithiau'r newid yn yr hinsawdd waethygu'r ansicrwydd.

6.5.15 Er y gall morffoleg yr arfordir fod yn nodwedd warchodol rhag lefel y môr yn codi, ymchwydd storm a gweithrediad tonnau, gall adeiladu amddiffynfeydd arfordirol ddylanwadu ar y cyflenwad gwaddodion drwy drosglwyddo'r risg o erydu i rywle arall. Dylid osgoi'r posibilrwydd hwn, o gofio bod erydu a'r risg o lifogydd yn debygol o waethygu oherwydd newid hinsawdd. Nid yw'n briodol bod datblygiad mewn un lleoliad yn ychwanegu'n annerbyniol at effeithiau newid ffisegol i'r arfordir mewn lleoliad arall.

6.5.16 Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn cael eu datblygu gan awdurdodau lleol mewn partneriaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid ac maent yn pennu fframweithiau polisi lleol hirdymor ar gyfer rheoli risg arfordirol[144]. Dylai'r blaenoriaethau ynddynt ddylanwadu ar y gwaith o baratoi cynlluniau datblygu a'u llywio. Pan bennir na fydd amddiffynfeydd arfordirol yn cael eu cynnal mwyach, dylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau clir a phenodol i reoli datblygiad mewn ardaloedd o'r fath, yn cynnwys ble maent yn teimlo y byddai datblygiad yn anaddas neu y dylid ystyried nodweddion penodol.

6.5.17 Bydd Cynlluniau Rheoli Traethlin yn dylanwadu ar a ellir cyfiawnhau'r datblygiad ei hun neu sut dylai gael ei ddylunio. Bydd rhai darnau o'r arfordir yn destun polisïau ymyrryd gweithredol mewn Cynlluniau Rheoli Traethlin i amddiffyn y llinell a bydd amserlenni clir ar waith yn llywodraethu'r polisïau hyn. Ni fydd gan ardaloedd eraill, sydd eisoes wedi cael eu datblygu o bosibl, ymyriadau gweithredol sy'n gysylltiedig ag amddiffyn na chynlluniau ildio[145], neu ail-alinio, fel yr ymateb mwyaf priodol i lifogydd. Mae'n bosibl mai ail-alinio rheoledig fydd yr opsiwn a ffefrir mewn ardaloedd lle mae cysylltiad y cyhoedd â'r risg yn isel neu le mae gwerth y tir yn ei gwneud hi'n anodd cyfiawnhau gwariant cyhoeddus ar waith peirianyddol, fel sy'n wir mewn ardaloedd arfordirol heb eu datblygu sydd ar dir isel. O gofio'r ystyriaethau hynny, ni ddylid caniatáu datblygiad mewn ardaloedd lle mae'r arfordir yn newid oni deellir y risgiau a'r canlyniadau ac y gellir eu rheoli'n dderbyniol dros oes y datblygiad.

6.5.18 Bydd sicrhau bod modd addasu i newid, yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, yn ystyriaeth allweddol a dylid nodi mesurau i leihau gwendidau a chwilio am gyfleoedd i feithrin cydnerthredd mewn cymunedau, yn enwedig wrth baratoi cynlluniau datblygu. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i natur defnyddiau newydd a allai fod yn addas mewn ardaloedd sy'n destun newid, gan gynnwys effeithiau gwneud newidiadau graddol mewn ardal neu'r cyfleoedd y gallai hynny esgor arnynt. Dylid creu cysylltiadau hefyd â strategaethau ar gyfer darparu seilwaith gwyrdd a chynlluniau draenio cynaliadwy yn ogystal â chynlluniau llesiant ehangach i sicrhau cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd aneddiadau a'u gallu i ymaddasu i newid dros yr hirdymor.

6.5.19 Ni ddylai datblygiad gael ei gynnig neu ei ganiatáu mewn ardaloedd a fyddai'n gofyn am waith peirianyddol drud, naill ai i amddiffyn datblygiadau ar y tir a allai gael eu herydu gan y môr neu i amddiffyn tir y gallai'r môr orlifo arno. Lle bo angen ymyriadau gweithredol mewn ardaloedd sydd â datblygiad ynddynt eisoes, bydd angen i'r awdurdod lleol, ar y cyd â'r holl randdeiliaid perthnasol, ddangos bod yna ddealltwriaeth lawn o'r goblygiadau a rhaid nodi rolau a chyfrifoldebau pawb yn y broses.

6.5.20 Wrth ystyried gwaith amddiffynfeydd arfordirol newydd, dylid ystyried yr holl effeithiau amgylcheddol posibl, ar y tir ac ar y môr, yn cynnwys yr effeithiau ar chwalu cynefinoedd a'r 'wasgfa arfordirol' sy'n deillio o hynny, yn ogystal â gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn Cynlluniau Rheoli Traethlin a dogfennau perthnasol eraill fel Datganiadau Ardal.

144 Ceir canllaw ar gyfer cynlluniau'r ail genhedlaeth yn: www.gov.uk/government/publications/shoreline-management-plans-guidance

145 Strategaeth Genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, Llywodraeth Cymru 2020 www.llyw.cymru/strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-yng-nghymru

## Adnabod Ansawdd Amgylchedddol Lleoedd

### 6.6 Dŵr a Risg Llifogydd[146]

6.6.1 Yn ogystal â bod yn ofyniad hanfodol i fyw, mae gwasanaethau dŵr sydd wedi'u cynllunio'n dda yn cynnig ystod o fanteision a gwasanaethau i gymdeithas. Mae'r diwydiant dŵr ei hun yn ffynhonnell swyddi gwyrdd ac mae gwasanaethau dŵr yn cefnogi prosesau cynhyrchu ynni a bwyd, hamdden a thwristiaeth, ac yn cysylltu cartrefi a busnesau â'r rhwydweithiau seilwaith maent yn dibynnu arnynt. Yn ogystal, mae ecosystemau naturiol, nodweddion seilwaith gwyrdd a'r atebion sy'n seiliedig ar natur yn chwarae rhan bwysig i wella ansawdd dŵr a rheoli llifogydd.

6.6.2 Ymgymerwr dŵr sydd fel arfer yn cyflenwi dŵr ond mae'n bosibl mai cyflenwadau dŵr preifat yw'r unig ddewis ymarferol mewn ardaloedd anghysbell.

6.6.3 Mae tri phrif fath o ddraeniad cyhoeddus – carthffosydd budr, carthffosydd dŵr wyneb a systemau cyfunol sy'n cludo'r ddau. Er bod deddfwriaeth yn gwahardd rhyddhau dŵr wyneb i garthffosydd budr, ni ddylai dŵr wyneb o ddatblygiadau newydd gael ei ryddhau i systemau cyfunol chwaith oherwydd y risg o lygredd pan fydd systemau cyfunol yn gorlifo, ac am eu bod yn cynyddu cyfaint y dŵr halogedig sydd angen ei gludo a'i drin. Mae hon yn broses ddrud sy'n gofyn am lawer o ynni ac felly'n groes i amcanion sector cyhoeddus Cymru o fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

6.6.4 Caiff carthffosydd budr a charthffosydd cyfunol cyhoeddus eu darparu gan ymgymerwr carthffosiaeth ac maent yn gwaredu dŵr halogedig (carthion budr) o ddatblygiad i gael ei drin a'i ryddhau wedyn i'r amgylchedd. Gall carthffosydd dŵr wyneb ar wahân gael eu darparu gan ymgymerwr carthion neu awdurdod lleol, er enghraifft, draeniad prif ffyrdd a Systemau Draenio Cynaliadwy, ac mae'r rhain yn arllwys yn uniongyrchol heb driniaeth. Pa opsiynau draeniad bynnag a gyflwynir ar gyfer datblygiad, dylai darpariaethau fod ar waith ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol, yn y tymor byr a'r hirdymor.

6.6.5 Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio sicrhau y darperir gwasanaethau dŵr gan leihau effaith andwyol ar yr amgylchedd, amwynder, iechyd a chymunedau, yng ngoleuni canlyniadau newid yn yr hinsawdd. Gall datblygiad sydd wedi'i ddylunio'n wael neu sydd mewn lleoliad gwael waethygu'r problemau sy'n gysylltiedig â gorddefnyddio adnoddau, cysylltiad â llifogydd dŵr wyneb a llygredd gwasgaredig. Dylai'r system gynllunio:

- warchod a gwella ansawdd ac adnoddau dŵr drwy hyrwyddo ac annog mwy o effeithlonrwydd a rheoli'r galw mewn perthynas â dŵr fel rhan o ddatblygiadau newydd, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle gallai adnoddau dŵr fod o dan bwysau neu heb fod ar gael o bosibl a lle y mae angen mynd i'r afael â methiant i gyflawni safonau ansawdd dŵr;
- sicrhau bod rhwydweithiau'r seilwaith, gan gynnwys atebion sy'n seiliedig ar natur, y mae cymunedau a busnesau'n dibynnu arno yn ddigonol i ymdopi â'r datblygiad arfaethedig, ac yn ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd, er mwyn lleihau cymaint â phosibl y risg i iechyd pobl a'r amgylchedd ac atal llygredd yn ei darddiad;
- sicrhau bod systemau draenio cynaliadwy yn rhan annatod o'r gwaith dylunio ar gyfer datblygiad newydd;
- sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ddiogelu swm ac ansawdd y cyflenwadau dŵr wyneb a'r dŵr daear fel rhan o'r cynigion datblygu.

[146] Deddd Dŵr a Rheoli Llifogydd 2010 www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/contents

6.6.6 Mae gallu'r system gynllunio i ddiogelu nodweddion dŵr a meithrin rheolaeth gynaliadwy ar ddŵr fel priodoleddau allweddol lleoedd deniadol a chydnerth i fyw ynddynt yn cyd-fynd yn agos â sicrhau manteision lluosog seilwaith gwyrdd. Bydd defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur drwy ddarparu seilwaith gwyrdd yn ddewis allweddol a ffefrir a dylid gwneud y mwyaf o'r manteision niferus a ddaw o warchod coridorau afonydd. Nodi gwlyptir a reolir a pharthau clustogi ar afonydd i reoli ansawdd dŵr fydd un o brif ganlyniadau'r asesiad o seilwaith gwyrdd gan y byddant yn esgor ar fanteision positif lleihau llygredd gwasgaredig ac o ran sicrhau mantais net i fioamrywiaeth a gwella nodweddion cydnerthedd ecosystemau. Dylai dulliau integredig wneud cyfraniad tuag at gyflawni'r gofynion a osodir gan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE[147] a sicrhau yr adferir nodweddion dŵr, cynefinoedd dŵr croyw gwarchodedig a dulliau rheoli dŵr cynaliadwy, ynghyd â pholisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio a rheoli dŵr yn integredig mewn ardaloedd trefol a gwledig ac mewn dalgylchoedd.

### Datblygu a Chyflenwad Dŵr[148]

6.6.7 Rhaid ystyried adnoddau ac ansawdd dŵr yn gynnar yn y broses o nodi tir i'w ddatblygu ac ailddatblygu. Dylai gwarchod adnoddau dŵr fod yn seiliedig ar sicrhau defnydd cynaliadwy yn y dyfodol. Dylid cydbwyso anghenion tymor byr yn erbyn y gallu i warchod adnoddau dŵr yn yr hirdymor. Mae hyn yn olygu bod angen ystyried lleoliad datblygiad newydd a'r math o ddatblygiad yn ofalus. Mae'n bosibl nad yw defnyddiau sy'n defnyddio llawer o ddŵr yn briodol mewn ardaloedd lle mae prinder a chyfyngiadau dŵr.

6.6.8 Dylai datblygiad newydd gael ei leoli a'i weithredu gan roi ystyriaeth i ddarparu gwasanaethau dŵr cynaliadwy, gan ddefnyddio dulliau a thechnegau dylunio sy'n gwella effeithlonrwydd dŵr[149] ac yn lleihau effeithiau andwyol ar adnoddau dŵr, yn cynnwys ecoleg afonydd a dŵr daear gan gyfrannu drwy hynny at gydnerthedd ecolegol.

### Capasiti'r Cyflenwad Dŵr a Seilwaith Carthffosiaeth/Draeniad

6.6.9 Mae gan y system gynllunio ran bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod y seilwaith mae cymunedau a busnesau'n dibynnu arno yn gallu ymdopi â datblygiad arfaethedig. Dylai digonolrwydd y cyflenwad dŵr a'r seilwaith carthffosiaeth gael ei ystyried y llawn wrth gynnig datblygiad, a hynny fel gwasanaeth dŵr ac oherwydd yr effeithiau y mae diffyg capasiti yn eu cael ar yr amgylchedd ac ar amwynderau.

6.6.10 Mae'r angen i gydbwyso'r galw cynyddol am wasanaethau dŵr gydag anghenion yr amgylchedd yn hollbwysig. Hyd yn oed lle mae capasiti damcaniaethol, mae angen buddsoddiad amserol mewn seilwaith i sicrhau nad yw datblygiad newydd yn cael effaith andwyol ar gyflenwadau dŵr neu systemau draenio carthffosiaeth a chael effaith ganlyniadol ar ansawdd dŵr a llifogydd dŵr wyneb.

[147] Rhoddir Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr CE (2000/60/EC) ar waith mewn dalgylchoedd afonydd yng Nghymru a Lloegr trwy Reoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003 (SI2003/3242) www.legislation.gov.uk/cy/
[148] Deddf Diwydiant Cymru 1991 www.legislation.gov.uk/ukpga/1991/56/contents
[149] Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio, Llywodraeth Cymru 2016 www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-12-dylunio

6.6.11 Rhaid wrth fecanweithiau cynllunio effeithiol rhwng cwmnïau dŵr a charthffosiaeth ac awdurdodau cynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio, gymaint ag y medrant, ddatblygu ymagwedd strategol a hirdymor at ddarparu seilwaith wrth baratoi cynlluniau datblygu. Mae hyn yn golygu gwneud y defnydd gorau posibl o seilwaith sy'n bodoli'n barod ac ystyried sut mae modd cydlynu'r modd y darperir y gwahanol fathau o seilwaith. Rhaid i awdurdodau cynllunio a darparwyr seilwaith weithio'n glos â'i gilydd i sicrhau'r canlyniadau mwyaf cynaliadwy.

6.6.12 Mae angen nodi capasiti'r seilwaith a'r angen am gyfleusterau ychwanegol yn fuan yn y broses o leoli datblygiad y dyfodol. Dylai awdurdodau cynllunio annog y defnydd o safleoedd lle mae modd datrys problemau gyda'r cyflenwad dŵr a neu'r ddarpariaeth carthffosiaeth a draeniau cyfredol a cheisio osgoi defnyddio safleoedd lle mae darpariaeth ddigonol yn annhebygol o gael ei chyflawni. Efallai y bydd angen gweithio mewn ffordd strategol gydag awdurdod cyffiniol, yn enwedig lle cynigir safleoedd strategol neu aneddiadau newydd.

6.6.13 Fel rhan o hyn, dylent ystyried gofynion safle'r cwmnïau cyfleustodau sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hyn i'w galluogi i ddiwallu anghenion cymunedol ac effeithiau amgylcheddol defnyddiau ychwanegol o'r fath. Mae'n bosibl y bydd angen i'r datblygiad ddigwydd fesul cam, mewn ymgynghoriad â'r darparwyr cyfleustodau perthnasol, i ganiatáu amser i sicrhau bod modd rheoli'r gwaith o ddarparu cyfleustodau mewn ffordd sy'n gyson â pholisïau datblygu cynaliadwy.



### Ansawdd Dŵr a Llifogydd Dŵr Wyneb[150] [151]

6.6.14 Mae cynnydd mewn dwysedd glawiad yn cyflwyno heriau i systemau draenio, gan achosi llifogydd dŵr wyneb a llygredd gwasgaredig. Mae'r berthynas rhwng y gwahanol fathau o seilwaith draenio yn gymhleth, er enghraifft, mae rhai draeniau priffordd yn cario dŵr wyneb o garthffosydd cyhoeddus ac mae peth seilwaith priffordd yn gollwng i garthffosydd cyhoeddus. Mae'n bwysig deall rôl gwahanol fathau o seilwaith wrth sicrhau'r dull gorau er mwyn osgoi llifogydd a llygredd gwasgaredig. Bydd gofyn am gydweithio effeithiol rhwng awdurdodau draenio, priffyrdd a chynllunio.

6.6.15 Dylai awdurdodau draenio gynllunio systemau carthffosiaeth a draenio yn strategol yn yr un ffordd â gwasanaethau cyflenwi dŵr, a mannau cynaliadwy fydd y rheini sydd â rhwydweithiau cydnerth sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar gyfer carthffosiaeth a draenio gyda digon o gapasiti i reoli'r galw arnynt heb achosi llygredd neu lifogydd dŵr wyneb.

6.6.16 Mae llygredd gwasgaredig a llifogydd dŵr wyneb yn digwydd o ganlyniad i ddŵr ffo o wynebau adeiledig, gan gynnwys o fathau o ddatblygiadau allai lygru, carthion sy'n gollwng o garthffosydd gorlawn a seilwaith preifat, er enghraifft, tanciau septig. Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau rheolaeth well ar ddraenio a dŵr wyneb er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn drwy:

[150] Atodlen 3, Deddf Rheoli Llifogydd a Dwr 2010 www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/schedule/3
[151] Deddf Adnoddau Dwr 1991 www.legislation.gov.uk/ukpga/1991/57/contents



- sicrhau bod systemau draenio cynaliadwy yn cael eu hymgorffori mewn datblygiad fel bod modd rheoli dŵr wyneb yn ei darddiad neu gerllaw; a
- galluogi cysylltiad â'r garthffos mewn ardaloedd â charthffosydd a thrwy leihau cynnydd yn nifer y systemau carthion preifat.

### Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a Datblygiad

6.6.17 Mae angen cymeradwyaeth Corff Cymeradwyo SuDS (SAB) hefyd ar ddatblygiadau newydd[152] o fwy nag un annedd neu waith adeiladu sy'n 100 metr sgwâr neu fwy, cyn y caiff y gwaith adeiladu ddechrau. Bydd angen i'r SAB gytuno ar y trefniadau mabwysiadu a rheoli, gan gynnwys y fecanwaith ariannu ar gyfer cynnal a chadw seilwaith SuDS a holl elfennau'r draeniad, hynny fel rhan o'r gymeradwyaeth. Bydd hynny'n sicrhau bod seilwaith SuDS yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol a'i fod yn gweithio'n effeithiol am ei oes.

6.6.18 Rhaid ystyried SuDS fel rhan annatod o ddyluniad datblygiad newydd a dylid ei ystyried cyn gynhared â phosibl wrth lunio cynigion ar gyfer datblygiad newydd.[153] Wrth lywio datblygiad newydd, dylai'r system gynllunio sicrhau bod y mesurau'n cael eu hymgorffori o leiaf ar raddfa safle unigol, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, er mwyn sicrhau manteision cronnus dros ardal eang. Daw ymdrech bendant fel hon â manteision dros y dalgylch cyfan. Ond ar lefel cynllun datblygu, daw manteision sylweddol o ddatblygu dulliau cydweithio sydd, gan ddefnyddio tystiolaeth asesiadau o'r seilwaith gwyrdd, yn integreiddio SuDS fel rhan o strategaethau twf ar gyfer ardaloedd penodol.

6.6.19 Dylai pob cynnig datblygu gynnwys dyluniad ar gyfer rheoli dŵr wyneb gan ddefnyddio egwyddorion sy'n gweithio gyda natur i hwyluso'r cylch dŵr i weithio'n naturiol, cyn belled na fyddai problemau fel halogiad tir yn arwain at gludo llygryddion a allai gael effaith ar ardal ehangach. Dylid creu dyluniad sy'n esgor ar fanteision lluosog a seilwaith gwyrdd bob tro os medrir ac fel rhan o'r Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd, dylid nodi ffyrdd addas ar gyfer darparu SuDS. Efallai y bydd angen o dan rai amgylchiadau ffafrio adeiladu seilwaith 'caled' oherwydd ystyriaethau ymarferol neu archeolegol ond o gofio rôl gwasanaethau dŵr o ran cyfrannu at ansawdd lle, dylid dewis atebion sy'n seiliedig ar natur os medrir.

### Datblygu mewn Ardaloedd â Charthffosydd

6.6.20 Rhaid i gynigion datblygu mewn ardaloedd â charthffosydd gysylltu draeniau budr â'r brif garthffos, a bydd angen i'r datblygwyr ddangos i awdurdodau cynllunio bod modd i'r safle sydd ganddynt mewn golwg gysylltu â'r brif garthffos agosaf. Er mwyn bod yn gyson o ran dylunio ac i hwyluso'r gwaith cynnal a chadw yn y tymor hir, dylid adeiladu'r carthffosydd i safonau Llywodraeth Cymru a'u mabwysiadu. Nid yw diffyg capasiti neu ddiffyg gynllun i wella capasiti'r garthffos yn rheswm dilys i ymgymerwr carthffosydd wrthod cysylltu o dan Adran 106 Deddf Diwydiant Dŵr 1991 a gall Cyfoeth Naturiol Cymru wrthod rhoi trwydded amgylcheddol ar gyfer triniaeth breifat o dan yr amgylchiadau hynny. Mae angen i ddatblygwyr fod â chytundeb mabwysiadu yn barod cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau a dylent ymgynghori ag ymgymerwyr carthffosiaeth yng nghamau cynnar y gwaith dylunio a chynllunio.

[152] O 7 Ionawr 2019.

[153] Safonau cenedlaethol ar gyfer systemau draeniau cynliadwy (SuDS) www.llyw.cymru/safonau-cenedlaethol-ar-gyfer-systemau-draenio-cynaliadwy-suds

### Datblygiad sy'n Cynnig Draenio Budr nad yw'n Cysylltu â'r Brif Garthffos

6.6.21 Dylai unrhyw ddatblygiad sy'n gollwng carthion domestig gael ei gysylltu â'r brif garthffos os yw'n rhesymol gwneud hynny. Dim ond pan nad yw'n ymarferol cysylltu â'r brif garthffos y caiff datblygiad sy'n cynnig defnyddio cynlluniau draenio nad ydynt yn cysylltu â'r brif system ei ystyried[154]. Nid yw gosod cyfleusterau trin carthion preifat mewn ardaloedd â charthffosydd cyhoeddus yn dderbyniol gan fod mwy o berygl i ddiffygion sy'n arwain at lygredd ddigwydd yn y rheini o'u cymharu â charthffosydd cyhoeddus. Pan geir cynigion carthion nad ydynt yn cysylltu â'r brif garthffos, fel tanciau septig a/neu systemau trin carthion annibynnol, yn cael eu cynnwys mewn ceisiadau datblygu, dylent fod yn destun asesiad o'u heffeithiau ar yr amgylchedd, ar amwynderau ac ar iechyd y cyhoedd yn yr ardal leol, yn unol â'r meini prawf a nodir yng Nghylchlythyr 10/99, cyn penderfynu ar y cais cynllunio.

### Datblygu a'r Perygl o Lifogydd

6.6.22 Mae'r argyfwng hinsawdd yn debygol o gynyddu'r perygl o lifogydd o ganlyniad i lefel y môr yn codi, mwy o stormydd a glawiad mwy dwys. Mae llifogydd fel perygl yn golygu ystyried canlyniadau posibl llifogydd, yn ogystal â'r tebygolrwydd y bydd llifogydd yn digwydd. Dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu dull rhagofalus o fynd ati'n gadarnhaol i osgoi datblygu mewn ardaloedd o lifogydd o'r môr neu o afonydd. Bydd llifogydd o ddŵr wyneb yn effeithio ar ddewis lleoliad, diwyg a dyluniad cynllun, a dylid ystyried y ffactorau yn fuan yn y broses o lunio cynigion datblygu.

6.6.23 Nid yw parhau i adeiladu amddiffynfeydd llifogydd peirianyddol caled i warchod datblygiad ar orlifdiroedd yn gynaliadwy. Caiff adnoddau'r llywodraeth ar gyfer amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol eu neilltuo ar gyfer amddiffyn datblygiadau sy'n bodoli'n barod ac nid ydynt ar gael i ddarparu amddiffynfeydd ar gyfer datblygiadau posibl y dyfodol. Dylid ystyried cynlluniau rheoli traethlin a mesurau fel encilio rheoledig, creu golchdiroedd ac adfer gorlifdiroedd fel dulliau i'w defnyddio yn lle amddiffynfeydd llifogydd peirianyddol.

6.6.24 Mae Mapiau Cyngor Datblygu yn galluogi awdurdodau cynllunio i fynd i'r afael â pherygl llifogydd mewn modd strategol ac ystyried y dalgylch yn ei gyfanrwydd drwy roi darlun cychwynnol o'r perygl llifogydd. Bydd hynny'n llywio penderfyniadau ynghylch lleoli datblygiad newydd a'r gofynion sydd eu hangen i gefnogi unrhyw geisiadau allai gael eu cynnig. Gyda'r asesiadau o ganlyniadau llifogydd, dylent ein helpu i ddeall sut mae amddiffynfeydd naturiol ac o waith dyn yn gweithio fel cydrannau annatod lleoedd a darparu modd o ddechrau deall effeithiau cynyddol datblygu.

6.6.25 Dylai datblygiad leihau'r perygl o lifogydd afon a/neu arfordirol ar safle'r datblygiad ei hun a thu hwnt, ac yn sicr ni ddylai gynyddu perygl o'r fath. Y flaenoriaeth yw diogelu'r gorlifdir sydd heb ei ddatblygu ac sy'n ddirwystr rhag ei ddatblygu a rhwystro effeithiau cynyddol datblygu cam wrth gam.

[154] Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 008/2018: Gofynion cynllunio mewn perthynas â defnyddio systemau carthffosiaeth preifat mewn datblygiadau newydd, gan gynnwys tanciau carthion a gweithfeydd bach trin carthion www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gofynion-cynllunio-ar-gyfer-systemau-carthffosiaeth-preifat-mewn-datblygiadau-newydd-cllc-0082018.pdf

6.6.26 Yn achos gorlifdiroedd sy'n ddirwystr ar hyn o bryd, lle mae dŵr yn llifo adeg llifogydd, ni ddylid caniatáu datblygiadau adeiledig ac eithrio mewn achosion cwbl eithriadol a dylent gael eu cyfyngu i seilwaith trafnidiaeth a chyfleustodau hanfodol. Dylid dylunio ac adeiladu seilwaith o'r fath fel ei fod yn parhau i weithredu hyd yn oed adeg llifogydd ac nad oes unrhyw golled net o le storio ar orlifdiroedd, nad yw'n rhwystro llif dŵr ac nad yw'n cynyddu'r perygl o lifogydd yn rhywle arall. Dylid troi at TAN 15 Datblygu a Pherygl o Lifogydd am gyngor polisi pellach ar ddatblygiad a pherygl llifogydd. Bydd yn bwysig nodi bod datblygiadau mewn ardaloedd perygl llifogydd yn dal i fod mewn perygl o lifogydd hyd yn oed os defnyddir mesurau lleddfu.

6.6.27 Dylai awdurdodau cynllunio fod yn ymwybodol o'r risg o lifogydd dŵr wyneb, wedi'u hachosi gan law trwm gan amlaf, a sicrhau bod datblygiadau yn cael eu dylunio a'u cynllunio i leihau effeithiau posibl. Ni ddylai datblygiad achosi dŵr ffo ychwanegol, a gellir sicrhau hyn drwy reoli dŵr ffo mor agos i'r ffynhonnell â phosibl drwy ddefnyddio SuDS. Dylid bod yn ofalus mewn mannau lle mae dŵr ffo bas neu pan achosir llifogydd gan gyfuniad o brosesau dŵr wyneb a dŵr daear. Mewn sefyllfaoedd o'r fath efallai na fydd SuDS ymdreiddio uniongyrchol yn briodol. Dylid ymgynghori â chyrff draenio a CNC ac ystyried tystiolaeth a gwybodaeth berthnasol o Ddatganiadau Ardal.

6.6.28 Dylai amddiffynfeydd llifogydd newydd neu well mewn lleoliadau arfordirol a/neu ar lan afon gael eu cynllunio'n ofalus, gan sicrhau bod yr holl effeithiau amgylcheddol posibl, ar y dŵr ac ar y tir, a pholisïau Cynllun Rheoli Traethlin perthnasol yn cael eu hystyried. Gall gwaith ar amddiffynfeydd llifogydd ddarparu cyfleoedd i gyflawni manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ehangach, a dylid manteisio i'r eithaf ar y rhain lle bo'n bosibl. O gael y cyfle i sicrhau manteision lluosog eraill, gan gynnwys creu cynefin, cyfoethogi bioamrywiaeth a gwella ansawdd dŵr, dylid rhoi'r ystyriaeth gyntaf i atebion sy'n seiliedig ar natur. Drwyddi draw, gall y cyfleoedd a roddir gan y seilwaith gwyrdd arwain at gryfhau ecosystemau a chreu cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau hamdden neu gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

6.6.29 Dylid ystyried gallu gwasanaethau brys i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd wrth ystyried a yw datblygiad mewn ardal perygl llifogydd yn briodol. Gallai hynny olygu ymgynghori â chynllunwyr gwasanaethau brys, fforymau cydnerthedd lleol a phartneriaid proffesiynol eraill fel y gwasanaethau tân ac achub, yr heddlu a'r gwasanaethau ambiwlans.

## 6.7 Ansawdd Aer a Seinwedd

6.7.1 Mae aer glân a seinwedd briodol[155], yn cyfrannu at brofiad cadarnhaol o le yn ogystal â bod yn angenrheidiol ar gyfer iechyd y cyhoedd, amwynder a llesiant. Maent yn ddangosyddion o ansawdd yr amgylchedd lleol a phriodoleddau annatod lle a ddylai gael eu gwarchod drwy gamau gweithredu ataliol neu ragweithiol drwy'r system gynllunio. Ar y llaw arall, gall llygredd sŵn a golau gael effeithiau negyddol ar bobl, bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau a dylid eu lleihau gymaint ag y medrir.

6.7.2 Nid yw amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn lefelau 'diogel' o lygredd aer[156]. Yn hytrach maent yn cynrychioli trothwy pragmataidd, ac os ydynt yn cael eu croesi, mae'r llywodraeth o'r farn bod y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd aer yn annerbyniol. Nid yw aer sy'n cydymffurfio â'r amcanion hyn o drwch blewyn yn 'lân' ac mae'n

[155] Sef yr amgylchedd acwstig yn ôl dirnadaeth neu brofiad a/neu ddealltwriaeth person neu bobl ohono, mewn cyd-destun.
[156] Yr amcanion ansawdd aer cenedlaethol a geir yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2002.

peri risgiau iechyd hirdymor o hyd. Nid oes trothwy diogel wedi'i ddiffinio hyd yma ar gyfer nitrogen deuocsid a deunydd gronynnol, sef y llygryddion sy'n destun y pryder mwyaf yn genedlaethol o safbwynt iechyd y cyhoedd, ac felly po isaf y crynodiad o'r llygryddion hynny, po isaf y risgiau o effeithiau iechyd andwyol. Mae'n ddymunol cadw lefelau llygredd mor isel ag sy'n bosibl.[157, 158]

6.7.3 Gall seiniau penodol, fel y rhai sy'n cael eu creu gan goed, adar neu nodweddion dŵr, gyfrannu at deimlad o lonyddwch tra bod eraill yn gallu rhoi sicrwydd diolch i'w cysylltiad â normalrwydd gweithgareddau bob dydd. Mae mathau problemus o sŵn yn cael eu profi fel llygredd sŵn a gallant effeithio ar amwynder a bod yn wael i iechyd neu'n niwsans. Mae cynlluniau gweithredu ar sŵn[159] sy'n cael eu paratoi gan gyrff cyhoeddus yn ceisio atal a lleihau lefelau sŵn lle bo angen a diogelu ansawdd seinwedd lle mae'n dda. Mae'r lefelau sŵn sy'n cael eu defnyddio i nodi ardaloedd â blaenoriaeth mewn cynlluniau gweithredu ar sŵn yn cael eu gosod yn eithaf uchel gan amlaf er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu clustnodi i'r ardaloedd mwyaf llygredig a rhaid i sŵn fodloni nifer o brofion cyn iddo gael ei gyfrif fel niwsans statudol. Serch hynny, gall lefelau is o sŵn, fod yn annifyr neu'n drafferthus ac effeithio ar amwynder a dylid diogelu rhagddynt felly trwy'r broses gynllunio lle bo angen. Rhaid i'r system gynllunio ddiogelu amwynder ac nid yw'n dderbyniol dibynnu ar niwsans statudol o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990[160] i wneud hynny.

### Fframwaith ar gyfer Mynd i'r Afael ag Ansawdd Aer a Seinwedd

6.7.4 Dylai'r system gynllunio gynyddu cymaint â phosibl ei chyfraniad at wireddu'r nodau llesiant, ac yn arbennig sicrhau Cymru iachach drwy geisio lleihau cysylltiad y boblogaeth gyffredinol[161] â llygredd aer neu sŵn ochr yn ochr â chamau gweithredu i fynd i'r afael â mannau problemus â lefelau llygredd uchel. Trwy wneud hynny, dylai ystyried effeithiau hirdymor lefelau cyfredol a rhagamcanol o lygredd aer a sŵn ar unigolion, cymdeithas a'r amgylchedd; nodi a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i leihau unrhyw gynnydd mewn lefelau cyfredol cysylltiad y boblogaeth â llygredd aer a sŵn, a gwella seinweddau, lle mae'n ymarferol ac yn hyfyw gwneud hynny.

6.7.5 Wrth roi'r amcanion eang hyn ar waith, prif egwyddor polisi cynllunio yw ystyried pa effaith y gallai datblygiadau arfaethedig ei chael ar ansawdd aer neu seinwedd a'r effeithiau y gallai ansawdd cyfredol yr aer neu'r seinwedd eu cael ar ddatblygiadau arfaethedig. Mae ansawdd aer neu seinwedd yn dylanwadu ar leoliad a gwasgariad datblygiad a bydd yn bwysig ystyried y berthynas rhwng datblygiad arfaethedig a datblygiad sy'n bod eisoes a'i gyffiniau a'i botensial i waethygu neu greu ansawdd aer gwael neu seinweddau amhriodol. Mae egwyddor cyfrwng y newid yn dweud mai'r busnes neu'r person sy'n gyfrifol am gyflwyno newid sy'n gyfrifol am reoli'r newid hwnnw. Yn ymarferol, er enghraifft, mae hynny'n golygu y byddai'n rhaid i'r datblygwr sicrhau y ceir hyd i atebion i fynd i'r afael ag ansawdd aer neu sŵn o seilwaith, busnesau neu neuaddau cyfagos a'u rhoi ar waith i sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol.

157 Gweler y cyngor yng nghanllaw EPUK/IAQM guidance: Land-Use Planning & Development Control: Planning for Air Quality www.iaqm.co.uk/text/guidance/air-quality-planning-guidance.pdf

158 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar reoli ansawdd aer yn lleol www.llyw.cymru/rheoli-ansawdd-aer-canllawiau-iawdurdodau-lleol a Chynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach, 2020 (www.llyw.cymru/cynllun-aer-glan-i-gymru-awyr-iach-cymru-iach)

159 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r cynllun gweithredu sŵn a seinwedd 2018 i 2023, Rhagfyr 2018 www.llyw.cymru/cynllungweithredu-swn-seinwedd-2018-i-2023

160 Rhan III o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

161 Nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â'r llygrydd a'r lefelau y maent yn dod i gysylltiad â nhw.

6.7.6 Wrth gynnig datblygiad newydd, rhaid i awdurdodau cynllunio a datblygwyr felly:

- mynd i'r afael ag unrhyw oblygiad sy'n deillio o ganlyniad i'w gysylltiad â neu ei leoliad mewn ardaloedd rheoli ansawdd aer, ardaloedd blaenoriaeth cynlluniau gweithredu ar sŵn, neu ardaloedd lle ceir derbynyddion sensitif[162];
- peidio â chreu ardaloedd lle ceir ansawdd aer gwael a llygredd sŵn;
- ceisio ymgorffori mesurau sy'n lleihau cysylltiad cyffredinol â llygredd aer a sŵn a chreu seinweddau priodol.

6.7.7 Er mwyn helpu'r broses o wneud penderfyniadau, bydd hi'n bwysig bod gwybodaeth ar y lefel fwyaf priodol yn cael ei darparu ac efallai y bydd angen i berson cymwys â'r cymwysterau priodol roi asesiad ansawdd aer a sŵn technegol ar ran y datblygwr.

6.7.8 Dylid ymgorffori dyluniad da, er enghraifft, gosod adeiladau yn ôl o'r ffordd i osgoi effaith hafn a defnyddio'r arfer gorau o ran dyluniad acwstig[163] i sicrhau bod amgylchedd acwstig priodol a bwriedig datblygiadau gorffenedig yn cael eu hymgorffori yn fuan yn y broses dylunio a chynllunio. Rhaid i fesurau lliniaru eraill allu cael eu gweithredu'n effeithiol ar gyfer eu diben arfaethedig, a gallent gynnwys y rheini sy'n ymwneud â:

- rheoli traffig a diogelwch ffordd;
- sicrhau cynnydd tuag at newid i foddau o drafnidiaeth ffordd allyriadau isel neu sero, fel pwyntiau gwefru trydanol;
- cefnogi trafnidiaeth gyhoeddus allyriadau isel neu sero;
- darparu seilwaith teithio llesol; ac
- ymgorffori seilwaith gwyrdd, lle gall wella ansawdd aer drwy gael gwared ar lygredd aer a'i gynorthwyo i wasgaru, lleihau lefelau sŵn go iawn neu dybiedig drwy amsugno a gwasgaru sŵn a chyflwyno synau naturiol i dawelu sŵn gwneud, darparu ardaloedd o lonyddwch cymharol, a lleihau cysylltiad drwy osod clustogfa rhwng ffynonellau a derbynyddion llygredd.

6.7.9 Wrth gynnig strategaethau datblygu newydd ac wrth neilltuo safleoedd mewn cynlluniau datblygu, bydd yn bwysig osgoi gadael i ddatblygiad graddol seilwaith, tai, masnach a diwydiant greu neu waethygu anghydraddoldebau iechyd ac amwynder trwy gyflwyno derbynyddion mwy sensitif mewn ardal neu drwy wneud trigolion yn fwy agored i ansawdd aer gwael neu sŵn. Hynny yn arbennig wrth gynnig datblygiadau dwysedd uchel wrth hybiau trafnidiaeth neu pan allai pwysau datblygu i ddiwallu anghenion tymor byr gael effeithiau tymor hir andwyol. Rhaid gofalu peidio â gwaethygu'r anghydraddoldebau iechyd wrth gydnabod yr angen i gael mynediad.

6.7.10 Bydd gweithio mewn ffordd gynaliadwy yn golygu cydbwyso anghenion tymor byr ag amcanion hirdymor i leihau cysylltiad y cyhoedd â llygredd aer a rhoi ystyriaeth arbennig i bresenoldeb ardaloedd rheoli ansawdd aer, ardaloedd blaenoriaeth cynlluniau gweithredu ar sŵn, ac ardaloedd â derbynyddion sensitif, yn enwedig wrth baratoi cynlluniau datblygu. Bydd yn bwysig cael hyd i fesurau lliniaru ehangach i leihau llygredd aer a sŵn ac i osgoi gwaethygu problemau mewn ardaloedd rheoli ansawdd aer neu fannau swnllyd trwy ddarparu'r seilwaith gwyrdd a nodwyd fel rhan o'r Asesiadau o'r Seilwaith Gwyrdd, trwy ddarparu mannau gwefru cerbydau electronig neu drwy hyrwyddo'r angen i ystyried atebion

[162] Cewch weld mapiau ardaloedd rheoli ansawdd aer a sŵn yn: www.mapdata.llyw.cymru/info/lle-decommissioned?t=1&lang=cy

[163] Am ragor o wybodaeth am egwyddorion dylunio acwstig da, cynghorir darllenwyr i droi at y Canllaw Cynllunio Proffesiynol (ProPG), Dogfen Ategol 2, a gynhyrchwyd gan Gymdeithas yr Ymgynghorwyr Sŵn, yr Athrofa Acwsteg a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (www.association-of-noise-consultants.co.uk/propg). Cafodd y ProPG ei lunio'n bennaf i helpu â'r broses gynllunio yn Lloegr, ond gallai'r egwyddorion dylunio a geir yn Nogfen Ategol 2 gael eu mabwysiadu yng Nghymru.

dylunio effeithiol. Dylai awdurdodau cynllunio weithio'n agos â chyrff fel y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus wrth baratoi eu cynlluniau llesiant a cheisio mewnbwn oddi wrth adrannau Iechyd yr Amgylchedd.

### Deall a Nodi Ffynonellau Llygredd Aer (Aer a Sŵn)

6.7.11 Mae llygredd aer a sŵn yn aml yn cael eu hallyrru o'r un ffynonellau, ymhlith rhai eraill, sef trafnidiaeth ffordd a gweithgareddau masnachol a diwydiannol yn fwyaf nodedig. O ganlyniad, mae ardaloedd o ansawdd aer gwael yn cyd-ddigwydd neu'n gorgyffwrdd ag ardaloedd â lefelau uchel o sŵn. Hyd yn oed os nad yw hynny'n wir, gall fod cysylltiad rhwng ansawdd aer gwael mewn un lleoliad a lefelau uchel o sŵn mewn lleoliad cyfagos, yn dibynnu ar nodweddion y lle dan sylw, yn cynnwys y ffordd y mae pobl yn defnyddio ac yn meddiannu lleoedd, a'r ffordd y mae traffig yn cael ei reoli yn yr ardal ehangach. Lle mae llygredd aer a sŵn yn cael eu cynhyrchu gan yr un ffynhonnell dylent gael eu hystyried a'u datrys gyda'i gilydd a dylid creu cysylltiadau gyda strategaethau teithio llesol a strategaethau eraill ar gyfer lleihau'r defnydd o geir er mwyn lleihau llygredd neu ei gadw cyn ised â phosib, a sicrhau seinwedd briodol.

6.7.12 Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried ffynonellau'r presennol a'r dyfodol o lygredd aer a sŵn wrth baratoi eu strategaethau ar gyfer lleoli datblygiad newydd. Dylai patrwm y datblygiad arfaethedig gael ei lywio gan sensitifrwydd a chydnawsedd defnyddiau mewn perthynas â ffynonellau llygredd aer a phwysigrwydd sicrhau seinweddau priodol. Bydd darpariaeth seilwaith gwyrdd yn ffordd bwysig o fynd i'r afael ag effeithiau cynyddol llygredd aer a sŵn a seinweddau ar unigolion a chymdeithas a darparu manteision i gydnerthedd cymdeithasol ac ecosystemau.

6.7.13 Wrth ddatblygu strategaethau, a chynnig neu asesu cynigion datblygu bydd hi'n hanfodol deall goblygiadau'r gofynion traffig sy'n gysylltiedig â'r cynnig a'r effaith y gallent ei chael yn awr a hyd y gellir rhagweld. Wrth gynnig cyflwyno gweithgarwch datblygu mewn ardal, dylid ystyried yn ofalus effeithiau ffynonellau llygredd cyfredol (gan gynnwys ffyrdd, rheilffyrdd a safleoedd diwydiannol neu fasnachol) o ran llygredd aer a sŵn gan roi sylw arbennig i unrhyw gynnydd yn lefelau llygredd y byddai'n rhesymol eu disgwyl yn y dyfodol y gellir ei ragweld o ganlyniad i gynnydd mewn gweithgarwch trafnidiaeth.

6.7.14 Dylai datblygiad arfaethedig gael ei ddylunio lle bynnag y bo'n bosibl i atal effeithiau andwyol ar amwynder, iechyd a'r amgylchedd ond yn y man lleiaf i gyfyngu ar unrhyw effeithiau sy'n codi. O dan amgylchiadau lle mae effeithiau'n annerbyniol, er enghraifft, lle mae lliniaru digonol yn annhebygol o fod yn ddigonol i ddiogelu amwynder lleol o ran ansawdd aer a'r amgylchedd acwstig, bydd hi'n briodol gwrthod caniatâd.

### Lleoliad Datblygiad Masnachol, Diwydiannol neu Eraill allai Lygru

6.7.15 At ddiben yr adran hon, mae datblygiadau allai lygru yn cynnwys seilwaith masnachol, diwydiannol, ynni,[164] amaethyddol neu drafnidiaeth. Dylid lleoli datblygiadau o'r fath mewn ardaloedd lle ceir ond ychydig o botensial i'r cyhoedd ddod i gysylltiad ag ef a lle y gellid cadw'r effeithiau yn fach. Gallai mathau newydd neu arloesol o ddatblygiad o bosibl achosi llygredd a dylid eu hystyried yn ofalus a lle bo'n briodol, dylai penderfyniadau fod yn seiliedig ar yr egwyddor rhagofalus.

[164] Ceir rhagor o gyngor ar asesu sŵn tyrbinau gwynt yn ETSU-R-97 www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/49869/ETSU_Full_copy__Searchable_.pdf ac mae'r Athrofa Acwsteg wedi cyhoeddi canllawiau ar arferion gorau: www.ioa.org.uk/publications/wind-turbine-noise

6.7.16 Mae ystyriaethau perthnasol wrth wneud penderfyniadau cynllunio ar gyfer datblygiad allai lygru yn debygol o gynnwys:

- lleoliad, yn cynnwys rhesymau dros ddewis y safle dan sylw;
- effaith ar iechyd ac amwynder;
- effaith llygredd ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig a mwynhad ardaloedd o dirwedd a gwerth hanesyddol a diwylliannol;
- yr effaith ar ansawdd dŵr daear a dŵr wyneb;
- yr effaith ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, gan gynnwys lle gallent gael effeithiau cronnus ar ansawdd aer a dŵr a allai arwain at ganlyniadau andwyol i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau;
- risg ac effaith llygredd posibl o'r datblygiad, i'r graddau y gallai hyn arwain at greu, neu waethygu'r sefyllfa mewn ardal rheoli ansawdd aer, ardal flaenoriaeth cynllun gweithredu ar sŵn, ardal lle ceir derbynyddion sensitif; a'r
- effaith ar y ffordd a rhwydweithiau trafnidiaeth eraill, ac yn enwedig ar greu traffig, yn enwedig os nad yw'r datblygiad ei hun yn seilwaith trafnidiaeth.

6.7.17 Byddai'n annerbyniol adeiladu datblygiad allai lygru wrth dderbynyddion sensitif os nad oes modd lleihau'r effeithiau ar iechyd ac amwynder trwy fesurau dylunio a lleddfu priodol. Y disgwyl cyffredinol yw y dylid gostwng lefelau llygredd i'r graddau pellaf posibl ac am hynny, dylid ystyried lleoliad datblygiad allai lygru fel rhan o'r strategaethau cyffredinol mewn cynlluniau datblygu ar gyfer ei leoli'n briodol a'i fod yn esgor ar y manteision amgylcheddol mwyaf posibl trwy fesurau fel seilwaith gwyrdd.

6.7.18 Mae angen ystyriaeth fuan i weld a yw lleoliad a dyluniad datblygiad arfaethedig yn dderbyniol lle mae datblygiad sy'n achosi llygredd aer neu sŵn yn debygol o effeithio ar rywogaeth a warchodir, neu sy'n cael ei gynnig mewn ardal sy'n debygol o effeithio ar safle dynodedig (fel Natura 2000 neu SoDdGA) neu fan gwyrdd trefol llonydd (yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i 'ardaloedd tawel' sydd wedi'u dynodi'n ffurfiol) sy'n cael eu gwerthfawrogi am y saib llesol a'r cysylltiad â natur maent yn ei gynnig i drigolion trefi a dinasoedd prysur.

### Datblygiad Sensitif

6.7.19 Dylid rhoi cydnabyddiaeth lawn i bwysigrwydd ansawdd aer da i iechyd a seinweddau priodol sy'n cyfrannu at gymeriad ac ansawdd cyffredinol lleoedd ac iechyd a llesiant pobl a bywyd gwyllt. Ni fydd hi'n briodol lleoli defnyddiau sensitif, fel ysbytai, ysgolion, cartrefi gofal a thai, y drws nesaf i ffyrdd prysur neu lwybrau trafnidiaeth eraill, lle nad oes manteision cysylltedd, neu lle byddai effeithiau iechyd ac amwynder sy'n gysylltiedig â chysylltiad cynyddol pobl â llygredd yn annerbyniol. Tra gallai rhai defnyddiau fod yn briodol gyda chymorth dylunio da, gall ystyriaethau ansawdd aer a seinwedd fod yn ffactorau pwysicach, yn enwedig yn achos defnyddiau sensitif, os na ellir eu lliniaru'n ddigonol neu gadw'r effeithiau'n fach.

6.7.20 Pan fo angen lleoli datblygiadau sensitif gerllaw'r seilwaith trafnidiaeth presennol ar gyfer symudiadau cynaliadwy a mynediad, dylent gael eu dylunio, i'r graddau sy'n ymarferol, i gyfyngu sylweddau niweidiol a lefelau sŵn o fewn ac o amgylch y datblygiadau hyn yn y presennol ac i'r dyfodol. Gallai hynny gynnwys defnyddio egwyddorion dylunio acwstig da a chynnwys teithio llesol a mesurau rheoli teithio fel rhan o'r cynigion datblygu. Yn ddelfrydol, fodd bynnag, dylai datblygiad o'r fath gael ei leoli i ffwrdd o ffynonellau

cyfredol o sŵn arwyddocaol, a allai gynnwys sŵn awyrennau neu ffyrdd, yn enwedig ffyrdd newydd neu'r rheini sydd â rhaglenni o welliannau.

6.7.21 Dylid ystyried lefelau cyfredol ansawdd aer a sŵn ac ansawdd y seinwedd sy'n bodoli ar hyn o bryd ac ystyried unrhyw gynllun gweithredu ar ansawdd aer, cynllun gweithredu ar sŵn lleol perthnasol a/neu strategaeth ansawdd aer leol neu ranbarthol fel rhan o strategaethau a chynigion datblygu mewn cynlluniau datblygu a chyn penderfynu ar geisiadau cynllunio.

### Seinweddau a Chydnawsedd Defnyddiau

6.7.22 Bydd modd cysylltu rhai priodoleddau sain â lleoedd penodol a'r gweithgareddau sy'n digwydd ynddynt. Mae cymryd camau i feithrin parhad defnyddiau a gweithgareddau sy'n cynnig budd a phrofiad diwylliannol ehangach i bobl ac yn cyfrannu at yr economi leol, o ran bywiogrwydd lle ac o ran creu lle i greadigrwydd ffynnu, yn rôl bwysig i'r system gynllunio.

6.7.23 Wrth ystyried ffurfio strategaethau neu gynigion unigol, o gofio egwyddor y cyfrwng newid, bydd angen nodi natur y seinwedd sy'n bodoli mewn ardal a nodweddion y lle, neu'r gweithgareddau penodol, sydd wedi dylanwadu arni.

6.7.24 Mae'n rhaid ystyried effeithiau posibl llygredd sŵn sy'n deillio o ddatblygiad sy'n bodoli eisoes, boed yn un masnachol, diwydiannol, cysylltiedig â thrafnidiaeth neu ganolfan diwylliannol (fel neuaddau cerdd, theatrau neu ganolfannau celf), yn llawn i sicrhau bod modd rheoli effeithiau datblygiad newydd yn ddigonol i ddiogelu amwynder a dylid ymgorffori unrhyw fesurau fel rhan o'r datblygiad newydd. Bydd hyn yn helpu i leihau'r risg o osod cyfyngiadau ar safleoedd presennol neu eu cau o bosibl neu effeithiau andwyol ar seilwaith trafnidiaeth oherwydd sŵn a chwynion eraill gan feddianwyr datblygiadau newydd. Mae'n bwysig darparu'r lefel fwyaf priodol o wybodaeth a chynnal y lefel fwyaf priodol o asesiad.

6.7.25 Dylai awdurdodau cynllunio nodi ardaloedd o bwysigrwydd diwylliannol neu hanesyddol, i gael ystyriaeth arbennig o ran seinwedd lle gallai hyn fod yn angenrheidiol i ddiogelu bywiogrwydd lleoedd neu ddarparu amgylcheddau llonydd, adferol mewn ardaloedd adeiledig prysur. Yn ogystal â hyn, bydd hi'n werthfawr nodi synergeddau rhwng mapio seilwaith gwyrdd a'r effaith gymedroli y gallai diogelu, neu ddarparu, seilwaith gwyrdd ei chael o ran cynnal ansawdd aer da a seinweddau priodol. Bydd hyn yn cynnwys, ond ni chaiff ei gyfyngu i hynny, diogelu llonyddwch, rôl mannau gwyrdd llonydd fel y 'mannau tawel' a ddynodir mewn cynlluniau gweithredu ar sŵn a manteision seilwaith gwyrdd fel rhan o ddyluniad da.

### Rheoli Risg Posibl i'r Amgylchedd sy'n Codi yn Ystod Camau Adeiladu

6.7.26 Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried y potensial ar gyfer risgiau amgylcheddol dros dro, yn cynnwys llygredd aer a risgiau ar yr wyneb ac islaw'r wyneb, sy'n codi yn ystod camau adeiladu'r datblygiad. Lle bo'n briodol dylai awdurdodau cynllunio ofyn am gynllun rheoli gwaith adeiladu, sy'n rhoi sylw i atal llygredd, peiriannau swnllyd, oriau gwaith, mesurau lliniaru llwch a manylion hysbysu trigolion am risgiau dros dro.

## 6.8 Goleuadau

6.8.1 Mae angen cydbwyso darparu golau i wella diogelwch er mwyn helpu i atal trosedd ac i alluogi gweithgareddau fel chwaraeon a hamdden i gael eu cynnal gyda'r angen i:

- warchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol yn cynnwys bywyd gwyllt a nodweddion yr amgylchedd naturiol fel llonyddwch;
- cadw awyr dywyll lle bo'n briodol;
- atal golau llachar a pharchu amwynder y defnyddiau tir cyfagos; a
- lleihau'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â goleuadau.

6.8.2 Mae gwarchodfeydd awyr tywyll i'w cael mewn gwahanol rannau o Gymru, yn cynnwys Eryri, Bannau Brycheiniog a Chwm Elan. Gall gwarchodfeydd awyr tywyll wneud cyfraniad economaidd ac amgylcheddol cadarnhaol i ardal a dylid ystyried eu nodweddion wrth baratoi strategaethau a pholisïau cynlluniau datblygu ac wrth ystyried cynigion datblygu unigol.

6.8.3 Gall goleuadau er diogelwch fod yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig neu at ddibenion penodol fel amddiffyn neu i greu amgylchedd llonyddu. Yn yr achos hwnnw, dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu polisïau ar gyfer goleuadau, yn cynnwys rheoli llygredd golau, yn eu cynlluniau datblygu.

6.8.4 Gall awdurdodau cynllunio osod amodau ar ganiatâd cynllunio datblygiad newydd sy'n cynnwys dylunio a gweithredu systemau goleuo, er enghraifft, gwneud dylunio effeithlon o ran ynni yn ofynnol, ac atal llygredd golau.

## 6.9 Gwireddu Potensial Lleoedd drwy Fabwysiadu Dull Dadrisgio[165]

6.9.1 Mae deall y rhwystrau i wireddu potensial lleoedd, yn cynnwys trawsnewid neu adfywio ardal neu ddatblygu un safle, yn rhan allweddol o sicrhau mannau cynaliadwy. Gall rhwystrau gynnwys cyflwr diffaith neu risgiau fel llifogydd, halogiad tir neu dir ansefydlog. Dylai awdurdodau cynllunio fynd ati i hwyluso dull dadrisgio, lle mae ystyriaeth o beryglon naturiol a pheryglon o waith dyn ar yr wyneb ac islaw'r wyneb a risgiau amgylcheddol yn cael eu cynnwys fel rhan annatod o well dealltwriaeth o nodweddion lleoedd. Dylid gofyn am fewnbwn adrannau Iechyd yr Amgylchedd awdurdodau lleol yn fuan yn y broses. Golyga hyn mai rôl awdurdodau cynllunio yw hwyluso ymwybyddiaeth o beryglon a risgiau amgylcheddol a nodi cyfleoedd i greu lleoedd mewn ffordd greadigol.

[165] Cymryd camau i wneud rhywbeth yn llai o risg.

6.9.2 Yn aml, mae perygl ar yr wyneb ac islaw'r wyneb yn arwain at risgiau go iawn a thybiedig. Un o egwyddorion allweddol cynllunio yw bod risgiau ar yr wyneb ac islaw'r wyneb yn cael eu deall a bod modd eu cyfleu'n effeithiol i ddatblygwyr, er mwyn llywio penderfyniadau buddsoddi, a'u cyfleu i'r cyhoedd ac eraill a allai fod â phryderon ynghylch diffeithio, halogi a chyfyngiadau ffisegol neu gemegol eraill sy'n effeithio ar dir. Mae gweithredu'n gynnar, ar sail yr egwyddor ragofalus, nid yn unig yn lleihau costau ond yn lleddfu'r potensial o risg hirdymor i gymunedau a chenedlaethau'r dyfodol.

6.9.3 Dull dadrisgio effeithiol fyddai helpu i gynnig sicrwydd i gymunedau a gwella llesiant cyffredinol drwy sicrhau manteision diogelwch ac iechyd, ac yn yr hirdymor gellid lleihau costau economaidd. Byddai dull dadrisgio:

- yn ategu dulliau seiliedig ar natur, fel sicrhau seilwaith gwyrdd;
- yn gallu cyfrannu at nodi cyfleoedd ar gyfer adnoddau ynni adnewyddadwy fel rhan o asesiadau ynni;
- yn sicrhau lleoedd bychain, carbon isel lle mae cymunedau wedi'u cysylltu a darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer teithio llesol; ac
- yn gallu cyfrannu at leihau llygredd, atal gwastraff a meithrin economi o natur gylchol.



6.9.4 Mae manteision 'glanhau' tir drwy'r broses gynllunio yn mynd y tu hwnt i'r cynnydd yng ngwerth tir a lleihau cyfrifoldebau tirfeddianwyr. Mae yna fanteision ehangach i gymdeithas ac adnoddau naturiol, yn enwedig ar safleoedd lle mae'r defnydd ohonynt yn y gorffennol wedi gadael peryglon ar yr wyneb ac islaw'r wyneb. Efallai y bydd defnyddiau gwerth uchel yn angenrheidiol i wneud buddsoddiad yn hyfyw ac er y gall amcanion datblygu alinio mewn rhai mannau, mewn eraill, efallai fod y potensial i ailddatblygu yn gyfyngedig.

6.9.5 Gyda'r dull dadrisgio, mae pob rhanddeiliad yn gwneud ei ran i wella tryloywder ac ymwybyddiaeth ac mae data a gwybodaeth yn cael eu rhannu a'u mireinio fwyfwy. Dylai creu amodau lle mae strategaethau, polisïau a chynigion cynlluniau'n seiliedig ar wybodaeth gychwynnol am risg safle neu ardal y gellir ei chyfuno ar lefel strategol hwyluso'r gwaith o greu a llunio cynigion/lleoedd gwell a sicrhau ymwybyddiaeth gynnar o risgiau posibl fel rhan annatod o'r broses gynllunio.

6.9.6 Mae parhau i rannu a mireinio gwybodaeth a gyflwynir fel rhan o gynigion datblygu yn galluogi blaengynllunio gwell, yn osgoi dyblygu ymdrech a chostau diangen maes o law yn y broses. Nid yw hyn yn golygu y dylai gofynion am ymchwiliad manwl gan ddatblygwr, lle bo angen un, gael eu cwtogi ond byddai strategaethau a chynigion yn seiliedig ar well ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cyfyngiadau sy'n bodoli mewn ardal a byddai'r sail wybodaeth hon yn parhau i wella dros amser. Cyfrifoldeb y datblygwr sy'n cynnig y safle fel rhan o'r cynllun datblygu, fydd rhoi unrhyw wybodaeth gychwynnol angenrheidiol i gefnogi'i gynnig ac i gynnal asesiad risg manwl, yn ôl y gofyn, yn y cam gwneud cais cynllunio.

6.9.7 Gallai dull dadrisgio gynnwys, ymhlith pethau eraill, gwybodaeth am yr wyneb ac islaw'r wyneb ar dir diffaith ac adeiladau segur, amodau tir, strwythur y pridd, radon, tir ansad, materion geotechnegol, halogi tir a lleoliad seilwaith hanesyddol neu segur ac olion mwyngloddio. Dylai hwyluso gwell dealltwriaeth o reoli risgiau posibl sy'n codi ond ni ddylai gael ei gyfyngu i fynd i'r afael â risg. Yn hytrach, dylai fod yn rhan o ddulliau ehangach o lunio cynlluniau. Gallai nodi cyfleoedd i reoli adnoddau'n gynaliadwy a chefnogi penderfyniadau ynghylch gofynion seilwaith. Gallai gael ei ddefnyddio hefyd wrth reoli risgiau sy'n codi yn ystod camau adeiladu datblygiad.

### Dulliau Dadrisgio Integredig

6.9.8 Gallai cyfuno dull dadrisgio â strategaethau cynlluniau datblygu eraill, fel sicrhau cyfleoedd ar gyfer seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth, wireddu potensial lleoedd ac annog buddsoddiad. Dylai cynlluniau datblygu neu ganllawiau atodol ategol nodi lleoliad bras yr ardaloedd hynny lle mae'n hysbys bod tir diffaith, halogiad a thir ansad a chyfyngiadau eraill i gydnabod bod rhoi ystyriaeth fuan i ddadfaeliad a risg ar yr wyneb ac o dan yr wyneb yn rhan allweddol o ddymchwel rhwystrau i dwf a sicrhau lleoedd cydnerth.

6.9.9 Dylid mabwysiadu dull ar y cyd o ymdrin â materion sy'n croesi ffiniau gweinyddol, fel mabwysiadu dull dalgylchoedd o ymdrin â pherygl llifogydd lle gallai camau gweithredu ar draws dalgylchoedd gael goblygiadau mewn gwahanol leoliadau a graddfeydd. Gall mynd i'r afael â pherygl llifogydd fel rhan o ddull dadrisgio integredig fod yn ddefnyddiol pan mae'n bwysig iawn gwireddu potensial ardal.

6.9.10 Dylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau a chynigion i adfer a datblygu safleoedd sy'n ddiffaith ar hyn o bryd, lle mai datblygu yw'r ymateb a ffefrir. Gallant hefyd gynnwys cynigion penodol ar gyfer safleoedd dyranedig lle mae'n hysbys bod y tir wedi'i halogi neu lle mae hanes y safle yn awgrymu risg bosibl o halogiad tir yn ogystal â'r camau sydd angen eu cymryd o bosibl. Fel rhan o'r gwaith o ddod â chyfyngiadau hysbys a gwybodaeth ddesg ynghyd, gallai fod yn bosibl ac yn wir yn ddymunol, i lunio cofrestr o safleoedd sydd ar gael i'w datblygu a fyddai'n ategu tystiolaeth arall, fel y rhestr o safleoedd bach y cyfeirir ati ym mhennod 4. Gallai rhestr o'r fath ddarparu manylion am gyfyngiadau tebygol pob safle a'r defnydd buddiol a ffefrir o'r tir – asesiad risg rhagarweiniol byr – y gall datblygwyr ei defnyddio i'w cynorthwyo i bennu risgiau'n well ac i gynnig mesurau lliniaru priodol. Os yw datblygwr yn cynnig safle ar gyfer ei gynnwys mewn cynllun datblygu, yna ef/hi fyddai'n gyfrifol am ddarparu unrhyw wybodaeth atebol am y risgiau amgylcheddol.

6.9.11 Rhaid i bolisïau ar gyfer ardaloedd o halogiad tir neu ansadrwydd gynnwys rhybudd eu bod wedi'u diffinio ar sail yr wybodaeth orau oedd ar gael i'r awdurdod cynllunio, nad ydynt o reidrwydd yn gynhwysfawr, ac mai'r datblygwr sy'n gyfrifol o hyd am ganfod graddau ac effeithiau'r cyfyngiadau hynny. Gall cynlluniau nodi y bydd angen i'r awdurdod cynllunio fod yn fodlon bod modd goresgyn yn rhesymol unrhyw halogiad gwirioneddol neu dybiedig.

### Dadrisgio Datblygiad

6.9.12 Dylai'r system gynllunio arwain datblygiad i leihau'r risg o beryglon naturiol neu o waith dyn sy'n effeithio ar wyneb y tir neu islaw'r wyneb. Y nod yw peidio ag atal datblygiad tir o'r fath, er mai dyma'r ymateb priodol mewn rhai achosion. Yn hytrach, y nod yw sicrhau bod datblygiad yn addas a bod y cyfyngiadau ffisegol, geotechnegol, cemegol a rhai eraill perthnasol ar y tir, yn cynnwys yr effeithiau disgwyliedig y gallai newid yn yr hinsawdd eu cael, yn cael eu hystyried yn ystod pob cam o'r broses gynllunio.

6.9.13 Wrth ystyried cynigion datblygu, dylai awdurdodau cynllunio ystyried natur, graddfa a hyd a lled y peryglon ar yr wyneb ac islaw'r wyneb a allai beri risg i iechyd a'r amgylchedd, er mwyn sicrhau:

- nad yw datblygiad yn mynd rhagddo heb ddealltwriaeth o'r risgiau, yn cynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â'r defnydd a wnaed o'r tir yn y gorffennol, llygredd, dŵr daear, perygl llifogydd, ymsuddiant, tirlithriadau, cwymp creigiau, allyriadau nwy o fwyngloddiau a safleoedd tirlenwi a dŵr daear yn codi o fwyngloddiau segur;
- nad yw'r datblygiad yn digwydd heb waith adfer neu ragofalon priodol;
- bod yr effeithiau posibl y gallai adfer tir, yn cynnwys halogi tir, eu cael ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol yn cael eu hystyried;
- nad yw datblygiad yn cael ei ganiatáu os bydd angen prosiectau peirianyddol drud, sydd â goblygiadau i bwrs y cyhoedd, i'w wasanaethu, er enghraifft, i atal erydiad, neu yn achos clogwyni sy'n encilio, os yw safle'n debygol o gael ei effeithio gan golli tir i'r môr yn ystod ei oes neu os y gallai gyfrannu at lygredd maes o law; a
- bod tir ansad yn cael ei adfer i ddiogelu buddsoddiad a, lle bo'n bosibl, yn cael ei ddychwelyd i ddefnydd cynhyrchiol.

6.9.14 Cyfrifoldeb y datblygwr ym mhob achos yw pennu hyd a lled ac effeithiau peryglon ar yr wyneb ac islaw'r wyneb. Y datblygwr sydd i sicrhau bod y tir yn addas ar gyfer y datblygiad mewn golwg, gan nad oes gan awdurdod cynllunio ddyletswydd gofal i dirfeddianwyr. Fodd bynnag, drwy fabwysiadu dull dadrisgio ar lefel y cynllun bydd awdurdodau cynllunio'n creu'r amodau ar gyfer mynd i'r afael â risgiau a chael cyfleoedd.

6.9.15 Er mwyn hwyluso'r gwaith o gasglu tystiolaeth i lywio dulliau dadrisgio, dylai awdurdodau cynllunio ofyn am wybodaeth a thystiolaeth dechnegol, seiliedig ar risg gan ddatblygwyr, y gellir gwneud defnydd pellach ohoni.

### Halogi Tir

6.9.16 Dylid manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan y system gynllunio i fynd i'r afael â halogi tir fel rhan o'i ffafriaeth i ddefnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu o'r blaen. Ble bynnag y bydd potensial i ddatblygu neu ailddatblygu, y system gynllunio fydd y dull a ffefrir o fynd i'r afael â halogi tir posibl.

6.9.17 Mae yna ddau faes lle mae cysylltiad rhwng y system gynllunio a'r drefn tir halogedig. Y cyntaf sydd lle mae tir eisoes wedi'i ddynodi'n dir halogedig o dan Ran IIA[166] a bod y perchennog wedyn am ddatblygu'r tir. Yr ail fydd lle gallai cynnig datblygu gyflwyno newidiadau i safle a allai arwain at y posibilrwydd bod y tir yn bodloni'r diffiniad o halogedig o dan Ran IIA, lle na fyddai tir o'r fath yn cael ei ystyried yn halogedig yn ei gyflwr presennol o dan ddarpariaeth y drefn. Yn y ddau achos, bydd y cyfrifoldeb yn parhau ar y datblygwr i sicrhau y bydd datblygu'r safle yn cael gwared ag unrhyw risgiau annerbyniol a bydd angen i'r awdurdod cynllunio wrth wneud penderfyniadau rheoli datblygu sicrhau bod y tir yn addas ar gyfer y defnydd ohono sydd mewn golwg ac na fyddai'n bodloni'r diffiniad cyfreithiol o dir halogedig o dan Ran IIA.

6.9.18 Dylai awdurdodau cynllunio ystyried natur, graddfa a maint halogiad tir a allai beri risg i iechyd a'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod modd adfer y safle yn effeithiol a'i fod yn addas ar gyfer y defnydd arfaethedig ohono. Wrth wneud hynny, mae angen i benderfyniadau rheoli datblygu ystyried:

- y perygl posibl mae halogiad yn ei beri i'r datblygiad ei hun, y bobl ynddo a'r amgylchedd lleol; a
- chanlyniadau ymchwiliad ac asesiad arbenigol gan y datblygwr i bennu pa mor halogedig yw'r tir a nodi unrhyw fesurau adfer sydd eu hangen i fynd i'r afael ag unrhyw halogiad.

6.9.19 Os bydd materion halogi tir yn codi, bydd yr awdurdod lleol angen tystiolaeth o ymchwiliad ac asesiad risg manwl cyn penderfynu ar y cais i alluogi defnydd buddiol o dir oni bai y gellid dweud eisoes bod modd defnyddio mesurau lliniaru[167]. Lle mae'n hysbys bod mesurau adfer derbyniol yn gallu goresgyn halogiad o'r fath, efallai y gellir rhoi caniatâd cynllunio sy'n destun amodau yn nodi'r mesurau angenrheidiol a'r angen i'w gweithredu, yn cynnwys darpariaeth i adfer unrhyw halogiad annisgwyl a allai ddigwydd yn ystod gwaith adeiladu. Os na ellir goresgyn halogiad yn foddhaol, gall yr awdurdod wrthod caniatâd cynllunio.

6.9.20 Mae'n hanfodol sicrhau bod mesurau adfer yn cael eu gweithredu i'r safonau gofynnol, a bydd awdurdodau cynllunio angen prawf o hyn, ar ffurf adroddiad dilysu/gwirio. Er enghraifft, os yw eiddo mewn perygl o fudo nwyon tanddaearol yna dylai adroddiad dilysu/gwirio gynnwys tystysgrif brawf yn dangos ei fod wedi cael ei adeiladu gyda philenni nwy sydd wedi'u gosod yn gywir, a bod y risgiau wedi'u lliniaru'n ddigonol.

[166] Rhan IIA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.
[167] Cyfeirer at Safonau NQMS www.claire.co.uk/projects-and-initiatives/nqms

6.9.21 Pan roddir caniatâd cynllunio, dylid rhoi rhybudd i hysbysu'r ymgeisydd mai'r datblygwr a/neu berchennog y tir sy'n gyfrifol ac sydd, o ganlyniad, yn atebol am ddatblygu a meddiannu'r safle yn ddiogel. Dylai'r rhybudd hysbysu'r ymgeisydd hefyd, er bod yr awdurdod cynllunio lleol wedi ymdrechu hyd eithaf ei allu i benderfynu ar y cais ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael iddo, nad yw hynny'n golygu bod y tir yn gwbl ddihalog[168].

### Amodau Ffisegol ar y Tir a Thir Ansad[169]

6.9.22 Gall datblygu ar safleoedd maes gwyrdd neu ddwysáu datblygiad mewn ardaloedd sydd eisoes wedi'u datblygu arwain at ansadrwydd a allai effeithio ar y datblygiad ei hun ac ar y tir o'i gwmpas.

6.9.23 Wrth ystyried cynigion datblygu dylai awdurdodau cynllunio ystyried natur, hyd a lled a graddau ansadrwydd y tir a allai achosi risgiau uniongyrchol i fywyd ac iechyd, adeiladau ac adeiladwaith, neu a allai achosi peryglon anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â thir sy'n symud, yn cynnwys mynedfeydd mwyngloddiau'n dymchwel, ac sy'n rhoi llwybrau posibl i nwyon mwyngloddiau neu safleoedd tirlenwi symud i'r wyneb. Gall datblygiad amhriodol yn y cyffiniau beryglu llethrau, argloddiau, trychiadau a hafnau tanddaearol eu hunain a lle bo'n berthnasol, dylid mynd i'r afael ag ansadrwydd y tir a chymryd mesurau lliniaru priodol i amddiffyn yr asedau sy'n bod eisoes a'r datblygiad arfaethedig ei hun.

6.9.24 Mae tir o waith dyn, presenoldeb tomenni a gwaith glo bas yn gyffredin iawn mewn rhai rhannau o Gymru a gallai eu hagosrwydd i'r wyneb beri risg ansadrwydd bosibl i ddatblygiad yn y dyfodol. Mae gwybodaeth am weithio bas wedi'i chyhoeddi gan yr Awdurdod Glo, ochr yn ochr â data am fynedfeydd mwyngloddiau a pheryglon ar yr wyneb.

6.9.25 Bydd angen i benderfyniadau cynllunio ystyried:

- y perygl posibl y gallai ansadrwydd ei achosi i'r datblygiad ei hun, y bobl ynddo a'r amgylchedd lleol; a
- chanlyniadau ymchwiliad ac asesiad arbennig gan y datblygwr i bennu sadrwydd y tir ac i nodi unrhyw fesurau adfer sydd eu hangen i fynd i'r afael ag unrhyw ansadrwydd.

6.9.26 Yn achos unrhyw gais cynllunio mewn ardaloedd ymgynghori pyllau glo, bydd angen cyflwyno adroddiad asesu risg cloddio am lo, neu ddogfen gyfatebol, hefyd. Gallai unrhyw waith a allai dorri ar draws gwaith pyllau glo, mynedfeydd mwyngloddiau neu wythiennau glo fod â goblygiadau ar gyfer nwy mwyngloddiau, hylosgi digymell a dymchwel yr wyneb, a rhaid cysylltu â'r Awdurdod Glo.

[168] Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 22/87, 'Development of Contaminated Land www.llyw.cymru/datblygu-tir-halogedig-cylchlythyr-2287

[169] Mae Atodiad A (Causes of Instability) ac Atodiad B (Sources of Information) PPG14, 'Development on Unstable Land', 1990, yn dal mewn grym yng Nghymru tan y daw Nodyn Cyngor Technegol i rym a'u disodli www.llyw.cymru/nodyn-cyfarwyddyd-polisi-cynllunio-ppg-14-datblygu-ar-dir-ansefydlog

6.9.27 Lle gall mesurau derbyniol oresgyn ansadrwydd, gellir rhoi caniatâd cynllunio sy'n destun amodau sy'n nodi'r mesurau angenrheidiol. Os nad oes modd goresgyn ansadrwydd yn foddhaol, gall yr awdurdod wrthod caniatâd cynllunio.

6.9.28 Pan roddir caniatâd cynllunio, dylid rhoi rhybudd i hysbysu'r ymgeisydd mai'r datblygwr a/neu berchennog y tir sy'n gyfrifol ac sydd, o ganlyniad, yn atebol am ddatblygu a meddiannu'r safle yn ddiogel. Dylai'r rhybudd hysbysu'r ymgeisydd hefyd, er bod yr awdurdod cynllunio lleol wedi ymdrechu hyd eithaf ei allu i benderfynu ar y cais ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael iddo, nad yw hynny'n golygu bod y tir yn gwbl sad.

# Atodiad A

## Y cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer cynllunio yng Nghymru[170]

### Deddfwriaeth sylfaenol

A1 Prif eitemau deddfwriaeth sylfaenol sy'n ymdrin â chynllunio defnydd tir yw:

- **Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990** – sefydlu rheolau arbennig dros sylweddau peryglus ar dir;
- **Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990** – sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer rhestru adeiladau sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, dynodi ardaloedd cadwraeth ac ymgymryd â swyddogaethau cynllunio mewn perthynas â'r rhain;
- **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990** – y brif Ddeddf sy'n rheoleiddio datblygu a defnyddio tir yng Nghymru a Lloegr;
- **Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004** – a gyflwynodd y system Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru, sy'n gosod dyletswydd statudol ar Lywodraeth Cymru i baratoi Cynllun Gofodol Cymru ac i awdurdodau cynllunio lleol ystyried Cynllun Gofodol Cymru wrth baratoi y Cynllun Datblygu Lleol, a chyflwyno amryw o ddiwygiadau i ddarpariaethau rheoli datblygu Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
- **Deddf Cynllunio 2008** – a gyflwynodd ddiwygiadau pellach i reoli datblygu; a
- **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015** – sydd yn diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i gyflwyno nifer o ddiwygiadau i gryfhau cynllunio datblygiadau, gan gynnwys cyflwyno'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i ddisodli Cynllun Gofodol Cymru a darpariaethau ar gyfer sefydlu Paneli Cynllunio Strategol i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Gwnaeth welliannau eraill i reoli datblygiadau a systemau gorfodi gan ddarparu ar gyfer gwneud ceisiadau datblygu pwysig i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i awdurdodau cynllunio lleol fel Datblygiadau o Bwysigrwydd Cenedlaethol.

### Is-ddeddfwriaeth

A2 Dyma'r prif offerynnau ar ffurf is-ddeddfwriaeth:

- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd) (OS 1987 Rhif 764);
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 (OS 1992Rhif 666);
- Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (OS 1992 Rhif 1492);
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO) (OS 1995 Rhif 418);
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999 (OS 1999 Rhif 1892);
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) 2005 (OS 2005 Rhif 2839) (Cy. 203);
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (DMPWO) (OS 2012 Rhif 801) Cy.110);
- Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodol a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016 (OS 2016 Rhif 53) (Cy.23);
- Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (OS 2016 Rhif 55) (Cy.25);

[170] Nid yw ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar gymhwysiad parhaus y ddeddfwriaeth a restrir.

- Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (OS 2016 Rhif 56) (Cy.56); a
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (OS 2017 Rhif 567) (Cy. 136).

## Deddfwriaeth berthnasol arall

A3 Mae'r darnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n cael effaith ar y system gynllunio fel a ganlyn:

- mae **Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979** yn gwneud darpariaethau ar gyfer archwilio a diogelu asedau o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol a rheoleiddio'r gweithrediadau neu'r gweithgareddau sy'n cael effaith arnynt;
- mae **Deddf Hawliau Dynol 1998** yn rhoi hawliau a rhyddid i unigolion a chymunedau fel a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i awdurdod cyhoeddus weithredu'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac eithrio pan na allasai fod wedi gweithredu'n wahanol o ganlyniad i ddeddfwriaeth sylfaenol;
- mae **Deddf Tiroedd Comin 2006** yn gwneud darpariaethau ynghylch tir comin a meysydd trefi a phentrefi;
- mae **Deddf Llywodraeth Cymru 2006** yn nodi dyletswyddau Gweinidogion Cymru i wneud trefniadau priodol gyda'r bwriad o sicrhau eu bod, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn talu'r sylw dyledus i'r egwyddor o sicrhau cyfle cyfartal i bawb ac yn gwneud trefniadau priodol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy;
- mae **Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010** yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o gyfleoedd i blant chwarae;
- mae **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer, ac i ystyried anghenion, cerddwyr a beicwyr;
- mae **Deddf Tai (Cymru) 2014** wedi cyflwyno deddfwriaeth newydd i wella'r cyflenwad, ansawdd a safonau tai yng Nghymru, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol gynnal asesiadau o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ac i fodloni yr anghenion hynny yn eu hardaloedd;
- mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru (a chyrff cyhoeddus eraill) i lunio amcanion llesiant a chymryd camau rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny yng nghyd-destun egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae rhagor o wybodaeth ar y mater hwn wedi'i roi yn y bennod nesaf;
- mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn ei wneud yn ofynnol i'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol gael ei ystyried gan Weinidogion Cymru wrth baratoi y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac i awdurdodau cynllunio lleol ystyried datganiadau ardal wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r **Ddeddf yn gwneud darpariaethau** i wella gweithdrefnau ar gyfer casglu a rheoli gwastraff ac yn trosglwyddo pwerau i Weinidogion Cymru i osod targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- mae **Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016** yn gwneud darpariaethau ar gyfer gwarchod a rheoli yr amglychedd hanesyddol yn gynaliadwy, gan gyflwyno mesurau yn gwarchod adeiladau rhestredig yn fwy effeithiol, gan sefydlu cofnodion amgylcheddol ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol a sefydlu Corff Cynghori ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru; ac
- mae **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017** yn pennu darpariaethau ar gyfer gwneud gwelliannau i iechyd gan gynnwys i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar fynd i'r afael â gordewdra a gwneud rheoliadau ynghylch cynnal asesiadau effaith ar iechyd gan gyrff cyhoeddus.

# Atodiad B

## Canlyniadau Creu Mannau Cynaliadwy Cenedlaethol a'u Perthynas â Themâu a Pholisi Cynllunio Cymru a Nodau Llesiant

| **CANLYNIADAU** Man Cynaliadwy ... | Dewisiadau Strategol a Gofodol | Egniol a Chymdeithasol | Cynhyrchiol a Mentrus | Unigryw a Naturiol | Cyfrifol yn Fyd-eang | Llewyrchus | Cadarn | Iach | Mwy Cyfartal | Cymunedau cydlynol | Diwylliant Bywiog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwarchod yr Amgylchedd cymaint â Phosibl a Chyfyngu ar Effaith Amgylcheddol** | | | | | | | | | | | |
| Bioamrywiaeth ac ecosystemau cadarn | ● | | | ● | ● | | ● | ● | ● | | |
| Tirweddau unigryw ac arbennig | ● | | | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| Seilwaith gwyrdd integredig | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| Seinweddau priodol | ● | | | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| Lleihau risgiau amgylcheddol | ● | | | ● | | ● | ● | ● | | | |
| Rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy | ● | ● | ● | ● | ● | | | ● | ● | ● | |
| Aer glân | ● | ● | ● | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | |
| Lleihau llygredd cyffredinol | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | |
| Yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| Yn meddu ar amgylcheddau hanesyddol unigryw ac arbennig | ● | | | ● | | ● | | ● | | | ● |
| **Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch a Iach** | | | | | | | | | | | |
| Mannau gwyrdd hygyrch o safon uchel | ● | ● | | ● | | | ● | ● | ● | ● | |
| Hygyrch trwy deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | |
| Heb fod yn ddibynnol ar geir | ● | ● | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | |
| Lleihau yr angen i deithio | ● | ● | ● | | ● | ● | | ● | ● | ● | |
| Cynnig mynediad cyfartal | ● | ● | | | | ● | | ● | ● | ● | ● |
| Diogel a chynhwysol | ● | ● | ● | | | ● | | ● | ● | ● | ● |
| Cefnogi poblogaeth amrywiol | ● | ● | ● | | | ● | | ● | ● | ● | ● |
| Cysylltiadau da | ● | ● | ● | | | ● | | ● | ● | ● | |
| Mynediad cyfleus at nwyddau a gwasanaethau | ● | ● | ● | | | ● | | ● | ● | ● | |
| Hyrwyddo iechyd a lles corfforol a meddyliol | ● | ● | ● | ● | | ● | | ● | ● | ● | ● |

**CANLYNIADAU**

**Man Cynaliadwy ...**

| | Dewisiadau Strategol a Gofodol | Egniol a Chymdeithasol | Cynhyrchiol a Mentrus | Unigryw a Naturiol | Cyfrifol yn Fyd-eang | Llewyrchus | Cadarn | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau cydlynol | Diwylliant Bywiog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau** | | | | | | | | | | | |
| Gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | | | |
| Rhwystro gwastraff | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | | | | |
| Blaenoriaethu y defnydd o dir sydd wedi'i ddatblygu eisoes ac adeiladau sy'n bodoli eisoes | ● | ● | ● | | | ● | ● | ● | | ● | |
| Rhyddhau posibiliadau ac adnewyddu | ● | ● | ● | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| O safon uchel ac wedi'i greu i bara am oes | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | | | |
| **Datblygu ein Heconomi mewn Dull Cynaliadwy** | | | | | | | | | | | |
| Meithrin gweithgarwch economaidd | ● | ● | ● | | | ● | | | ● | ● | |
| Galluogi cyfathrebu hawdd | ● | ● | ● | | | ● | ● | ● | ● | ● | |
| Cynhyrchu ei ynni adnewyddadwy ei hun | ● | | ● | | ● | ● | ● | | | | |
| Yn fywiog a deinamig | ● | ● | ● | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| Yn addasu i newid | ● | ● | ● | ● | | ● | ● | | | ● | |
| Yn croesawu technoleg glyfar ac arloesol | ● | ● | ● | | | ● | ● | | ● | ● | |
| **Creu a Chynnal Cymunedau** | | | | | | | | | | | |
| Galluogi'r iaith Gymraeg i ffynnu | ● | ● | | | | ● | | | ● | ● | ● |
| Dwyseddau datblygu priodol | ● | ● | ● | ● | | ● | ● | ● | | ● | |
| Cartrefi a swyddi i fodloni anghenion cymdeithas | ● | ● | ● | | | ● | | ● | ● | ● | |
| At ddefnydd cymysg | ● | ● | ● | | | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| Yn cynnig profiadau diwylliannol | ● | ● | ● | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| Cyfleusterau a gwasanaethau o fewn y gymuned | ● | ● | | | | ● | | ● | ● | ● | |

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG48893, ISBN digidol 978-1-83577-433-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English

llyw.cymru